HM Government

# Trawsnewid yr Ymateb i Gam-drin Domestig

## Ymateb i'r Ymgynghoriad a Mesur Drafft

**Ionawr 2019**

CP 15

Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 1 08-May-19 12:01:43

Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 08-May-19 12:01:43

# Trawsnewid yr Ymateb i Gam-drin Domestig: Ymateb i'r Ymgynghoriad a Mesur Drafft

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran
Gartref trwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Ionawr 2019

CP 15

Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 3 08-May-19 12:01:43

OGL

© Hawlfraint y goron 2019

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn dan amodau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio pan nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives. gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Pan fyddwn wedi dynodi unrhyw wybodaeth fel hawlfraint trydydd parti bydd angen ichi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn atom yn:
Home Office
Inter-Personal Violence Team
5th Floor, Fry Building
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

ISBN 978-1-5286-0923-4
CCS1218158068 01/19

Wedi'i argraffu ar bapur yn cynnwys lleiafswm cynnwys ffibr wedi'i ailgylchu o 75%

Argraffwyd yn y DU gan APS Group ar ran
Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 08-May-19 12:01:43

# Cynnwys

Rhagair gan Yr Ysgrifennydd Cartref a'r Ysgrifennydd Cyfiawnder .............................. 1
Crynodeb gweithredol .............................. 3
Adran 1: Hyrwyddo ymwybyddiaeth .............................. 5
1.1 Cyflwyno diffiniad statudol newydd o gam-drin domestig .............................. 5
1.2 Addysgu pobl ifanc am lunio perthynas .............................. 7
1.3 Rhoi adroddiad am gam-drin domestig i asiantaethau statudol .............................. 9
1.4 Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o gam-drin domestig .............................. 13
Adran 2: Diogelu a chefnogi dioddefwyr .............................. 16
2.1 Cefnogaeth i blant .............................. 16
2.2 Adnoddau .............................. 18
2.2.1 Cyllid .............................. 18
2.2.2 Gwasanaethau ar sail llety gan gynnwys llochesi .............................. 21
2.2.3 Prosiect Partneriaeth Tai Cyflawn .............................. 23
2.2.4 Cefnogaeth i'r rhai na allant droi at gyllid cyhoeddus .............................. 23
2.3 Cydweithio: ymateb amlasiantaethol rhagweithiol ac ymatebol .............................. 25
2.3.1 DAPO .............................. 25
2.3.2 Gweithio amlasiantaethol .............................. 31
2.4 Cefnogi dioddefwyr gydag anghenion penodol neu gymhleth .............................. 35
2.4.1 Anghenion arbenigol .............................. 35
2.4.2 Troseddwyr benywaidd .............................. 36
2.4.3 Camddefnyddio sylweddau .............................. 38
2.5 Mathau o gam-drin .............................. 39
2.5.1 Cam-drin economaidd .............................. 39
2.5.2 Cam-drin ar-lein .............................. 43
2.5.3 Trais adolesent ar riant .............................. 44
2.6 Hawliau dioddefwyr .............................. 45
2.6.1 Cofrestru i bleidleisio yn ddienw .............................. 45
2.6.2 Y Cynllun Datgelu Trais Domestig .............................. 45
2.7 Dioddefwyr gwrywaidd .............................. 46
Adran 3: Trawsnewid y broses gyfiawnder a'r ymateb i'r cyflawnwr .............................. 49
3.1 Trawsnewid ymateb yr heddlu .............................. 49
3.2 System cyfiawnder troseddol .............................. 52

3.2.1 Trosedd ymddygiad sy'n rheoli neu orfodol .......... 52
3.2.2 Camau arbennig .......... 54
3.2.3 Croesholi .......... 56
3.2.4 Cyfathrebu yn y llys .......... 57
3.2.5 Cyflwyno ffactor gwaethygol statudol .......... 59
3.2.6 Rhybuddion amodol .......... 60
3.2.7 Confensiwn Istanbul: awdurdodaeth tu hwnt i diriogaeth .......... 61
3.3 System cyfiawnder teuluol .......... 65
3.3.1 Llysoedd teulu .......... 65
3.3.2 Gwasanaeth Cyngor a Chymorth y Llys Plant a Theuluoedd .......... 68
3.3.3 Cymorth cyfreithiol .......... 70
3.4 Taith y cyflawnwr .......... 71
3.4.1 Ymateb asiantaethau cyfiawnder troseddol .......... 73
Adran 4: Gwella perfformiad .......... 77
4.1 Comisiynydd Cam-drin Domestig .......... 77
4.2 Data .......... 79
4.3 Dysgu oddi wrth Adolygiadau Lladdiadau Domestig .......... 81
Atodiad A: Naw prosiect yn cael eu hariannu trwy Gronfa Plant y llywodraeth, 2018/19 .......... 83
Atodiad B: Rhestr o droseddau yr ydym yn bwriadu cymryd awdurdodaeth tu hwnt i diriogaeth drostynt i fodloni ein hymrwymiadau dan Erthygl 44 o Gonfensiwn Istanbul .......... 85
Atodiad C: Grid ymrwymiadau .......... 86
Ymrwymiadau Adran 1 .......... 86
Ymrwymiadau Adran 2 .......... 87
Ymrwymiadau Adran 3 .......... 91
Ymrwymiadau Adran 4 .......... 95
Atodiad D: Mesur Cam-drin Domestig Drafft .......... 96
Atodiad E: Nodiadau esboniadol ar gyfer y Mesur Cam-drin Domestig drafft .......... 146

# Rhagair gan Yr Ysgrifennydd Cartref a'r Ysgrifennydd Cyfiawnder

## Pwysigrwydd taclo cam-drin domestig

Mae cam-drin domestig yn difetha bywydau. Mae'n drosedd greulon a chymhleth a all effeithio ar unrhyw un, gan adael creithiau corfforol ac emosiynol a all bara am oes.

Ni ddylai unrhyw un orfod dioddef poen y drosedd ffiaidd hon, yn arbennig oherwydd gweithredoedd y rhai agosaf atynt. Ni ddylai plant orfod bod yn dyst i drais a cham-drin yn eu cartrefi eu hunain. Mae gennym ddyletswydd i gefnogi dioddefwyr ac atal pobl rhag cael eu brifo.

Dyna pam y mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i gyflwyno Mesur Cam-drin Domestig, a fydd yn cynnig cyfle, unwaith mewn cenhedlaeth, i drawsnewid yr ymateb i'r drosedd atgas hon. Ym Mawrth 2018, nodwyd ein cynigion deddfwriaethol ar gyfer y mesur arloesol hwn, ochr yn ochr â phecyn o gamau ymarferol. Ymgynghorwyd ar y rhain, gan geisio barn dioddefwyr a'r rhai sydd wedi goroesi, sefydliadau cefnogi a gweithwyr proffesiynol rheng flaen, i ddefnyddio eu gwybodaeth a'u harbenigedd.

Gofynnwyd cwestiynau am y ffordd y gallem gyflawni'r pedwar prif amcan, y cyfan ag atal a diogelu yn ganolog iddynt. Mae'r ymatebion yn archwilio sut y gallwn:

- **hyrwyddo ymwybyddiaeth** – i roi cam-drin domestig ar ben agenda pawb a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol ohono.
- **ddiogelu a chefnogi** – i wella diogelwch dioddefwyr a'r gefnogaeth y maent yn ei chael
- **drawsnewid y broses gyfiawnder** – i roi blaenoriaeth i ddiogelwch dioddefwyr yn y llysoedd troseddol a theulu, ac adolygu'r daith i'r cyflawnwyr o'u hadnabod i'w hadsefydlu
- **wella perfformiad** – i yrru cysondeb a gwell perfformiad wrth ymateb i gam-drin domestig ar draws yr holl ardaloedd lleol, asiantaethau a sectorau

Ar ôl ystyried yr ymatebion hyn, rydym yn ymroddedig i gyflawni'r camau a nodwyd yn Araith y Frenhines. Rydym yn symud deddfwriaeth cam-drin domestig ymlaen i newid y ffordd yr ydym ni, fel gwlad, yn meddwl am y drosedd ddieflig hon yn sylfaenol.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i ddwyn pob math o drais yn erbyn menywod i ben, ac mae ein Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod a Merched 2016-2020 yn nodi ein huchelgais i ddiogelu menywod a merched rhag trais, cefnogi dioddefwyr a rhoi arweiniad ar lefel genedlaethol a rhyngwladol i ddirwyn y mathau hyn o gamdriniaeth i ben. Ond mae llawer wedi newid ers i ni gyhoeddi'r strategaeth yn 2016, ac rydym wedi mynd yn llawer pellach ac yn gyflymach nag erioed o'r blaen. Felly, yn fuan, byddwn yn cyhoeddi Strategaeth Trais yn erbyn Menywod a Merched wedi ei hadnewyddu, sydd yn nodi'r llwyddiannau a gafwyd hyd yn hyn yn ogystal â nodi camau newydd i daclo'r troseddau hyn, yn unol â'n gweledigaeth yn 2016.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 7 08-May-19 12:01:43

Rydym hefyd wedi ymrwymo i wella cefnogaeth i'r holl ddioddefwyr trwy ein Strategaeth Dioddefwyr, a gyhoeddwyd ym Medi 2018 ac sy'n nodi ein hymrwymiad i wella'r gefnogaeth i ddioddefwyr troseddau i gyd trwy roi'r sicrwydd i ddioddefwyr y byddant yn cael eu deall, eu diogelu a'u cefnogi ar hyd eu taith. Yn ychwanegol, rydym yn gwybod bod gan bron i 60% o droseddwyr benywaidd brofiad o gam-drin domestig, felly trwy ein Strategaeth Troseddwyr Benywaidd rydym hefyd wedi ymrwymo i fuddsoddi £5miliwn mewn darpariaeth gymunedol i droseddwyr benywaidd a menywod sydd mewn perygl o droseddu, sy'n cynnwys £2filiwn o gyllid i fenywod sydd wedi profi cam-drin domestig.

Ein nod yw cefnogi dioddefwyr, cymunedau a gweithwyr proffesiynol i wynebu a herio pob math o gamdriniaeth, ble bynnag y maent yn dod o hyd iddi.


Mae dod â cham-drin domestig i ben yn dal yn flaenoriaeth absoliwt i'r llywodraeth hon a byddwn yn parhau i ddangos arweinyddiaeth gref a chymryd camau pendant i sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i drawsnewid ein hymateb a dirwyn y dioddefaint a'r niwed y mae cam-drin yn ei achosi i ben.





**Y Gwir Anrhydeddus Sajid Javid AS**
**Ysgrifennydd Cartref**





**Y Gwir Anrhydeddus David Gauke AS**
**Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder**



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 8 08-May-19 12:01:44

## Crynodeb gweithredol

**Yn Chwefror 2017, cyhoeddodd y Prif Weinidog gynlluniau ar gyfer gwaith i drawsnewid y ffordd yr ydym yn meddwl am gam-drin domestig ac yn ei daclo, gan arwain at gyflwyno Mesur Cam-drin Domestig newydd.** Ail-gadarnhawyd yr ymrwymiad i gyflwyno'r mesur hwn yn Araith y Frenhines wrth agor y Senedd ym Mehefin 2017.

**Ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Merched ar 8 Mawrth 2018, lansiodd y llywodraeth ymgynghoriad cenedlaethol i geisio barn ar sut y gellir cyflawni'r trawsnewidiad hwn.** Rhedodd yr ymgynghoriad – *Trawsnewid yr Ymateb i Gam-drin Domestig* – am 12 wythnos a daeth i ben ar 31 Mai. Nod yr ymgynghoriad oedd defnyddio gwybodaeth ac arbenigedd dioddefwyr a goroeswyr, yn ogystal ag elusennau, sefydliadau arbenigol, ac arbenigwyr ar draws plismona, cyfiawnder troseddol, iechyd, lles, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, gwaith ac awdurdodau lleol sy'n ymdrin ag effeithiau cam-drin domestig bob dydd. Lansiwyd yr ymgynghoriad mewn dwy fersiwn, un gyda 65 o gwestiynau, a fersiwn fyrrach gyda 12 cwestiwn oedd yn canolbwyntio ar brofiad dioddefwyr.

**Derbyniodd yr ymgynghoriad dros 3,200 o ymatebion o bob rhan o'r Deyrnas Unedig.** Yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad, cynhaliwyd nifer fawr o ddigwyddiadau ar draws Cymru a Lloegr, gan ymgysylltu â dros 1,000 o bobl gan gynnwys dioddefwyr, elusennau, awdurdodau lleol a gweithwyr proffesiynol o sefydliadau eraill. Rydym am fynegi ein diolch i bawb a rannodd eu profiadau personol trwy'r broses ymgynghorol ac i'r holl sefydliadau a drefnodd ddigwyddiadau a sicrhau bod cymaint o leisiau dioddefwyr â phosibl yn cael eu clywed a'u chwyddo. Rydym wedi gosod tystiolaeth a phrofiadau'r dioddefwyr yma yn ganolog i'n hymateb.

**Roedd mwyafrif y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cytuno â'r cynigion ynddo.** Rhoddodd yr ymateb hefyd ddealltwriaeth bwysig o brofiad personol o gam-drin domestig yn ogystal ag enghreifftiau defnyddiol o'r hyn all fod yn effeithiol wrth ei daclo.

**Mae'r ymateb i'r ymgynghoriad yn dynodi naw cam sydd angen deddfwriaeth sylfaenol i'w gweithredu.** Bydd y rhain yn awr yn cael eu symud ymlaen mewn Mesur Cam-drin Domestig drafft, sydd wedi ei atodi at y ddogfen hon (Atodiad D), ynghyd â'r nodiadau esboniadol ar gyfer y Mesur drafft (Atodiad E). Y naw cam hyn yw:

- darparu ar gyfer diffiniad statudol o gam-drin domestig
- sefydlu swydd Comisiynydd Cam-drin Domestig a nodi swyddogaethau a grymoedd y Comisiynydd
- darparu ar gyfer Hysbysiad Diogelu Cam-drin Domestig newydd a DAPO
- gwahardd cyflawnwyr cam-drin domestig a chamdriniaeth arall rhag croesholi eu dioddefwyr yn bersonol yn y llysoedd teulu (ac atal dioddefwyr rhag gorfod croesholi'r rhai sydd wedi eu cam-drin) a rhoi hawl i'r llys benderfynu ar groesholi yn bersonol pan fyddai'n gwaethygu ansawdd tystiolaeth y tyst neu yn achosi gofid sylweddol i'r tyst



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 9 08-May-19 12:01:44

- creu tybiaeth statudol bod achwynwyr trosedd sy'n ymwneud ag ymddygiad sy'n gam-drin domestig yn gymwys am gamau arbennig yn y llysoedd troseddol
- galluogi troseddwyr cam-drin domestig i fynd trwy brawf polygraff fel amod o'u trwydded yn dilyn eu rhyddhau o'r ddalfa
- rhoi'r cyfarwyddyd sy'n cefnogi'r Cynllun Datgelu Trais Domestig ar sail statudol
- sicrhau, pan fydd awdurdod lleol, am resymau yn gysylltiedig â cham-drin domestig, yn rhoi tenantiaeth ddiogel newydd i denant cymdeithasol a oedd neu sydd â thenantiaeth ddiogel am oes neu denantiaeth sicr (heblaw tenantiaeth fyrddaliad sicr), ei bod yn denantiaeth ddiogel am oes
- ymestyn awdurdodaeth tu hwnt i diriogaeth y llysoedd troseddol yng Nghymru a Lloegr i droseddau treisgar a rhywiol pellach

**Bydd y Mesur drafft yn awr yn destun craffu cyn-ddeddfwriaethol gan gydbwyllgor o ddau Dŷ'r Senedd.**

**Rydym yn cydnabod na all y mater hwn gael ei drin trwy ddeddfwriaeth yn unig ac felly rydym hefyd wedi cynnig pecyn o gamau i eistedd ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth. Mae'r rhaglen waith hon yn cynnwys amrywiaeth eang o ymrwymiadau traws-lywodraethol a fydd yn cael eu symud ymlaen dros y flwyddyn nesaf.**

**Trwy'r camau a nodir yn y Mesur Cam-drin Domestig drafft a'r pecyn ymarferol o gamau gweithredu a amlinellir yn y ddogfen hon, rydym yn ceisio trawsnewid ymateb y llywodraeth i gam-drin domestig.**



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 10 08-May-19 12:01:44

# Adran 1: Hyrwyddo ymwybyddiaeth

## 1.1 Cyflwyno diffiniad statudol newydd o gam-drin domestig

Rydym am sicrhau bod pob cam-drin domestig yn cael ei ddeall yn iawn, ei ystyried yn annerbyniol a'i herio yn weithredol ar draws asiantaethau statudol ac yn agwedd y cyhoedd.

**Mae cam-drin domestig yn gymhleth.** Gall fynd heb ei adnabod gan asiantaethau, teuluoedd a ffrindiau, a hyd yn oed y dioddefwyr[1] eu hunain. Er mwyn trawsnewid yr ymateb i gam-drin domestig, mae'n bwysig iddo gael ei adnabod a'i ddeall yn iawn i gychwyn.

**Nid dim ond rhwng cyplau y mae cam-drin domestig yn digwydd.** Gall hefyd gynnwys aelodau o'r teulu ehangach, gan gynnwys cam-drin rhiant gan blentyn adolesent neu wedi tyfu. Gall fodoli rhwng brodyr a chwiorydd hŷn, neu'r teulu ehangach o ran cam-drin yr henoed neu ar sail anrhydedd.

**Mae cam-drin domestig yn cynnwys llawer o wahanol weithredoedd a gwahanol ymddygiad.** Mae'r rhain yn cynnwys trais corfforol, dylanwadu, cadw yn ynysig, rheoli, a defnyddio bygythiadau a bychanu sy'n niweidio, dychryn neu gosbi dioddefwr. Rydym yn sylweddoli na fydd disgrifiad syml yn cwmpasu deinameg grym a rheoli, a'r risg y mae rheoli yn ei greu i'r dioddefwr yn llwyr.

Fe wnaethom ymgynghori ar y diffiniad canlynol:

> ***Unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad rheolaethol, gorfodol, bygythiol, trais neu gamdriniaeth rhwng y rhai sy'n 16 oed neu hŷn sydd, neu sydd wedi bod, yn bartneriaid agos neu aelodau o'r teulu waeth beth yw eu rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol. Gall y gamdriniaeth gwmpasu, ond nid yw wedi ei gyfyngu i: ffurfiau seicolegol, corfforol, rhywiol, economaidd ac emosiynol o gam-drin.***
>
> ***Mae ymddygiad rheolaethol yn amrywiaeth o weithredoedd a gynlluniwyd i wneud rhywun yn israddol ac/neu yn ddibynnol trwy eu hynysu rhag ffynonellau cefnogaeth, ymelwa ar eu hadnoddau a'u gallu er elw personol, eu hamddifadu o'r moddion angenrheidiol ar gyfer annibyniaeth, gwrthsefyll a ffoi ac yn rheoleiddio eu hymddygiad o ddydd i ddydd.***
>
> ***Mae ymddygiad gorfodol yn weithred neu batrwm o weithredoedd o ymosodiadau, bygythiadau, bychanu a brawychu neu gam-drin arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi, neu godi ofn ar unigolyn.***

[1] Rydym yn cydnabod bod barn yn amrywio ar ddefnyddio'r geiriau dioddefwr a/neu oroeswr. Trwy gydol y ddogfen hon byddwn yn defnyddio'r gair dioddefwr, i gydnabod y ffaith bod dioddefwr cam-drin domestig yn ddioddefwr trosedd. Ond, rydym yn deall bod yn well gan lawer o ddioddefwyr y term goroeswr, i roi pwyslais ar eu cryfder a'u gwytnwch yn hytrach na'r drosedd a gyflawnwyd yn eu herbyn. Nid ydym wedi defnyddio'r term dioddefwr/goroeswr er mwyn gwneud y ddogfen yn haws ei darllen ond rydym yn eich annog i ddefnyddio'r term hwn fel sy'n briodol, yn ôl eich dewis chi.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 5 08-May-19 12:01:44

## Fe ddywedsoch chi:

> *"Yn rhy aml mae pobl yn anwybyddu'r hyn sy'n gam-drin, gan ddweud na all fod yn gam-drin oni bai bod trais yn rhan ohono."*

Roedd dros 85% ohonoch yn cytuno neu yn cytuno'n gryf â'r diffiniad arfaethedig o gam-drin domestig. Fe wnaethoch gytuno ei bod yn bwysig cydnabod bod cam-drin yn cynnwys, nid yn unig gweithredoedd corfforol, ond cam-drin emosiynol a mathau eraill o gam-drin hefyd. Cefnogwyd hyn gan Ymchwiliad y Pwyllgor Dethol Materion Cartref i gam-drin domestig, a groesawodd gydnabyddiaeth y llywodraeth y gall cam-drin domestig fod ar sawl ffurf ac y gellir ei ddangos, nid yn unig trwy un weithred o gam-drin difrifol, ond hefyd trwy gyfres o ddigwyddiadau.

Adleisiodd Ymchwiliad y Pwyllgor Dethol Materion Cartref i gam-drin domestig argymhelliad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol bod y diffiniad statudol newydd o gam-drin domestig yn berthnasol i'r ddau ryw.

Rhoddwyd croeso arbennig i gynnwys y term cam-drin economaidd gan ei fod yn cwmpasu ystod ehangach o ymddygiad na dim ond cam-drin ariannol. Croesawyd hefyd y gydnabyddiaeth y gallai cam-drin domestig gynnwys gwahanol fathau o berthnasau a chynbartneriaid.

Dywedodd y rhan fwyaf o asiantaethau ac elusennau na fyddai'r diffiniad statudol o angenrheidrwydd yn newid y ffordd y mae eu sefydliad yn gweithio (dywedodd 56% na fyddai'n newid, dywedodd 44% y byddai). Y rheswm a ddyfynnwyd amlaf oedd bod sefydliadau eisoes yn defnyddio'r diffiniad traws-lywodraethol presennol yn barod. Ond, roedd cydnabyddiaeth y byddai'r diffiniad yn dal yn bwysig i atgyfnerthu'r negeseuon presennol a gadael i sefydliadau ddiweddaru eu pecynnau hyfforddi, eu cyfarwyddyd a'u hadnoddau.

Er mwyn sicrhau bod y diffiniad wedi ymwreiddio mewn arfer ar y rheng flaen, dywedodd 44% ohonoch ei bod yn bwysig i hyfforddiant gael ei roi i'r heddlu, y sector gwirfoddol a'r system cyfiawnder troseddol.

Dywedsoch bod effaith gostwng yr oedran isaf i 16 yn 2012 yn bositif, gan ei fod wedi cynyddu ymwybyddiaeth o gam-drin domestig ymhlith pobl ifanc. Yn gyffredinol, roedd 59% ohonoch yn cytuno yn gryf neu'n cytuno y dylid caw at y terfyn oedran ieuengaf o 16 oed yn y diffiniad statudol. Un o'r dadleuon canolog yn erbyn gostwng y cyfyngiad oedran ymhellach oedd y risg o wneud y terfynau rhwng cam-drin plant a cham-drin domestig rhwng oedolion yn fwy niwlog; gelwir camdriniaeth gan oedolyn tuag at rywun dan 16 oed yn gam-drin plant a rhaid cadw'r gwahaniaeth rhyngddynt. Ond roedd cydnabyddiaeth bod angen cydnabod effaith cam-drin domestig ar rai dan 16 oed. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod digon o wasanaethau yn eu lle i blant ar aelwydydd y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt a hefyd i bobl ifanc sy'n profi camdriniaeth yn eu perthynas glos eu hunain. Dywedsoch hefyd y dylem osgoi erlyn pobl ifanc sy'n cyflawni camdriniaeth er mwyn peidio â throseddoli'r rhai dan 16 oed yn ddiangen.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 12 08-May-19 12:01:44

### Byddwn yn:

**Byddwn yn cynnwys diffiniad o gam-drin domestig ar sail yr un a gynigir yn y ddogfen ymgynghorol,** yn y Mesur Cam-drin Domestig drafft.

**Byddwn yn nodi cam-drin economaidd fel math penodol o gam-drin,** gan ei fod yn cwmpasu ystod ehangach o ymddygiad na cham-drin ariannol.

**Byddwn yn sicrhau bod gwahanol fathau o berthnasau yn cael eu cynnwys,** gan gynnwys aelodau o'r teulu, cynbartneriaid a'r rhai nad ydynt yn cyd-fyw.

**Yn y cyfarwyddyd statudol fydd yn cyd-fynd â'r diffiniad, byddwn yn ehangu ymhellach ar y gwahanol fathau o gam-drin a'r ffurfiau y gallant fod arnynt.** Bydd hyn yn cynnwys mathau o gam-drin a brofir gan gymunedau neu grwpiau penodol, fel menywod mudol neu leiafrifoedd ethnig a hefyd cam-drin mewn perthynas rhwng rhai yn eu harddegau. Bydd hyn hefyd yn cydnabod mai benywaidd yw dioddefwyr cam-drin domestig yn bennaf.

**Byddwn yn cydnabod yr effaith ddifrifol y gall cam-drin domestig ei gael ar blant sydd yn agored iddo yn y cyfarwyddyd statudol.** Bydd y cyfarwyddyd yn cael ei gyfeirio at yr holl ddarparwyr gwasanaeth statudol a heb fod yn statudol.

**Byddwn yn cynnwys rhai 16 ac 17 oed yn y diffiniad statudol, gan fod y newid hwn yn y diffiniad wedi cael ei weld fel un sydd wedi cael effaith bositif gan y rhan fwyaf ohonoch.** Ond, mae'n glir bod angen i effaith cam-drin domestig ar bobl ifanc gael ei gydnabod yn briodol ac mae angen i ni sicrhau bod asiantaethau yn ymwybodol ohono a sut i'w ddynodi ac ymateb yn briodol iddo. Mae hyn yn cynnwys: plant yn byw ar aelwydydd lle mae camdriniaeth; cam-drin mewn perthynas rhwng rhai yn eu harddegau; a chamdriniaeth tuag at frodyr a chwiorydd a rhieni. Rhaid i lysoedd ac asiantaethau sy'n ymateb ystyried y canllawiau cyfiawnder ieuenctid wrth ymateb i achosion a rhaid iddynt osgoi troseddoli pobl ifanc yn ddiangen.

## 1.2 Addysgu pobl ifanc am lunio perthynas

**Fel yr amlinellwyd yn ein Strategaeth Trais yn erbyn Menywod a Merched,**[2] mae atal ac ymyrraeth gynnar yn parhau yn sail i'n dull, a bydd yr un egwyddor yn berthnasol i gam-drin domestig yn fwy cyffredinol.

**Rydym yn sylweddoli, os ydym am newid agweddau, bod angen i ni ymgysylltu â phlant ar y cyfle cyntaf posibl.** Rydym yn gwybod y gall bod yn agored i gam-drin domestig gael effaith ddifrifol, parhaol ar blant, gydag effeithiau negyddol ar eu hymddygiad a'u perthynas yn y dyfodol. Dylai pob plentyn gael ei gefnogi i ddeall nad yw camdriniaeth fyth yn dderbyniol.

[2] Llywodraeth EM (2016) Strategaeth Trais yn erbyn Menywod a Merched 2016-2020. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/522166/VA WG_Strategy_FINAL_PUBLICATION_MASTER_vRB.PDF.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 13 08-May-19 12:01:44

**Rydym am helpu ysgolion i gyflwyno addysg perthnasau o safon uchel sy'n trafod cam-drin domestig.** Mae hyn yn cynnwys darparu Addysg Perthnasau, Addysg Perthnasau a Rhyw, ac Addysg Iechyd. Bydd hyn yn helpu i roi'r wybodaeth y mae ar y plant ei hangen i gael perthnasau iach a pharchus, a gadael yr ysgol yn barod am fywyd fel oedolyn.

**Mae'r ymrwymiad i ddarparu Addysg Perthnasau a Rhyw mewn ysgolion eisoes wedi ei gynnwys yn Neddf Plant a Gwaith Cymdeithasol 2017.**[3] Rydym yn gwneud Addysg Perthnasau yn orfodol ym mhob ysgol gynradd yn Lloegr, ac Addysg Perthnasau a Rhyw yn orfodol ym mhob ysgol uwchradd o fis Medi 2020, yn ogystal â gwneud Addysg Iechyd yn orfodol ym mhob ysgol a ariennir gan y wladwriaeth.

## Fe ddywedsoch chi:

*"Mae angen addysg. Nid oedd gennyf syniad fy mod mewn perthynas o gamdriniaeth nes yr oedd hi'n llawer rhy hwyr. Cychwynnwch yn yr ysgolion i helpu ymwybyddiaeth i ddioddefwyr posibl a rhai all gam-drin, ond mae hefyd yn hanfodol gwneud yr un peth trwy'r cyfryngau."*

Fe wnaethoch ofyn i'r llywodraeth sicrhau bod plant a phobl ifanc yn dysgu am berthnasau iach a cham-drin domestig fel eu bod yn gallu ffurfio perthnasau positif wrth dyfu a gwybod sut i ddod o hyd i help os byddant yn teimlo yn anniogel. O'r rhai ohonoch a ystyriodd y ffordd orau i gyrraedd plant a phobl ifanc, awgrymodd bron i 40% ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol.

Awgrymodd bron eich hanner (46%) beth y dylai plant ei ddysgu yn yr ysgol, gan ofyn am i blant a phobl ifanc:

- gael addysgu o safon am berthnasau iach
- ddysgu am berthnasau nad ydynt yn iach ac arwyddion cam-drin domestig ar oedran sy'n addas ar gyfer eu datblygiad

Gwnaeth llawer ohonoch sylwadau am ffyrdd i gefnogi ysgolion i gyflawni Addysg Perthnasau ac Addysg Perthnasau a Rhyw o safon, ac awgrymodd 58% o'r ymatebion hynny y dylai ysgolion gael mynediad at hyfforddiant, adnoddau defnyddiol neu gyngor gan sefydliadau arbenigol.

O ran Addysg Perthnasau, argymhellodd Ymchwiliad y Pwyllgor Dethol Materion Cartref i gam-drin domestig y dylai'r llywodraeth ddyrannu adnoddau a phennu blaenoriaethau ar gyfer gwerthuso effeithlonrwydd cynlluniau.

## Byddwn yn:

**Byddwn yn cyflwyno rheoliadau a chyfarwyddyd statudol i ysgolion am Addysg Perthnasau, Addysg Perthnasau a Rhyw, ac Addysg Iechyd.** Mewn ysgolion cynradd, rydym am roi'r sylfeini ar gyfer perthnasau iach, parchus i blant. Mewn ysgolion uwchradd, rydym yn cynnig addysgu **pobl ifanc am berthynas agos iach, a'r cysyniadau a'r deddfau yn ymwneud â chydsyniad, cam-fanteisio rhywiol, gwastrodi, aflonyddu a cham-drin domestig.**

[3] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2017/16/contents/enacted



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 8 08-May-19 12:01:44

Trwy'r addysgu hwn, gallwn helpu plant i ddeall cam-drin domestig, gan gynnwys rheolaeth orfodol, fel eu bod yn gallu adnabod arwyddion cam-drin a chadw yn ddiogel.

Er y bydd llawer o ysgolion yn medru dechrau addysgu yn gyflym ac yn cael eu cefnogi a'u hannog i ddechrau o Fedi 2019, mae'n hanfodol i ni sicrhau bod gan bob ysgol ddigon o amser i gynllunio a pharatoi eu staff. **Byddwn yn dechrau gweithio gydag ysgolion, undebau, darparwyr addysg eraill a sefydliadau arbenigol fel cymdeithasau pynciol i bennu pa gefnogaeth fydd ar ysgolion ei hangen i gyflwyno'r pynciau yn dda, gan gynnwys ystyried hyfforddiant a deunyddiau o safon uchel.**

**Byddwn hefyd yn gweithio gydag ysgolion i roi cyngor, ffynonellau gwybodaeth arbenigol ac argymhellion am adnoddau addysgu defnyddiol fel cynlluniau dysgu ar sail ymgyrch Amharchu Neb y llywodraeth.**[4]

**Ym mis Tachwedd 2018, cyhoeddwyd ein Cymunedau Ysgol Parchus, offeryn hunan adolygu a chyfeirio i gefnogi ysgolion i ddatblygu dull trwy'r ysgol gyfan o hyrwyddo parch, perthnasau iach a disgyblaeth.** Gall yr offeryn hwn helpu ysgolion i adeiladu ar eu dyletswyddau presennol i ddefnyddio dull ataliol ehangach i frwydro yn erbyn bwlio, aflonyddu a chamdriniaeth o bob math, a chreu cymunedau ysgol cynhwysol a goddefgar.

## 1.3 Rhoi adroddiad am gam-drin domestig i asiantaethau statudol

**Gwyddom pa mor bwysig yw hi i asiantaethau statudol a gweithwyr proffesiynol ddeall cam-drin domestig yn iawn.** Mae camau amrywiol yn cael eu cymryd i wella'r ddealltwriaeth o gam-drin domestig gan gynnwys cyfarwyddyd statudol, adnoddau wedi eu targedu a hyfforddiant.

**Rydym am i'r holl asiantaethau fedru dynodi, asesu a chefnogi dioddefwyr cam-drin domestig yn hyderus a phriodol trwy eu cyfeirio at y gefnogaeth gywir.** Mae adrannau'r llywodraeth yn gweithio i wella'r hyfforddiant a roddir i weithwyr proffesiynol i sicrhau bod hyn yn digwydd a bod yr holl ddioddefwyr yn derbyn yr help y mae arnynt ei angen.

**Ond, mae mwy y gellid ei wneud i wella'r ymateb gan yr heddlu ac ar draws asiantaethau statudol eraill,** gan gynnwys iechyd, addysg, gofal cymdeithasol, canolfannau gwaith a'r llysoedd.

**Rydym hefyd yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y gall y sector gwirfoddol ei wneud wrth addysgu asiantaethau statudol am gam-drin domestig.** Mae eisoes lawer o enghreifftiau o arfer da. Er enghraifft, mae llawer o swyddfeydd Canolfan Byd Gwaith yn gweithio gydag elusennau lleol yn gyson ar gynlluniau cam-drin domestig sy'n anelu at alluogi staff i ymateb yn effeithiol a chyfeirio defnyddwyr at gefnogaeth addas.

[4] https://www.disrespectnobody.co.uk/



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 15 08-May-19 12:01:44

Mae gan bob Canolfan Waith Offeryn Darpariaeth Ardal, sy'n rhestru sefydliadau arbenigol yn lleol a chenedlaethol, ac y gall Hyfforddwyr Gwaith a Rheolwyr Achos ei ddefnyddio i gyfeirio hawlwyr at ragor o gefnogaeth.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gwella ymwybyddiaeth o gam-drin domestig ymhlith staff iechyd. Ym Mawrth 2017, cyhoeddodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) adnodd cam-drin domestig ar-lein ar gyfer gweithwyr proffesiynol i wella eu hymwybyddiaeth. Mae'n cynghori staff iechyd ar sut y gallant gefnogi oedolion a phobl ifanc dros 16 oed sy'n profi cam-drin domestig, a phlant dibynnol ar eu haelwydydd, trwy ddangos sut y gallant ymateb yn effeithiol pan fydd cam-drin yn cael ei ddatgelu.

Mae ymholiadau arferol am gam-drin domestig eisoes yn digwydd mewn gwasanaethau mamolaeth ac iechyd meddwl, i wella datgelu cynharach a chefnogi pobl i gael y gofal y mae arnynt ei angen. Diweddarwyd deunyddiau hyfforddi am gam-drin domestig i staff ar sail canlyniadau ymchwil a gomisiynwyd gan DHSC. Cyhoeddodd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Iechyd a Gofal hefyd ei Safonau Ansawdd ar gyfer Cam-drin Domestig[5] ym Mawrth 2016.

Mae DHSC hefyd wedi ariannu'r prosiect 'Dynodi a Chyfeirio i Wella Diogelwch' (IRIS). Rhaglen hyfforddi a chefnogi staff yw hon sy'n pontio rhwng y sector gwirfoddol a gofal sylfaenol, i ddefnyddio cryfderau'r ddau, a chynnig gwell gwasanaeth trais domestig. Buddsoddodd DHSC £2 filiwn i ariannu ehangu'r rhaglen canfod llwybr Sefyll Gyda'n Gilydd yn Erbyn Trais Domestig. Bydd y rhaglen hon yn creu model o'r ymateb i ddioddefwyr cam-drin domestig ar draws lleoliadau cymunedol, iechyd meddwl a damweiniau ac argyfwng. Bydd y cyllid ychwanegol yn cynyddu'r nifer o grwpiau comisiynu clinigol a fydd yn safleoedd canfod llwybr i wyth fydd yn darparu gwasanaethau iechyd i tua 18,000 o oroeswyr. **Bydd y rhaglen yn rhedeg hyd Fawrth 2020 ond bydd yr hyn a ddysgwyd o'r rhaglen yn cael ei rannu cyn gynted â phosibl.**

### Fe ddywedsoch chi:

*"Dylai pawb fod yn ymwybodol o gam-drin domestig. Unwaith y bydd pobl yn dechrau siarad amdano rydych yn sylweddoli pa mor gyffredin ydi o yn y byd heddiw. Ni ddylem fod yn brwsio hyn dan y carped."*

Y tair prif asiantaeth y gwnaethoch eu dynodi fel rhai sydd angen gwneud mwy i gydnabod yr arwyddion o gam-drin domestig oedd: gweithwyr addysg proffesiynol, yr heddlu, a gweithwyr iechyd proffesiynol (gellir gweld y canlyniadau llawn yn Ffigwr 1). Roedd llawer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn glir ei bod yn gyfrifoldeb ar *bob* asiantaeth i wneud mwy.

Dywedsoch y dylai hyfforddiant ymgorffori dealltwriaeth o'r ffordd y mae cam-drin domestig yn effeithio ar grwpiau o bobl yn wahanol – gan gynnwys lesbiaid, hoywon, pobl ddeurywiol a thraws plws (LGBT+), gwrywod, du a lleiafrifoedd ethnig (BAME) a dioddefwyr hŷn. Dywedsoch hefyd eich bod am i effeithiolrwydd hyfforddiant gael ei fonitro neu ei asesu.


[5] https://www.nice.org.uk/guidance/qs116



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 16 08-May-19 12:01:44

Adleisiwyd hyn yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gan Ymchwiliad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref i gam-drin domestig. Roedd yn argymell bod angen rhagor o hyfforddiant a chyfarwyddyd i staff sector cyhoeddus sy'n ymdrin â cham-drin domestig, fel eu bod yn gallu ymateb yn briodol i anghenion y cyhoedd a chyfeirio unigolion ymlaen at wasanaethau arbenigol.

**Ffigwr 1:** Ymatebion i Gwestiwn 7 yr ymgynghoriad: "Pa rai o'r sefydliadau canlynol ydych chi'n meddwl y dylent wneud rhagor i gydnabod arwyddion o gam-drin domestig? (Dewiswch y tri pwysicaf yr ydych yn meddwl y dylai'r llywodraeth ganolbwyntio arnynt)"




## Byddwn yn:

O ystyried bod yr ymatebion o'r ymgynghoriad yn amlygu pwysigrwydd hyfforddiant, byddwn yn buddsoddi mewn hyfforddiant i'r heddlu ar reoli gorfodol i ehangu'r graddau y cyflwynir rhaglen newid yr heddlu Domestic Abuse Matters, a ddatblygwyd gan yr elusen SafeLives a'r Coleg Plismona. Rydym yn cydnabod bod rhagor o waith i'w wneud wrth drawsnewid ymateb yr heddlu i gam-drin domestig, ac rydym wedi nodi cynlluniau ar gyfer gwaith yn y maes hwn yn Adran 3.

**Byddwn yn darparu £220,000 i ddatblygu a threialu rhaglen hyfforddi i weithwyr cymdeithasol ar reolaeth orfodol** i sicrhau eu bod yn gallu dynodi ac ymateb i bob math o gam-drin domestig yn effeithiol.

**Byddwn yn ariannu datblygu deunyddiau hyfforddi cam-drin domestig, ar-lein ac wyneb yn wyneb, i weithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n gweithio yn y gwasanaethau prawf a chwmnïau adsefydlu cymunedol.**

**Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn y broses o ddatblygu cynhyrchion dysgu a datblygu at y dyfodol,** ar gyfer yr holl hyfforddwyr gwaith Credyd Cynhwysol, a fydd yn canolbwyntio ar sut i gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 11 08-May-19 12:01:44

Fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Dethol Gwaith a Phensiynau, **bydd y DWP yn cyflwyno arbenigwyr cam-drin domestig ym mhob Canolfan Waith, fydd yn cael hyfforddiant pellach ar sut i gefnogi hawlwyr sydd yn ddioddefwyr cam-drin domestig.** Bydd yr arbenigwyr yma hefyd yn cael y cyfle i ddiweddaru sgiliau eu cydweithwyr a hyrwyddo ymwybyddiaeth o gam-drin domestig yn eu Canolfannau Gwaith. Bydd hyn yn cael ei gyflawni yn ystod haf 2019.

Yn ddiweddar diweddarodd yr Adran Addysg (DfE) 'Keeping Children Safe in Education' – y cyfarwyddyd diogelu statudol i ysgolion a cholegau. Mae'n cynnwys gwybodaeth am gam-drin domestig a'r effaith emosiynol a seicolegol tymor hir y gall ei gael ar blant. Mae'r cyfarwyddyd yn glir y dylai ysgolion sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant diogelu wedi ei ddiweddaru yn gyson, fel eu bod yn gallu cymryd camau addas i ddynodi, diogelu a chefnogi plant. **Byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r diweddariad hwn. Bydd DfE yn cadw llygad ar effeithiolrwydd y cyfarwyddyd ac yn ystyried ei gryfhau ymhellach yn ôl y gofyn.**

**Bydd y DfE hefyd yn gyrru diwygiadau eang i ofal cymdeithasol plant yn eu blaenau.** Mae'n hanfodol i weithwyr cymdeithasol roi cefnogaeth effeithiol i blant a theuluoedd y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt. Mae ein rhaglen ddiwygio gofal cymdeithasol plant yn gweithio i wella arfer gwaith cymdeithasol ar draws y wlad trwy addysg gychwynnol, datblygu proffesiynol parhaus a rheoliadau proffesiynol mwy caeth. Mae'r Datganiadau Gwybodaeth a Sgiliau yn sail i ddiwygiadau, ac yn nodi bod yn rhaid i bob gweithiwr cymdeithasol allu dynodi effaith cam-drin domestig a gweithredu i ddiogelu oedolion a phlant agored i niwed.

Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd arweinyddiaeth gref i yrru newidiadau lleol wrth gyflawni gwasanaethau, a dyna pam y bydd y **Grŵp Goruchwylio Cenedlaethol ar Gam-drin Domestig, dan gadeiryddiaeth yr Ysgrifennydd Cartref, yn parhau i oruchwylio ymateb yr heddlu i gam-drin domestig a'r gweithredu ar argymhellion arolwg Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi.**

Mae'r DHSC ac NHS England yn gwella ymwybyddiaeth o gam-drin ymhlith staff iechyd, gydag adnodd cam-drin domestig ar-lein i weithwyr iechyd proffesiynol ac maent hefyd wedi datblygu nifer o fodylau e-ddysgu a hyfforddi gyda'r Sefydliad Gweithwyr Iechyd Proffesiynol a'r Colegau Nyrsio a Meddygon Teulu Brenhinol. **Mae NHS England yn adnewyddu'r hyfforddiant i adlewyrchu'r arfer sy'n dod i'r amlwg a dull sy'n ymwneud â'r teulu cyfan o ran diogelu.**

Bydd DHSC yn parhau i weithio gydag NHS England i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth darparwyr gofal iechyd fel eu bod yn gwybod pa gamau i'w cymryd a phryd. **Bydd hyn yn cynnwys cynllun pedair blynedd cynhwysfawr i godi ymwybyddiaeth ymhlith staff y GIG ac ymdrin â'r mater o staff y GIG sydd yn ddioddefwyr eu hunain. Bydd hefyd yn sicrhau bod cefnogaeth ar gael o ran atal i unrhyw staff sydd, neu y gwyddys eu bod wedi bod, yn gyflawnwyr.** Bydd NHS England hefyd yn defnyddio partneriaid arbenigol mewn cam-drin domestig i fod yn sail i'r cynllun a'i ffurfio.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 18 08-May-19 12:01:44

Mae'r Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) yn ariannu prosiect treialu 'tai cyflawn' yn Llundain a Swydd Gaergrawnt a fydd yn datblygu arfer a gwybodaeth gweithwyr tai proffesiynol yn y sectorau rhent preifat, eiddo preifat a rhent cymdeithasol. Mae llawer o'r pwyslais yn yr hyfforddiant a'r codi ymwybyddiaeth presennol yn y sector tai yn canolbwyntio ar dai cymdeithasol ond elfen allweddol o'r prosiect 'tai cyflawn' yw galluogi gwell ymgysylltu â chyrff proffesiynol landlordiaid a rhoi hyfforddiant ar gam-drin domestig i'w haelodau.

Cyhoeddodd y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD) ei Strategaeth 'No Defence for Abuse' yng Ngorffennaf 2018[6]. Mae'r strategaeth bum mlynedd hon yn tanlinellu, er nad oes tystiolaeth bod cam-drin domestig yn fwy cyffredin yn y gymuned amddiffyn, bod yr MOD yn cymryd mater cam-drin domestig yn ddifrifol iawn ac yn cydnabod bod agweddau o fywyd yn y lluoedd a all gael effaith ar fywyd teuluol. Mae'r Strategaeth yn nodi cynlluniau i greu diwylliant o ddiogelwch a chefnogaeth i'r rhai sy'n profi cam-drin domestig a'u plant, gan gymryd camau i chwalu rhwystrau a all atal dioddefwyr rhag gofyn am help. Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal – codi ymwybyddiaeth, annog bod yn agored a dynodi'r rhai sydd mewn mwyaf o berygl; ymyrraeth – galluogi i'r datgelu fod yn ddiogel, ymatebion priodol a chefnogaeth gyson; a llunio partneriaethau – gweithio ar draws terfynau yn y lluoedd amddiffyn i wella rhannu gwybodaeth, gweithio gyda sefydliadau arbenigol a chyrff arbenigol i annog darparu gwasanaethau wedi eu teilwrio ar gyfer y lluoedd arfog a dysgu o arfer gorau.

## 1.4 Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o gam-drin domestig

**Rydym yn gwybod bod dioddefwyr cam-drin domestig yn llawer mwy tebygol o ymddiried mewn teulu a ffrindiau nag yn yr heddlu neu asiantaethau.** Creodd Cymorth i Ferched y rhaglen 'Ask Me', sy'n cael ei chefnogi gan y llywodraeth, oherwydd bod dioddefwyr wedi dweud bod arnynt angen rhagor o help gan eu cymunedau lleol.

**Rydym yn gwybod bod grwpiau eraill fyddai'n gallu chwarae rôl bwysig wrth daclo cam-drin domestig.** Mae Cynllun y Cyflogwyr ar Gam-drin Domestig yn grŵp o dros 200 o gwmnïau a sefydliadau sector cyhoeddus sydd wedi dod at ei gilydd i helpu staff y mae cam-drin domestig wedi effeithio arnynt. Mae grwpiau eraill fel Busnes yn y Gymuned a'r Gynghrair Tai Cam-drin Domestig yn arloesi gwaith i daclo cam-drin domestig yn eu sectorau.

**Rydym yn ariannu nifer o brosiectau i wella ymwybyddiaeth gymunedol o gam-drin domestig.** Rydym wedi darparu £1.5 miliwn ar gyfer rhaglen 'Ask Me' Cymorth i Ferched i godi ymwybyddiaeth a chefnogaeth ymhlith pobl ifanc, a £1 miliwn ar gyfer prosiect 'Tools for the Job' Hestia Housing and Support, sy'n anelu at wella ymatebion cyflogwyr i gam-drin domestig.

[6] Y Weinyddiaeth Amddiffyn (2018) No Defence for Abuse. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/725400/Domestic_Abuse_MOD_booklet_Digital.pdf



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 13 08-May-19 12:01:44

**Rydym yn cydnabod bod angen rhoi mwy o wybodaeth i'r cyhoedd.** Dylai hyn amlinellu yn glir beth yw cam-drin domestig, a pha ddewisiadau sydd ganddynt os byddant yn ddioddefwr neu yn bryderus am rywun arall sydd yn ddioddefwr. Dylai'r cyfarwyddyd hefyd roi cyngor ar beth i'w wneud i'r rhai sy'n cael eu dynodi yn gyflawnwyr neu yn meddwl y gall rhywun y maent yn ei adnabod fod yn gyflawnwr.

**Rydym am herio'r agweddau cymdeithasol sy'n gadael i gam-drin domestig ddigwydd.** Trwy wneud cam-drin domestig yn annerbyniol yn gymdeithasol ar unrhyw ffurf, gallwn ddechrau atal cam-drin cyn iddo ddigwydd yn hytrach nag ymdrin â'r niwed ar ôl iddo ddigwydd.

### Fe ddywedsoch chi:

> *"Mae llawer o'r hyn sy'n digwydd tu ôl i ddrysau caeedig, rwy'n gwybod yn fy amgylchiadau i ei fod ef yn edrych yn wych i bawb oedd yn edrych i mewn."*

Fe wnaethoch ofyn am i fwy gael ei wneud i godi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig i bawb, gan gynnwys:

- pwy allai fod yn cael ei effeithio
- beth yw'r arwyddion ddylai roi rhybudd
- ble y gall dioddefwyr fynd i gael cefnogaeth
- ble y gall aelodau o'r teulu neu ffrindiau sy'n bryderus fynd i gael cyngor

Roedd yn amlwg bod angen cael gwell dealltwriaeth o'r ffaith y gall unrhyw un fod yn ddioddefwr, beth bynnag ei oed, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ethnigrwydd neu gefndir. Fe wnaethoch ddweud hefyd eich bod am i gyflogwyr wneud mwy i gefnogi dioddefwyr ac am weld mwy o gefnogaeth i ddioddefwyr yn y gymuned. Yr awgrym mwyaf cyffredin oedd cael ymgyrch ymwybyddiaeth genedlaethol.

### Byddwn yn:

**Byddwn yn parhau i ddarparu cyllid blynyddol o £1.1 miliwn hyd at 2020/21 ar gyfer llinellau cymorth, yn amodol ar ganlyniad yr Adolygiad Gwariant:** i gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig, stelcio, trais ar sail anrhydedd a phornograffi dial, yn ogystal â chyflawnwyr cam-drin domestig. Ar hyn o bryd rydym yn ail-dendro'r llinellau cymorth yma i wella'r gwasanaeth a gynigir.

**Byddwn yn parhau i ddangos arweinyddiaeth wrth gefnogi'r digwyddiadau Cynllun y Cyflogwyr a chodi ymwybyddiaeth am y pecyn offer cam-drin domestig Busnes yn y Gymuned.**[7] Mae hwn yn rhoi cefnogaeth a gwybodaeth i gyflogwyr, fel eu bod yn gallu deall cwmpas y broblem yn well a gwella'r gefnogaeth sydd ar gael i weithwyr, yn ddioddefwyr a chyflawnwyr, y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt.

**Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i adolygu, gwerthuso a deall y gweithgareddau cyfathrebu presennol, a fydd yn helpu i fod yn sail i weithgaredd cyfathrebu yn y dyfodol.**

[7] Busnes yn y gymuned (2018) Domestic abuse: a toolkit for employers. Ar gael yn: https://wellbeing.bitc.org.uk/sites/default/files/kcfinder/files/bitc_phe_domestic_abuse_toolkit.pdf.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 20 08-May-19 12:01:44

Bydd hyn yn cynnwys dynodi ble mae bylchau posibl a chyfleoedd i'r llywodraeth wella ein dull cyfathrebu.

**Byddwn yn gweithio i daclo normau rhywedd niweidiol, i gydnabod bod pob ffurf ar drais yn erbyn menywod a merched yn achosi anghyfartaledd ehangach rhwng y ddau ryw ac o ganlyniad i hynny hefyd.** Trwy'r Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod a Merched sydd wedi ei hadnewyddu, rydym yn cychwyn ar raglen uchelgeisiol i daclo normau rhywedd cyfyngol a niweidiol, gan roi pwyslais ar weithio gyda'r diwydiant hysbysebu, ar ddelwedd y corff, a thrwy weithio gyda dynion a bechgyn i herio agweddau niweidiol.

Bydd y DWP yn ceisio diweddaru cynhyrchion cyfathrebu a deunyddiau Credyd Cynhwysol sy'n bodoli (er enghraifft, y taflenni sy'n chwalu'r chwedlau a'r wefan Deall Credyd Cynhwysol) i gynnwys deunydd ychwanegol ar y pecyn o gefnogaeth sydd gan y DWP eisoes i ddioddefwyr cam-drin domestig ac i gyfeirio ato. Mae'r gefnogaeth hon yn cynnwys amrywiaeth o fesurau, gan gynnwys hawddfraint amodol, taliadau ymlaen llaw, cyfeiriadau at sefydliadau arbenigol, darpariaethau arbennig mewn Budd-dal Tai a chymorth tai Credyd Cynhwysol, ac eithriadau o ffioedd ymgeisio i'r Gwasanaeth Cynnal Plant.

Mae'r dewis i ofyn am daliadau wedi eu rhannu hefyd ar gael i hawlwyr fel rhan o'r pecyn hwn o gefnogaeth. Pan fydd unigolyn sy'n dioddef cam-drin domestig yn gofyn am daliad wedi ei rannu, bydd y DWP yn ei gefnogi i wneud y trefniant hwn. Bydd taliadau wedi eu rhannu yn cael eu rhoi bob amser pan ofynnir amdanynt, a phan fyddant y dewis gorau i'r hawlydd. Gellir defnyddio taliadau wedi eu rhannu i gefnogi hawlwyr mewn nifer o sefyllfaoedd gwahanol, pan fydd camreoli ariannol, er enghraifft pan fydd un aelod o'r cwpl yn gaeth i rywbeth, neu yn dioddef cam-drin domestig. Ni fydd yr holl ddioddefwyr cam-drin domestig am rannu taliad, ac felly rydym yn gweithio gyda hawlwyr ar sail pob achos unigol.

Mae'r DWP hefyd yn rhagweithiol yn archwilio camau ychwanegol ar sail cyfarfod ar lefel swyddogion gyda chydweithwyr yn y Swyddfa Gartref, ac arweiniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinidog Cymorth i Deuluoedd, Tai a Chynnal Plant.

Er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r gefnogaeth hon, bydd y DWP hefyd yn gobeithio creu taflen wybodaeth wedi ei theilwrio a chyfres o asedau digidol, er enghraifft, fideos esbonio a ffeithluniau y gellid eu defnyddio a'u rhannu ar-lein ar draws sianeli corfforaethol a rhanddeiliaid. Byddwn yn ceisio annog rhanddeiliaid i rannu'r wybodaeth hon yn fewnol ac allanol gyda'u staff ac i'w hyrwyddo yn allanol i'r cynulleidfaoedd y maent yn eu cyrraedd. Gall y cynnwys hwn hefyd gael ei deilwrio i'w ddefnyddio gan ein cydweithwyr gweithredol mewn Canolfannau Gwaith ac yn eu trafodaethau gyda hawlwyr posibl sy'n ddioddefwyr cam-drin. Byddai gan unrhyw gynnyrch arddull 'negeseuon sy'n rhoi gwybodaeth' ac yn cynnwys yr alwad i weithredu/ddolen i GOV.UK berthnasol a chefnogaeth bellach.

Mae timau cyfathrebu'r Swyddfa Gartref a'r DWP hefyd yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau dull integredig o ymdrin â chyfathrebiadau cam-drin domestig.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 21 08-May-19 12:01:44

## Adran 2: Diogelu a chefnogi dioddefwyr

### 2.1 Cefnogaeth i blant

**Ni ddylai unrhyw blentyn fyth brofi'r trawma y mae cam-drin domestig yn ei achosi.** Dengys ymchwil bod rhwng chwarter a thraean y plant yn y Deyrnas Unedig wedi bod yn agored i gam-drin domestig. Gall plant fod yn dystion i gamdriniaeth neu ei glywed, gweld gofid parhaus eu rhiant a chael eu niweidio yn ceisio ymyrryd. Mae llawer o rai yn eu harddegau hefyd yn dioddef cam-drin domestig yn eu perthnasau eu hunain.

**Rydym yn gwybod sut y gall cam-drin domestig gael effaith ddifrifol, dymor hir ar blant.** Gall tyfu ar aelwyd llawn ofn a bygythiadau gael effaith ddifrifol ar les plant a'u datblygiad, a bydd yr effeithiau yn parhau wrth iddynt dyfu yn oedolion. Mae plant sydd wedi bod yn agored i gam-drin domestig yn fwy tebygol o ddioddef anawsterau iechyd meddwl, o wneud yn waeth yn yr ysgol ac o brofi cam-drin domestig yn nes ymlaen yn eu bywydau.

**Mae plant sydd wedi bod yn agored i gam-drin domestig yn ddioddefwyr cam-drin domestig.** Gwnaeth Deddf Troseddau Difrifol 2015 hi'n glir y gall creulondeb i blant sy'n achosi dioddefaint seicolegol fod yn drosedd. Mae hyn yn cynnwys pan fydd plant yn cael niwed emosiynol trwy fod yn agored i gam-drin domestig, gan ddal y cyflawnwyr i gyfrif am effaith eu cam-drin ar blant. Dan y gyfraith fel y mae, mae'r diffiniad o 'niwed' i blant yn cydnabod effaith gweld neu glywed cam-drin ar rywun arall, felly gall awdurdodau lleol weithredu i ddiogelu plant sy'n dystion i gam-drin domestig.

**Cam-drin domestig yw'r risg fwyaf cyffredin sy'n effeithio ar blant mewn angen, sy'n derbyn help statudol a'u diogelu gan ofal cymdeithasol plant.** Mae gan y plant yma anghenion cymhleth, ac yn yr ysgol maent yn gwneud yn llawer gwaeth na'u cymheiriaid. Yn ddiweddar cyhoeddodd yr Adolygiad Plant Mewn Angen ganfyddiadau interim ar beth sy'n gweithio i gefnogi'r plant yma a gwella eu deilliannau addysgol.

**Rydym wedi cynnal adolygiad o lenyddiaeth am effaith cam-drin domestig ar blant,** sydd wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen ymateb i ymgynghoriad hon fel atodiad i'r papur *Economic and Social Cost of Domestic Abuse* . Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn cyfrannu at y ddealltwriaeth ehangach o sut y mae cam-drin domestig yn effeithio ar blant.

**Rydym wedi darparu cyllid er mwyn galluogi i Ymgyrch Cwmpasu gael ei chyflwyno trwy Gymru a Lloegr. Cynllun yw Ymgyrch Cwmpasu sy'n hwyluso gweithio amlasiantaethol i gefnogi plant sy'n dystion i gam-drin domestig.** Mae'r cynllun yn cefnogi'r heddlu ac ysgolion i weithio gyda'i gilydd i ddarparu help emosiynol ac ymarferol i ddisgyblion y mae'n effeithio arnynt. Er mai dim ond yn yr achosion mwyaf difrifol y mae gofal cymdeithasol plant yn ymyrryd, mae Ymgyrch Cwmpasu yn galluogi pob plentyn i gael cefnogaeth, os yw'r digwyddiad wedi ei gofnodi fel trosedd neu beidio.

Argymhellodd Ymchwiliad y Pwyllgor Dethol Materion Cartref i gam-drin domestig y dylai plant mewn lloches gael blaenoriaeth i leoedd newydd mewn ysgolion i atal oedi os byddant wedi cael eu gorfodi i ffoi o'u cartref a bod arnynt angen symud o fewn blwyddyn ysgol.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 22 08-May-19 12:01:44

Rydym eisoes wedi buddsoddi dros £1 biliwn i ddatblygu gallu a lle ar draws y system i gefnogi'r trawsnewidiad yn iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Bydd hyn yn sicrhau bod 70,000 yn ychwanegol o blant y flwyddyn yn cael y gefnogaeth y mae arnynt ei hangen erbyn 2020/21.

### Fe ddywedsoch chi:

> *"Mae fy mab yn ei arddegau yn awr yn dweud wrthyf ei fod yn arfer meddwl y byddwn yn cael fy lladd ac fe dyfodd yn cael ei arteithio gan yr ofn a'i gwnaeth yn gyndyn o fynd i'r ysgol am ei fod ofn fy ngadael."*

Fel ymateb i'r ymgynghoriad, rhedodd yr NSPCC weithdy gyda 10 o bobl ifanc 11 i 19 oed â phrofiad o gam-drin domestig. Fe wnaethant ddisgrifio teimlo yn drist, yn ofnus, yn bryderus ac isel o ganlyniad i fod yn dystion i gam-drin. Roedd y bobl ifanc yn bryderus am y ffordd y gallai byw gyda cham-drin domestig effeithio ar eu hymddygiad a'u dyfodol. Fe wnaethant fynegi pryderon am droi at gyffuriau ac alcohol, ymwneud â bwlis neu gangiau, a pheidio â bod ag unrhyw le i ffoi, ac felly rhedeg i ffwrdd a mynd yn ddigartref.

Dywedodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad bod ar blant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt angen cefnogaeth i ymadfer. Roedd yr awgrymiadau yn cynnwys helpu plant i deimlo'n ddiogel ac yn cael cefnogaeth yn yr ysgolion, ymateb mwy effeithiol gan blant a gweithwyr cymdeithasol teuluol, ac ymyraethau therapiwtig.

Argymhellodd Ymchwiliad y Pwyllgor Dethol Materion Cartref i gam-drin domestig y dylai'r Mesur Cam-drin Domestig drafft ddiogelu plant sydd wedi dioddef cam-drin domestig yn glir ac y dylai'r llywodraeth ddatblygu strategaeth glir i sicrhau bod plant yn cael eu diogelu ac yn cael cefnogaeth wedi ei seilio ar gyllid digonol ar gyfer gwasanaethau arbenigol.

### Byddwn yn:

**Byddwn yn dyrannu cyllid i gefnogi plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt.** Ym mis Gorffennaf 2018, lansiodd y llywodraeth gronfa i roi cyfle i elusennau, awdurdodau lleol a sefydliadau eraill redeg rhaglenni sy'n ymyrryd yn gynnar ac yn helpu plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt. Gall hyn fod yn blant sy'n agored i gam-drin domestig yn y cartref teuluol, yn profi cam-drin domestig yn eu perthynas eu hunain neu yn dangos ymddygiad niweidiol tuag at y rhai agosaf atynt. Gellir gweld manylion y ceisiadau llwyddiannus yn Atodiad A.

Rhaid i bawb gydnabod bod plant sydd wedi bod yn agored i gam-drin domestig yn ddioddefwyr trosedd. Nid oes raid iddynt gael eu niweidio yn gorfforol yn uniongyrchol, ond maent yn dioddef pan fyddant yn agored i gam-drin domestig ac yn byw mewn amgylchedd o ofn a bygythiadau. **Byddwn yn cynnal gwaith ymchwil i ddeall pam nad oes mwy o gyflawnwyr cam-drin domestig yn cael eu collfarnu am achosi niwed emosiynol i blant, ac a ddylid gweithredu i wella'r ymateb i'r drosedd hon.**



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 23 08-May-19 12:01:44

**Trwy'r adolygiad Plant Mewn Angen byddwn yn dynodi beth sydd angen ei wneud o ran polisi ac yn ymarferol i ymdrin ag anghyfiawnder deilliannau addysgol gwaelach i blant mewn angen.** Bydd hyn yn seiliedig ar dystiolaeth am beth sydd yn gweithio, a byddwn yn parhau i gasglu'r dystiolaeth trwy bartneriaeth barhaus gyda thair Canolfan Beth sy'n Gweithio, gan gynnwys dadansoddiad newydd gan y Sefydliad Gwaddol Ariannol.

Rydym wedi darparu £163,000 i ariannu cyflwyno Ymgyrch Cwmpasu yn genedlaethol ar draws yr holl luoedd heddlu a'i werthuso. **Byddwn yn monitro gweithrediad cyflwyno'r ymgyrch ac yn rhannu canfyddiadau'r gwerthusiad er mwyn cynyddu ei effeithiolrwydd a datblygu'r cynllun ymhellach.**

Mae'r Cod Derbyniadau Ysgol yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gael Protocol Mynediad Teg i sicrhau bod plant heb le mewn ysgol, yn arbennig y rhai mwyaf bregus, yn cael cynnig lle mewn ysgol addas heb oedi diangen. Ond, rydym yn cydnabod y gall sialensiau godi. Felly, fel rhan o'r Adolygiad Plant Mewn Angen, **byddwn yn gwella'r broses ar gyfer derbyniadau yn ystod y flwyddyn trwy ystyried newidiadau i'r Cod Derbyniadau Ysgolion i helpu plant agored i niwed, gan gynnwys y rhai mewn lloches, i gael mynediad i le newydd yn yr ysgol mor gyflym â phosibl.**

Cyhoeddwyd Trawsnewid Darpariaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc: Papur Gwyrdd[8] yn Rhagfyr 2017. Roedd hwn yn nodi cynigion uchelgeisiol i lenwi'r bwlch yn y gefnogaeth i iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Rydym yn creu cymhelliant ac yn cefnogi pob ysgol a choleg i ddynodi a hyfforddi Uwch Arweinydd Dynodedig Iechyd Meddwl ac yn ariannu hyfforddiant newydd i helpu'r arweinwyr sefydlu dull ar gyfer yr ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl. Rydym hefyd yn cyflwyno Timau Cefnogi Iechyd Meddwl newydd i weithio mewn ysgolion a cholegau neu yn agos atynt i roi mynediad cynharach at ystod ehangach o gefnogaeth a thriniaethau.

## 2.2 Adnoddau

### 2.2.1 Cyllid

**Rydym yn deall y bydd cael yr offer a'r gwasanaethau cywir i ddiogelu a chefnogi dioddefwyr cam-drin domestig yn gwneud unigolion a theuluoedd yn ddiogel, ynghynt.** Efallai y bydd angen gwahanol fathau o gefnogaeth ar amseroedd gwahanol ar daith dioddefwr, ac mae'n bwysig bod ariannu gwasanaethau cam-drin domestig yn adlewyrchu hynny.

**Rydym wedi cefnogi amrywiaeth o wasanaethau dan arweiniad gwirfoddolwyr dros y 10 mlynedd diwethaf.** Ond, rydym yn deall bod angen gwneud rhagor eto i sicrhau bod y gwasanaethau hyn a rhai eraill tebyg yn cael y gefnogaeth y mae arnynt ei hangen i barhau i ddarparu gwasanaeth o safon uchel.

**Mae'r dirwedd ariannu gwasanaethau cam-drin domestig yn un amrywiol.**
Mae angen cyllid i gefnogi: llety diogel, gan gynnwys llochesi a thai cymdeithasol; gweithwyr cefnogi, gan gynnwys Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA); a gwasanaethau cyswllt cyntaf, fel llinellau cymorth. Mae arnom angen sicrhau hefyd bod **y gwasanaethau hyn yn gweithio i gymunedau ar lefel leol, a bod y gwasanaeth a ddarperir ar sail gwybodaeth trwy weithio amlasiantaethol effeithiol.**

[8] https://www.gov.uk/government/consultations/transforming-children-and-young-peoples-mental-healthprovision-a-green-paper



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 24 08-May-19 12:01:44

Yn y Strategaeth Dioddefwyr,[9] ymdriniwyd â chyllid i ddioddefwyr cam-drin domestig mewn tri maes allweddol. Mae llawer o ddioddefwyr cam-drin domestig hefyd yn profi trais rhywiol ac yn ceisio help gan wasanaethau trais rhywiol. **Rydym yn ymateb i'r galw cynyddol am wasanaethau trais rhywiol.** Rydym wedi cynyddu'r cyllid ar gyfer gwasanaethau cefnogi treisio a cham-drin rhywiol ar draws Cymru a Lloegr – gan gynnig £24 miliwn dros dair blynedd i roi cyngor, cefnogaeth a chwnsela i fenywod y mae treisio a cham-drin rhywiol yn effeithio arnynt. Bydd y cyllid hwn yn cynyddu gwytnwch y sector ehangach gan gefnogi dioddefwyr trais rhywiol, gan gynnwys y rhai sy'n profi cam-drin domestig, i roi cefnogaeth brydlon, gychwynnol.

Yn y Strategaeth Dioddefwyr, cyhoeddwyd gennym hefyd y byddem yn cynyddu'r cyllid o £200,000 dros ddwy flynedd i roi rhagor o gefnogaeth eiriolaeth i deuluoedd sydd wedi cael profedigaeth oherwydd lladdiad domestig. Rydym eisiau sicrhau bod teuluoedd mewn profedigaeth, sy'n cydsynio, yn derbyn cefnogaeth eiriolaeth arbenigol.

Rydym yn cydnabod yr effaith ddinistriol y mae cam-drin domestig yn ei gael ar blant, a lansiwyd cronfa £8 miliwn yn 2018 i blant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt, mae manylion yr ymgeiswyr llwyddiannus yn Atodiad A.

Yn ychwanegol, mae NHS England gyda phartneriaid ar draws y llywodraeth wedi cyhoeddi Cyfarwyddyd Strategol ar gyfer Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol.[10] Nod y camau a nodir yn y Cyfarwyddyd Strategol yw gwella deilliannau iechyd i ddioddefwyr ymosodiadau a cham-drin rhywiol. Eu bwriad yw gwella mynediad at wasanaethau i ddioddefwyr ymosodiadau a cham-drin rhywiol yn radical a'u cefnogi i ymadfer, gwella ac ailadeiladu eu bywydau.

### Fe ddywedsoch chi:

> *"Dylai cyllid gael ei ddarparu mewn dull wedi ei gydlynu gan holl adrannau'r llywodraeth sy'n gyfrifol am ymateb i gam-drin domestig, gan y bydd pawb yn cael budd o'r arbediad mewn costau wrth atal a lleihau'r ffurf yma o niwed."*

O'r ymgynghoriad, gofynnwyd i chi ddewis hyd at dri maes yr oeddech yn teimlo y dylai llywodraeth y Deyrnas Unedig roi blaenoriaeth iddynt i gael cyllid gan y llywodraeth ganolog.


[9] Llywodraeth EM (2018) Strategaeth Dioddefwyr. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/746930/ vic tim-strategy.pdf.

[10] https://www.england.nhs.uk/wp-content/uploads/2018/04/strategic-direction-sexual-assault-and-abuseservices.pdf



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 25 08-May-19 12:01:44

**Ffigwr 2:** Ymatebion i Gwestiwn 10 yr ymgynghoriad: "Rydym yn y broses o ddynodi meysydd ddylai gael blaenoriaeth o ran cyllid y Llywodraeth ganolog ar gam-drin domestig. Pa rai o'r meysydd yma ydych chi'n ei gredu ddylai gael blaenoriaeth gan y Llywodraeth?"




## Byddwn yn:

Fel y cyhoeddwyd yn y Strategaeth Dioddefwyr, **byddwn yn datblygu model darparu gwasanaethau dioddefwyr newydd i gynyddu argaeledd gwasanaethau trwy gyllid mwy diwnïad a chynaliadwy.** Bydd hyn yn archwilio'r potensial i gysoni cyllid y llywodraeth ar gyfer gwasanaethau cefnogaeth i ddioddefwyr.

Mae'r llywodraeth eisoes wedi rhoi addewid o dros £100 miliwn o gyllid i daclo trais yn erbyn menywod a merched o 2016 i 2020. Mae dros £80 miliwn o'r cyfanswm hwn wedi cael ei ddyrannu ar gyfer darparu gwasanaethau dioddefwyr, gan gynnwys dros £40 miliwn ar gyfer gwasanaethau ar sail llety diogel a thua £5 miliwn ar gyfer llinellau cymorth cenedlaethol.

Wrth lansio'r ymgynghoriad, cyhoeddwyd y byddai £12 miliwn o'r £20 miliwn oedd yn weddill yn cefnogi plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt, troseddwyr benywaidd sydd wedi profi cam-drin domestig a phrosiect canfod llwybr iechyd a gynlluniwyd i ddynodi arfer gorau mewn lleoliadau gofal iechyd. **Gyda'r £8 miliwn sy'n weddill byddwn yn cefnogi amrywiaeth eang o unigolion y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt gan gynnwys:**

- y gymuned LGBT+
- dioddefwyr sy'n henoed
- dioddefwyr gwrywaidd
- dioddefwyr anabl



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 20 08-May-19 12:01:45

- y rhai y mae cam-drin gan adolesent ar riant yn effeithio arnynt
- dioddefwyr cam-drin economaidd

**Byddwn hefyd yn ariannu cynlluniau fydd yn cryfhau'r ymateb rheng flaen, cynyddu ymwybyddiaeth a gwybodaeth am gam-drin domestig ac yn darparu prosiectau i gefnogi dioddefwyr yn y system gyfiawnder – y gellir gweld manylion amdanynt yn Adrannau 1 a 3 o'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad, yn eu tro.**

**O fis Ebrill 2019, byddwn yn archwilio manteision comisiynu lleol llawn ar wasanaethau cefnogi treisio a thrais rhywiol gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (PCC).** Credwn y bydd hyn yn arwain at well integreiddio a gwasanaeth mwy cydlynol yn lleol i gynnig llwybrau cefnogi diwnïad i ddioddefwyr ag anghenion penodol neu gymhleth. Mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu mewn sefyllfa dda i ddeall anghenion dioddefwyr yn eu hardal, ac wedyn i gomisiynu gwasanaethau i fodloni'r anghenion hynny. Maent yn gyfarwydd â'r dirwedd o ran darparwyr lleol, gan gynnwys darparwyr llai sydd yn aml yn ei chael yn anodd ymgeisio yn llwyddiannus am botiau mwy o gyllid gan y llywodraeth ond sydd yn dal i ddarparu gwasanaeth arbenigol.

### 2.2.2 Gwasanaethau ar sail llety gan gynnwys llochesi

**Gwyddom pa mor bwysig yw hi i ddioddefwyr cam-drin domestig gael mynediad i lety diogel.** Credwn mai'r ffordd orau o asesu angen a darparu llety diogel yw trwy weld awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill.

**Mae MHCLG yn cynnal adolygiad o sut mae gwasanaethau cam-drin domestig yn cael eu comisiynu a'u hariannu ar draws Lloegr.** Mae'r gwaith hwn yn cyfuno ymrwymiadau'r maniffesto a'r Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod a Merched i adolygu cyllid ar gyfer llety diogel, gan gynnwys llochesi, a'r dull dan arweiniad lleol o gomisiynu a darparu'r gwasanaethau hyn. Seiliwyd yr adolygiad ar archwiliad annibynnol o ddarparu gwasanaethau cam-drin domestig ar draws Lloegr, i fesur maint a natur y ddarpariaeth gwasanaethau cam-drin domestig a sut y mae'n cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol yng nghyd-destun Blaenoriaethau Gwasanaethau Cam-drin Domestig MHCLG. Ym mis Medi a Hydref 2018, cynhaliodd MHCLG gyfres o ddigwyddiadau Cam-drin Domestig ar draws y wlad gydag awdurdodau lleol, y Gymdeithas Llywodraeth Leol a Chynghorau Llundain a phartneriaid allweddol o'r sector cam-drin domestig. Ceisiodd MHCLG hefyd farn gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu, sefydliadau eraill sy'n cefnogi dioddefwyr a grwpiau sy'n cefnogi dioddefwyr â nodweddion a ddiogelir. Roedd hwn yn gyfle i wrando a thynnu ar brofiad ac arbenigedd a chasglu gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio yn dda a ble mae sialensiau a rhwystrau yn atal dioddefwyr a'u plant rhag defnyddio'r gefnogaeth gywir ar yr adeg pan fydd arnynt ei hangen.

**Mae MHCLG yn parhau i weithio'n glos gyda phartneriaid yn y sector, gan dynnu ar eu data, arbenigedd a gwybodaeth, wrth iddi gyflawni'r gwaith allweddol hwn** i ddatblygu dewisiadau darparu cynaliadwy at y dyfodol ar gyfer elfennau o wasanaethau ar sail llety ar gyfer cam-drin domestig ar draws Lloegr.

**Gall y dewisiadau hyn gynnwys dyletswydd statudol neu gyfarwyddyd i awdurdodau lleol a all gael ei gynnwys yn y Mesur Cam-drin Domestig** (ni fydd y ddarpariaeth hon yn y Mesur drafft).



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 27 08-May-19 12:01:45

**Nid yw deilliannau'r adolygiad ar eu ffurf derfynol eto ond mae MHCLG yn bwriadu lansio ymgynghoriad cyhoeddus yn fuan.**

**Bydd MHCLG yn parhau i fuddsoddi ym mhrosiect 'Llwybrau at Gefnogaeth' Cymorth i Ferched,[11] yn amodol ar ganlyniad yr Adolygiad Gwariant. Mae'r cyllid yn cyfrannu at gronfa ddata a staff i gefnogi dioddefwyr sydd angen mynediad i lochesi** ac yn galluogi monitro a dadansoddi manwl ar argaeledd gwelyau a gwasanaethau eraill trais yn erbyn menywod a merched. Mae'r cyllid hefyd yn cynnal y prosiect 'No Woman Turned Away',[12] sy'n cynnig cefnogaeth gweithiwr achos i ddioddefwyr a all fod wedi wynebu anawsterau yn cael lloches. Ers 2016, mae 668 o ddioddefwyr wedi cael eu cefnogi.

*Tai â chefnogaeth*
Cyhoeddwyd gennym ym mis Awst y bydd budd-dal tai yn cael ei gynnal ar gyfer pob tai â chefnogaeth. Bydd hyn yn berthnasol i bob tai â chefnogaeth gan gynnwys llochesi. Mae hyn yn adlewyrchu anghenion penodol y grwpiau bregus o bobl sy'n defnyddio tai â chefnogaeth, ac ymrwymiad y llywodraeth i gael y deilliant gorau posibl iddynt. Rydym yn gweithio ar drefniadau goruchwylio i sicrhau bod ansawdd a gwerth am arian yn cael eu darparu yn y sector hon.

*Tenantiaethau diogel*
Aeth y llywodraeth â'r Ddeddf Tenantiaethau Diogel (Dioddefwyr Cam-drin Domestig) 2018[13] (Deddf 2018) trwy'r Senedd i gyflawni ar ymrwymiad maniffesto i sicrhau, pan fydd awdurdodau lleol yn rhoi tenantiaeth newydd i denantiaid am oes sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig, bod rhaid iddi fod yn denantiaeth am oes arall.

Diwygiodd Deddf 2018 ddarpariaethau yn Neddf Tai a Chynllunio 2016 sy'n gwneud tenantiaethau tymor penodol yn gyffredinol yn orfodol i awdurdodau lleol. Ond, mae'r papur gwyrdd tai cymdeithasol[14] ers hynny wedi cyhoeddi penderfyniad i beidio gweithredu'r darpariaethau tenantiaeth tymor penodol yn Neddf Tai a Chynllunio 2016 ar yr adeg hon.

Mae hyn yn golygu na allwn weithredu Deddf 2018 ar hyn o bryd. Mae'r papur gwyrdd felly yn cynnwys ymrwymiad i ddwyn deddfwriaeth newydd ymlaen i sefydlu diogeliadau tebyg i ddioddefwyr cam-drin domestig pan fydd awdurdodau lleol yn cynnig tenantiaethau tymor penodol yn ôl eu barn eu hunain. Mae'r Mesur Cam-drin Domestig drafft yn cynnwys darpariaethau i gyflawni ar yr ymrwymiad hwn.

*Mynediad at dai cymdeithasol i ddioddefwyr cam-drin domestig*
Yn dilyn ymgynghoriad, cyhoeddodd y llywodraeth gyfarwyddyd statudol newydd[15] i awdurdodau lleol ar 10 Tachwedd 2018, a fwriadwyd i helpu dioddefwyr cam-drin domestig sydd ar hyn o bryd yn byw mewn lloches, neu fath arall o lety diogel i symud ymlaen i dai cymdeithasol.

---

[11] https://www.womensaid.org.uk/routes-to-support/
[12] https://www.womensaid.org.uk/research-and-publications/nowomanturnedaway/
[13] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2018/11/contents/enacted
[14] MHCLG (2018) *A new deal for social housing*. Papur gwyrdd. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/ file/733605/A_ new_deal_for_social_housing_web_accessible.pdf.
[15] MHCLG (2018) *Improving Access to Social Housing for Victims of Domestic Abuse in Refuges or Other Types of Temporary Accommodation: Statutory guidance on social housing allocations for local authorities in England*. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/ attachment_data/file/753667/Im proving_access_to_social_housing_for_victims_of_domestic_abuse.pdf.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 22 08-May-19 12:01:45

Mae'r cyfarwyddyd newydd yn adeiladu ar gyfarwyddyd dyrannu tai cymdeithasol statudol sy'n bodoli i wella mynediad at dai cymdeithasol i ddioddefwyr cam-drin domestig trwy:

- ei gwneud yn glir bod disgwyl i awdurdodau lleol beidio gweithredu unrhyw brofion preswylio i'r dioddefwyr hynny sydd wedi ffoi i loches neu fath arall o lety dros dro yn ardal awdurdod lleol arall;
- nodi sut y gall awdurdodau lleol sicrhau bod dioddefwyr sydd mewn lloches neu fath arall o lety dros dro yn cael blaenoriaeth briodol.

Mae'r cyfarwyddyd hefyd yn cynghori awdurdodau lleol ar sut y gallant ddefnyddio eu grymoedd presennol i gefnogi tenantiaid sydd yn ddioddefwyr cam-drin domestig i aros yn ddiogel yn eu cartrefi os byddant yn dewis gwneud hynny; er enghraifft, trwy drefnu camau diogelwch priodol a/neu droi'r cyflawnwr allan a rhoi tenantiaeth unigol i'r dioddefwr.

### 2.2.3 Prosiect Partneriaeth Tai Cyflawn

Fel y soniwyd yn Adran 1. mae MHCLG yn ariannu, fel rhan o'u cronfa £22 miliwn ddiweddar, cynllun treialu prosiect partneriaeth 'tai cyflawn' yn Llundain a Swydd Gaergrawnt i ddarparu cefnogaeth tai unigol i amrywiaeth o ddioddefwyr cam-drin domestig a'u plant. Mae'n cynnwys pob math o dai o dai preifat trwodd i dai cymdeithasol a llochesi a bydd yn sicrhau bod yr ystod lawn o weithwyr cysylltiedig â thai proffesiynol yn gallu adnabod cam-drin domestig ac ymyrryd yn briodol yn gynharach. Bydd yn galluogi gwell ymgysylltu gyda chyrff proffesiynol landlordiaid a hyfforddiant i'w haelodau. Yn ychwanegol, bydd arfer da ar gael i landlordiaid er mwyn osgoi troi allan ac i roi cefnogaeth gynnar i ddioddefwyr cam-drin domestig.

### 2.2.4 Cefnogaeth i'r rhai na allant droi at gyllid cyhoeddus

**Rydym yn cydnabod nad oes gan bawb sy'n byw yn y Deyrnas Unedig fynediad awtomatig at gyllid cyhoeddus.** Mae'r consesiwn trais domestig diymgeledd ar gael i gefnogi unigolion o'r fath fel eu bod yn gallu dianc oddi wrth y gamdriniaeth.

**Mae'r consesiwn trais domestig diymgeledd yn rhoi cyfnod o dri mis i unigolion cymwys aros y tu hwnt i'r rheolau mewnfudo, gan eu caniatáu i ymgeisio am fynediad at arian cyhoeddus,** a all eu helpu i ariannu llety gwahanol oddi wrth yr un sy'n eu cam-drin. Mae'r cyfnod ychwanegol hwn yn galluogi unigolion i ystyried a gwneud trefniadau i gysoni eu statws trwy ymgeisio am hawl parhaol i aros os dymunant. Mae'r consesiwn trais domestig diymgeledd yn agored i bartneriaid dinasyddion Prydeinig ac unigolion sydd wedi setlo pan fydd y partneriaid hynny ar fisa priod, partner sifil, partner dibriod neu bartner o'r un rhyw.

**Er nad ydynt yn gymwys am y consesiwn trais domestig diymgeledd, rydym yn rhoi cefnogaeth gyfatebol i geiswyr lloches os byddant yn ddiymgeledd.** Mae systemau ar gael sy'n galluogi darparwyr llety i symud dioddefwyr cam-drin domestig sy'n ceisio lloches yn gyflym i fan diogel.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 29 08-May-19 12:01:45

Rydym yn edrych ar sut y gellir gwella'r ffordd y mae'r system fewnfudo yn gweithio i ddioddefwyr cam-drin domestig.

O ran ymateb yr heddlu i'r mater hwn, mae polisi clir pan fydd unigolyn wedi dweud wrth yr heddlu ei fod yn ddioddefwr trosedd, yn arbennig rhai sy'n agored iawn i niwed, byddant yn cael eu trin fel dioddefwyr yn gyntaf ac yn bennaf, beth bynnag yw eu statws o ran mewnfudo.

### Fe ddywedsoch chi:

*"Mae diffyg dealltwriaeth o hyd ymhlith gweithwyr proffesiynol rheng flaen am ba gefnogaeth sydd ar gael i fenywod na allant droi at gyllid cyhoeddus. Mae llawer o fenywod yn ofni cael eu halltudio gymaint fel nad ydynt yn rhoi adroddiad am droseddau trais rhywiol a domestig i'r heddlu, nac yn chwilio am gefnogaeth i ffoi rhag y gamdriniaeth, er bod ganddynt hawl i gael eu diogelu."*

Gofynnodd yr ymgynghoriad pa gamau eraill y gall y llywodraeth eu cymryd, yn ychwanegol at adolygu pwy all fod yn gymwys ar gyfer consesiwn trais domestig diymgeledd, o ran diogelu dioddefwyr cam-drin domestig na allant droi at arian cyhoeddus.

Fe wnaethoch amlygu'r diffyg ymwybyddiaeth ymhlith dioddefwyr, y cyhoedd a sefydliadau arbenigol am hawliau mewnfudo i ddioddefwyr cam-drin domestig mudol.

Gwnaethoch argymell ehangu'r cohort cymwys ar gyfer consesiwn trais domestig diymgeledd i gynnwys y rhai nad ydynt ar fisa partner. Roedd argymhellion hefyd ar gyfer ymestyn y cyfnod o amser y mae'r consesiwn trais domestig diymgeledd ar gael, o dri mis i chwe mis.

Nododd Ymchwiliad y Pwyllgor Dethol Materion Cartref i gam-drin domestig bod statws mewnfudo ynddo ei hun yn cael ei ddefnyddio gan gyflawnwyr cam-drin domestig fel dull o reoli a gorfodi ac mae'n hanfodol i statws mewnfudo anniogel beidio atal dioddefwyr camdriniaeth rhag cael eu diogelu a chael mynediad at gyfiawnder.

### Byddwn yn:

**Byddwn yn helpu i gynyddu gallu ac arbenigedd tymor hir am hawliau mewnfudo i'r rhai sy'n gweithio i frwydro yn erbyn cam-drin domestig.** Fe fyddwn yn adeiladu ar y diogeliadau presennol dan y consesiwn trais domestig diymgeledd i wella ein dealltwriaeth o'r nifer o ddioddefwyr mudol sydd angen cefnogaeth argyfwng, gan ddarparu cyllid ar gyfer prosiectau o'r fath trwy grant £500,000.

**Byddwn yn ystyried y ffordd orau i gynyddu ymwybyddiaeth o'r consesiwn trais domestig diymgeledd** a'r gefnogaeth sydd ar gael i ddioddefwyr mudol.

**Byddwn yn ystyried y ddadl dros ehangu'r cohort o unigolion sy'n gymwys dan y consesiwn trais domestig diymgeledd.** Fe gymer amser i gasglu tystiolaeth i seilio unrhyw benderfyniadau arni. Mewn rhai achosion fe **all fod yn well i'r dioddefwyr cam-drin domestig ddychwelyd i'w gwlad wreiddiol, a phan fydd hynny ar gael, at gefnogaeth eu teuluoedd a'u ffrindiau.**



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 30 08-May-19 12:01:45

**Rydym wedi ystyried y rhesymeg polisi ar gyfer ymestyn y consesiwn trais domestig diymgeledd o dri i chwe mis ac rydym wedi dod i'r casgliad na fyddai'n gwneud fawr o wahaniaeth** wrth gefnogi dioddefwyr tra byddant yn gwneud trefniadau o ran eu statws mewnfudo yn y dyfodol. Mae hyn oherwydd bod y mwyafrif llethol o geisiadau am hawl amhenodol i aros a wneir ar sail dioddef cam-drin domestig yn cael eu datrys yn gyflym ac ymhell o fewn tri mis.

**Bydd arweinwyr cam-drin domestig a bregusrwydd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu (NPCC) yn gweithio gyda lluoedd heddlu i gynyddu ymwybyddiaeth o gyfarwyddyd ar gefnogi dioddefwyr â statws mewnfudo anniogel i helpu i oresgyn rhwystrau sy'n atal rhoi adroddiad a chael mynediad at ddiogeliad a chefnogaeth.** Mae Gorfodi Mewnfudo hefyd yn gweithio gydag arweinydd yr NPCC ar gam-drin domestig i sicrhau bod yr heddlu a swyddogion mewnfudo yn gweithio ar y cyd i ddynodi dioddefwyr yn gyflym ac i sicrhau na ddefnyddir statws mewnfudo gan y cyflawnwyr i orfodi a rheoli mudwyr bregus.

## 2.3 Cydweithio: ymateb amlasiantaethol rhagweithiol ac ymatebol

### 2.3.1 Gorchymyn Diogelu Cam-drin Domestig

Mae gorchmynion diogelu yn offer pwysig i gadw dioddefwyr yn ddiogel ac atal y gamdriniaeth rhag parhau a/neu waethygu. Maent yn cynnig cyfle i ddioddefwyr ystyried y dewisiadau sydd ar gael iddynt ac yn rhoi amser i'r heddlu gasglu tystiolaeth i lunio achos.

Mae amrywiaeth o orchmynion, gan gynnwys Gorchymyn Diogelu Trais Domestig (DVPO), sydd yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd i ddiogelu dioddefwyr cam-drin domestig, ond gall hyn arwain at ddryswch a phroblemau o ran gorfodi.

Dywedodd rhai bod y diffyg cosb droseddol am dorri amodau yn cyfyngu ar effeithlonrwydd y DVPO.

Rydym am gyflwyno Hysbysiad Diogelu Cam-drin Domestig (DAPN) a Gorchymyn Diogelu Cam-drin Domestig (DAPO) newydd. Bydd y rhain yn cyfuno'r elfennau cryfaf o'r gorchmynion amrywiol sy'n bodoli ac yn cynnig llwybr hyblyg i ddioddefwyr ac ymarferwyr.

**Fe ddywedsoch chi:**

> *"Mae lliflinio gorchmynion diogelu a hefyd rhoi mwy o ddannedd i'r DAPO yn gam positif."*

Dangosodd yr ymatebion o'r ymgynghoriad bod y mwyafrif ohonoch yn cytuno â'r cynigion am y DAPN a'r DAPO newydd ond eich bod am i ni sicrhau y byddai'r gorchmynion newydd yn hawdd cael mynediad atynt, yn cael eu gorfodi yn briodol ac yn cael eu cefnogi gan gefnogaeth a chyfarwyddyd i ddioddefwyr ac i'r asiantaethau sy'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn gweithio yn effeithiol.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 31 08-May-19 12:01:45

Ar y cyfan, cytunodd 56% ohonoch hefyd y dylai'r DAPN weithredu yn yr un ffordd â'r Hysbysiad Diogelu Trais Domestig presennol ond eich bod am sicrhau bod yr heddlu yn cael eu cefnogi a'u hyfforddi i ddefnyddio'r hysbysiadau newydd.

### Byddwn yn:

**Byddwn yn deddfu i ddarparu ar gyfer y DAPN a'r DAPO newydd.** Rydym yn cydnabod bod y gorchymyn newydd yn cyflwyno rhai syniadau nad ydynt wedi eu profi, er enghraifft o ran effeithiolrwydd monitro electronig yn y cyd-destun hwn, ac rydym am barhau i weithio gyda gweithwyr proffesiynol arbenigol o'r heddlu, llysoedd a'r sector cam-drin domestig arbenigol i sicrhau bod y gorchmynion newydd yma yn gweithio ar lawr gwlad. I'r diben hwn, byddwn yn treialu'r DAPN a'r DAPO mewn nifer o ardaloedd lluoedd heddlu.

Er mwyn cefnogi cyflwyno'r gorchmynion **byddwn yn cyhoeddi cyfarwyddyd statudol a rhaglen o hyfforddiant a phecynnau offer ymarferol yn cyd-fynd ag ef i weithwyr proffesiynol**.

*Pwy all ymgeisio?*
**Mae'r ceisiadau am orchmynion blaenorol wedi bod ar agor i wahanol grwpiau.** Fe ofynnwyd i chi pwy yr oeddech chi'n ei deimlo ddylai allu ymgeisio am DAPO a pham.

### Fe ddywedsoch chi:

*"Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn ei bod yn eithaf syml i'r dioddefwr gael y diogeliad hwn. Mae'n gam mor fawr gofyn i rywun am help felly mae'n codi ofn meddwl bod rhaid i chi ei ailadrodd i gyd eto wrth rhywun arall. Wnes i erioed roi gwybod i'r heddlu am y trais a ddigwyddodd gan fod arnaf ormod o ofn."*

Fe ddywedsoch chi y dylai amrywiaeth eang o bobl fedru ymgeisio am DAPO, gyda 60% ohonoch yn dewis y dioddefwr, 62% yn dewis yr heddlu, 54% yn dewis trydydd bartïon perthnasol a 44% yn dewis rhai unigolion eraill gyda chaniatâd y dioddefwr a/neu'r llys.

Ond fe wnaethoch godi pryderon am adael i unigolion sy'n gysylltiedig â'r dioddefwr, fel aelodau o'r teulu neu ffrindiau, i ymgeisio oherwydd gall y llwybr hwn gael ei gamddefnyddio gan y rhai sy'n dymuno ymyrryd mewn perthnasau nad ydynt yn eu cymeradwyo.

### Byddwn yn:

**Byddwn yn galluogi dioddefwyr, yr heddlu a thrydydd partïon perthnasol i ymgeisio am DAPO** ond, gan dderbyn y pryderon a amlinellir uchod, nid yw'r mesur drafft **yn caniatáu i aelodau o'r teulu a ffrindiau ymgeisio yn uniongyrchol heb ganiatâd y llys.**



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 32 08-May-19 12:01:45

Bydd teulu a ffrindiau yn gallu mynd at yr heddlu neu wasanaethau arbenigol i chwilio am help i rywun sydd yn agos atynt, a bydd y rhain, yn eu tro, yn gallu gweithio gyda dioddefwr i benderfynu ar y llwybr o ran camau diogelu sydd orau i'r unigolyn. **Byddwn yn sicrhau bod cyfarwyddyd statudol yn gwneud y defnydd gorau o brosesau amlasiantaethol i sicrhau bod yr heddlu a phartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i ddynodi, asesu a chytuno ar y ffordd orau i liniaru risg i ddioddefwr.**

*Llwybrau ymgeisio*
**Mae gorchmynion yn y gorffennol wedi bod â llwybrau ymgeisio gwahanol.** Gofynnwyd i chi pa lwybrau yr oeddech yn eu teimlo fyddai fwyaf addas ar gyfer DAPO.

## Fe ddywedsoch chi:

O'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad, cytunodd 75% ohonoch y dylid gallu gwneud ceisiadau ar hyd nifer o lwybrau. Roeddech yn meddwl y byddai'r dull hwn yn gwneud y broses o gael gorchymyn yn haws, cyflymach ac yn fwy hyblyg. Roedd cefnogaeth arbennig dros alluogi ymgeisio am DAPO yn y llys teulu. Ond, roeddech yn bryderus am gost ceisiadau a phwysigrwydd sicrhau bod ceisiadau yn cael eu cefnogi gan dystiolaeth yn briodol.

Cytunodd 72% ohonoch i gyd y dylai llysoedd teulu, sifil a throseddol fedru gwneud DAPO ohonynt eu hunain. Roeddech yn meddwl y byddai hyn yn gwella'r diogeliad i ddioddefwyr, yn arbennig o ystyried y gall y cam-drin ddod i'r golwg yn ystod proses y llys. Ond, roeddech am sicrhau bod amrywiaeth o asiantaethau, gan gynnwys arbenigwyr cam-drin domestig, yn cael eu cynnwys yn y broses ac y byddai dymuniadau dioddefwyr yn cael eu hystyried yn briodol.

## Byddwn yn:

**Bydd y Mesur drafft yn galluogi'r heddlu i wneud cais i'r llys ynadon am DAPO, ac i unrhyw ymgeisydd cymwys arall wneud cais i'r llys teulu.**

**Byddwn yn galluogi i barti mewn achos teuluol neu droseddol sy'n parhau neu achosion penodol mewn llys sifil i wneud cais am DAPO.** Er mwyn ymdrin â phryderon a godwyd yn yr ymgynghoriad, **byddwn yn sicrhau bod canllawiau statudol yn rhoi gwybodaeth glir am sut y mae'r llwybrau amrywiol i geisiadau yn gweithio ac yn darparu pecynnau offer ymarferol i weithwyr proffesiynol eu defnyddio wrth wneud ceisiadau. Byddwn yn gweithio gydag arbenigwyr cam-drin domestig ac asiantaethau perthnasol i sicrhau bod y broses ar gyfer cael gorchymyn trwy'r llysoedd teulu mor syml â phosibl a bod dioddefwyr a thrydydd partïon yn cael eu cefnogi trwy'r broses.**

Er nad ydym yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol i ddioddefwyr gydsynio â gorchmynion i'w diogelu rhag gorfodaeth a phwysau i dynnu eu cefnogaeth yn ôl**, byddwn yn cynnwys gofyniad yn y ddeddfwriaeth i lysoedd ystyried dymuniadau dioddefwyr cyn gwneud gorchymyn.** Byddwn hefyd yn edrych ar sut y gallwn wella rhannu gwybodaeth, yn arbennig rhwng llysoedd sifil a throseddol.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 33 08-May-19 12:01:45

*Gofynion positif*
**Dim ond amodau gwaharddol ar gyflawnwyr y gall y gorchmynion presennol eu gosod.** Er enghraifft, atal yr un sy'n cam-drin rhag ymosod ar eu dioddefwr neu fynd i adeilad sy'n cael ei rannu gyda'r dioddefwr.

**Rydym am i lysoedd fedru gosod gofynion positif ar gyflawnwyr.** Gallai'r gofynion hyn gynnwys cymryd rhan mewn rhaglen ymyrraeth neu rianta, neu driniaeth cyffuriau ac alcohol.

### Fe ddywedsoch chi:

*"Mae'n amlygu'r ffaith bod rhaid i'r cyflawnwr gymryd cyfrifoldeb am ei weithredoedd a bod rhaid iddo ef neu hi newid ei ffordd o feddwl/o wneud pethau."*

O'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad, cytunodd 83% ohonoch y dylai llysoedd fedru cynnig gofynion positif.

Dywedsoch y dylai llysoedd fedru gosod gofynion positif, yn ogystal ag amodau gwaharddol, sydd yn angenrheidiol i leihau'r risg y bydd cam-drin pellach ac annog newid o ran agwedd ac ymddygiad yn y cyflawnwyr. Ond, fe wnaethoch ddweud wrthym eich bod yn bryderus am y duedd i weld rhaglenni fel 'ateb i bob problem' ac roeddech yn meddwl ei bod yn bwysig i raglenni gael eu defnyddio fel rhan o gynllun rheoli risg ehangach. Roedd rhai ohonoch hefyd yn rhagweld sialensiau wrth gomisiynu digon o nifer o raglenni ymyrryd o ansawdd da.

### Byddwn yn:

**Byddwn yn llunio deddfwriaeth i ganiatáu i lysoedd osod gofynion positif ar gyflawnwyr trwy orchmynion.** Er mwyn ymdrin â'r pryderon am sut y gall yr ymyraethau yma gael eu defnyddio orau, **byddwn yn cyhoeddi cyfarwyddyd comisiynu i gyd-fynd â'r ddeddfwriaeth i helpu asiantaethau cymorth lleol i gefnogi gofynion positif yn effeithiol**. **Byddwn yn profi'r dull hwn trwy gynllun treialu.**

*Gofynion hysbysu*
**Credwn y dylai'r DAPO gynnwys gofynion hysbysu.** Mae hyn yn golygu, petai'n helpu i atal rhagor o gam-drin, y byddai'n rhaid i'r rhai sy'n destun DAPO orfod cofrestru rhai manylion personol gyda'r heddlu.

Gall y manylion yma gynnwys eu cyfeiriad, gyda phwy y maent yn byw, a manylion am berthnasau personol a'u mynediad at unrhyw blant cysylltiedig. Byddai'r manylion yma yn galluogi'r heddlu i wneud asesiad risg cywir o'r perygl y mae'r unigolyn yn ei greu.

### Fe ddywedsoch chi:

*"Mae cymaint o ddioddefwyr cam-drin domestig, a'u plant, yn rhan o restr hir o ddioddefwyr. Gallai hysbysu am fanylion personol atal y rhai sy'n cam-drin rhag amharu ar ddioddefwyr newydd nad ydynt yn amau dim."*



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 34 08-May-19 12:01:45

O'r rhai a atebodd, roedd 76% ohonoch yn cytuno y dylai llysoedd fedru ei gwneud hi'n ofynnol i unigolion sy'n destun DAPO hysbysu'r heddlu am eu manylion personol. Credai llawer o'r ymatebwyr y byddai hyn yn helpu'r heddlu i ddiogelu dioddefwyr ond roedd pryderon hefyd am gymesuredd a'r adnoddau y byddid eu hangen i gefnogi'r cynnig hwn.

Roeddech yn fwyaf awyddus i unigolion roi eu henwau a'u cyfeiriadau cartref ond roeddech hefyd yn cefnogi'r syniad o roi manylion am berthynas newydd, yr aelwyd a gorchmynion trefnu plant. Rhoddodd rhai ohonoch awgrymiadau diddorol eraill gan gynnwys manylion gweithle, manylion trwyddedau arfau tanio a manylion ceisiadau nwydd am fisas i ddibynyddion neu bartneriaid priod.

### Byddwn yn:

**Byddwn yn cyflwyno gofyn safonol i unigolion sy'n destun DAPO i hysbysu'r heddlu o'u henw (gan gynnwys unrhyw enwau eraill) a chyfeiriad ac i gadw manylion o'r fath yn gyfredol.**

**Byddwn hefyd yn galluogi'r llys i osod gofynion hysbysu ychwanegol ar sail yr achos penodol;** gall y rhain gynnwys manylion perthynas newydd, ceisiadau fisa a thrwyddedau arfau tanio yn cael eu dal fel yr awgrymir yn yr ymateb i'r ymgynghoriad. **Byddwn yn gweithio gyda'r heddlu a'r llysoedd i sicrhau bod hysbysiadau ychwanegol yn effeithiol, gan brofi'r dull newydd hwn trwy gynllun treialu.**

*Torri*
**Ar hyn o bryd nid oes cosb droseddol am dorri DVPO.**
Trwy wneud torri DAPO yn drosedd, rydym yn meddwl y byddem yn anfon neges gref bod peidio â chydymffurfio yn cael ei gymryd o ddifrif.

**Ond, rydym yn deall bod cam-drin domestig yn gymhleth ac y gall dioddefwyr fod â phryderon am y dull hwn.** Nid ydym am i'r posibilrwydd o gamau troseddol atal dioddefwyr rhag ymgeisio am DAPO na rhoi adroddiad pan fyddant wedi eu torri. Fe wnaethom ofyn, felly, os oeddech yn meddwl y dylid cael dewis gwahanol i gosb droseddol. Byddai hyn yn golygu y gallai torri gorchymyn gael ei drin fel dirmyg llys, fel y gall fod gyda gorchymyn peidio ag ymosod. Ni fyddai hyn yn arwain at gofnod troseddol.

### Fe ddywedsoch chi:

> *"Mae'r dull hwn yn ymddangos fel pe bai yn cael cydbwysedd rhwng yr angen i fynd ar ôl y rhai sy'n torri'r gorchymyn ac anghenion y dioddefwyr a all deimlo yn llai cyfforddus yn rhoi adroddiad pan fydd rhywun wedi torri gorchymyn. Byddai'n rhaid i'r dull hwn gael ei esbonio yn llawn i ddioddefwyr wrth iddo gael ei osod."*

Cytunodd 83% o'r ymatebwyr i gyd y dylai torri DAPO fod yn drosedd.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 35 08-May-19 12:01:46

Dywedodd y mwyafrif wrthym, trwy wneud torri gorchymyn yn drosedd y byddai hyn yn gweithredu fel mwy o rwystr i gyflawnwyr a lleihau'r gyfradd o orchmynion sy'n cael eu torri. Ond roedd nifer lai ohonoch yn bryderus y gallai gwneud torri gorchmynion yn drosedd atal dioddefwyr rhag rhoi adroddiad i'r heddlu.

Roedd eich barn wedi ei rhannu yn fwy cyfartal o ran a ddylai fod yn bosibl, fel dewis arall, i dorri DAPO gael ei gosbi fel dirmyg llys (roedd 48% yn meddwl y dylid cael dewis dirmyg llys, 34% yn anghytuno ac 18% ddim yn gwybod).

### Byddwn yn:

**Bydd y Mesur drafft yn darparu bod torri gorchymyn yn drosedd, yn amodol ar uchafswm cosb o bum mlynedd o garchar, dirwy heb gyfyngiad, neu'r ddau. Gall llys benderfynu a yw am gosbi torri gorchymyn fel dirmyg llys, yn hytrach nag achos troseddol.** Mae hyn yn caniatáu ar gyfer dull hyblyg mewn achosion pan na fyddai cosb droseddol i'r cyflawnwr er lles y dioddefwr. **Byddwn yn sicrhau bod y cyfarwyddyd yn glir o ran y dewis dirmyg llys a phwysigrwydd trafod ei argaeledd gyda'r dioddefwyr pan wneir DAPO.**

*Monitro electronig*
**Rydym yn meddwl y gellid defnyddio monitro electronig fel rhan o DAPO i atal rhagor o gamdriniaeth** a sicrhau bod cyflawnwyr yn cydymffurfio ag amodau eu gorchymyn.

**Nid yw monitro electronig yn cael ei gyfyngu i olrhain ar GPS yn unig.** Byddai'r math o fonitro electronig fyddai'n cael ei ddefnyddio yn dibynnu ar amodau'r gorchymyn a gallai gynnwys monitro lleoliad i sicrhau bod y cyflawnwr yn cadw at amodau parth gwaharddedig, monitro amledd radio i sicrhau ei fod yn cydymffurfio a chyrffyw, neu fonitro alcohol i gydymffurfio â gofyn positif i fynd ar gwrs alcohol.

**Rydym yn deall, heb rymoedd cyfreithiol, bod y llysoedd yn cael eu cyfyngu o ran sut y gallant weithredu monitro electronig.** Credwn y dylai'r llysoedd gael grym penodol i osod monitro electronig, ac fe fyddem hefyd yn cynnwys set o gamau diogelu statudol i sicrhau na fydd monitro electronig yn cael ei ddefnyddio oni bai ei fod yn angenrheidiol a chymesur.

### Fe ddywedsoch chi:

> *"Natur grym a rheolaeth yw y gall troseddwyr gael eu temtio i barhau i fygwth y dioddefwr. Fe gymer lawer iawn o amser i'r neges dreiddio i droseddwyr y math hwn o drosedd. Efallai y bydd hyn yn eu helpu i sylweddoli pa mor ddifrifol y mae'n cael ei gymryd."*

O'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad, cytunodd 69% y dylai llysoedd gael grym penodol i osod monitro electronig yn amod mewn DAPO. Teimlech y byddai'n ddefnyddiol o ran dibenion diogelu a thystiolaethol i achosion sy'n ymwneud â stelcio ac aflonyddu.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 36 08-May-19 12:01:46

O'r rhai ohonoch oedd yn ansicr, dywedodd llawer nad oeddech yn gwybod digon am fonitro electronig a theimlid y dylid ei dreialu. Roedd pryderon hefyd mai dim ond pan fydd yn cael ei ddefnyddio yn gymesur a theg y dylid gosod monitro electronig. Roedd gennych hefyd rai pryderon am y modd y mae ei ddefnyddio yn effeithio ar hawliau dynol y diffynnydd. Awgrymodd rhai ohonoch y gellid defnyddio monitro alcohol hefyd, pan all alcohol fod yn ffactor sy'n cyfrannu.

Y dewis mwyaf poblogaidd o ran pa fonitro electronig y dylid ei ddefnyddio oedd monitro lleoliad. Awgrymiadau eraill oedd monitro ffonau a chyfryngau cymdeithasol a monitro cyffuriau.

Roeddech yn cytuno y dylid cael diogeliad statudol parthed y defnydd o fonitro electronig a DAPO gyda rhai troseddau, fel troseddwyr cyson, diogelu plant, mewn achosion stelcio, i droseddwyr risg uchel ac i droseddwyr hawdd eu niweidio.

### Byddwn yn:

Oherwydd bod cefnogaeth glir i gyflwyno monitro electronig, **bydd y Mesur drafft yn galluogi llys i roi gofyn monitro electronig yn gysylltiedig â DAPO fel modd o fonitro cydymffurfio â darpariaethau'r gorchymyn (er enghraifft, gwaharddiad ar wrthrych gorchymyn rhag mynd i ardal benodol).**

**Byddwn hefyd yn treialu defnyddio monitro electronig fel rhan o'r cynllun treialu DAPO ehangach.**

Rydym yn cydnabod bod llawer o ymatebwyr yn meddwl y dylid cael diogeliad statudol parthed y defnydd o fonitro electronig. Yn yr un modd â gofynion eraill mewn gorchymyn, **dim ond pan fydd yn angenrheidiol a chymesur i ddiogelu dioddefwr cam-drin domestig y bydd llys yn gallu gosod gofyn am fonitro electronig.**

### 2.3.2 Gweithio amlasiantaethol

Rydym yn gwybod bod gweithio amlasiantaethol effeithiol yn hanfodol i sicrhau bod y risg y mae dioddefwyr cam-drin domestig a'u plant yn ei hwynebu yn cael ei dynodi a'i hasesu yn briodol. Mae dull amlasiantaethol hefyd yn cynnig cefnogaeth gychwynnol fwy effeithiol a chyfle i ymadfer.

**Mae'r llywodraeth yn cydnabod mai'r cynlluniau mwyaf effeithiol i ymdrin â cham-drin domestig yw'r rhai sy'n defnyddio dull cydweithredol amlasiantaethol, gyda gwasanaethau yn cael eu comisiynu yn lleol a'u gyrru gan anghenion lleol.** Adlewyrchir ymrwymiad y llywodraeth i atal, diogelu a gyrru blaengaredd mewn gwasanaethau yn y prosiectau, rhaglenni a gwasanaethau sy'n cael eu cefnogi ar hyn o bryd trwy'r cyllid Trais yn Erbyn Menywod a Merched o £100 miliwn a thu hwnt i hynny.

**Un enghraifft o ddull amlasiantaethol effeithiol yw'r rhaglen 'Troubled Families', a fwriedir i greu amgylchedd diogel sy'n meithrin i blant.** Roedd ychydig dan chwarter y teuluoedd cythryblus ar y rhaglen ag aelod o'r teulu yr oedd cam-drin domestig neu drais wedi effeithio arno cyn yr ymyrraeth.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 37 08-May-19 12:01:46

Dyna pam y mae trais yn erbyn menywod a merched yn un o'r chwe phrif faen prawf i wneud teuluoedd yn gymwys i gael cefnogaeth gan y rhaglen.

**Mae'r rhaglen yn annog dull teulu cyfan, integredig ar draws nifer o wasanaethau, gan adlewyrchu uchelgais ehangach Trais yn Erbyn Menywod a Merched i ymwreiddio ymyrraeth gynnar ac atal mewn ardaloedd lleol.** Trwy sicrhau nad yw gweithwyr allweddol y teulu yn canolbwyntio ar y plant neu'r fam yn unig ond yn ystyried deinameg y teulu cyfan a'r modd y mae'r problemau y maent yn eu hwynebu yn gorgyffwrdd, mae'n eu galluogi i gynnig pecyn cydlynol o gefnogaeth. Gall hyn gynnwys gweithio gyda chyflawnwyr os yw hynny'n addas. Mae'r rhai sy'n mynd trwy'r rhaglen yn sôn am well sgiliau ymdopi a gwytnwch, gwell hyder wrth ymdrin â phroblemau, a mwy o ymwybyddiaeth o sut i geisio help o'r tu allan. Gall hyn liniaru risg ac effaith teulu'n chwalu oherwydd rhesymau anarferol fel trais domestig.

Enghraifft arall o gynllun lleol y mae'r llywodraeth yn ei ariannu trwy gronfa lety MHCLG yw'r Norfolk Anchor Project, sydd yn gynllun trawsnewidiol amlochrog a blaengar sy'n darparu model sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr, gyda chefnogaeth arweinwyr lleol. Mae'r cynllun yn sicrhau bod gwasanaethau ar draws Norfolk yn cael eu cysylltu yn effeithiol ac effeithlon i gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig gydag anghenion ychwanegol, gan gynnwys y rhai ag iechyd meddwl gwael ac sy'n cam-drin sylweddau.

**Yng Ngorffennaf 2018, ar ôl ymgynghoriad llawn, diweddarodd y llywodraeth *Working Together to Safeguard Children*, y cyfarwyddyd statudol ar weithio amlasiantaethol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant[16].** Mae'n datgan y dylai ymarferwyr fod yn ymwybodol o effaith cam-drin domestig ar blant a rhoi rhybudd o angen posibl am help cynnar, a chyfeirio at gyfarwyddyd a gwybodaeth pellach.

### Fe ddywedsoch chi:

*"Fel rhywun sy'n gorfod ymwneud â hyn trwy'r amser mae'n amlwg iawn nad oes gweithio amlasiantaethol gan fod gan yr asiantaethau i gyd ddiwylliannau ac agendâu gwahanol."*


Fe wnaethom ofyn beth yn fwy all y llywodraeth ei wneud i annog a chefnogi gweithio amlasiantaethol. Yr ymatebion mwyaf poblogaidd oedd hyfforddiant, rhannu arfer effeithiol, a chymhelliant trwy ariannu.

[16] Llywodraeth Ei Mawrhydi (2018) Working Together to Safeguard Children – A guide to inter-agency working to safeguard and promote the welfare of children. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/729914/Working_Together_to_Safeguard_Children-2018.pdf.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 38 08-May-19 12:01:46

**Ffigwr 3:** Ymatebion i Gwestiwn 11 yr ymgynghoriad: Beth yn fwy all y llywodraeth ei wneud i annog a chefnogi gweithio amlasiantaethol effeithiol a'i gefnogi, er mwyn rhoi cefnogaeth a diogeliad llawn i ddioddefwyr?




## Byddwn yn:

Trwy weithio gyda phartneriaid sector gwirfoddol, **byddwn yn helpu ardaloedd lleol i ddatblygu dull mwy integredig o weithio amlasiantaethol sy'n edrych ar ddioddefwyr, eu teuluoedd a chyflawnwyr yn gyffredinol.** Gall cynlluniau fel y model SafeLives One Front Door helpu i lunio cysylltiadau rhwng y risgiau a wynebir gan ddioddefwyr, anghenion diogelu plant a'r risgiau y mae cyflawnwyr cam-drin yn eu creu. Gall dwyn yr arbenigedd o'r Cynadleddau Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC) a'r Hybiau Diogelu Amlasiantaethol (MASH) helpu i sicrhau na fydd unrhyw risgiau neu atebion posibl yn cael eu colli.

**Mae *Working Together to Safeguard Children*[17] yn nodi'r cynllun ar gyfer disodli Byrddau Diogelu Plant Lleol gyda system newydd o drefniadau amlasiantaethol ac adolygiadau arfer diogelu plant lleol a chenedlaethol.** Dylai'r trefniadau newydd, i'w gweithredu erbyn Medi 2019, gynnig gwell diogeliad rhag cam-drin i blant ym mhob ardal. Mae rhai ardaloedd yn sefydlu trefniadau amlasiantaethol cyn y dyddiad gweithredu terfynol. Trwy'r rhaglen 'Diogelu Mabwysiadwyr Cynnar', rydym yn cefnogi'r datblygiadau hyn, sy'n cynnwys dulliau blaengar o ddiogelu plant rhag cam-drin domestig. **Byddwn yn monitro gweithrediad y dulliau amlasiantaethol hyn o ymdrin â cham-drin domestig i rannu'r gwersi a ddysgir i bartneriaid diogelu.**

[17] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/729914/Working_Together_to_Safeguard_Children-2018.pdf



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 33 08-May-19 12:01:46

O ran gwasanaethau ar sail llety, mae MHCLG yn gweithio'n glos gyda phartneriaid o'r sector i ddatblygu dewisiadau cyflawni cynaliadwy at y dyfodol ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig ac mae'n deall pwysigrwydd gweithio amlasiantaethol yn unrhyw fodel yn y dyfodol. Ond, nid ydynt mewn sefyllfa eto i ddweud yn union sut y bydd hyn yn edrych gan nad yw deilliannau'r adolygiad o gyllido a chomisiynu'r gwasanaethau ar eu ffurf derfynol.

Nododd y Strategaeth Troseddwyr Benywaidd, a gyhoeddwyd ym Mehefin 2018, nodau'r llywodraeth i wella deilliannau i droseddwyr benywaidd[18]. Rhoddir mwy o fanylion yn Adran 2.4.2. Mae'n bwysig i asiantaethau lleol ddefnyddio dull diwnïad wrth ymdrin ag anghenion cymhleth y cohort hwn o fenywod ac **rydym yn buddsoddi £1 miliwn (fel rhan o gronfa £5 miliwn fwy) i ddatblygu modelau system gyfan o ymdrin â throseddwyr benywaidd mewn ardaloedd lleol.** Mae canolfannau menywod yn aml yn ganolog i'r modelau hyn, gan helpu i ddarparu'r ymateb holistig, cychwynnol ac ar sail trawma y mae ar fenywod ei angen i wella eu bywydau a lleihau aildroseddu.

Mae gan bob meddygfa ac Ymddiriedolaeth GIG fynediad at gyngor arbenigol am ddiogelu gan weithiwr iechyd proffesiynol a enwir neu ddynodedig. Mae'r DHSC ac NHS England wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau i godi ymwybyddiaeth o'r adroddiadau diogelu newydd a rôl newydd iechyd fel partner statudol cyfartal. Mae hyn yn cynnwys ymdrin â cham-drin domestig rhwng oedolion, a'r effaith ar blant fel tystion, gan ddefnyddio dull teulu cyfan. Bydd hyn yn adeiladu ar ddull gweithio amlasiantaethol o asesu risg o gam-drin domestig, lle disgwylir yn awr i iechyd fod yn aelod llawn o'r trefniadau hyn.

Mae NHS England hefyd yn archwilio pa gymhelliant contractaidd sydd i roi cymhelliant i ddefnyddio arfer da wrth ymateb i drais a chamdriniaeth.

[18] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2018) Female Offender Strategy. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/719819/ fe male-offender-strategy.pdf.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 40 08-May-19 12:01:46

## 2.4 Cefnogi dioddefwyr gydag anghenion penodol neu gymhleth

### 2.4.1 Anghenion arbenigol

**Mae cam-drin domestig yn effeithio ar grŵp eang ac amrywiol ac nid yw dull 'un math i bawb' yn addas i gefnogi'r holl ddioddefwyr**, yn arbennig y rhai ag anghenion a bregusrwydd penodol.

**Trwy gydol yr ymgynghoriad cynhaliwyd amrywiaeth o grwpiau ffocws i archwilio'r materion sy'n effeithio ar ddioddefwyr ag anghenion arbenigol. Roedd y rhain yn cynnwys grwpiau LGBT+, anabl a'r henoed** a daeth ag enghreifftiau o anghenion penodol sydd gan rai pobl yn y grwpiau hyn a'r gefnogaeth unigryw y mae arnynt ei hangen i'r golwg.

**Fe ddywedsoch chi:**

---

*"Mae angen cael amrywiaeth o offer yn y blwch offer a rhaid cael llawer o ddewis i'r dioddefwr."*

---

Fe ddywedsoch wrthym ni fod angen cyllid ar gyfer gwasanaethau arbenigol, gwell hyfforddiant a gwybodaeth i asiantaethau statudol sy'n gweithio gyda'r rhai sydd ag anghenion arbenigol a chynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd.

Fel rhan o'r ymgynghoriad, cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda dioddefwyr ag anghenion penodol neu gymhleth, gan gynnwys pobl fyddar, pobl ag anableddau a'r henoed, a gyda'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r dioddefwyr hynny. Amlygodd y rhain y sialensiau penodol sy'n wynebu'r grwpiau hyn, oedd yn cynnwys diffyg cyfieithwyr i ddioddefwyr byddar, yr ymdeimlad o gywilydd y mae rhai dioddefwyr hŷn yn ei wynebu wrth ddatgelu cam-drin tymor hir, a'r canlyniadau i drefniadau gofal a byw y gall datgelu cam-drin fel oedolyn bregus eu dwyn. Cododd y grŵp ffocws y mater o ddiffyg cynrychiolaeth ar y cyfryngau i ddioddefwyr ag anghenion penodol ac roedd galwad am roi mwy o sylw i'r ffaith ei fod mor gyffredin.

Roedd Ymchwiliad y Pwyllgor Dethol Materion Cartref i gam-drin domestig yn bryderus am y gostyngiad a gofnodwyd mewn gwasanaethau arbenigol i ddioddefwyr cam-drin BAME. Mae rhai menywod BAME yn fwy agored i fathau penodol i ddiwylliant o gam-drin a gallant ei gweld yn arbennig o anodd ceisio help oherwydd teuluoedd a chymunedau clos, ac oherwydd anawsterau iaith. Roeddent yn dadlau bod angen gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol 'gan ac ar gyfer' BAME er mwyn ennill hyder dioddefwyr camdriniaeth BAME, i ddeall y problemau y maent yn eu hwynebu, ac i gael y sgiliau a'r profiad i roi'r gefnogaeth angenrheidiol.

**Byddwn yn:**

Rydym yn cydnabod bod sefydliadau arbenigol yn aml yn cael trafferth i gael cyllid gan sianeli comisiynu lleol ac wrth gystadlu â sefydliadau prif-ffrwd. Byddwn yn targedu'r cyllid i ymestyn cyrraedd gwasanaethau arbenigol, fel y nodir isod.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 41 08-May-19 12:01:46

Ychydig iawn o sefydliadau sy'n cefnogi dioddefwyr cam-drin domestig LGBT+ yn benodol ac maent yn brin o adnoddau i gefnogi dioddefwyr LGBT+ ac i hwyluso dull cenedlaethol cydlynol. **Byddwn yn cefnogi dioddefwyr LGBT+ trwy ddarparu hyd at £500,000 i gynyddu gallu yn y sector elusennol, codi ymwybyddiaeth a gwella monitro ac arferion cofnodi.**

**Byddwn yn gwella capasiti yn y sector menywod trwy ddarparu £250,000 i wella'r ymateb i ddioddefwyr anabl.**

**Byddwn yn darparu £250,000 i ariannu pecynnau i lochesi a gwasanaethau cam-drin domestig eraill i'w gwneud yn hygyrch i ddioddefwyr byddar, yn ogystal â buddsoddi mewn mwy o gefnogaeth o ran eiriolaeth i ddioddefwyr byddar a chynyddu hygyrchedd gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i ddefnyddwyr byddar.**

**Byddwn yn darparu £100,000 i wella sgiliau sefydliadau cam-drin domestig i ymateb i gam-drin henoed** ac yn datblygu nifer o wasanaethau cefnogi sylfaenol i ymestyn eu cyrraedd a'u gallu.

Mae Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi ac Arolygiaeth Gwasanaethau Erlyn y Goron Ei Mawrhydi yn cynnal arolygiad i droseddau yn erbyn pobl hŷn, a fydd yn cyhoeddi ei ganfyddiadau yng Ngorffennaf 2019. **Byddwn yn ystyried canlyniadau'r adroddiad ac yn archwilio beth yn fwy y gellir ei wneud i atal cam-drin henoed a gwella diogelu a chefnogaeth i ddioddefwyr.**

**Mae MHCLG yn buddsoddi bron i £300,000 i helpu i leihau effaith trais ar fywydau dioddefwyr BAME trwy gynyddu capasiti a chryfhau sefydliadau BAME arbenigol.**

**Mae *Priorities for Domestic Abuse Services*[19], MHCLG wedi ei ddiweddaru a ddatblygwyd gyda phartneriaid o'r sector cam-drin domestig a llywodraeth leol, yn nodi beth sydd angen i ardaloedd lleol ei wneud i sicrhau bod eu hymateb i gam-drin domestig mor effeithiol ag y gall fod[20].** Maent yn glir y dylai ardaloedd lleol ymateb i anghenion yr holl ddioddefwyr cam-drin domestig gan gynnwys y rhai o gymunedau ynysig a/neu ymylol, BAME, LGBT+, pobl hŷn a dioddefwyr ag anghenion cymhleth.

### 2.4.2 Troseddwyr benywaidd

**Mae mwyafrif y troseddwyr benywaidd wedi profi cam-drin domestig ac mae'n aml yn gysylltiedig â'u troseddu**, gyda 6 o bob 10 o droseddwyr benywaidd yn dynodi eu bod ar hyn o bryd neu eu bod wedi bod yn ddioddefwyr[21].

[19] https://www.gov.uk/government/publications/domestic-abuse-fund-2018-to-2020-prospectus

[20] Gweler Atodiad C yn: MHCLG (2018) *2018/20 Fund for Domestic Abuse Services, including refuge and other safe accommodation, to help local areas meet the Priorities for Domestic Abuse Services.* Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/721495/ Fund_for_domestic_abuse_services_2018-20_prospectus.pdf.

[21] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2018) 'Women in the Criminal Justice System (CJS)'. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/719768/ infographic-for-the-female-offender-strategy.pdf.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 36 08-May-19 12:01:47

Rydym yn gwybod, pan fydd partneriaid lleol yn gweithio gyda'i gilydd i ddefnyddio dull system gyfan, y gall hyn alluogi ardaloedd lleol i ymdrin ag anghenion cymhleth troseddwyr benywaidd trwy gefnogaeth holistaidd, amgylchynol.

**Rydym yn gwybod y gall fod cysylltiad rhwng perthynas sy'n rheoli a throseddau.** Mewn arolwg o garcharorion yn 2005/06, dywedodd bron hanner (48%) y carcharorion benywaidd eu bod wedi cyflawni eu trosedd i gynnal defnydd rhywun arall o gyffuriau[22].

**Mae troseddwyr benywaidd yn aml yn wynebu stigma sylweddol wrth ddefnyddio gwasanaethau cam-drin domestig. Rydym am helpu troseddwyr benywaidd a menywod sydd mewn perygl o droseddu i ddynodi eu camdriniaeth yn gynharach a chael y gefnogaeth sydd arnynt ei hangen i leihau'r posibilrwydd y byddant yn aildroseddu.** Mae angen i ni sicrhau bod troseddwyr benywaidd yn cael eu cynnwys mewn cyfarwyddyd am gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig a'u bod yn gallu cael yr un gwasanaethau cefnogi â'r rhai nad ydynt wedi troseddu.

### Fe ddywedsoch chi:

*"Yn llawer rhy aml mae troseddwyr benywaidd yn cael eu gweld fel troseddwyr cyn iddynt gael eu gweld fel dioddefwyr. Rydym wedi gweithio gyda llawer o droseddwyr benywaidd yn ein rhaglenni carchardai nad oes neb wedi gofyn iddynt am y gamdriniaeth y maent wedi ei phrofi. Mae mwyafrif y menywod hynny wedi bod mewn risg o niwed difrifol neu lofruddiaeth pan fyddwn wedi gwneud asesiadau risg gyda nhw."*

Tanlinellodd ymatebwyr yr angen am ymyrraeth gynnar yn y gwaith gyda throseddwyr benywaidd.

O'r dewisiadau a gynigiwyd, teimlai 80% ohonoch fod sicrhau bod hanes o gam-drin yn cael ei gofnodi ar bob cam yn y system cyfiawnder troseddol yn ffordd y gallwn weithio yn well gyda throseddwyr benywaidd a menywod bregus sydd mewn perygl o droseddu i ddod o hyd i gam-drin domestig yn gynharach. Fe wnaethoch hefyd ddweud bod dargyfeirio o'r system cyfiawnder troseddol yn llwyr yn allweddol i droseddwyr â phrofiad o gam-drin domestig. Teimlai rhai bod angen sicrhau argaeledd cefnogaeth gymunedol ac yn y ddalfa i'r menywod hyn. Tanlinellodd cyfanswm o 70% ohonoch yr angen am ymyraethau iechyd, cyllid a llety a chyngor i fenywod yn y gymuned.

### Byddwn yn:

Yn haf 2018 lansiwyd Strategaeth Troseddwyr Benywaidd y llywodraeth, sy'n cydnabod y gall troseddwyr benywaidd yn aml fod ag anghenion lluosog a chymhleth[23]. Mae'r Strategaeth yn amlinellu rhaglen waith sy'n cael ei gyrru gan ein gweledigaeth i weld:

- llai o fenywod yn dod i'r system cyfiawnder troseddol;

[22] Ibid.
[23] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2018) *Female Offender Strategy*. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/719819/ female-offender-strategy.pdf.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 43 08-May-19 12:01:47

- llai o fenywod yn y ddalfa, yn arbennig ar ddedfrydau byr, a mwy o gyfran o fenywod yn cael eu rheoli yn y gymuned yn llwyddiannus;
- gwell amodau i'r rhai sydd yn y ddalfa.

Mae'r Strategaeth yn newid y pwyslais o ddarpariaeth yn y ddalfa i ddarpariaeth gymunedol i fenywod ac, fel rhan o hyn, **byddwn yn buddsoddi £2 filiwn mewn darpariaeth gymunedol i fenywod â phrofiad o gam-drin domestig.** Bydd hyn yn rhan o gronfa £5 miliwn a fydd yn cryfhau ac ehangu'r ddarpariaeth gymunedol a datblygu dulliau system gyfan o ymdrin â throseddwyr benywaidd. **Byddwn yn rhoi grantiau i gymunedau lleol i ganolbwyntio ar faterion fel iechyd, cyllid a llety.**

**Byddwn yn datblygu Concordat Cenedlaethol ar Droseddwyr Benywaidd i wella deilliannau i droseddwyr benywaidd.** Bydd y Concordat hefyd yn gweithio ar lefel leol i gefnogi gweithio diwnïad gan asiantaethau statudol a sefydliadau trydydd sector.

Ochr yn ochr â'n strategaeth, **rydym yn gweithio gyda'r NPCC i gyhoeddi cyfarwyddyd ar weithio gyda menywod bregus**, gan gefnogi dynodi cam-drin ar bob cam o daith menyw trwy'r system cyfiawnder troseddol.

**Rydym hefyd yn cefnogi cyflwyno hyfforddiant ar sail trawma i staff prawf a charchardai**, fel eu bod yn gallu cefnogi troseddwyr benywaidd â phrofiad o gam-drin domestig yn briodol.

### 2.4.3 Camddefnyddio sylweddau

**Mae cam-drin domestig yn gyffredin ymhlith y rhai sydd â phroblemau cam-drin sylweddau ac mae'r stigma a deimlir yn aml gan y rhai sydd â phrofiad o gam-drin domestig yn cael ei waethygu pan fydd cam-drin sylweddau yn bresennol.** Mewn 29% o ddigwyddiadau cam-drin domestig, roedd y dioddefwr yn amgyffred bod y troseddwr dan ddylanwad alcohol[24], er bod astudiaethau eraill yn awgrymu y gallai'r ffigwr yma fod yn uwch.

**Mae'r cysylltiad rhwng cam-drin domestig a chamddefnyddio sylweddau yn gymhleth.** Gall dioddefwyr gamddefnyddio sylweddau fel peirianwaith ymdopi a gall cyflawnwyr ei ddefnyddio fel ffurf ar orfodaeth a rheolaeth. Gall cyflawni cam-drin domestig ddeillio o'r cyfnod pan fydd y cyflawnwr yn dod oddi ar sylweddau ac anghydfod am brynu sylweddau. Pan oeddent yn blant, roedd llawer o'r rhai sy'n cyflawni cam-drin domestig wedi profi camddefnyddio sylweddau, cam-drin corfforol neu gam-drin rhywiol yn y teulu neu wedi bod yn dyst i gam-drin domestig.

### Fe ddywedsoch chi:

> *"Bob tro y byddaf yn gofyn am help gan fy meddyg, gan wasanaethau cyffuriau neu alcohol, gan wasanaethau plant, mae'n rhaid i mi esbonio fy nhrawma eto. Dwi'n ei ail fyw bob dydd. Gallai un gwasanaeth sy'n cwmpasu'r holl anghenion cymhleth yr ydym ni fel dioddefwyr yn eu hwynebu fod o gymorth."*

[24] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2017) 'Nature of crime tables (violence) – year ending March 2017'. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/ natureofcrimetablesviolence.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 38 08-May-19 12:01:47

**Fe ddywedsoch chi yn glir bod menywod sydd wedi profi llawer o drais corfforol a rhywiol yn fwy tebygol o fod yn dibynnu ar sylweddau ac yn profi anfantais mewn meysydd eraill yn eu bywydau.** Mae menywod sy'n profi camdriniaeth felly yn debygol o fod angen cefnogaeth amlasiantaethol. Fe ddywedsoch chi wrthym ni fod ymdrin ag anghenion cymhleth yn llwyddiannus yn gofyn am gyllid parhaus ac y gall gael manteision cymdeithasol ac ariannol sylweddol yn y tymor hir. Dywedodd llawer ohonoch y dylai staff gwasanaethau cam-drin sylweddau a cham-drin domestig gael eu hyfforddi yn well ar sut i ddefnyddio llwybrau cyfeirio at wasanaethau ei gilydd yn fwy effeithiol.

### Byddwn yn:

**Byddwn yn ystyried effaith alcohol ar gam-drin domestig ac yn datblygu ymateb fel rhan o waith polisi alcohol yr adran.**

**Byddwn yn cynnal gweithdai i wella ein dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng alcohol a cham-drin domestig.** Bydd y gweithdai hyn yn dynodi arfer da a sialensiau ar lefel leol a chenedlaethol.

**Byddwn yn dynodi bylchau yn y dystiolaeth am y berthynas rhwng cam-drin sylweddau a cham-drin domestig** trwy barhau i weithio gyda'r byd academaidd a gwella'r data sydd ar gael.

**Byddwn yn dysgu oddi wrth sesiwn drafod ddiweddar am gam-drin sylweddau gan fenywod am bwysigrwydd darpariaeth amlasiantaethol i fenywod yn unig sy'n cael ei gomisiynu ar y cyd, a'r angen i ymdrin ag anghenion penodol menywod mewn polisïau cyffuriau ac alcohol.**

**Byddwn yn dyrannu cyllid ar gyfer hyfforddiant i hyrwyddo mwy o gydweithio rhwng gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a cham-drin domestig.**

## 2.5 Mathau o gam-drin

### 2.5.1 Cam-drin economaidd

**Nid dim ond corfforol neu seicolegol yw cam-drin domestig; rydym yn cydnabod y gall cam-drin domestig hefyd fod yn economaidd.** Mae cam-drin economaidd yn mynd tu hwnt i gam-drin ariannol a gall gynnwys ymddygiad sy'n rheoli gallu unigolyn i gael, defnyddio a chynnal adnoddau economaidd. Gall hyn gynnwys arian, bwyd, cludiant a thai – er enghraifft, cyfyngu ar y defnydd o gar neu ddifetha cyfraddau credyd.

**Mae'r llywodraeth eisoes wedi ariannu rhai cynlluniau allweddol trwy'r Gronfa Treth Tampon**, gyda £100,000 i sefydlu'r elusen 'Goroesi Cam-drin Economaidd' a £164,000 ar gyfer y 'Prosiect Cam-drin Domestig ac Economaidd' dan arweiniad Goroesi Cam-drin Economaidd a Money Advice Plus i ddatblygu gweithio mewn partneriaeth rhwng banciau, gwasanaethau cynghori ariannol a gwasanaethau cam-drin domestig.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 45 08-May-19 12:01:47

**Rydym am nid yn unig gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gam-drin economaidd ond hefyd sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu dynodi a'u cefnogi a'r cyflawnwyr yn cael eu dal i gyfrif.**

## Fe ddywedsoch chi:

*"Roedd fy nghynbartner yn rheoli ein harian yn llwyr, nid oeddwn hyd yn oed yn cael defnyddio fy ngherdyn banc fy hun ... nid oeddwn yn cael prynu pethau hanfodol ac roeddwn yn gorfod gofyn am ganiatâd i brynu pethau i'm plant, tra'r oedd o yn gwario arian yn ddyddiol ar alcohol. Byddai'n cuddio cyfriflenni banc, a hyd yn oed symud fy ngherdyn o'm pwrs heb i mi wybod."*

Dywedsoch wrthym am ddifrifoldeb ac effaith gydol oes cam-drin economaidd ac y gall ddigwydd yn aml ar ôl i'r berthynas ddod i ben. Fe wnaethoch hefyd ei gwneud hi'n glir beth yw'r rhwystrau anferth y mae dioddefwyr a goroeswyr yn eu hwynebu wrth ffoi oddi wrth y gamdriniaeth hon ac ailadeiladu eu bywydau: o'r analluedd i ddwyn cyfrifon banc a morgeisi ar y cyd i ben heb i'r ddwy ochr gytuno, i anawsterau yn cael tai a lloches addas, i rywbeth mor syml â chael ffôn symudol.

Roedd y rhwystrau eraill y gwnaethoch eu dynodi yn cynnwys cael trafferth i glirio dyled a gymerwyd gan y cyflawnwr yn enw'r dioddefwr, ac effaith hynny ar gyfraddau credyd. Amlygodd nifer ohonoch y gall camdriniaeth hefyd gael ei chyflawni trwy'r system llysoedd. Roedd yr enghreifftiau a roddwyd yn cynnwys cyflawnwyr yn mynd â dioddefwyr i'r llys gan wybod nad oes gan y dioddefwr yr arian angenrheidiol i dalu cyfreithwyr, a thâl cynnal plant ddim yn cael ei dalu.

Dynodwyd anawsterau gyda'r system fudd-daliadau, a Chredyd Cynhwysol yn benodol, hefyd mewn atebion yn ogystal â'r angen i wella ymwybyddiaeth ymhlith sefydliadau ariannol ac asiantaethau statudol o gam-drin economaidd a'i gymhlethdod.

Dywedsoch bod talu Credyd Cynhwysol i gyplau i un cyfrif banc enwebedig yn creu risg o gynyddu rheolaeth economaidd cyflawnwr dros y dioddefwr. Soniwyd am anawsterau eraill gyda'r system fudd-daliadau, fel oedi wrth i hawliadau newydd gael eu prosesu ac anawsterau yn cael mynediad at fudd-daliadau pan fydd dioddefwyr wedi gorfod ffoi heb ddogfennau hanfodol a dogfennau adnabod.

Cododd y Pwyllgor Dethol Materion Cartref i gam-drin domestig hefyd fater Credyd Cynhwysol ac argymhellodd y dylai rhannu taliadau fod yn ddull arferol yng Nghymru a Lloegr.

## Byddwn yn:

**Byddwn yn cynnwys cam-drin economaidd yn niffiniad statudol newydd y llywodraeth o gam-drin domestig** a'r cyfarwyddyd statudol i gyd-fynd ag ef i sicrhau bod cam-drin economaidd a'i effaith yn cael ei gydnabod yn gyfreithiol, i wella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o'r mater a rhoi gwell cefnogaeth i ddioddefwyr.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 46 08-May-19 12:01:47

**Byddwn yn diweddaru'r cyfarwyddyd statudol** am y drosedd ymddygiad gorfodol neu sy'n rheoli i gynnwys cyfeiriadau at gam-drin economaidd ac yn ei gynnwys yn y cyfarwyddyd statudol ar gyfer Gorchmynion Diogelu Stelcio a DAPO.

**Byddwn yn diweddaru'r cyfarwyddyd cyfreithiol perthnasol i erlynyddion** i sicrhau y gall achosion o gam-drin economaidd gael eu herlyn yn llwyddiannus pan fydd hynny'n addas.

**Byddwn yn parhau i weithio gydag UK Finance i annog banciau ac awdurdodau ariannol i wneud mwy i gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig** a'u helpu i symud ymlaen i ffoi rhag dyled, cyfrifon a morgeisi ar y cyd. Yn ddiweddar mae UK Finance wedi lansio ei God Ymarfer, a ddyluniwyd i annog banciau i wneud mwy i gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig. Maent hefyd wedi creu pecyn gwybodaeth i ddefnyddwyr, i helpu dioddefwyr wybod pa gefnogaeth y gallant ei disgwyl.

**Byddwn yn darparu £47,000 o gyllid i ddiweddaru hyfforddiant heddlu sydd wedi ei brofi i gynnwys cam-drin economaidd.**

**Byddwn yn darparu £200,000 o gyllid i'r Academi Sgiliau Cenedlaethol Gwasanaethau Ariannol i ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant gallu ariannol** i weithwyr rheng flaen i gefnogi unigolion sy'n profi cam-drin domestig economaidd ac yn gysylltiedig ag arian.

**Byddwn yn darparu tua £250,000** i greu gwasanaeth cynghori cenedlaethol i fanciau a chymdeithasau adeiladu, cynyddu gallu gwasanaethau gwaith achos ar y ffôn i ddioddefwyr cam-drin domestig a datblygu adnoddau i helpu pobl i ddynodi a ydynt yn profi cam-drin economaidd.

Cyflwynodd yr Adran Gwaith a Phensiynau hyfforddiant wedi ei ddiweddaru ar gam-drin domestig, gan gynnwys cam-drin ariannol, i'r holl weithwyr achos Cynnal Plant yn ail hanner 2018. **Bydd y DWP yn parhau i eithrio dioddefwyr cam-drin domestig rhag y ffi ymgeisio am y cynllun cynnal plant statudol, ac yn parhau i fynd ar ôl rhieni nad ydynt yn bodloni eu hymrwymiadau ariannol.**

Rydym yn cydnabod bod llawer o rwystrau sy'n atal y dioddefwyr wrth ailadeiladu eu bywydau. Er mwyn cefnogi pobl i ddychwelyd i'r gwaith pan fyddant yn barod i wneud hynny, **mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i £500,000 o gyllid, a fydd yn cael ei ganolbwyntio ar y rhai sydd â rhwystrau ychwanegol i'w hatal rhag cymryd rhan yn y farchnad lafur** – gyda phwyslais penodol ar y rhai sydd wedi bod yn ddioddefwyr cam-drin domestig.

*Credyd Cynhwysol*
Cyhoeddodd y DWP ddata yng Ngorffennaf 2018 sy'n dangos bod y mwyafrif o hawlwyr Credyd Cynhwysol newydd yn cael eu talu yn llawn ac ar amser. Os na all rhywun aros am daliadau cyntaf oherwydd eu bod mewn angen ariannol, gallant hawlio hyd at daliad ymlaen llaw o 100% o'r dyfarniad dangosol mewn ychydig ddyddiau – hyd yn oed ar yr un diwrnod mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig. Gwnaeth y llywodraeth welliannau yng Nghyllideb 2018 i gefnogi'r agwedd bwysig o Gredyd Cynhwysol trwy leihau'r uchafswm cyfradd adfer dyled o 40% i 30% a thrwy ymestyn y cyfnod hwyaf ar gyfer ad-dalu taliadau ymlaen llaw i 16 mis.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 41 08-May-19 12:01:47

Mae'r dewis i ofyn am daliadau wedi eu rhannu hefyd ar gael i hawlwyr fel rhan o'r pecyn hwn o gefnogaeth. Pan fydd unigolyn yn dioddef cam-drin domestig yn gofyn am daliad wedi ei rannu, bydd y DWP yn ei gefnogi i wneud y trefniant hwn. Bydd taliadau wedi eu rhannu yn cael eu rhoi bob amser pan ofynnir amdanynt, a phan fyddant y dewis gorau i'r hawlydd. Gellir defnyddio taliadau wedi eu rhannu i gefnogi hawlwyr mewn nifer o sefyllfaoedd gwahanol, pan fydd camreoli ariannol, er enghraifft pan fydd un aelod o'r cwpl yn gaeth i rywbeth, neu yn dioddef cam-drin domestig. Ni fydd yr holl ddioddefwyr cam-drin domestig am rannu taliad a byddwn yn gweithio gyda hawlwyr ar sail pob achos unigol.

Er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r gefnogaeth hon, byddwn yn creu taflen wybodaeth wedi ei theilwrio a chyfres o asedau digidol, er enghraifft, fideos esbonio a ffeithluniau y gellid eu defnyddio a'u rhannu ar-lein ar draws sianeli corfforaethol a rhanddeiliaid. Gallem geisio annog rhanddeiliaid i rannu'r wybodaeth hon yn fewnol a gyda'u staff ac i'w hyrwyddo yn allanol i'r cynulleidfaoedd y maent yn eu cyrraedd. Gall y cyswllt hwn hefyd gael ei deilwrio i'w ddefnyddio gan ein cydweithwyr gweithredol mewn canolfannau gwaith ac yn eu trafodaethau gyda hawlwyr posibl sy'n ddioddefwyr cam-drin. Byddai gan unrhyw gynnyrch arddull 'negeseuon sy'n rhoi gwybodaeth' ac yn cynnwys yr alwad i weithredu/ddolen i GOV.UK berthnasol a chefnogaeth bellach.

**Cyflwynodd y DWP hyfforddiant wedi ei ddiweddaru ar gam-drin domestig, gan gynnwys cam-drin ariannol, i'r holl weithwyr achos Cynnal Plant yn ail hanner 2018.** Rydym yn gweithio'n glos gyda Refuge, Cymorth i Ferched, a Mankind i wella'r hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu i'n staff, sy'n golygu bod hyfforddiant ac ymwybyddiaeth yn yr Adran yn awr yn well nag y bu erioed, gan adael i staff Canolfan Waith ddynodi, cefnogi a chyfeirio dioddefwyr cam-drin yn rhagweithiol.

**Byddwn yn gweithio'n glos gyda Llywodraeth yr Alban i sefydlu beth yw ochr ymarferol cyflawni rhannu taliadau Credyd Cynhwysol yn yr Alban** a byddwn yn gwylio sut y byddant yn cael eu gweithredu er mwyn deall eu heffaith, eu manteision posibl a sialensiau polisi o'r fath yn well.

**Mae'r DWP yn ymroddedig i sicrhau bod taliadau aelwydydd yn mynd yn syth i'r prif ofalwr.** Y fenyw fydd hon fel arfer, ond nid bob amser. I'r cyplau hynny sy'n hawlio Credyd Cynhwysol ar hyn o bryd, mae tua 60% o daliadau eisoes yn mynd i gyfrif banc y fenyw. Ond, rydym yn edrych ar beth yn fwy y gallwn ei wneud i alluogi'r prif ofalwr i dderbyn taliad Credyd Cynhwysol, a bydd yn dechrau gwneud y newidiadau hynny yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Mae gofal plant yn hanfodol i alluogi rhieni i weithio. Er bod y ddarpariaeth dan Gredyd Cynhwysol o hyd at 85% o gostau gofal plant yr hawlydd yn uwch na dan y budd-daliadau dan yr hen drefn, mae'n cael ei dalu fel ôl-ddyled pan fydd y gwir gostau yn hysbys. Wrth gydnabod y gall hyn achosi anawsterau ariannol wrth i rai hawlwyr gael trafferth i dalu ymlaen llaw neu roi adroddiad am eu costau mewn pryd, pan fydd y mis cyntaf o gostau gofal plant yn atal hawlydd rhag dechrau ar waith, gellir defnyddio'r Gronfa Cymorth Hyblyg i helpu. Mae'n bwysig bod yn hyblyg hefyd pan na fydd rhieni yn gallu rhoi adroddiad am eu costau gofal plant ar unwaith, er mwyn i'r costau yma gael eu had-dalu'r un fath.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 48 08-May-19 12:01:47

### 2.5.2 Cam-drin ar-lein

**Er bod datblygiadau technolegol wedi gwella bywydau llawer, rydym yn cydnabod bod pwysigrwydd cynyddol technoleg yn ein bywydau bob dydd yn cynnig cyfleoedd newydd i'r rhai sy'n achosi cam-drin domestig.** Gall hyn gynnwys defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gam-drin ar-lein, yn ogystal â rheoli mynediad dioddefwr at dechnoleg. Rydym yn gwybod hefyd y gall cyflawnwyr, weithiau, osod meddalwedd olrhain, gan droi dyfais y dioddefwr ei hun yn ei erbyn.

**Gall dioddefwyr deimlo nad oes modd dianc.** Nid yw cam-drin ar-lein a cham-drin trwy dechnoleg yn cael eu cyfyngu i leoliad ac fe'u defnyddir i ynysu, cosbi a bychanu. Rydym wedi gweld cynnydd yn y math hwn o droseddu mewn erlyniadau ac yn gwybod bod llawer o'r erlyniadau am ymddygiad gorfodol neu sy'n rheoli wedi cynnwys elfennau o gam-drin ar-lein.

**Rydym yn gwybod bod rhaid i ni wneud mwy i daclo cam-drin yn gysylltiedig â thechnoleg.** Rydym yn gwybod hefyd bod angen i ni wneud rhagor i rymuso dioddefwyr posibl a goroeswyr i deimlo yn fwy diogel ar-lein.

**Er bod technoleg yn cael ei ddefnyddio i gyflawni camdriniaeth, mae cyfle i ddefnyddio technoleg i daclo cam-drin domestig** ac i ddarparu rhagor o gefnogaeth i ddioddefwyr.

**Fe ddywedsoch chi:**

---

*"Addysgu rhai yn eu harddegau am gam-drin ar-lein fel rhan o daclo bwlio a thrais domestig. Credaf y dylai hyn gael ei gyflwyno o 11/12 oed (h.y. Blwyddyn 7) ac y dylid ei drin fel 'cam-drin' e.e. pan fydd bachgen yn mynnu cael cyfrinair Facebook ei gariad."*

---

Fe ddywedsoch chi ei bod yn bwysig cydnabod y rôl y mae technoleg yn ei chwarae mewn bywyd bob dydd, a'r ffordd y gall technolegau gael eu camddefnyddio. Fe ofynasoch chi i'r llywodraeth edrych ar brosesau cyfreithiol, sicrhau bod cwmnïau cyfryngau cymdeithasol yn chwarae eu rhan, codi ymwybyddiaeth ac yn ymdrin â meddalwedd ysbio. Roedd arnoch eisiau:

- i'r llywodraeth edrych ar sut y gall casglu tystiolaeth a'i defnyddio gael eu gwella, yn arbennig mewn ymchwiliadau troseddol a phrosesau erlyn (24%);
- cwmnïau cyfryngau cymdeithasol i roi categorïau adrodd priodol a chyfeirio at wasanaethau cefnogi (20%), yn ogystal â darparu cyfarwyddyd clir ar osodiadau preifatrwydd (18%);
- y llywodraeth i godi ymwybyddiaeth o risgiau ar-lein a thechnoleg yng nghyswllt cam-drin domestig (18%); ac
- adwerthwyr a'r diwydiant technoleg (17%) a'r llywodraeth (14%) i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â meddalwedd ysbio a chamddefnyddio technolegau.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 49 08-May-19 12:01:47

### Byddwn yn:

**Byddwn yn parhau i weithio ar y papur gwyn niweidiau ar-lein**, i'w gyhoeddi yn hwyrach yn y sesiwn seneddol hon, a fydd yn nodi'r cynigion i ymdrin ag ymddygiad a chynnwys niweidiol ac anghyfreithlon, gan gynnwys yr ystod eang o niweidiau ar-lein sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig.

### 2.5.3 Trais adolesent ar riant

Mae trais adolesent ar riant yn ffurf ar gam-drin domestig sydd yn guddiedig i raddau ond sy'n cael ei gydnabod yn gynyddol. Gall dioddefwyr y math hwn o gam-drin deimlo yn ansicr sut i gael cefnogaeth ac efallai na fyddant yn teimlo y byddant yn cael eu credu os byddant yn dod ymlaen.

Mae'n bwysig cydnabod bod angen i wasanaethau ddefnyddio dull sy'n rhoi cefnogaeth gyffredinol i'r teulu cyfan, a bod angen i asiantaethau sy'n ymateb gael hyfforddiant i fedru gwneud hynny yn effeithiol, i leihau'r niwed ac i atal plant rhag cyrraedd y system cyfiawnder troseddol.

### Fe ddywedsoch chi:

> *"Mae'n bwysig i drais adolesent ar riant gael ei gydnabod fel rhywbeth gwahanol i drais ar bartner agos os yw patrymau o ymddygiad treisgar a cham-drin gan bob plentyn i gael eu cymryd o ddifrif."*

Fe ddywedsoch bod pobl ifanc sy'n cyflawni cam-drin domestig yn dal yn faes cymharol guddiedig o gam-drin a bod diffyg pwyslais arno yng ngweithgaredd presennol y llywodraeth. Mae'n amlwg bod hwn yn fath cymhleth a chuddiedig o gam-drin, sydd angen ymateb arbenigol.

Soniodd rhai ohonoch sydd wedi profi camdriniaeth gan eich plant am deimlad o elyniaeth gan wasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau eraill, ac roeddech yn teimlo bod diffyg gwasanaethau.

Pwysleisiwyd gennych bod angen i wasanaethau gydweithio i gefnogi'r teulu cyfan, a bod ar asiantaethau angen hyfforddiant i ymdrin â'r math hwn o gam-drin. Trwy ganolbwyntio ymdrechion ar wasanaethau sydd ar gael i rieni a phlant, gall leihau'r niwed a achosir, yn ogystal â chadw plant allan o'r system cyfiawnder troseddol.

### Byddwn yn:

**Byddwn yn tynnu arfer gorau at ei gilydd ac yn datblygu hyfforddiant ac adnoddau i wella'r ymateb i ddioddefwyr trais adolesent ar riant.**

**Byddwn hefyd yn hyrwyddo ac ymwreiddio y cyfarwyddyd sy'n bodoli gan y Swyddfa Gartref** ac egwyddorion cyffredinol yn ychwanegol at weithio gydag arbenigwyr i ddatblygu cyfarwyddyd penodol i wasanaeth.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 50 08-May-19 12:01:47

## 2.6 Hawliau dioddefwyr

### 2.6.1 Cofrestru i bleidleisio yn ddienw

**Pan fydd unigolion yn cofrestru i bleidleisio, mae eu henwau a'u cyfeiriadau yn ymddangos ar gofrestr neu restr gyhoeddus.** Sefydlwyd cofrestru dienw i'r rhai y byddai eu diogelwch mewn perygl petai eu manylion yn cael eu rhestru yn gyhoeddus.

**Pan fydd unigolyn am gofrestru yn ddienw, gofynnir iddo am dystiolaeth y bydd ei ddiogelwch (neu ddiogelwch rhai eraill yn yr un cyfeiriad) mewn perygl.** Rydym yn deall nad yw'r broses hon wedi bod yn hawdd bob amser i ddioddefwyr cam-drin domestig. Ym Mawrth 2018, gwnaeth y llywodraeth newidiadau sy'n gadael i ystod ehangach o bobl ardystio bod diogelwch yr ymgeisydd mewn perygl ac ehangu'r math o dystiolaeth y gellir ei derbyn wrth ymgeisio. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y camau hyn a byddwn yn parhau i asesu eu heffaith ac ymgysylltu ynglŷn â sut y gall y cynllun gael ei wella.

**Fe ddywedsoch chi:**

*"Rwy'n meddwl ei bod yn hollol glir. Os bydd cyflawnwyr yn gwybod ble mae eu dioddefwyr (a'u plant) yn byw yna maent mewn risg sylweddol. Risg i iechyd meddwl, iechyd corfforol a risg i'w cartref."*

Roeddech yn bositif am y newidiadau a gyflwynwyd yn barod a dywedodd 57% y byddai'n ei gwneud yn haws i oroeswyr cam-drin domestig gofrestru i bleidleisio yn ddienw. Dim ond 2% ohonoch oedd yn meddwl na fyddai'r newidiadau yn ei gwneud yn haws.

Er bod ymatebwyr yn meddwl bod ffyrdd eraill eto o gadw cyfeiriadau dioddefwyr yn ddiogel (75%), ni wnaeth mwyafrif yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn nodi beth ddylai'r newid hwn fod.

**Byddwn yn:**

Hyd yn hyn rydym wedi gweithio yn glos gydag elusennau cam-drin domestig, rheolwyr llochesi a gweinyddwyr etholiadol i ddeall yr anawsterau y mae goroeswyr cam-drin domestig yn eu hwynebu wrth ddefnyddio'r gofrestr etholiadol. **Byddwn yn parhau i weithio'n glos gyda nhw er mwyn hyrwyddo mwy i ddefnyddio'r cynllun**.

Rydym yn parhau yn ymroddedig i sicrhau na fydd unrhyw un yn cael ei atal rhag defnyddio ei hawl democrataidd i bleidleisio. **Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o'r cynllun cofrestru dienw trwy ymgysylltu â chyfathrebu** i sicrhau bod mwy o ymgeiswyr yn gallu cofrestru â hyder gan ddefnyddio system hygyrch a diogel.

### 2.6.2 Y Cynllun Datgelu Trais Domestig

Cyflwynwyd Cynllun Datgelu Trais Domestig (DVDS), a elwir hefyd yn Gyfraith Clare, yn 2014. **Mae'n galluogi'r heddlu i ddatgelu gwybodaeth i ddioddefwr, neu ddioddefwr posibl, cam-drin domestig am droseddau cam-drin neu dreisgar blaenorol ei bartner (neu gynbartner).**



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 59 08-May-19 12:01:47

**Diben y cynllun yw cynyddu diogelwch y cyhoedd.** Rydym am gynyddu ymwybyddiaeth o'r cynllun, cynyddu'r nifer o ddatgeliadau a wneir a sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio a'i weithredu yn gyson ar draws yr holl luoedd heddlu.

### Fe ddywedsoch chi:

> *"Nid oeddwn yn gwybod bod gan fy nghynbartner hanes o gam-drin domestig. Fe glywais am Gyfraith Clare ar ôl iddo ymosod arnaf fi. Petawn yn gwybod am Gyfraith Clare a'i hanes o gam-drin domestig fyddwn i fyth wedi bod yn y sefyllfa honno."*

Nid oedd cyfanswm o 32% ohonoch wedi clywed am DVDS cyn darllen yr ymgynghoriad; o hyn, roedd 61% yn ddioddefwyr. Dengys hyn yn glir bod mwy o waith i'w wneud i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun ymhlith y cyhoedd.

Roedd y mwyafrif ohonoch – 57% – yn cytuno neu yn cytuno'n gryf y dylai'r cyfarwyddyd sy'n sail i'r cynllun gael ei droi yn gyfraith.

O ran hyrwyddo ymwybyddiaeth, teimlai 32% ohonoch mai cyfryngau cymdeithasol fyddai'r ffordd orau a theimlai 22% mai teledu a chylchgronau fyddai orau.

### Byddwn yn:

**Byddwn yn rhoi'r cyfarwyddyd y mae'r DVDS yn seiliedig arno mewn statud.**

Bydd hyn yn rhoi dyletswydd ar yr heddlu i ystyried y cyfarwyddyd a chryfhau pa mor weladwy yw'r cynllun a'r defnydd ohono. Credwn y bydd hyn yn arwain at fwy o bobl yn cael rhybudd o'r peryglon y mae eu partneriaid (neu gynbartneriaid) yn eu creu ac yn helpu i gadw dioddefwyr yn fwy diogel.

**Byddwn yn gweithio gyda'r heddlu i alluogi ceisiadau ar-lein i'r DVDS i'w wneud yn haws ei ddefnyddio ac yn fwy hygyrch.**

## 2.7 Dioddefwyr gwrywaidd

**Mae'r llywodraeth wedi cydnabod wastad bod cam-drin domestig yn drosedd yn gysylltiedig â rhyw penodol a'i gynnwys yn ei gwaith ar Drais yn Erbyn Menywod a Merched.** Mae tystiolaeth yn cefnogi'r safbwynt hwn. Er enghraifft, yn ôl Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr 2016/17, amcangyfrifir bod 1.2 miliwn o fenywod wedi profi cam-drin domestig yn y flwyddyn yn dod i ben Mawrth 2017, mewn cymhariaeth â'r amcangyfrif o 713,000 o ddynion.[25]

[25] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2017). *Domestic abuse in England and Wales: year ending March 2017*. Bwletin ystadegol. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/domesticabuseinenglandandwales/yearendingmarch2017.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 08-May-19 12:01:47

**Fodd bynnag, fel sy'n amlwg oddi wrth y ffigyrau hyn, mae dynion a bechgyn hefyd yn ddioddefwyr cam-drin domestig a dengys yr ymatebion bod rhai pobl yn ei chael hi'n anodd gweld eu hunain fel dioddefwr ac yn gweld eu bod yn wynebu rhwystrau wrth roi adroddiad am y troseddau hyn a defnyddio gwasanaethau cefnogi priodol.** Mewn digwyddiad ymgynghori **yn canolbwyntio ar y mater hwn, amlygwyd digartrefedd, diweithdra a hunanladdiad fel canlyniadau cam-drin domestig; cymhlethdod cael plant gyda'r cyflawnwr; a'r angen i wasanaethau ddeall profiadau penodol dioddefwyr gwrywaidd a gallu ymateb i'w hanghenion yn effeithiol.**

Ers 2005, rydym wedi ariannu'r Llinell Gynghori i Ddynion, llinell gymorth gyfrinachol i ddynion sy'n profi cam-drin domestig. Rydym hefyd yn ariannu'r Llinell Gymorth Trais Domestig LGBT+, sy'n rhoi gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i ddynion hoyw, deurywiol a thraws (yn ogystal â menywod lesbaidd, deurywiol a thraws) y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt.

Rydym am gryfhau'r gefnogaeth i ddioddefwyr gwrywaidd trwy'r wlad, gan sicrhau bod yr holl ddioddefwyr yn cael eu dynodi yn ddigonol ac na fydd unrhyw ddioddefwr yn cael ei gau allan o gael ei ddiogelu neu gael mynediad at wasanaethau yn anfwriadol, ac i ddarparu pecyn mwy cynhwysfawr o gamau cefnogi.

## Fe ddywedsoch chi:

*"Nid yw tua 40% o ddioddefwyr gwrywaidd yn rhoi adroddiad amdano. Mae angen ymdrin â hyn. Nid yw dynion hyd yn oed yn siarad ag unrhyw un felly pan fyddant yn siarad â'r heddlu neu unrhyw un mae angen iddynt gael eu credu ar unwaith a chael help."*

Fe ddywedsoch chi y byddech yn hoffi i fwy o gyllid ac adnoddau gael eu dyrannu yn benodol i ddioddefwyr gwrywaidd. Fe wnaethoch ddweud wrthym hefyd y dylid cael hyfforddiant i asiantaethau ac ymarferwyr, yr heddlu, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr iechyd proffesiynol yn benodol, i adnabod a deall dioddefwyr gwrywaidd. Yn ychwanegol, rydych am sicrhau bod addysg perthnasau yn hollol gynhwysol, yn cydnabod y gall menywod/merched a dynion/bechgyn fod yn gyflawnwyr a dioddefwyr gan ystyried anghenion dioddefwyr gwrywaidd ac LGBT+.

## Byddwn yn:

**Byddwn yn cyhoeddi Datganiad Safbwynt Dioddefwyr Gwrywaidd i gydnabod anghenion dioddefwyr cam-drin domestig, trais rhywiol a phriodas dan orfod gwrywaidd, ac egluro safbwynt y llywodraeth.**

**Byddwn yn darparu £500,000 o gyllid i wella'r gefnogaeth i ddioddefwyr gwrywaidd cam-drin domestig.**

**Byddwn yn gweithio gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) i wella'r manylion o ran rhyw yn nata'r CPS a'r heddlu i ddeall yn well y nifer o ddioddefwyr gwrywaidd cam-drin domestig sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol.**



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 53 08-May-19 12:01:47

**Byddwn yn cynnal adolygiad o'r Datganiad Disgwyliadau Cenedlaethol[26] ac, fel rhan o hyn, yn ystyried ei effaith ar gomisiynu gwasanaethau cefnogi gwrywaidd. Bydd hyn yn gweithio i sicrhau bod comisiynwyr yn cael eu haddysgu am gymhlethdodau comisiynu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr, yn ymwybodol o ryw ac yn rhoi ymateb priodol yn ôl anghenion y dioddefwr, gan gynnwys dioddefwyr LGBT+.**

[26] https://www.gov.uk/government/publications/violence-against-women-and-girls-national-statement-ofexpectations



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 54 08-May-19 12:01:47

# Adran 3: Trawsnewid y broses gyfiawnder a'r ymateb i'r cyflawnwr

## 3.1 Trawsnewid ymateb yr heddlu

**Amlygodd adroddiad yn 2014 gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi oedd yn adolygu ymateb yr heddlu i ddioddefwyr cam-drin domestig nifer o fethiannau.**[27] Cododd yr adroddiad, oedd yn edrych ar y 43 llu heddlu yng Nghymru a Lloegr, broblemau yn ymwneud â diwylliant, agwedd a sgiliau craidd. Fel ymateb, sefydlodd yr Ysgrifennydd Cartref ar y pryd Grŵp Goruchwylio Cenedlaethol. Yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf mae'r arolygiaeth wedi olrhain cynnydd yr heddlu ar gam-drin domestig yn flynyddol, ac mae wedi gweld bod ymateb yr heddlu yn gwella, gyda cham-drin domestig yn awr yn cael ei weld yn flaenoriaeth gyson ar draws pob llu heddlu.

**Mae'r Grŵp Goruchwylio Cenedlaethol wedi goruchwylio nifer o gynlluniau newydd.** Mae'r rhain yn cynnwys cyhoeddi cynllun gwella cam-drin domestig gan bob llu heddlu; cyfarwyddyd newydd a gyhoeddwyd gan y Coleg Plismona; hyfforddiant newydd a safon genedlaethol ar gyfer casglu data ar gyfer troseddau a gofnodwyd fel cam-drin domestig; cyflwyno arolygon gwella i ddioddefwyr; a chyhoeddi bwletinau data blynyddol am gam-drin domestig gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Wrth ymateb i ganfyddiadau bod y model asesiad risg Cam-drin Domestig, Stelcio ac Aflonyddu a Thrais ar Sail Anrhydedd (DASH) yn cael ei ddefnyddio yn anghyson ar draws yr holl luoedd heddlu, **mae'r Coleg Plismona wedi treialu offeryn asesu risg diwygiedig mewn tri llu heddlu.** Canfu gwerthusiad cynnar bod yr offeryn newydd yn annog dioddefwyr i ddatgelu mwy o ymddygiad gorfodol ac sy'n rheoli a hefyd yn cynyddu cywirdeb asesiadau risg.

**Rydym wedi gweld blaengaredd mewn nifer o luoedd heddlu.** Darparodd y Swyddfa Gartref £6.7 miliwn trwy eu Cronfa Drawsnewid yr Heddlu i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Northumbria, i ddatblygu dull system gyfan o ymdrin â cham-drin domestig. Mae hyn yn cynnwys camau i wella gweithio effeithiol yn y system cyfiawnder troseddol; gwaith partneriaeth gyda llysoedd sifil a theulu; cefnogaeth i ddioddefwyr a rheoli troseddwyr amlasiantaethol; a threialon ar gamerâu ar y corff i gryfhau achosion i'r erlyniad. Bu'r canlyniadau cynnar yn bositif, gyda chynllun treialu rhoi tasgau a chydlynu amlasiantaethol yn llwyddo i gael gostyngiad o 65% mewn aildroseddu yng nghyswllt troseddau yn gysylltiedig â cham-drin domestig.

**Mae erlyniadau a chollfarnau am gam-drin domestig wedi codi ers 2010** – o 20% a 28% yn eu tro. Ond, rydym wedi gweld gostyngiad bychan yn y nifer o erlyniadau a chollfarnau yn 2018 a gostyngiad yn y nifer o achosion a gyfeirir gan yr heddlu at y CPS, yr ydym yn gweithio i ymdrin ag ef.

[27] Arolygaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (2014) *Everyone's Business: improving the police response to domestic abuse*. Ar gael yn: www.justiceinspectorates.gov.uk/hmicfrs/wp- content/uploads/2014/04/improving-the-police-response-todomestic-abuse.pdf.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 55 08-May-19 12:01:47

Rydym yn sylweddoli hefyd bod sialensiau yn dal wrth ymchwilio i droseddau yn ymwneud â cham-drin domestig, gyda data diweddar gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod gan 49% o droseddau yn gysylltiedig â cham-drin domestig anawsterau tystiolaethol pan nad oedd y dioddefwr yn cefnogi gweithredu a 22% ag anawsterau tystiolaethol pan oedd dioddefwr yn cefnogi'r camau.

## Fe ddywedsoch chi:

*"Nid yw dioddefwyr yn ymddiried yn yr heddlu na gorfodi'r gyfraith, nid ydynt yn meddwl y gellir gwneud dim oherwydd yn gyffredinol maen nhw wedi ceisio rhoi adroddiad o'r blaen ac nid oes dim wedi newid."*

*"Mae problemau diwylliannol gyda'r heddlu o hyd... Gallwn fod yn robotig yn ein dull, yn gorfodi arestio ac yn mynnu bod tystion yn rhoi datganiadau. Gallwn bechu yn erbyn dioddefwyr a chynyddu'r risg iddynt."*

Ar bwnc gwella ymateb yr heddlu a deilliannau i ddioddefwyr, eich barn bendant oedd y dylid rhoi mwy o hyfforddiant i swyddogion yr heddlu. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o ddeinameg cam-drin domestig, hyfforddiant ar sut i adnabod arwyddion rhybudd posibl wrth gymryd yr alwad gychwynnol ac ymateb i alwad am gymorth, a hyfforddiant ar sensitifrwydd tuag at ddioddefwyr posibl. Fe soniwyd gennych hefyd am hyfforddiant wedi ei ganolbwyntio yn fwy ar ymddygiad gorfodol ac sy'n rheoli, yr oeddech yn dweud nad yw'n cael ei ddeall yn eang ymhlith swyddogion yr heddlu. Tanlinellwyd pa mor bwysig yw hi i'r heddlu fabwysiadu dull amlasiantaethol, gan gynnwys cyfeirio dioddefwyr at wasanaethau trydydd sector hefyd.

Fe ddywedsoch chi y byddech yn hoffi gweld swyddogion heddlu cam-drin domestig arbenigol neu unedau cam-drin domestig yn sefyll ar eu traed eu hunain mewn lluoedd heddlu. Fe wnaethoch danlinellu mai un maes allweddol i ganolbwyntio arno i'r swyddogion newydd neu unedau hyn fyddai'r ymateb cychwynnol. Fe wnaethoch hefyd danlinellu'r angen i'r heddlu ddefnyddio eu hoffer a'u grymoedd presennol yn fwy effeithiol, gan gynnwys defnydd effeithiol o ddarpariaethau mechnïaeth, defnyddio camerâu ar y corff yn gywir, defnyddio gwell gorfodi ar orchmynion diogelu, a defnyddio dull mwy cyson o weithredu'r Cynllun Datgelu Trais Domestig. Fe wnaethoch ddweud hefyd y dylai'r heddlu gadw cyswllt cyson gyda dioddefwyr a rhoi gwell gwybodaeth iddynt am gynnydd yr ymchwiliad. O ran yr ymateb ehangach gan y system cyfiawnder troseddol, fe wnaethoch ddweud y dylid dwyn mwy o erlyniadau ar sail tystiolaeth ymlaen, i leihau'r baich ar y dioddefwr.

## Byddwn yn:

**Rydym yn cydnabod bod meysydd eraill lle gellid gwella ymateb yr heddlu i gam-drin domestig.** Rydych wedi dynodi bod un broblem allweddol yn ymwneud â hyfforddiant, felly byddwn yn ystyried y ffordd orau i bob llu heddlu gael hyfforddiant digonol ar gam-drin domestig. Mae nifer o luoedd heddlu wedi cwblhau'r hyfforddiant Domestic Abuse Matters ac yn gweithio gyda'r Coleg Plismona a'r Arweinydd Heddlu Cenedlaethol i sicrhau bod yr hyfforddiant hwn neu gyfatebol yn cael ei gyflwyno ar draws yr holl luoedd heddlu. **Byddwn yn darparu cyllid ychwanegol i gefnogi cyflwyno hyfforddiant Domestic Abuse Matters ymhellach.**



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 56 08-May-19 12:01:47

**Er mwyn codi statws a safon cefnogaeth yr heddlu i ddioddefwyr bregus, mae'r Coleg Plismona yn dylunio model 'trwydded i ymarfer' ar gyfer meysydd risg uchel a niwed mawr mewn plismona.** Mae'n gweithio gydag ymarferwyr plismona i ddatblygu rhaglen addysgu ar gyfer arweinwyr strategol yn yr heddlu sydd â chyfrifoldeb am ddiogelu a gwarchod y cyhoedd, gan gynnwys ymwneud â cham-drin domestig.

Mae cyfarwyddyd eisoes yn bodoli parthed offer a grymoedd, gan gynnwys mechnïaeth, camerâu ar y cyrff, gorchmynion diogelu a Chynllun Datgelu Trais Domestig. Ond, rydym yn ystyried sut y gall y cyfarwyddyd hwn gael ei wella. **Er mwyn rhannu'r cyfarwyddyd hwn yn effeithiol i bob llu heddlu, rydym yn ystyried cyflwyno pecyn offer arfer effeithiol cenedlaethol.**

**Byddwn yn parhau i yrru cynnydd ar ymateb yr heddlu i gam-drin domestig yn ei flaen** trwy'r Grŵp Goruchwylio Cenedlaethol, a byddwn yn gweithio'n glos gyda'r Coleg Plismona, yr Arweinydd Plismona Cenedlaethol ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi. **Byddwn yn parhau i asesu ymateb yr heddlu i gam-drin domestig fel rhan o asesiad PEEL 2018/19 sef y broses flynyddol o ddwyn yr holl dystiolaeth o werthusiadau lluoedd heddlu at ei gilydd o bob rhan o'r wlad Bydd y Coleg Plismona yn cynnal profion pellach o'r broses asesu risg newydd i bennu a yw'n cefnogi dynodi rheolaeth orfodol ac felly yn cynnig gwell diogeliad i ddioddefwyr cam-drin domestig.** Bydd hefyd yn ymgynghori ar y cyngor a roddir i'r heddlu am stelcio ac aflonyddu fel bod y gwahaniaeth rhwng y ddwy drosedd yn cael ei ddeall yn well, a bod y risgiau sy'n gysylltiedig â stelcio yn cael eu dynodi a'u trin yn fwy effeithiol.

**Byddwn yn parhau i weithio'n glos gyda'r heddlu a'r CPS i sicrhau bod cyflawnwyr yn cael eu dwyn o flaen eu gwell, yn ogystal â diogelu dioddefwyr cam-drin domestig ymhellach.** Bydd y CPS yn parhau i weithio yn glos gyda'r heddlu yn lleol ac yn genedlaethol i sicrhau bod cyfeiriadau addas yn cael eu gwneud gan yr heddlu ac i ymdrin ag unrhyw ostyngiad yn y cyfeiriadau pan fydd angen. Bydd cyfarwyddyd penodol yn cael ei ddiweddaru i helpu erlynyddion i ymdrin â materion cymhleth sy'n ymwneud â rhoi pwysau parhaol ar dystion, i amlinellu pa mor addas yw cyhuddo neu eu dargyfeirio o'r system cyfiawnder troseddol i droseddwyr benywaidd sydd wedi bod yn ddioddefwyr troseddau yn y gorffennol – yn arbennig i ddioddefwyr cam-drin domestig neu gam-fanteisio rhywiol – ac i helpu i herio chwedlau a stereoteipiau am brofiad dioddefwyr gwrywaidd.

**Byddwn yn ceisio gwella effeithiolrwydd a chynyddu nifer yr erlyniadau ar sail tystiolaeth pan na fydd y dioddefwr yn cefnogi gweithredu.** Bydd Arolygiaeth CPS Ei Mawrhydi ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi yn cynnal arolwg ar y cyd o effeithiolrwydd achosion sy'n cael eu herlyn ar sail tystiolaeth heblaw tystiolaeth a roddir yn uniongyrchol gan y dioddefwr.

**Byddwn yn parhau i gyflwyno camerâu ar y corff, y dangoswyd eu bod wedi cael effaith gadarnhaol ar y nifer o gyhuddiadau a wnaed a gallant gryfhau'r achos dros yr erlyniad.** Ers 2013, rydym wedi rhoi £5 miliwn o gyllid i luoedd heddlu i dreialu camerâu ar y corff. Ar ddiwedd 2017, roedd mwy na 65,000 o ddyfeisiadau yn cael eu defnyddio trwy'r 43 llu heddlu. Erbyn 2019, bydd y cynlluniau defnyddio a chaffael presennol yn mynd â'r ffigwr hwnnw i bron i 81,000 o ddyfeisiadau.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 57 08-May-19 12:01:47

## 3.2 System cyfiawnder troseddol

### 3.2.1 Trosedd ymddygiad sy'n rheoli neu orfodol

**Yn Rhagfyr 2015, cyflwynwyd trosedd newydd gennym o ymddygiad sy'n rheoli neu orfodol mewn perthynas deuluol agos.** Mae'r drosedd hon yn benodol i gam-drin domestig ac mae'n rhoi lle i geisio cael cyfiawnder yn erbyn cyflawnwyr y mae eu hymddygiad yn cynnwys ymddygiad dros amser sy'n cynnwys cam-drin seicolegol ac emosiynol.

**Yn y flwyddyn yn dod i ben ym Mawrth 2018, cofnodwyd cyfanswm o 9,053 o droseddau o reolaeth orfodol gan yr heddlu a chychwynnwyd erlyniadau am 960 o droseddau mewn llysoedd ynadon.** Mae hyn yn galonogol, ac yn awgrymu bod ymwybyddiaeth gynyddol o'r drosedd ymhlith yr heddlu, y CPS, a'r system cyfiawnder troseddol ehangach ac aelodau o'r cyhoedd. Ond, rydym yn cydnabod bod rhagor o waith i'w wneud i godi ymwybyddiaeth, gwella dealltwriaeth o'r drosedd a chynyddu'r nifer o erlyniadau.

**Rydym hefyd yn cydnabod bod tebygrwydd allweddol rhwng ymddygiad sy'n rheoli neu orfodol sy'n digwydd mewn perthynas agos ac ymddygiad stelcio, yn benodol y rhai sy'n ymwneud â rheoli, gwylio, bygwth a cham-ddefnyddio dioddefwr.** Rydym hefyd yn cydnabod y gall hyn ddigwydd pan fydd perthynas agos lle'r oedd camdriniaeth yn dod i ben neu pan na fydd y cyflawnwr a'r dioddefwr yn byw gyda'i gilydd bellach. Pan fydd cam-drin domestig yn parhau ar ôl gwahanu, yn arbennig pan fydd hyn yn cynnwys cam-drin economaidd, rydym am sicrhau bod cyfarwyddyd yn ei gwneud yn glir pryd y dylid ymdrin â'r ymddygiad dan y drosedd rheolaeth orfodol neu'r drosedd stelcio ac aflonyddu.

**Rydym yn cefnogi Mesur Diogelu Stelcio Dr Sarah Wollaston a fydd yn cyflwyno Gorchmynion Diogelu Stelcio sifil**. Yn amodol ar weld y Mesur yn cael ei basio, bydd Gorchmynion Diogelu Stelcio ar gael i ddiogelu dioddefwyr 'stelcio dieithriaid' fel y'i gelwir a dioddefwyr stelcio mewn cyd-destun cam-drin domestig pan fydd yn addas.

**Fe ddywedsoch chi:**

*"Mae ymddygiad gorfodol ac sy'n rheoli yn anodd ei fesur a'i esbonio. Mae'n ddinistriol. Byddai mwy o ddealltwriaeth nad yw cam-drin fyth yn 'golli rheolaeth', ei fod bob amser yn 'reolaeth lwyr', yn mynd yn bell iawn i helpu dioddefwyr i gamu ymlaen."*

*"Mae angen i ni ddechrau ffurfio cysylltiad rhwng gwahanol droseddau i gau'r rhwyd ar gyflawnwyr sy'n cyflawni cam-drin domestig sy'n rheoli ac yn orfodol."*



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 58 08-May-19 12:01:47

Dywedodd cyfanswm o 73% ohonoch fod camau pellach y gallai'r llywodraeth eu cymryd i gryfhau effeithiolrwydd y drosedd ymddygiad gorfodol ac sy'n rheoli.

Roedd y rhan fwyaf o ymatebion yn galw am well dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r drosedd ymhlith swyddogion statudol, gan gynnwys yr heddlu a phobl yn gweithio yn y system cyfiawnder troseddol, fel bod dioddefwyr yn cael eu diogelu a'u cefnogi yn well. Roedd llawer o ymatebion hefyd yn amlygu'r angen ar gyfer gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol. Gallai'r ddau gam yma drosi i weld cynnydd yn y troseddau sy'n cael eu cofnodi, mwy o achosion yn mynd i'r llys, a chollfarnau ac erlyniadau mwy llwyddiannus.

Awgrymodd yr ymatebion hefyd y dylid diwygio'r gyfraith bresennol i gynnwys cam-drin sy'n cael ei gyflawni gan gynbartneriaid neu bartneriaid nad ydynt yn byw gyda'r dioddefwr bellach. Roedd yr ymatebwyr am i'r drosedd gydnabod y gall cam-drin ddigwydd hyd yn oed ar ôl i berthynas ddod i ben neu i'r partneriaid wahanu.

Roedd yr ymatebion yn galw am i gam-drin economaidd gael ei gydnabod fel rhan o ymddygiad gorfodol neu sy'n rheoli, yn ogystal â cham-drin sy'n cael ei gyflawni trwy system y llysoedd a thrwy drefniadau cyswllt â phlant, y cyfan ohonynt yn gallu digwydd ar ôl gwahanu. Byddai hyn hefyd yn helpu i danlinellu a chydnabod effaith ymddygiad gorfodol neu sy'n rheoli ar blant.

### Byddwn yn:

**Byddwn yn gwella dealltwriaeth o'r drosedd trwy'r system cyfiawnder troseddol i gyd,** ac yn gweithio i chwalu stereoteipiau trwy hyrwyddo'r cyfarwyddyd statudol wedi ei ddiweddaru am y drosedd trwy'r llysoedd a'r system gyfiawnder. Bydd hyn yn helpu i gynyddu'r nifer o achosion sy'n cael eu dwyn, eu cyhuddo a'u herlyn yn llwyddiannus dan y drosedd hon.

Rydym hefyd wedi edrych ar ddichonolrwydd ymestyn y drosedd fel ei bod yn cynnwys cam-drin sy'n cael ei gyflawni gan gynbartner nad yw'n byw gyda'r dioddefwr bellach. Rydym wedi dod i'r casgliad bod yr ymddygiad yma eisoes yn cael ei gynnwys dan y ddeddfwriaeth stelcio ac aflonyddu sy'n bodoli.[28] Ond, o'r hyn yr ydych chi a'n rhanddeiliaid allweddol yn y sector wedi ei ddweud, y mae'n amlwg nad yw'r berthynas rhwng y troseddau hyn yn cael ei deall yn dda, ac mae hyn weithiau yn rhwystr i effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth ymddygiad gorfodol neu sy'n rheoli. **Rydym am sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu diogelu ar ôl i berthynas ddod i ben, felly byddwn yn rhoi cyfarwyddyd statudol i'r heddlu ar Orchmynion Diogelu Stelcio yn y dyfodol i sicrhau ei bod yn glir y gall y gorchymyn gael ei ddefnyddio mewn cyd-destunau cam-drin domestig fel fydd yn briodol.**

Byddwn hefyd yn diweddaru'r cyfarwyddyd statudol a chyfarwyddyd cyfreithiol y CPS ar gyfer y drosedd ymddygiad gorfodol sy'n rheoli. Bydd y cyfarwyddyd wedi ei ddiweddaru yn cynnwys:

- cam-drin economaidd, a sut y gall y ffurf yma ar gam-drin ddod i'r amlwg fel rhan o ymddygiad gorfodol

[28] Gweler Gwasanaeth Erlyn y Goron (2017) *Controlling or Coercive Behaviour in an Intimate or Family Relationship*. Ar gael yn: www.cps.gov.uk/legal-guidance/controlling-or-coercive-behaviour-intimate-or-family-relationship.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 53 08-May-19 12:01:47

- canllaw o ran sut y gall camdriniaeth gael ei chyflawni trwy'r systemau llys troseddol a theulu, gan gynnwys trwy drefniadau cyswllt plant
- rhagor o fanylion am sut y gall bod yn dyst i gam-drin domestig neu fyw ar aelwyd lle mae cam-drin domestig yn cael ei gyflawni gael effaith ar blant

Rydym yn teimlo y gellir cyflawni newid gwirioneddol trwy godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o'r drosedd mewn asiantaethau statudol, ac felly nid ydym ar hyn o bryd yn cynnig diwygio deddfwriaeth. **Ond, byddwn yn ymrwymo i adolygu ei effeithiolrwydd i sicrhau ei fod yn addas i'r diben, a'i fod yn diogelu dioddefwyr rhag camdriniaeth yn ddigonol.**

### 3.2.2 Camau arbennig

**Darpariaethau yw camau arbennig a drefnir yn y llysoedd troseddol i ddioddefwyr bregus a dan fygythiad pan fydd y llys yn fodlon y bydd y camau yn gwella ansawdd y dystiolaeth a roddir.** Mae amrywiaeth o gamau arbennig ar gael, ac mae cymhwyster yn dibynnu ar anghenion a barn benodol y dioddefwr. Y cam arbennig mwyaf cyffredin yw sgrin sy'n gadael i'r dioddefwr roi tystiolaeth heb gael ei weld gan y diffynnydd neu'r oriel gyhoeddus.

**Ar hyn o bryd, gall partïon ymgeisio am gamau arbennig ar ran dioddefwyr, neu gall y llys ei hun roi cyfarwyddyd i ddefnyddio camau arbennig.** I ddioddefwyr troseddau sy'n ymwneud â cham-drin domestig, gwneir hyn ar y sail eu bod yn gymwys dan adran 17 o Ddeddf Tystiolaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Throseddol 1999. Penderfyniad y barnwr sy'n llywyddu yw a fydd camau arbennig yn cael eu caniatáu yn y llys, gan ddibynnu a fyddai'r camau yn gwella ansawdd y dystiolaeth a roddir, ac a fyddai'n atal parti i brofi'r dystiolaeth honno yn effeithiol.

**Roeddem yn ceisio barn a fyddai tybiaeth gyfreithiol y byddai dioddefwyr troseddau yn ymwneud â cham-drin domestig yn gymwys am gamau arbennig ar sail ofn a phryder yn annog rhagor o ddioddefwyr i roi tystiolaeth.** Byddai hyn yn golygu na fyddai angen sefydlu bod ar y tyst ofn neu ei fod yn pryderu, dim ond ei fod yn ddioddefwr trosedd yn ymwneud â cham-drin domestig ac y byddai darparu camau o'r fath yn gwella ansawdd y dystiolaeth. Y barnwr fyddai'n llywyddu fyddai'n penderfynu a fyddai'n caniatáu defnyddio camau arbennig neu beidio yng nghyswllt tyst penodol.

### Fe ddywedsoch chi:

> *"Oni bai eich bod wedi profi pa mor anodd yw dweud wrth un unigolyn am yr hyn sydd wedi digwydd, ni fydd gennych unrhyw amgyffred cymaint anos yw dweud wrth lond ystafell o ddieithriaid... Mae unrhyw beth fydd yn helpu dioddefwyr i gael llais a'r dewrder i godi llais yn hanfodol."*

O'r rhai a atebodd y cwestiwn, dywedodd 83% y dylai cael defnyddio camau arbennig ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig fod yn awtomatig, ac os byddai'r llywodraeth yn darparu hyn i chi y byddai gennych fwy o hyder yn y system cyfiawnder troseddol.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 55 08-May-19 12:01:48

Fe ddywedsoch chi hefyd y dylai'r defnydd o gamau arbennig a'u hargaeledd gynyddu, bod angen i staff llysoedd fod â gwell dealltwriaeth o anghenion dioddefwr, ac y dylid cael eiriolaeth arbenigol i'r dioddefwr. Codwyd mater hyd achos llys gennych gan ddweud eich bod am i ni gyflymu'r broses, a chynyddu'r ddarpariaeth o lysoedd trais domestig arbenigol. Awgrymwyd gennych y dylai tystiolaeth a gesglir gan gamerâu ar gyrff yr heddlu gael mwy o ddefnydd yn y llysoedd.

### Byddwn yn:

**Rydym wedi gwrando ar eich ymatebion am ddarparu camau arbennig**. Bydd y Mesur Cam-drin Domestig drafft yn cyflwyno cynigion ar gyfer newidiadau deddfwriaethol i ddarparu ar gyfer cymhwyster awtomatig am gamau arbennig mewn achosion cam-drin domestig, gan dynnu'r baich o brofi bod arno ofn neu ei fod yn pryderu oddi ar y dioddefwr. Y barnwr fydd yn dal i wneud y penderfyniad terfynol ar ba gamau arbennig fydd yn addas ym mhob achos.

**Rydym yn sylweddoli bod problem am hyd achosion hefyd ac rydym eisoes wedi cymryd camau sylweddol tuag at gyflymu'r broses hon.** Cyflwynwyd y Weithdrefn Cyfiawnder Sengl yn 2015 i ymdrin â throseddau llai difrifol pan na fydd unrhyw ddioddefwr yn cael ei enwi, fel teithio ar drên heb docyn, peidio â chofrestru newid o ran perchenogaeth car neu beidio â thalu am drwydded deledu. Mae achosion yn cael eu trin yn gyflym ac effeithlon ac fe'u penderfynir ar sail y papurau gan un ynad heb i'r diffynnydd na'r erlyniad orfod mynd i'r llys. Mae hyn yn galluogi'r llysoedd i ganolbwyntio ar achosion mwy difrifol a chymhleth.

**Byddwn yn gwella'r amgylchedd yn y llys, gydag ardaloedd aros newydd wedi eu dylunio i sicrhau diogelwch y dioddefwyr a chanllaw dylunio llysoedd newydd yn canolbwyntio ar hygyrchedd i'r rhai mwyaf bregus.** Sefydlwyd ystafelloedd aros enghreifftiol i ddioddefwyr a thystion yn barod mewn pum llys troseddol ar draws y wlad. Bwriedir y rhain i wella'r profiad o'r system cyfiawnder troseddol i'r holl ddioddefwyr, gan gynnwys dioddefwyr cam-drin domestig.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi yn defnyddio'r ystafelloedd aros enghreifftiol yma ynghyd â chanllaw dylunio newydd a chanlyniadau archwiliad o gyfleusterau i dargedu gwelliannau pellach. Fel un o'i brif flaenoriaethau, mae'n canolbwyntio ar **gynyddu'r nifer o sgriniau preifatrwydd sydd ar gael er mwyn i ddioddefwyr bregus a dan fygythiad roi tystiolaeth heb gael eu gweld gan y diffynnydd na theulu'r diffynnydd**.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio cyswllt fideo i alluogi dioddefwr bregus i roi tystiolaeth ymhell o'r diffynnydd a'r llys yn gyfan gwbl. Yn ogystal â hyn, **mae'r CPS yn adolygu ei gyfarwyddyd cyfreithiol ar gamau arbennig fel bod dioddefwyr a thystion yn gallu deall pa help all fod ar gael yn well**. Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn datblygu cyfres o fideos i esbonio'r broses o roi tystiolaeth i lys a sut y gall camau arbennig helpu.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 55 08-May-19 12:01:48

**Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cenedlaethol, sy'n gyfrifol am gefnogi byrddau lleol i ddwyn mwy o droseddau i'r llys, wedi goruchwylio prosiect plymio yn ddwfn ar draws y system cyfiawnder troseddol i ddatblygu a phrofi fframwaith ymarfer gorau i'w ddefnyddio mewn achosion cam-drin domestig.** Mae hwn yn brosiect amlasiantaethol a fu'n dadansoddi llysoedd gyda chyfraddau collfarnu uchel am droseddau yn gysylltiedig â cham-drin domestig i ddynodi'r prif resymau tu ôl i'w perfformiad a sut y gall yr arferion hyn gael eu hymestyn i lysoedd eraill. Gwelwyd blaengaredd mawr yn y safleoedd profi, gyda chyflwyno cynlluniau fel gwasanaeth ceir IDVA, sesiynau rhwydweithio rhwng asiantaethau cyfiawnder troseddol a gwasanaethau cefnogi dioddefwyr, a sesiynau diweddaru i ynadon.

Ers Medi 2018, mae'r arweinwyr rhanbarthol cam-drin domestig wedi bod yn cydlynu gweithredu'r fframwaith arfer gorau hwn yn lleol. **Byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r fframwaith a byddwn yn datblygu cynlluniau gweithredu yn barod at y dyddiad pan ddaw'r fframwaith i rym yn Ionawr 2019.** Yn 2018/19, bydd y Grŵp Cyflawni Arfer Gorau Cam-drin Domestig Cenedlaethol hefyd yn cefnogi ardaloedd rhanbarthol wrth iddynt weithredu'r arfer gorau plymio'n ddwfn cam-drin domestig a model diwygiedig o'r llys cam-drin domestig arbenigol, sydd wedi eu haddasu yn arbennig ar gyfer gwrandawiadau llys ynadon sy'n ceisio cynyddu'r nifer o erlyniadau llwyddiannus a gwella diogelwch dioddefwyr.

### 3.2.3 Croesholi

**Mewn achosion troseddol, os na fydd diffynnydd yn cael ei gynrychioli yna gall y llys wneud gorchymyn i'r diffynnydd gael ei atal rhag croesholi'r dioddefwr yn bersonol.** Os bydd hyn yn digwydd, mae'r llys yn gallu penodi cyfreithiwr i gynrychioli'r diffynnydd. Gellir gwneud hyn hefyd trwy gais gan yr erlyniad neu gan y llys ar ei ben ei hun. Dan y ddarpariaeth hon, mae llys ar hyn o bryd yn gallu atal cyflawnwr cam-drin domestig honedig rhag croesholi dioddefwr.

**Mewn achosion yn ymwneud â rhai troseddau, gan gynnwys troseddau rhywiol, troseddau caethwasiaeth modern, creulondeb i blant, herwgipio, carcharu ar gam ac ymosod, mae gwaharddiad ar i ddioddefwyr gael eu croesholi gan ddiffynnydd heb gynrychiolaeth.** Mae hyn yn rhoi sicrwydd i'r dioddefwr gan y byddant yn gwybod o'r dechrau na fyddant yn cael eu croesholi gan y cyhuddedig.

**Roeddem am gael barn a ddylem greu gwaharddiad deddfwriaethol i ddioddefwyr cam-drin domestig mewn achosion troseddol,** a defnyddiwyd yr ymgynghoriad fel galwad am dystiolaeth i bennu a fu enghreifftiau mewn achosion troseddol pan wrthodwyd cais i atal croesholi dioddefwr gan ddiffynnydd heb gynrychiolaeth mewn achos cam-drin domestig.

**Ar hyn o bryd nid oes gan y llysoedd teulu yr un grymoedd deddfwriaethol clir ag sydd gan y llysoedd troseddol i atal croesholi yn bersonol.** Mae'n bosibl i farnwyr mewn achosion teuluol ddefnyddio eu grymoedd rheoli achosion cyffredinol i atal dioddefwr rhag cael ei groesholi yn bersonol gan gyflawnwr, ond ar hyn o bryd nid yw'r llys teulu yn gallu penodi cynrychiolydd cyfreithiol i gynrychioli'r dioddefwr a chynnal y croesholi yn ei le**.** Mae hyn yn golygu, mewn rhai achosion nad yw'r llysoedd yn gallu atal dioddefwyr rhag cael eu croesholi gan yr un sydd wedi eu cam-drin.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 08-May-19 12:01:48

## Fe ddywedsoch chi:

Trwy eich ymatebion i'r ymgynghoriad a thrwy eich adborth mewn digwyddiadau rhanddeiliaid, dywedsoch bod grymoedd presennol y llysoedd yn ddigonol i atal dioddefwr cam-drin domestig rhag cael ei groesholi gan y cyhuddedig yn y llys troseddol. Dywedsoch hefyd bod barnwyr yn y byd troseddol yn ddigon cyfarwydd â'r materion hyn i sicrhau bod tystion a all deimlo dan fygythiad o gael eu holi gan y cyhuddedig yn cael eu diogelu.

Er mai dim ond am groesholi yn y llysoedd troseddol y gwnaethom ni holi, roedd eich ymatebion i'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio i raddau helaeth iawn ar achosion teulu. Roeddech yn unfryd ar yr angen i roi grym i lysoedd teulu atal cyflawnwyr cam-drin domestig heb gynrychiolaeth rhag croesholi eu dioddefwyr yn uniongyrchol. Roedd hyn hefyd yn fater allweddol a godwyd gyda ni trwy ddigwyddiadau rhanddeiliaid.

## Byddwn yn:

**Rydym wedi gwrando ar eich barn ar groesholi yn y llysoedd troseddol.** Defnyddiwyd y cwestiwn hwn gennym fel galwad am dystiolaeth i sefydlu a oes angen creu gwaharddiad cyfreithiol am groesholi uniongyrchol, ac ni dderbyniwyd unrhyw dystiolaeth yn yr ymatebion bod y diogeliad yn y llys troseddol yn annigonol. Ar y sail honno, nid ydym yn bwriadu creu gwaharddiad deddfwriaethol yn y llysoedd troseddol.

**Ond, roedd eich ymatebion yn galw yn gryf am gyflwyno diogeliad digonol yn y llysoedd teulu.** Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cyflwyno grymoedd newydd yn y system llysoedd teulu i wahardd croesholi uniongyrchol ar ddioddefwr gan yr un wnaeth ei gam-drin, ac fe wnaeth y ddogfen ymgynghori ailadrodd ein hymrwymiad i ddeddfu ar hyn. **Rydym felly wedi cynnwys y mesurau hyn yn y Mesur Cam-drin Domestig drafft.**

### 3.2.4 Cyfathrebu yn y llys

**Rydym am sicrhau bod gan ddioddefwyr hyder yn y system gyfiawnder.** Mae angen i ddioddefwyr fod â hyder bod y system gyfiawnder yn system deg, ddiduedd sy'n deall deinameg cam-drin domestig ac yn cydnabod y sbectrwm llawn o ymddygiad a all ddigwydd o'i mewn.

**Rydym yn cydnabod y gall y system gyfiawnder fod yn frawychus,** ac y gall y broses bresennol ail godi'r trawma, yn arbennig pan ofynnir i ddioddefwyr ailadrodd eu profiadau o gamdriniaeth dro ar ôl tro. Gwyddom fod dros hanner yr achosion sy'n cael eu nodi fel rhai cam-drin domestig yn arwain at beidio collfarnu oherwydd problem gyda'r achwynydd, sy'n cynnwys achosion pan fydd dioddefwr wedi dewis datgysylltu oddi wrth y broses. Rydym yn cydnabod bod llawer mwy y gallwn ei wneud i gefnogi dioddefwyr trwy'r broses hon i atal hyn rhag digwydd.

**Mae camau yn eu lle i gefnogi dioddefwyr sy'n defnyddio'r system gyfiawnder.** Mae'r rhain yn cynnwys yr Uned Gofal Tystion, sy'n gweithredu fel yr un man cyswllt i ddioddefwyr a thystion i gael y newyddion diweddaraf am eu hachosion. Rydym am sicrhau bod cyfathrebu'r llys gyda dioddefwyr cam-drin domestig yn rhoi digon o gefnogaeth yn ystod proses all fod yn un drawmatig, ac yn rhoi digon o sicrwydd i ddioddefwyr i hwyluso eu mynediad at gyfiawnder.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 57 08-May-19 12:01:48

## Fe ddywedsoch chi:

> *"Yr un peth yr wyf yn hollol ansicr amdano yw pa gamau cefnogi y gallaf fi neu unrhyw ddioddefwr eu disgwyl yn rhesymol. Byddai'n help mawr petai canllawiau hygyrch am hyn ar gael i ddioddefwyr. Byddai hynny yn cael gwared ar rywfaint o'r ansicrwydd o'r broses."*

O'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad, teimlai 68% ohonoch fod mwy i'w wneud i esbonio pa help sydd ar gael i gefnogi dioddefwyr yn y llys. Roedd llawer ohonoch yn meddwl y dylid gweld cynnydd o ran rhannu data rhwng asiantaethau, a bod diffyg ymwybyddiaeth pa wasanaethau a chefnogaeth sydd ar gael i ddioddefwyr cam-drin domestig. Fe ddywedsoch y dylid cynyddu'r cyhoeddusrwydd i'r gefnogaeth hon, y dylid gweld mwy o ddefnydd o IDVA ac y dylai cymorth cyfreithiol fod ar gael yn fwy eang.

## Byddwn yn:

**Rydym yn cydnabod bod llawer mwy y gallwn ei wneud i gefnogi dioddefwyr trwy broses y system cyfiawnder troseddol, ac rydym am wella'r ffordd yr ydym yn cyflawni ein gwasanaethau i ddefnyddwyr y llysoedd.** Mae hyn yn cynnwys gwella ein cynnig digidol i ddioddefwyr, gan roi mwy o ddewis i ddioddefwyr o ran y ffordd y maent yn defnyddio gwasanaethau, ac adolygu'r wybodaeth sydd ar gael ar dudalennau gwe'r system cyfiawnder troseddol i sicrhau bod y wybodaeth yn haws ei chanfod a'i deall. **Rydym am sicrhau bod dioddefwyr yn cael gwasanaethau sydd yn fwy hygyrch a chyfleus.** Byddwn hefyd yn teilwrio'r gwasanaethau hyn yn ôl anghenion dioddefwyr unigol – er enghraifft, trwy roi cefnogaeth wyneb yn wyneb i'r dioddefwyr mwyaf bregus.

**Rydym yn cydnabod, hyd yn oed os byddwn yn gwella'r gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig i ddioddefwyr cam-drin domestig, efallai na fyddant bob amser yn gwybod pa wasanaethau sydd ar gael iddynt.** Byddwn yn gwella ein cyfathrebu cyffredinol â dioddefwyr, gan gynnwys wrth esbonio penderfyniad i beidio ag erlyn a chyfeirio at lwybrau i adolygu penderfyniadau'r CPS ac i ddefnyddio'r Cynllun Iawndal Niweidiau Troseddol.

**Yn 2018 recriwtiwyd 25% yn fwy o gyfryngwyr cofrestredig.** Rydym yn parhau ein rhaglen recriwtio trwy 2019 i sicrhau bod dioddefwyr a thystion ag anghenion cyfathrebu yn cael mynediad prydlon at y cymorth arbenigol y mae arnynt ei angen i fedru rhoi tystiolaeth. Rydym hefyd am helpu dioddefwyr i deimlo yn gyfforddus wrth ddweud eu hanes, ac felly rydym yn anelu at roi mwy o ddewis i ddioddefwyr o ran sut a phryd y maent yn dymuno rhoi eu datganiad tyst a'u datganiad personol dioddefwr. **Byddwn yn adolygu'r gefnogaeth a roddir i ddioddefwyr, gan gynnwys trwy IDVA,** i sicrhau eu bod yn gallu gwneud y defnydd gorau o'u rôl i gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 58 08-May-19 12:01:48

### 3.2.5 Cyflwyno ffactor gwaethygol statudol

**Mae cael y fframwaith cyfreithiol cywir yn hanfodol er mwyn galluogi'r llysoedd i ymdrin yn effeithiol â chyflawnwyr cam-drin domestig.** Credwn y dylai dedfrydu gydnabod yr effaith ddinistriol y gall cam-drin domestig ei chael ar ddioddefwyr. Mae hyn yn cynnwys plant sydd yn dystion, plant sydd yn byw mewn tŷ lle mae cam-drin domestig yn digwydd, a phlant sydd yn cael eu defnyddio i arteithio dioddefwyr.

**Er mwyn rhoi cyfarwyddyd i lysoedd wrth ddedfrydu troseddau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, cyhoeddodd y Cyngor Dedfrydu set ddiwygiedig o ganllawiau dedfrydu cam-drin yn Chwefror 2018.** Daeth y canllawiau i rym ym Mai 2018, ac maent yn amlinellu rhestr nad yw'n hollgynhwysol o ffactorau gwaethygol a allai arwain at roi dedfryd drymach. Mae gan lysoedd ddyletswydd statudol i ddilyn canllawiau dedfrydu oni bai eu bod yn ystyried y bydd gwneud hynny yn groes i fuddiannau cyfiawnder.

**Fe wnaethom ofyn a ddylem ystyried creu ffactor gwaethygol statudol newydd a fyddai'n berthnasol i droseddau yn gysylltiedig â cham-drin domestig.** Trwy'r dull hwn byddai llysoedd yn ystyried unrhyw ffactorau gwaethygol ac yn cynyddu'r ddedfryd yn ôl hynny o fewn yr uchafswm o gosb statudol sydd ar gael am y drosedd. Ond, byddai ffactor gwaethygol statudol yn gofyn i waethygu cam-drin domestig gael ei sefydlu tu hwnt i amheuaeth resymol, sy'n creu risg o roi baich tystiolaethol ar yr heddlu a'r CPS, ac yn cynyddu'r potensial i ragor o ddiffynyddion bledio yn ddieuog i'r cyhuddiadau.

#### Fe ddywedsoch chi:

Roedd barn y rhai wnaeth ymateb i'r cwestiwn yn gymysg. Roedd rhyw 47% ohonoch o blaid creu ffactor waethygol statudol, roedd 13% yn erbyn, a dewisodd y gweddill naill ai ddim yn gwybod neu dim ateb. Roedd y rhai oedd o blaid yn dadlau y byddai creu ffactor gwaethygol statudol yn adlewyrchu effaith cam-drin domestig ar y dioddefwyr dan sylw, gan gynnwys plant. Roedd eraill yn meddwl y byddai'n helpu i droseddau yn ymwneud â cham-drin domestig gael eu cymryd fwy o ddifrif ac arwain at ddedfrydau sy'n adlewyrchu difrifoldeb y drosedd yn well.

Mynegodd rhai ohonoch amheuaeth am y cynnig, gan gynnwys pryderon y gallai ei gwneud yn ofynnol i ragor o blant roi tystiolaeth, a all achosi i ragor o ddioddefwyr dynnu yn ôl o'r achos cyfreithiol er mwyn osgoi gorfod gwneud i'w plant ymddangos mewn llys ac y gallai efallai ostwng y nifer o bleon euog. Fe ddywedsoch chi *"mae'n debyg y bydd mwy o blant yn cael eu galw i roi tystiolaeth mewn achosion sy'n ymwneud â cham-drin domestig"*, a'ch bod yn *"bryderus mai canlyniad cyflwyno ffactor gwaethygol statudol fyddai cynnydd yn y pleon dieuog gan y cyflawnwyr"*. Roedd sylwadau hefyd y gallai danseilio disgresiwn barnwrol. Nododd llawer ohonoch hefyd bwysigrwydd gadael i'r canllawiau dedfrydu newydd ymwreiddio yn gyntaf i weld pa effaith y byddant yn ei gael.

#### Byddwn yn:

**Mae'r canllawiau dedfrydu newydd yn cydnabod bod cyd-destun domestig ymddygiad troseddol yn gwneud y drosedd yn fwy difrifol,** oherwydd ei bod yn cynrychioli gweithredu sy'n torri'r ymddiriedaeth a'r diogelwch a ddylai fodoli yn gyffredinol rhwng pobl mewn perthynas agos neu deuluol. Mae'r canllawiau yn cydnabod y gall cam-drin domestig achosi trawma tymor hir i ddioddefwyr a'u teuluoedd, yn arbennig plant a phobl ifanc a all fod yn dystion neu sydd yn ymwybodol ei fod yn digwydd. Cyfeirir llysoedd yn awr at ganllawiau sy'n cydnabod y gall llawer o droseddau gwahanol gynnwys cam-drin domestig, ac y dylent geisio sicrhau bod y ddedfryd yn adlewyrchu bod trosedd wedi cael ei chyflawni yn y cyd-destun hwnnw.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 59 08-May-19 12:01:48

**Byddwn yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid i ddeall sut y mae'r canllawiau dedfrydu newydd yn gweithio yn ymarferol** ac a yw'r pryderon a godwyd gan y rhai oedd o blaid y cynnig hwn wedi cael eu trafod yn ddigonol yn y canllawiau. Byddwn yn cynnal adolygiad mewnol, ar ôl i'r canllawiau fod yn eu lle am flwyddyn, i asesu a oes angen deddfwriaeth yn y maes hwn. Os bydd yr adolygiad yn dod i'r casgliad bod angen deddfwriaeth, byddwn yn cynnwys mesurau o'r fath yn y Mesur Cam-drin Domestig pan fydd yn cael ei gyflwyno.

### 3.2.6 Rhybuddion amodol

**Mesurau sy'n gadael i'r heddlu drin troseddau risg isel mewn modd cymesur yw datrysiadau y tu allan i'r llys.** Un mesur o'r fath yw rhybudd amodol, sy'n gofyn i oedolyn sy'n droseddwr gydymffurfio ag amodau sy'n ymwneud ag adsefydlu, cywiro neu gosbi. Os bydd y troseddwr yn peidio cydymffurfio, gall wynebu erlyniad am y drosedd wedyn.

**Mae'r cyfarwyddyd presennol gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yn cyfyngu ar y defnydd o rybuddion amodol mewn achosion o gam-drin domestig.** Mae'r cyfarwyddyd yn dweud bod hyn oherwydd mai ar achlysuron prin y byddai mesur o'r fath yn briodol.

**Rhoddodd prosiect treialu, o'r enw Prosiect CARA, ganiatâd i rybuddion amodol gael eu rhoi am ddigwyddiadau cam-drin domestig risg isel, y tro cyntaf yr oedd adroddiad yn cael ei dderbyn fel arfer.** Dangosodd y gwerthusiad o'r prosiect bod y cyfuniad o rybudd amodol a gweithdy wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau aildroseddu, mewn cymhariaeth â rhai ar gyfer pobl oedd yn derbyn dim ond rhybudd amodol. Dengys hyn bod angen profi mwy eang, felly rydym yn bwriadu cynyddu'r dystiolaeth hon trwy yn gyntaf edrych ar raglenni adsefydlu i droseddwyr cam-drin domestig cymwys.

#### Fe ddywedsoch chi:

> *"Mae angen dewis gwahanol a all gefnogi adsefydlu'r troseddwr. Fel arfer mae dioddefwyr eisiau i'r ymddygiad stopio yn unig; byddai'r rhybudd amodol yn cynnig rhai dewisiadau o ran troseddu ar lefel is. Gallai hyn annog dioddefwyr i roi adroddiad ynghynt."*

O'r rhai wnaeth ymateb i'r cwestiwn, roedd 52% yn cefnogi treialu pellach ar rybuddion amodol ac roedd 18% yn gwrthwynebu. Roedd y rhai o blaid yn awgrymu y gallai treialon pellach "*annog ymyrraeth gynnar ac atal y risg rhag cynyddu i'r dioddefwr".*

Roeddech yn cydnabod y gallai cefnogaeth i brofi rhagor ar rybuddion amodol gyfrannu at y dystiolaeth mewn modd wedi ei reoli. Ond, fe wnaethoch hefyd danlinellu pwysigrwydd sicrhau bod cyflawnwyr yn cwblhau rhaglenni adsefydlu yn llawn y byddai angen *"cael eu cefnogi yn gadarn gan orfodaeth os na fydd y cyflawnwr yn ymgysylltu"*, ac y byddai angen i'r rhaglenni hyn fod o safon uchel.

Fe wnaethoch danlinellu nad y drosedd y rhoddir adroddiad amdani gyntaf yw'r digwyddiad cyntaf o gam-drin domestig, ac y byddech yn bryderus petai rhybudd amodol yn cael ei gynnig i rai sy'n troseddu dro ar ôl tro. Fe wnaethoch awgrymu y byddai'n bwysig ystyried ymgysylltu â dioddefwyr, addysg gynnar a newid ymddygiad fel rhan o'r cynlluniau treialu.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 66 08-May-19 12:01:48

### Byddwn yn:

Rydym yn ymroddedig i gasglu tystiolaeth am effeithiolrwydd ymyrraeth gynnar i adsefydlu i daclo troseddwyr cam-drin domestig. **Cytunodd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus i rai lluoedd heddlu dreialu rhybuddion amodol ar gyfer adroddiadau cyntaf risg isel o gam-drin domestig,** gan adeiladu ar lwyddiant Prosiect CARA. Gall rhybuddion amodol, pan fyddant yn cael eu defnyddio yn briodol ac wrth fwydo i mewn i raglenni ymyrraeth gynnar da lleol i droseddwyr, leihau aildroseddu.

**Mae'r CPS yn gweithio gyda Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu i gytuno ar fframwaith safonau gofynnol ar gyfer y lluoedd sy'n cymryd rhan** i sicrhau bod dull cyson o ran cymhwyster a bod ymyrraeth o safon uchel i gyflawnwyr, yn ogystal â phroses werthuso a monitro gadarn. Mae'r problemau a'r pryderon a godwyd yn yr ymgynghoriad hwn wedi cael eu hystyried fel rhan o ddylunio'r safonau gofynnol. Dim ond adroddiadau cyntaf lefel isel o gam-drin domestig pan na fydd tystiolaeth o ymddygiad sy'n rheoli neu orfodol sydd o fewn cwmpas y cynlluniau treialu. Yn barhaus bydd y CPS, partneriaid heddlu, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref yn trafod unrhyw sialensiau neu broblemau wrth weithredu sy'n deillio o'r cynlluniau treialu hyn.

### 3.2.7 Confensiwn Istanbul: awdurdodaeth tu hwnt i diriogaeth

**Set o safonau rhyngwladol a ddyluniwyd i atal trais yn erbyn menywod a cham-drin domestig a brwydro yn ei erbyn yw Confensiwn Istanbul Cyngor Ewrop.** Fe'i mabwysiadwyd ar 7 Ebrill 2011 a daeth i rym ar 1 Awst 2014. Llofnododd y Deyrnas Unedig y confensiwn ar 8 Mehefin 2012 ac rydym wedi ymrwymo i'w gadarnhau cyn gynted â phosibl.

Nododd fersiwn lawn yr ymgynghoriad hwn sut y mae'r llywodraeth yn bwriadu bodloni, yng Nghymru a Lloegr, ymrwymiadau'r Deyrnas Unedig dan Erthygl 44 (awdurdodaeth) Confensiwn Istanbul, a pham bod y llywodraeth yn credu bod ein cyfraith genedlaethol eisoes yn bodloni ein hymrwymiadau dan Erthygl 40 (aflonyddu rhywiol).

*Awdurdodaeth tu hwnt i diriogaeth*

Un elfen sylfaenol o'r confensiwn yw sicrhau bod y gwladwriaethau sy'n cadarnhau yn gallu defnyddio eu cyfreithiau cenedlaethol i erlyn troseddau sy'n ofynnol gan Erthyglau 33-39 o'r confensiwn pan fyddant yn cael eu cyflawni gan eu dinasyddion neu breswylwyr dramor.[29] Roedd yr ymgynghoriad yn nodi rhestr o droseddau yr oedd y llywodraeth yn bwriadu cymryd awdurdodaeth tu hwnt i diriogaeth arnynt. Roedd y rhestr yn cynnwys y drosedd o gaffael erthyliad dan adran 58 o Ddeddf Troseddau yn Erbyn yr Unigolyn 1861, ond nid oedd yn cynnwys y drosedd cyfraith gyffredin o lofruddiaeth y mae gan y llysoedd yng Nghymru a Lloegr eisoes awdurdodaeth tu hwnt i diriogaeth amdani i raddau sylweddol.

[29] Erthygl 44 wedi ei darllen gydag Erthygl 78 (cymalau cadw). Gweler Cyngor Ewropeaidd (2011) *Confensiwn y Cyngor Ewropeaidd ar Atal Trais yn Erbyn Menywod a Thrais Domestig a Brwydro yn eu herbyn*. Ar gael yn: https://rm.coe.int/168008482e.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 61 08-May-19 12:01:48

## Fe ddywedsoch chi:

Ymatebodd nifer fechan ohonoch i'r cwestiwn hwn: Cytunodd 286 ohonoch y byddai cymryd awdurdodaeth tu hwnt i diriogaeth dros y troseddau a restrir yn ddigonol i fodloni'r gofynion awdurdodaeth dan y confensiwn, ac roedd 143 yn anghytuno. Mae hyn yn golygu bod 23% ohonoch yn cytuno â'r cynnig a 12% yn anghytuno, gyda 65% yn dweud naill ai nad oeddech yn gwybod neu heb ateb. Awgrymodd y rhai ohonoch oedd yn anghytuno nifer o droseddau eraill y dylid cymryd awdurdodaeth tu hwnt i diriogaeth amdanynt. Ond, nid yw'r rhan fwyaf o droseddau eraill a awgrymwyd yn droseddau sy'n ofynnol gan y confensiwn, fel byrgleriaeth a thwyll, felly nid oes unrhyw ofyn i gael awdurdodaeth tu hwnt i diriogaeth amdanynt. Roedd rhai o'r troseddau eraill a awgrymwyd yn rhai lle mae gennym awdurdodaeth tu hwnt i diriogaeth yn barod, fel anffurfio organau rhywiol merched a phriodas dan orfod.

Mynegodd rhai ohonoch bryder nad yw'r awdurdodaeth am lofruddiaeth a dynladdiad yn mynd yn ddigon pell, gan gredu nad oes gan y llysoedd yng Nghymru a Lloegr awdurdodaeth dros ddinasyddion nad ydynt yn Brydeinig sy'n cyflawni'r troseddau hyn y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

*"Yr un peth mawr a difrifol sydd ar goll o'r rhestr hon yw dynladdiad yn gysylltiedig â thrais domestig. Mae'r llywodraeth wedi dweud bod y drosedd cyfraith gyffredin o lofruddiaeth eisoes yn destun awdurdodaeth tu hwnt i diriogaeth – ond, dim ond i droseddau a gyflawnir gan wladolyn Prydeinig neu ddinesydd Prydeinig ac nid preswyliwr Prydeinig y mae'r gyfraith gyffredin bresennol yn ymestyn awdurdodaeth tu hwnt i diriogaeth, gan fod rhai cyflawnwyr BAME yn byw yn y Deyrnas Unedig fel preswylwyr ac nid dinasyddion."*

Mynegodd rhai eraill ohonoch bryderon sylweddol am y bwriad i gymryd awdurdodaeth tu hwnt i diriogaeth dros y drosedd o gaffael erthyliad, ac oblygiadau hyn i fenywod yng Ngogledd Iwerddon, yn dilyn dyfarniad y Goruchaf Lys ar 7 Mehefin 2018 mewn achos a ddygwyd gan Gomisiwn Hawliau Dynol Gogledd Iwerddon (NIHRC).[30]

[30] Roedd NIHRC yn ceisio cael datganiad bod cyfraith erthylu yng Ngogledd Iwerddon yn anghydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR). Canfu mwyafrif y Goruchaf Lys nad oedd gan yr NIHRC statws i ddwyn y cais am adolygiad barnwrol, gan wrthod yr apêl ar y sail honno. Ond aeth y Goruchaf Lys ymlaen i roi barn bendant ac roedd mwyafrif yn ystyried bod y gyfraith bresennol yng Ngogledd Iwerddon yn anghymesur ac anghydnaws ag Erthygl 8 ECHR cyn belled â'i fod yn gwahardd erthyliad mewn achosion o (a) abnormaledd angheuol yn y ffoetws, (b) beichiogrwydd o ganlyniad i dreisio a (c) beichiogrwydd o ganlyniad i losgach.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 62 08-May-19 12:01:48

## Byddwn yn:

Mae'r mesur drafft yn ymestyn yr amgylchiadau pan fydd rhai troseddau rhywiol a threisgar yn cael eu cyflawni dramor yn gallu cael eu herlyn yng Nghymru a Lloegr, pan fydd y drosedd yn cael ei chyflawni gan wladolyn y Deyrnas Unedig neu unigolyn sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig. **Bydd hyn yn sicrhau bod y gyfraith yng Nghymru a Lloegr yn bodloni gofynion Confensiwn Istanbul.**

Mae Adran 9 o Ddeddf Troseddau yn Erbyn yr Unigolyn yn rhoi awdurdodaeth tu hwnt i diriogaeth i lysoedd Cymru a Lloegr dros ddinasyddion Prydain sy'n cyflawni llofruddiaeth neu ddynladdiad tu allan i'r Deyrnas Unedig. Nid yw'r ddarpariaeth hon yn cynnwys gwladolyn heb fod yn Brydeinig sydd yn byw yn arferol yn y Deyrnas Unedig. Ond mae darpariaeth yn Neddf Dileu Terfysgaeth 1978 yn rhoi awdurdodaeth tu hwnt i diriogaeth i'r Deyrnas Unedig dros lofruddiaethau a dynladdiadau a gyflawnir: (a) yng ngwledydd penodol y confensiwn[31] gan unigolion o unrhyw genedl; a (b) mewn achosion pan fydd yr unigolyn yn wladolyn i wlad confensiwn, ond ddim yn ddinesydd y Deyrnas Unedig, a bod y drosedd yn cael ei chyflawni mewn trydedd wlad. Er gwaethaf ei theitl, nid i droseddau yn ymwneud â therfysgaeth yn unig y mae'r Ddeddf yn berthnasol, ond i droseddau a nodir yn Atodlen 1, gan gynnwys llofruddiaeth a dynladdiad.

Effaith y ddwy ddarpariaeth statudol yma yw rhoi awdurdodaeth tu hwnt i diriogaeth ym mhob achos pan fydd llofruddiaeth neu ddynladdiad yn cael ei gyflawni dramor gan wladolyn y Deyrnas Unedig ac yn y rhan fwyaf o achosion pan fydd y troseddau hynny yn cael eu cyflawni dramor gan unigolyn sy'n byw yn y Deyrnas Unedig fel arfer. Ond mae bwlch bychan yng nghyfraith y Deyrnas Unedig pan fydd llofruddiaeth neu ddynladdiad yn cael ei gyflawni dramor gan breswylwyr y Deyrnas Unedig nad ydynt yn wladolion 'gwledydd y confensiwn' ar gyfer dibenion Deddf Dileu Terfysgaeth. Er enghraifft, ni fyddai gan y llysoedd yng Nghymru a Lloegr awdurdodaeth dros un o breswylwyr y Deyrnas Unedig sy'n Bacistanaidd o ran cenedl sy'n cyflawni llofruddiaeth ym Mhacistan.

**Fe fyddwn felly yn cynnwys darpariaethau i gau'r bwlch fel bod gan lysoedd yng Nghymru a Lloegr awdurdodaeth ym mhob achos pan fydd llofruddiaeth neu ddynladdiad yn cael ei gyflawni dramor gan rywun sy'n byw fel arfer yn y Deyrnas Unedig.**

Bwriadwyd y cynnig i gymryd awdurdodaeth tu hwnt i diriogaeth dros y drosedd o gaffael erthyliad i sicrhau bod gan lysoedd Cymru a Lloegr awdurdodaeth dros weithredoedd troseddol sy'n dod dan Erthygl 39(a) o'r confensiwn pan fydd y gweithredoedd hynny yn cael eu cyflawni'r tu allan i'r Deyrnas Unedig gan wladolyn y Deyrnas Unedig neu unigolyn sy'n byw fel arfer yn y Deyrnas Unedig.

**Mae Erthygl 39(a) yn gofyn i'r llofnodwyr sicrhau bod cyflawni erthyliad bwriadol ar fenyw heb ei chydsyniad ymlaen llaw a hynny ar sail gwybodaeth yn cael ei wneud yn drosedd.** Mae Adran 58 o Ddeddf Troseddau yn Erbyn yr Unigolyn 1861 yn cynnwys ymddygiad o'r fath, ond mae hefyd yn cynnwys sefyllfaoedd pan fydd y fenyw wedi rhoi ei chydsyniad llawn ac ar sail gwybodaeth i erthyliad. Fel yr amlygwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym yn awr yn cydnabod y byddai cymryd awdurdodaeth tu hwnt i diriogaeth am y drosedd o gaffael erthyliad yn gwneud mwy nag sydd ei angen i fodloni ein hymrwymiadau dan Erthygl 39(a), ac felly nid ydym yn bwriadu cymryd awdurdodaeth tu hwnt i diriogaeth am y drosedd hon.

[31] Ar gyfer dibenion Deddf 1978, mae 'gwlad confensiwn' yn golygu gwlad a ddynodwyd mewn gorchymyn a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol fel un o'r partïon i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Ddileu Terfysgaeth.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 63 08-May-19 12:01:48

Yn hytrach, credwn y gall ein hymrwymiadau dan Erthygl 39(a) gael eu bodloni trwy ddibynnu ar y troseddau canlynol:

- adran 47 o Ddeddf Troseddau yn Erbyn yr Unigolyn 1861 (ymosodiad yn achosi niwed corfforol gwirioneddol)
- adrannau 18 ac 20 o'r Ddeddf Troseddau yn Erbyn yr Unigolyn 1861 (anafu, achosi niwed corfforol difrifol)
- adrannau 23 a 24 o Ddeddf Troseddau yn Erbyn yr Unigolyn 1861 (rhoi gwenwyn neu rywbeth gwenwynig i beryglu bywyd neu achosi niwed corfforol difrifol; neu â bwriad i anafu)
- adran 1(1) o Ddeddf (Cadw) Bywyd Babanod 1929 (dinistrio plentyn)

**O'u cymryd gyda'i gilydd mae'r troseddau hyn yn cynnwys pob cam o feichiogrwydd pan all erthyliad trwy orfodaeth ddigwydd, gan gydnabod a pharchu erthyliadau cyfreithlon.**

Cefnogir y dull gwahanol hwn gan sefydliadau sy'n ceisio dad-droseddoli erthylu yn y Deyrnas Unedig.

> *"Gall dad-droseddoli erthylu ofyn am greu troseddau penodol newydd i ymdrin ag erthylu trwy orfodaeth neu dan orfodaeth; i gynnwys achosion pan na fydd yr erthyliad yn un trwy gydsyniad, yn y dyfodol. Ond ni ddylai ymrwymiad y llywodraeth, sy'n cael ei groesawu, i gadarnhau'r confensiwn gael ei ohirio gan y broses hon. Bydd cymryd awdurdodaeth tu hwnt i diriogaeth am y troseddau eraill a restrir – gan ychwanegu'r drosedd o 'ddinistrio plentyn', a drafodir isod – yn bodloni gofynion y Confensiwn ... Dinistrio plentyn yw'r drosedd o ladd plentyn y 'gellid ei eni yn fyw' – ac mae'r collfarnau a gofnodwyd yn dangos yn glir ei bod yn drosedd sy'n cael ei chyflawni yn gyson gan bartneriaid agos mewn cyd-destun cam-drin domestig."*

**Byddwn felly yn cymryd awdurdodaeth tu hwnt i diriogaeth am y troseddau a restrir yn Atodiad B i fodloni ein hymrwymiadau dan Erthygl 44 o'r confensiwn.**

*Aflonyddu rhywiol*
Roedd yr ymgynghoriad yn nodi barn y llywodraeth bod y rhwymedi cyfraith sifil yn Neddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 yn ddigonol i fodloni ein hymrwymiadau dan Erthygl 40 o'r confensiwn. Mae Erthygl 40 yn ei gwneud yn ofynnol i aflonyddu rhywiol[32] fod yn destun cosb droseddol neu gyfreithiol 'arall', sy'n golygu bod y rhai wnaeth ddrafftio'r confensiwn wedi penderfynu ei gadael i'r partïon ddewis y math o ganlyniad y byddai cyflawnwyr aflonyddu rhywiol yn ei wynebu.

[32] Diffinnir fel *"unrhyw ffurf ar ymddygiad llafar, heb fod yn llafar neu gorfforol o natur rywiol nas dymunir gyda'r diben neu effaith o ymosod ar urddas unigolyn trwy greu amgylchedd bygythiol, gelyniaethus, diraddiol, israddiol neu sarhaus"*. Bwriedir y ddarpariaeth i gasglu patrwm o ymddygiad na fyddai ei elfennau unigol, ar eu pennau eu hunain, yn arwain at gosb o angenrheidrwydd (gweler Adroddiad Esboniadol: paragraff 208).



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 70 08-May-19 12:01:48

### Fe ddywedsoch chi:

Roedd yr adran hon o'r ymgynghoriad yn ymwneud â phenderfynu a yw cyfraith Cymru a Lloegr eisoes yn cydymffurfio â gofynion Erthygl 40 o'r confensiwn neu a oes angen newidiadau deddfwriaethol cyn ei gadarnhau. Cytunodd cyfanswm o 159 (13%) ohonoch fod y rhwymedi cyfraith sifil yn Neddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 yn ddigonol i fodloni gofynion Erthygl 40 y Confensiwn, tra'r oedd 202 (17%) ohonoch yn anghytuno. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai oedd yn anghytuno yn galw am gamau cryfach i daclo aflonyddu rhywiol yn y Deyrnas Unedig.

### Byddwn yn:

Gwaherddir cyflawni cyfres o ymddygiad sy'n cyfateb i aflonyddu, y mae'r troseddwr yn gwybod neu y dylai wybod ei fod yn cyfateb i aflonyddu, gan adran 1 o Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997. Gallai hyn gynnwys aflonyddu rhywiol. Mae'r ddarpariaeth 'cyfres o ymddygiad' yn cyd-fynd â bwriad y confensiwn i gasglu patrwm o ymddygiad na fyddai ei elfennau unigol, ar eu pennau eu hunain, yn arwain at gosb o angenrheidrwydd.

Mae Adran 2 o Ddeddf Diogelu Rhag Aflonyddu 1997 yn ei gwneud yn drosedd i unigolyn dorri'r gwaharddiad adran 1 ar aflonyddu, ac mae adran 3 yn rhoi rhwymedi sifil am dorri'r gwaharddiad mewn gwirionedd neu amgyffrediad o hynny. Mae ein cyfraith felly yn darparu ar gyfer cosbau troseddol a sifil yn erbyn aflonyddu, ond mae Erthygl 40 yn ei gwneud yn ofynnol i gael cosbau troseddol *neu* gyfreithiol 'eraill' felly nid oes raid i'r Deyrnas Unedig gael y ddau i gadarnhau'r confensiwn.

**Byddwn felly yn dibynnu ar y rhwymedi cyfraith sifil yn Neddf 1997 i fodloni gofynion Erthygl 40 o'r confensiwn.** Nid yw hyn yn golygu na all dioddefwyr droi at gosbau troseddol a chosbau eraill yn erbyn aflonyddu fel sy'n briodol, ond yn syml nad oes rhwystr i gadarnhau o ran aflonyddu rhywiol oherwydd bod cyfraith Cymru a Lloegr eisoes yn cydymffurfio â gofynion y confensiwn.

## 3.3 System cyfiawnder teuluol

### 3.3.1 Llysoedd teulu

**Rydym yn cydnabod y gall achosion yn y llysoedd teulu fod yn anhygoel o anodd i ddioddefwyr, a thros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cymryd nifer o gamau i wella proses y llys teulu i bobl fregus yn y system cyfiawnder teuluol.** Mae hyn yn cynnwys gwaith gyda'r farnwriaeth ar well cyfarwyddyd i farnwyr teulu ar bobl fregus, rheolau llys newydd, a Chyfarwyddyd Ymarfer 3AA i gyd-fynd â hwy a fwriadwyd i wella diogeliad yn y llys fel sgriniau diogelu neu roi tystiolaeth trwy gyswllt fideo. Daeth hyn i rym ym mis Tachwedd 2017.

**Cyflwynwyd Cyfarwyddyd Ymarfer 12J diwygiedig hefyd, sy'n ei gwneud yn glir y dylai'r llys roi ystyriaeth lawn i'r niwed a achosir gan gam-drin domestig wrth benderfynu ar drefniadau plant,** gan gynnwys y niwed y gellir ei achosi i blant trwy fod yn dyst i gam-drin o'r fath. Rydym hefyd wedi diwygio'r trefniadau i wneud cymorth ariannol ar gael i ddioddefwyr cam-drin domestig mewn achosion cyfraith preifat, a ddaeth i rym yn Ionawr 2018.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 71 08-May-19 12:01:48

**Yn ychwanegol, rydym yn rhoi hyfforddiant parhaus i'r holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y system cyfiawnder teuluol.** Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi yn ymroddedig i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gam-drin domestig ymhlith yr holl staff llysoedd teulu. Ar ddiwedd Tachwedd 2017, cyflwynwyd rhaglen hyfforddiant newydd i'r holl staff llys yn canolbwyntio ar anghenion defnyddwyr llys bregus, gan gynnwys dioddefwyr cam-drin domestig.

**Mae'r Coleg Barnwrol hefyd yn sicrhau bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gam-drin domestig yn cael eu trafod yn barhaus fel rhan o hyfforddiant cyson yn y Coleg i farnwyr teuluol ac ynadon.** Rhwng Ebrill 2016 ac Ebrill 2018, derbyniodd yr holl farnwyr llysoedd teulu hyfforddiant gan y Coleg Barnwrol ar sut i ymdrin â'r sialensiau a wynebir gan bobl fregus yn y llysoedd, gan gynnwys dioddefwyr cam-drin domestig.

Rydym hefyd wedi dyrannu £1m o gyllid trwy'r gronfa Treth Tampon i Finding Legal Options for Women Survivors (FLOWS), prosiect sy'n darparu mynediad at yr adnoddau cyfreithiol y mae arnynt eu hangen i weithwyr cam-drin domestig rheng flaen iddynt fedru diogelu'r menywod y maent yn eu cefnogi yn ddigonol.

## Fe ddywedsoch chi:

*"[Rhaid] i'r mesur sicrhau na fydd menywod a phlant yn syrthio i'r bylchau rhwng y llysoedd troseddol a'r llysoedd teulu a bod yr holl brosesau cyfiawnder yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch menywod a phlant sydd mewn risg o gael niwed o gam-drin domestig."*

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau penodol yn yr ymgynghoriad am ddiwygiadau i'r system cyfiawnder teuluol, ond yn eich ymatebion a thrwy ddigwyddiadau rhanddeiliaid fe wnaeth llawer ohonoch godi materion am y llysoedd teulu a'r system cyfiawnder teuluol. Fe ddywedsoch chi bod angen gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gam-drin domestig ac ymddygiad gorfodol ac sy'n rheoli ar ran pawb sy'n ymwneud â'r broses cyfiawnder teuluol, a bod angen brys i atal cyflawnwyr cam-drin domestig rhag gallu croesholi eu dioddefwyr yn uniongyrchol yn y llys teulu. Roeddech yn galw am oruchwyliaeth ar orchmynion trefniadau plant, ac i'r holl weithwyr proffesiynol cyfiawnder teuluol gael gwell ymwybyddiaeth o Gyfarwyddyd Ymarfer 12J, sy'n amlinellu gofynion y llys mewn achosion gorchmynion trefniadau plant neu gyswllt plant pan fydd cam-drin domestig rhwng aelodau o'r teulu.

Fe wnaethoch ddweud hefyd bod angen gwell darpariaeth o ddiogeliad yn y llys i ddioddefwyr cam-drin domestig, a bod angen gwell hyfforddiant i'r holl weithwyr proffesiynol cyfiawnder teuluol am ymddygiad cyflawnwyr a sut y gall cam-drin barhau trwy'r system cyfiawnder teuluol. Fe wnaethoch ddweud bod angen mwy o hyfforddiant ar y modd y gall technoleg gael ei gam-ddefnyddio gan gyflawnwyr i barhau eu camdriniaeth, gan gynnwys trwy feddalwedd ysbio ac olrhain GPS ar ffonau symudol. Fe ddywedsoch chi bod angen gwell rhannu gwybodaeth rhwng awdurdodaethau, ac i ddata gael ei gasglu yn fwy cyson ac y dylid gwneud gwaith ymchwil mwy sylweddol yn y system cyfiawnder teuluol yn ei chyfanrwydd.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 72 08-May-19 12:01:48

## Byddwn yn:

**Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cyflwyno grymoedd newydd i'r system llysoedd teulu i wahardd croesholi uniongyrchol ar ddioddefwr gan yr un wnaeth ei gam-drin.** Fel y nodir yn Adran 3.2.2, rydym yn ymroddedig i gyflwyno grymoedd i atal hyn rhag digwydd, ac rydym felly wedi cynnwys y mesurau hyn yn y Mesur Cam-drin Domestig drafft.

**Byddwn yn gwella'r diogeliad yn y llys sydd ar gael i ddioddefwyr cam-drin domestig.** Rydym yn dyrannu £900,000 o gyllid i sefydliadau sydd yn gweithio o nifer o lysoedd teulu i ddarparu staff wedi eu hyfforddi yn arbennig a fydd yn cynnig cefnogaeth emosiynol ac ymarferol benodol i ddioddefwyr cam-drin domestig cyn, yn ystod ac ar ôl gwrandawiadau. Bydd y sefydliadau hyn hefyd yn cyflawni rhaglen o godi ymwybyddiaeth ymhlith rhanddeiliaid ac ymarferwyr cyfiawnder teuluol allweddol. Rydym hefyd wedi gofyn i'r holl lysoedd teulu lunio protocolau lleol yn nodi eu gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â defnyddwyr llys bregus, ac rydym yn ymroddedig i sicrhau bod staff llysoedd yn ymwybodol o'r gweithdrefnau hyn ac yn eu gweithredu.

**Rydym yn cydnabod bod angen dull gwell a mwy cyson o rannu gwybodaeth ar draws awdurdodaethau.** Rydym yn deall, ar hyn o bryd, nad yw gwybodaeth yn cael ei rhannu ar draws awdurdodaethau, sy'n golygu bod barnwyr llysoedd teulu weithiau yn dibynnu yn llwyr ar wybodaeth a roddir gan y partïon yn yr achos. Rydych wedi dweud bod hyn weithiau yn arwain at ddigwyddiadau annerbyniol lle mae gorchmynion a roddir gan y llys teulu yn gwrthddweud amodau a osodwyd gan y llys troseddol, ac rydym yn archwilio dewisiadau i rannu gwybodaeth yn well ar draws awdurdodaethau i atal hyn rhag digwydd.

**Rydym hefyd yn cydnabod ei bod yn bosibl i gyflawnwyr cam-drin domestig arfer ymddygiad gorfodol dros eu priod trwy achosion ysgaru yn y llysoedd teulu,** ac efallai nad yw'r angen i ddangos tystiolaeth o ymddygiad neu wahanu mewn deiseb ysgariad yn rhoi mynediad cyfartal i bob grŵp. Er enghraifft, mae'n bosibl bod gan ddioddefwr cam-drin domestig dystiolaeth o ymddygiad ei briod, ond gall deimlo nad yw'n ddiogel ei datgelu oherwydd natur y dystiolaeth sy'n ofynnol. Gall hyn ei orfodi i aros mewn priodas lle mae camdriniaeth nes bydd gofynion y gwahanu perthnasol yn cael eu bodloni.

Er mwyn ymdrin â'r pryderon hyn, yn ein hymgynghoriad Lleihau Gwrthdaro Teuluol a gyhoeddwyd yn ddiweddar roeddem yn cynnig dileu gallu partïon i ddadlau yn erbyn ysgariad fel rheol gyffredinol. **Rydym hefyd wedi cyflwyno'r cynnig y gall disodli'r gofyn am dystiolaeth o ymddygiad neu wahanu hefyd helpu dioddefwyr i symud ymlaen oddi wrth y cyflawnwr yn gynharach.** Byddwn yn cyhoeddi ein hymateb llawn i'r ymgynghoriad maes o law.

**Byddwn yn parhau i weithio gyda'n rhanddeiliaid ar beth yn fwy y gellir ei wneud i gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig yn y llysoedd teulu.**



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 73 08-May-19 12:01:48

### 3.3.2 Gwasanaeth Cyngor a Chymorth y Llys Plant a Theuluoedd

**Mae Gwasanaeth Cyngor a Chymorth y Llys Plant a Theuluoedd (Cafcass) yn cael ei benodi gan y llys teulu i ddiogelu a hybu lles y plentyn.** Mae'n rhoi cyngor i'r llys, yn gwneud darpariaethau i'r plentyn gael ei gynrychioli, ac yn rhoi gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth arall i'r plentyn a'i deulu. Ei rôl mewn achosion cyfreithiol preifat yw rhoi'r wybodaeth y mae ar y llys ei hangen i wneud penderfyniad diogel am drefniadau o ran gyda phwy y dylai'r plentyn fyw neu dreulio amser a beth sydd orau er budd y plentyn.

**Mae'r gweithiwr cymdeithasol Cafcass, a elwir yn Gynghorydd Llys Teulu, yn ysgrifennu llythyr diogelu i'r llys** sy'n cynnwys gwiriadau gyda'r heddlu a'r awdurdodau lleol, yn ogystal â chyfweliadau gyda'r ddau barti. Os bydd ar y llys angen rhagor o waith, bydd hynny fel arfer ar ffurf adroddiad Adran 7. Mae adroddiadau Adran 7 yn rhoi gwybodaeth berthnasol i'r llys am les y plentyn, yn ogystal ag asesiad yr ymarferwr o'r hyn sydd er budd y plentyn.

#### Fe ddywedsoch chi:

> *"Rhaid i'r gydnabyddiaeth o niwed i blant fynd hefyd law yn llaw â Cafcass a'i ystyried mewn trefniadau cyswllt i'r plentyn. Rwyf wedi gweld yn rhy aml yr effaith ddinistriol pan na fydd gan gyflawnwyr ddiddordeb yn lles eu plant ac yn defnyddio cyswllt â'r plant yn syml fel dull o arfer grym a rheolaeth ar eu dioddefwyr."*

Ni wnaethom ofyn unrhyw gwestiynau penodol am y llysoedd teulu na rôl Cafcass, ond fe wnaeth llawer o'ch ymatebion i gwestiynau eraill amlygu'r angen i sicrhau bod diogelwch dioddefwyr a phlant yn dod yn gyntaf yn holl benderfyniadau'r llys teulu a holl argymhellion Cafcass i'r llys teulu o ran gyda phwy y dylai'r plentyn fyw neu gael cyswllt ag ef. Fe ddywedsoch bod y dybiaeth mai cyswllt â'r ddau riant sydd er budd y plentyn yn golygu bod dioddefwyr a phlant mewn risg. Fe wnaethoch amlygu yn benodol y pryderon am ddogfennau cyfarwyddyd Cafcass am gam-drin domestig a gelyniaethu rhieni. Fe ddywedsoch hefyd bod angen gwell hyfforddiant i ymarferwyr Cafcass am ddeinameg cam-drin domestig, am ymddygiad sy'n rheoli a gorfodol, ac ar adnabod tactegau cyflawnwyr.

#### Byddwn yn:

**Mae Cafcass yn cymryd diogelwch dioddefwyr a phlant yn ddifrifol eithriadol,** ac mae'n dilyn cyfarwyddyd deddfwriaeth a'r Cyfarwyddyd Ymarfer 12J bod *"mewn achosion sy'n ymwneud â gorchymyn trefniadau plentyn, mae'r llys yn rhagdybio y bydd cynnwys rhiant ym mywyd y plentyn yn gwella lles y plentyn, oni bai bod tystiolaeth i'r gwrthwyneb"*. Rôl allweddol ymarferwyr gwaith cymdeithasol Cafcass yw dynodi ac asesu'r materion hynny a allai effeithio ar les y plentyn, gan gynnwys cam-drin domestig, a rhoi gwybod i'r llys am yr oblygiadau o ran trefniadau plentyn. Er mwyn cynorthwyo wrth asesu cam-drin domestig, mae ymarferwyr Cafcass yn defnyddio offer ar sail tystiolaeth yn y Llwybr Ymarfer Cam-drin Domestig, a ganmolwyd gan Ofsted yn ei arolwg diweddar ar Cafcass.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 74 08-May-19 12:01:48

**Mae Cafcass wedi gwrando ar farn rhanddeiliaid wrth ddatblygu ei Fframwaith Asesu Effaith Plant.** Yn Ebrill 2018, cynhaliodd Cafcass gyfres o grwpiau trafod gydag amrywiaeth o arbenigwyr yn y sector a rhanddeiliaid cyfiawnder teuluol, ac mae'r adborth a dderbyniwyd yn ystod y digwyddiadau hyn, gan gynnwys adborth ar y llwybrau cyfeirio newydd, wedi bod yn sail i ddylunio'r fframwaith wedi ei ddiweddaru. **Cyhoeddwyd y Fframwaith Asesu Effaith Plant yn Hydref 2018,** ac mae'n dwyn at ei gilydd ac yn cryfhau'r cyfarwyddyd a'r offer presennol ynghyd â chyflwyno offer newydd y gall ymarferwyr eu defnyddio i asesu gwahanol ffactorau mewn achosion. Bydd yr holl ymarferwyr Cafcass sy'n gweithio mewn cyfraith breifat yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r fframwaith erbyn diwedd Mawrth 2019.

**Wrth ymateb i sylwadau rhanddeiliaid, mae Cafcass wedi ailstrwythuro'r fframwaith hwn i gychwyn gyda'r cwestiwn, 'Beth sy'n digwydd i'r plentyn hwn?'** Mae Cafcass hefyd wedi tynnu gelyniaethu oddi ar y canllaw gwrthdaro niweidiol, ac wedi datblygu ei gyfarwyddyd ar adnabod ac ymateb i ymddygiad sy'n gelyniaethu fel rhan o ganllaw ehangach yn cefnogi asesiad o wrthodiad gan blentyn. **Mae'r canllaw yn pwysleisio mai'r cam cyntaf wrth asesu pam bod y plentyn yn gwrthwynebu yw ystyried a oes gwrthodiad priodol â chyfiawnhad amdano yn bresennol, gan gynnwys unrhyw arwyddion bod gwrthwynebiad y plentyn oherwydd cam-drin domestig neu unrhyw ffurf arall ar rianta niweidiol.** Mae'r canllaw hefyd yn pwysleisio y gall plant ddioddef ymddygiad sy'n rheoli neu'n orfodol fel rhan o hanes hwy o'r cyflawnwr yn rheoli'r dioddefwr ac yn parhau ei gamdriniaeth trwy gyfreitha yn y llys teulu.

**Mae Cafcass hefyd wedi ail enwi'r 'llwybr gwrthdaro mawr' yn 'ganllaw gwrthdaro niweidiol', i bwysleisio nad yw gwrthdaro sy'n niweidiol i'r plentyn yn cael ei gyfyngu i wrthdaro mawr.** Mae Cafcass yn cydnabod, yn yr un modd â phob ffurf ar niwed i blant, gall gwrthdaro amrywio yn ei natur, ei ddwyster a'i effaith. Mae'r fframwaith newydd yn pwysleisio bod cam-drin domestig a gwrthdaro niweidiol yn ddau ymddygiad gwahanol ac na ddylid eu cymysgu na chyfeirio at un fel petai o'r un ystyr â'r llall. Pan fydd achosion yn cynnwys honiadau neu ddangosyddion o gam-drin domestig a gwrthdaro niweidiol, rhaid i Gynghorwyr Llysoedd Teulu roi blaenoriaeth i asesu cam-drin domestig a gwirio bod y risg wedi cael ei hystyried yn ddigonol ac yn ddiogel cyn asesu gwrthdaro niweidiol. Ym mhob achos, mae'r prif bwyslais ar yr effaith ar y plentyn, nid ar labelu ymddygiad y rhieni.

**Mae Cafcass wedi ymrwymo i barhau i ddysgu a rhoi hyfforddiant cyfredol.** Mae ganddo ystod o offer ar gyfer dynodi cam-drin domestig, asesu ei effaith a gwneud argymhellion i'r llys am raglenni i ymdrin ag ymddygiad y cyflawnwr, a'r oblygiadau i drefniadau plant. Datblygwyd cyfarwyddyd a rhaglenni ar y cyd ag amrywiaeth o sefydliadau gyda gwybodaeth arbenigol am gam-drin domestig. Yn ychwanegol, **yn ddiweddar mae Cafcass wedi comisiynu hyfforddiant ychwanegol gan Barnardo's ar yr offeryn matrics dynodi risg trais domestig**, ac yn ddiweddar mae wedi cyflwyno pecyn e-ddysgu newydd i'r ymarferwyr ar ymddygiad sy'n rheoli a gorfodol, a ddatblygwyd ar y cyd â SafeLives a Research in Practice.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 75 08-May-19 12:01:48

### 3.3.3 Cymorth cyfreithiol

**Rydym yn ymroddedig i sicrhau bod cymorth cyfreithiol a ffurfiau eraill o gefnogaeth gyfreithiol ar gael i ddioddefwyr cam-drin domestig a cham-drin plant.** Er mwyn bod yn gymwys am gymorth cyfreithiol, rhaid i ymgeiswyr fel arfer fod â phroblem gyfreithiol sydd o fewn ei gwmpas, yn bodloni unrhyw brofion teilyngdod perthnasol, ac yn bodloni unrhyw feini prawf.

**Mewn sefyllfaoedd argyfyngus, mae cymorth cyfreithiol ar gael heb unrhyw ofynion tystiolaeth ac mae gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol y grym i hepgor yr holl gyfyngiadau cymhwyster ariannol uchaf.** Gall enghraifft o sefyllfa argyfyngus ddigwydd petai dioddefwr cam-drin domestig angen gorchymyn peidio ag ymosod i'w ddiogelu neu i ddiogelu'r plant rhag cael niwed. Yn yr achos hwn, byddai'r cyfreithiwr yn gallu rhoi cynrychiolaeth argyfwng yn syth hyd yn oed os yw incwm y dioddefwr neu ei gyfalaf dros y cyfyngiadau cymhwyster, er y gellir gofyn am gyfraniad gan y dioddefwr yn nes ymlaen.

**Mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol wedi trefnu nifer o gamau i sicrhau bod cyngor o safon uchel yn cael ei roi mewn materion cam-drin domestig.** Mae'r asiantaeth yn gofyn bod rhaid i ddarparwyr sy'n ymdrin â nifer fawr o faterion gyflogi o leiaf un aelod o staff gyda hyfforddiant arbenigol, a bod rhaid i ddarparwyr dan gontract 2018 gyflogi goruchwyliwr amser llawn sydd naill ai yn aelod o Gynllun Achredu Uwch Cyfraith Teulu Cymdeithas y Gyfraith neu yn Arbenigwr Achrededig gan Resolution mewn cam-drin domestig. Rhaid i ddarparwyr hefyd gael trefniadau priodol yn eu lle i gyfeirio cleientiaid at wasanaethau cefnogi teuluoedd, a chael mynediad at fanylion gwasanaethau sydd ar gael yn lleol, a rhaid iddynt gynnig apwyntiad cyntaf i'w cleient o fewn terfynau amser diffiniedig.

#### Fe ddywedsoch chi:

*"Rhaid i oroeswyr gael mynediad at gynrychiolaeth gyfreithiol o ansawdd uchel, heb brawf modd. Mae'r angen am hyn yn glir o ran dioddefwyr cam-drin domestig a goroeswyr, yn arbennig gan fod cynrychiolaeth gyfreithiol broffesiynol yn y llysoedd yn hanfodol ond drud ac nad yw llawer o oroeswyr yn gallu fforddio'r gynrychiolaeth hon, yn arbennig os oes ganddynt brofiad o gam-drin economaidd."*

Fe wnaethoch amlygu'r angen i ddioddefwyr cam-drin domestig gael mynediad at gynrychiolaeth gyfreithiol o safon uchel, y bydd rhaid iddynt yn eu tro fod â dealltwriaeth glir o bob ffurf ar gam-drin domestig. Fe wnaethoch hefyd bwysleisio'r angen i'r prawf modd cymorth ariannol gael ei adolygu. Pwysleisiwyd yr angen i'r trothwyon incwm gael eu haddasu i sicrhau bod dioddefwyr ar incwm cymedrol yn gallu cael cymorth cyfreithiol, a phwysleisiwyd yr angen i ganiatáu eithriad i'r prawf modd cyfalaf i ddioddefwyr cam-drin domestig, yn arbennig dioddefwyr cam-drin economaidd sydd yn aml yn methu cael mynediad at gyfalaf o asedau a rennir. Fe wnaethoch danlinellu'r broblem bod rhai meddygon teulu yn codi ffioedd i roi llythyrau tystiolaeth o gam-drin domestig i gefnogi ceisiadau am gymorth ariannol, ac y gall hyn fod yn rhwystr i atal dioddefwyr rhag ceisio cael cymorth cyfreithiol.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 70 08-May-19 12:01:48

### Byddwn yn:

**Yn 2018, fe wnaethom newidiadau i'r ddeddfwriaeth a fwriadwyd i'w gwneud yn haws i ddioddefwyr cam-drin domestig i gael a darparu'r dystiolaeth angenrheidiol i gael cymorth cyfreithiol,** ac i leihau'r risg na fydd dioddefwyr yn gallu cael y dystiolaeth ofynnol. Cyflwynwyd ffurfiau newydd o dystiolaeth, ehangwyd cwmpas y dystiolaeth bresennol a chafwyd gwared ar y cyfyngiad amser ar gyfer pob ffurf o dystiolaeth ar gyfer cam-drin domestig a cham-drin plant.

**Rydym eisoes wedi dechrau gweld gwahaniaeth:** mae'r ystadegau diweddaraf ar gyfer Gorffennaf i Fedi 2018 yn dangos cynnydd o 15% mewn ceisiadau gan ddioddefwyr cam-drin domestig am gymorth cyfreithiol mewn achosion teuluol mewn cymhariaeth â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol, heb gynnydd gweladwy yn y gyfradd wrthod oherwydd gofynion tystiolaeth.

Rydym yn ymwybodol bod rhai meddygon teulu wedi bod yn codi tâl am roi llythyrau fel tystiolaeth o gam-drin domestig i gefnogi ceisiadau am gymorth cyfreithiol. Gosodir y taliadau am wasanaethau a ddarperir gan feddygon teulu trwy'r berthynas gontractaidd rhwng meddygon teulu a'r GIG. Ond, mae'r newidiadau a gyflwynwyd yn Ionawr 2018 **yn anelu at leihau'r ddibyniaeth ar feddygon teulu trwy ehangu'r categorïau o weithwyr iechyd proffesiynol a all roi llythyrau tystiolaeth ar gyfer ceisiadau am gymorth cyfreithiol, ac felly yn awr gall unrhyw ymarferwr meddygol neu weithiwr iechyd proffesiynol sydd wedi ei gofrestru â'r corff rheoleiddio perthnasol roi'r dystiolaeth hon**. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r DHSC i weld a oes unrhyw beth yn fwy y gallwn ei wneud i leihau'r ddibyniaeth hon.

Rydym yn cynnal adolygiad ar ôl gweithredu'r newidiadau a wnaed gan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012. Bydd hwn yn adolygiad ar sail tystiolaeth o effeithiau'r ddeddfwriaeth o'u hystyried mewn cymhariaeth â'r amcanion gwreiddiol, a bydd yn cynnwys asesiad o effaith newidiadau i'r ddarpariaeth cymorth cyfreithiol i achosion cyfraith teulu preifat. Mae'r adolygiad hefyd yn gyfle i roi ystyriaeth ehangach i ddyfodol cefnogaeth gyfreithiol yn y system gyfiawnder. **Rydym wedi ymgysylltu â mwy na 100 o sefydliadau ac unigolion fel rhan o'r cam casglu tystiolaeth. Gan fod yr ymgysylltu wedi dod i ben ar ddiwedd Tachwedd 2018, mae'r adolygiad yn awr bron ar ben a bydd yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2019.**

## 3.4 Taith y cyflawnwr

**Fel arfer bydd cam-drin domestig yn digwydd fel patrwm o ymddygiad sy'n cael ei ailadrodd, gyda rhai cyflawnwyr yn cam-drin nifer o bartneriaid dros nifer o flynyddoedd.** Er mwyn lleihau ac atal cam-drin domestig, mae'n hanfodol i ni ymdrin â'r cyflawnwyr, gan gynnwys cyflawnwyr dro ar ôl tro a chyfresol, i'w hatal rhag troseddu ac i sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu diogelu yn briodol gan y system gyfiawnder.

**Mae ymyraethau cyflawnwyr ar gael i'r rhai sydd wedi cael eu collfarnu am droseddau a'r rhai all fod mewn perygl o aildroseddu.** Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yn cyflawni ymyraethau i'r rhai a gollfernir o drosedd, a gall yr ymyraethau yma gael eu gwneud yn ofynion i ddedfryd gymunedol, neu yn amod rhyddhau.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 71 08-May-19 12:01:49

**Mae dewisiadau hefyd ar gyfer ymyraethau ar gyfer cyflawnwyr nad ydynt wedi cael eu collfarnu am drosedd.** Gall yr ymyraethau yma gael eu cyflawni neu eu comisiynu gan yr heddlu, awdurdodau lleol, neu gan Cafcass, ac fe'u dyluniwyd i gefnogi cyflawnwyr i newid eu hymddygiad i atal trosedd gychwynnol rhag digwydd. Gall yr ymyraethau yma hefyd atal troseddau rhag gwaethygu, neu unrhyw gam-drin pellach.

**Rydym hefyd yn cefnogi gwaith pwysig Respect, sydd trwy eu safonau gwasanaeth yn helpu i sicrhau bod rhaglenni sy'n cael eu targedu ar ystod o gyflawnwyr yn cael eu cyflwyno yn ddiogel ac effeithiol.** Un cynllun blaengar yn ddiweddar yr oedd Respect yn bartner allweddol ynddo oedd y rhaglen Drive. Mae Drive yn gweithio gydag amrywiaeth o gyflawnwyr, gan gynnwys y rhai risg uchel a'r rhai sy'n cofnodi anghenion niferus a chymhleth, ac yn sicrhau bod yr anghenion cefnogaeth sylfaenol yma yn cael eu bodloni i newid ymddygiad niweidiol.

**Rydym yn cydnabod bod y fframwaith cyfiawnder troseddol ar gyfer gweithio gyda chyflawnwyr cam-drin domestig yn gymhleth a bod amrywiadau o ran y dulliau ar draws asiantaethau ac ardaloedd lleol.** Rydym yn cydnabod bod angen i'r ymateb cyfiawnder troseddol i gyflawnwyr gael ei wella trwy well gweithio amlasiantaethol gyda phartneriaid statudol eraill, gwell defnydd o asesiadau risg i adnabod cyflawnwyr, a llwybrau cliriach i reoli, monitro a lliniaru'r risg y mae cyflawnwyr yn ei chreu.

### Fe ddywedsoch chi:

*"Yn ddiweddar mae fy nghyn-ŵr wedi gorffen dedfryd 7 mlynedd. Cysylltodd y gwasanaeth prawf â mi ychydig cyn i'w ddedfryd ddod i ben i roi gwybod i mi y dylwn geisio camau sifil i ddiogelu fy hun gan ei fod yn dal i gael ei ystyried yn risg. Rwy'n credu bod hyn yn hollol annerbyniol ac yn tanlinellu'r angen i droseddwyr cyson (y mae ef yn un ohonynt) i gael eu rheoli."*

Fe ddywedsoch chi y byddai gwell rhannu gwybodaeth a dull amlasiantaethol cryfach yn gwella'r modd y mae'r heddlu a'r asiantaethau partner, gan gynnwys y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn rheoli'r rhai sy'n cam-drin yn gyfresol a thro ar ôl tro. Awgrymwyd cofrestr o gyflawnwyr cam-drin domestig fel ffordd o wella rhannu gwybodaeth yng nghyswllt y rhai sy'n cam-drin yn gyfresol a thro ar ôl tro. Fe wnaethoch ddangos yn glir eich bod yn meddwl bod angen gwella ymateb yr heddlu i gyflawnwyr, gyda mwy o fonitro cyson ar droseddwyr ac asesiadau risg mwy cadarn. Mae llawer ohonoch yn dymuno gweld cosbau caletach i'r rhai sy'n cam-drin ac yn meddwl y dylai mynychu rhaglen cyflawnwyr fod yn amod cyn rhyddhau. Soniwyd hefyd am fonitro electronig fel ffordd o gryfhau'r rheoli ar y rhai sy'n cam-drin yn gyfresol neu dro ar ôl tro.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 78 08-May-19 12:01:49

Yn ychwanegol, mae llawer ohonoch yn dymuno gweld cosbau caletach i'r rhai sy'n cam-drin. Fe wnaethoch ddweud y byddai dull amlasiantaethol cryfach hefyd yn helpu i sicrhau bod anghenion cymhleth cyflawnwyr yn cael eu dynodi a'u trin, fel effaith trawma, anawsterau iechyd meddwl, camddefnyddio alcohol a sylweddau, ac ansicrwydd am dai neu gyflogaeth.

Soniodd llawer ohonoch am bwysigrwydd darparu ymyraethau effeithiol i helpu cyflawnwyr i newid eu hymddygiad, ac y dylai rhaglenni ystyried amrywiaeth o anghenion ac amgylchiadau unigol ar ddiwedd y ddedfryd flaenorol. Fe wnaethoch ddweud wrthym y dylai'r rhai ar ddedfrydau carchar byr fedru dechrau rhaglen yn y carchar a'i chwblhau yn y gymuned. Fe wnaethoch awgrymu hefyd y dylai deunyddiau addysgol gael eu rhoi i bobl sy'n methu dechrau rhaglen neu sy'n aros i ddechrau ar un.

Tanlinellodd llawer ohonoch hefyd yr angen am safonau cyffredin i arwain ansawdd rhaglenni ac ymyraethau i gyflawnwyr, a bod angen rhagor o ymchwil ar effeithiolrwydd rhaglenni a pha ddulliau sy'n gweithio orau gyda gwahanol grwpiau o gyflawnwyr.

## Byddwn yn:

**Ein nod wrth weithio gyda chyflawnwyr yw atal aildroseddu er mwyn diogelu dioddefwyr a'u plant, ac i roi lle a diogelwch i ddioddefwyr ailadeiladu eu bywydau.**

### 3.4.1 Ymateb asiantaethau cyfiawnder troseddol

**Er mwyn cyflawni'r nod hwn, mae'n hanfodol i'r holl asiantaethau cyfiawnder troseddol gael mynediad at y wybodaeth gywir ar yr amser cywir,** fel eu bod yn gallu gweithio gyda'i gilydd i ddynodi, asesu a rheoli cyflawnwyr peryglus yn gywir er mwyn cadw dioddefwyr yn ddiogel.

**Byddwn yn gwella'r fframwaith ar gyfer rheoli cyflawnwyr ac yn cryfhau gweithio amlasiantaethol** trwy hyrwyddo'r newidiadau a wnaed i'r cyfarwyddyd ar gyfeiriadau i dimau Trefniadau Diogelu'r Cyhoedd Amlasiantaethol. Nod y cyfarwyddyd yw sicrhau bod cyflawnwyr cam-drin domestig cyfresol a thro ar ôl tro yn cael eu hystyried i'w rheoli.

**Er mwyn cynyddu'r dynodi a'r asesiad risg ar gyflawnwyr,** byddwn yn adolygu model asesiad risg Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi i gyflawnwyr trais ar bartner agos, yn treialu defnyddio'r asesiad risg ymosodiad ar briod gyda'r rhai sy'n cam-drin cyn eu collfarnu, ac yn cryfhau cyfarwyddyd ar ddynodi a rheoli cyflawnwyr cam-drin domestig fel pobl a all fod yn beryglus.

**Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r heddlu i wella'r defnydd ar y systemau cofnodi a dadansoddi gwybodaeth presennol**. Byddwn yn sicrhau y bydd cyflwyno'r Gwasanaeth Data Gorfodi'r Gyfraith yn 2020, a fydd yn dwyn at ei gilydd Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu a Chronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu, yn adlewyrchu ac yn cynnal y gwelliannau hyn.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 79 08-May-19 12:01:49

**Er mwyn cynyddu'r ystod o offer sydd ar gael i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda chyflawnwyr, rydym yn bwriadu cyflwyno gofyn hysbysu trwy'r DAPO newydd,** a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n cam-drin ddweud wrth yr heddlu os bydd eu manylion personol neu eu hamgylchiadau yn newid. Fel y soniwyd yn Adran 2, bydd y gorchmynion newydd hefyd yn galluogi'r llysoedd i osod gofynion monitro electronig ar gyflawnwyr a bydd cosb droseddol am eu torri.

**Rydym yn sylweddoli bod rhaid i'r offer ymarferol a'r systemau sydd ar gael i weithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n gweithio gyda chyflawnwyr fod ar sylfaen o hyfforddiant a chyfarwyddyd cadarn.** Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod yr offer yma yn cael eu defnyddio yn ddiogel ac effeithiol i atal aildroseddu ac i ddiogelu dioddefwyr. Byddwn yn gweithio gydag Arweinydd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ar gam-drin domestig a'r Coleg Plismona i ddatblygu cyfarwyddyd cenedlaethol i'r heddlu ar gyflawnwyr cyfresol a thro ar ôl tro ac yn rhannu gwaith addawol gan yr heddlu sy'n datblygu yn y maes hwn. **Byddwn hefyd yn ariannu datblygu deunyddiau hyfforddi cam-drin domestig ar-lein i weithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n gweithio yn y gwasanaethau prawf a chwmnïau adsefydlu cymunedol.**

*Ymyraethau cyflawnwyr*
**Rydym yn ymroddedig i drawsnewid ein hymateb i gyflawnwyr cam-drin domestig ar bob pwynt yn y system cyfiawnder troseddol, o'r cyfnod cyn collfarnu i'r ddalfa a thrwodd i'r cyfnod ar ôl collfarnu yn y gymuned.**

**Ein nod yw i bobl gael yr ymyrraeth iawn ar yr amser iawn,** a hyn ar sail asesiad, cynllunio dedfryd a chyflwyno ymyraethau ar sail tystiolaeth effeithiol. Byddwn yn sicrhau bod y rhai sy'n cael eu collfarnu am drosedd cam-drin domestig yn cael eu targedu yn briodol ar gyfer ymyrraeth trwy ddefnyddio offeryn cynnig effeithiol yn y llys. Bydd yr offeryn hwn yn arwain ymarferwyr ar addasrwydd argymhellion ar gyfer rhaglen.

**Er mwyn cefnogi pobl i gymryd rhan lawn yn y rhaglenni, byddwn yn hyrwyddo defnyddio ymyraethau a all helpu i ysgogi pobl yn y carchar i gymryd rhan mewn rhaglen** neu oresgyn rhwystrau sy'n eu hatal rhag cymryd rhan. Byddwn hefyd yn hyrwyddo ymyraethau a all helpu pobl i arfer a chynnal yr hyn y maent wedi ei ddysgu ar ôl mynychu rhaglen, fel y rhaglen New Me MOT, sydd ar gael i'r rhai sydd wedi graddio o raglen cam-drin domestig ddwys Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi.

Rydym hefyd am sicrhau ein bod yn bodloni anghenion y bobl nad ydynt yn addas ar gyfer y rhaglenni cyflawnwyr a achredwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, neu nad ydynt yn gallu cymryd rhan ynddynt, a all gynnwys pobl ar ddedfrydau byrrach. **Byddwn felly yn rhoi mwy o fanylion am yr ystod o ofynion gweithgaredd adsefydlu i'w cyflawni i bobl sy'n cyflawni dedfrydau cymunedol nad ydynt yn gymwys ar gyfer rhaglen wedi ei hachredu.**

**Byddwn hefyd yn profi pa mor ddichonol yw pecyn offer digidol newydd ar gyfer staff yn y gymuned sy'n gweithio gyda phobl sydd wedi cael eu rhyddhau o'r carchar neu sy'n treulio dedfrydau cymunedol.** Gall y pecyn offer gael ei gyflwyno fel gofyn gweithgaredd adsefydlu, neu fel rhan o oruchwyliaeth gyson ar bobl nad ydynt yn addas ar gyfer rhaglen wedi ei hachredu neu sy'n methu cymryd rhan mewn un. Byddwn yn dylunio'r pecyn offer gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael, ac yn profi'r deunyddiau yn ofalus i sicrhau bod pobl yn gallu eu deall ac ymgysylltu â nhw.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 80 08-May-19 12:01:49

**Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau cam-drin domestig arbenigol i asesu'r ystod o ymyraethau sydd ar gael ar hyn o bryd i gyflawnwyr nad ydynt wedi cael eu collfarnu o drosedd cam-drin domestig.** Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddynodi bylchau yn y ddarpariaeth a datblygu strategaeth i wella argaeledd ymyraethau diogel ac effeithiol ar gyfer y cohort hwn.

**Byddwn hefyd yn cyflwyno mesur trwy'r Mesur Cam-drin Domestig a fydd yn galluogi'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i dreialu profi polygraff gyda chyflawnwyr cam-drin domestig risg uchel i fonitro cydymffurfio ag amodau trwydded yn y gymuned.** Mae archwiliadau polygraff eisoes yn cael eu defnyddio yn llwyddiannus wrth reoli troseddwyr rhywiol a ryddhawyd ar drwydded. Bydd ymestyn yr archwiliadau hyn i gyflawnwyr yn rhoi ffynhonnell wybodaeth ychwanegol i reolwyr troseddwyr i'w galluogi i ffurfio gwell cynlluniau rheoli risg, rhannu gwybodaeth yn ymwneud â risg gydag asiantaethau eraill perthnasol, a chefnogi cynllunio diogelwch dioddefwyr.

*Sicrhau ansawdd yr ymyrraeth*

**Er mwyn cynyddu hyder yn ansawdd y rhaglenni, byddwn yn hyrwyddo defnyddio safonau cydnabyddedig ar gyfer rhaglenni cyflawnwyr a ddefnyddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.** Mae rhaglenni a dargedwyd ar gyfer cyflawnwyr a gollfarnwyd yn cael eu hachredu gan Banel Achredu a Chyngor Gwasanaethau Cywirol y Weinyddiaeth Gyfiawnder (CSAAP). Bydd set o safonau wedi eu cymeradwyo gan CSAAP hefyd yn cael eu datblygu i arwain ansawdd ymyraethau eraill a all fod yn anaddas ar gyfer achrediad llawn.

**Byddwn yn cyhoeddi cyfarwyddyd sy'n hyrwyddo dulliau o gyflawni rhaglenni sy'n sicrhau bod rhaglenni cyflawnwyr yn hyblyg, ar sail trawma, ac wedi eu haddasu yn ôl anghenion ac amgylchiadau'r unigolion.** Er enghraifft, mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi ar hyn o bryd yn treialu a monitro defnyddio deunyddiau ei raglen gyda chyflawnwyr gwrywaidd sydd wedi troseddu yn erbyn partneriaid gwrywaidd, a gyda chyflawnwyr gwrywaidd trawsryweddol.

**Bydd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi hefyd yn cyhoeddi fframwaith polisi cam-drin domestig newydd** a fydd yn nodi'r disgwyliadau ar gyfer gweithio gyda chyflawnwyr cam-drin domestig a mynediad at ymyraethau a llwybrau cyfeirio, gan gynnwys y rhai a fwriadwyd i ddiogelu dioddefwyr a phlant.

**Ochr yn ochr â lansio cynlluniau newydd i weithio gyda chyflawnwyr, rydym yn cydnabod pwysigrwydd gwerthuso'r prosiectau sy'n bodoli a rhannu gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio trwy'r sector.** Yn 2019, byddwn yn cynnal gwerthusiad o'r rhaglen cyflawnwyr achrededig gymedrol o ran dwyster, Building Better Relationships a'r rhaglen cyflawnwyr ddwys Kaizen; bydd hyn yn cynnwys asesiad o'r dulliau mwyaf addas a'r amseriad gorau ar gyfer gwerthusiad cadarn o'r ddwy raglen. Bydd hyn yn ceisio deall y sialensiau a'r cymhlethdodau sy'n wynebu gwerthusiadau rhaglenni cam-drin domestig a sut y gellir goresgyn y rhain.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 81 08-May-19 12:01:49

**Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r Coleg Plismona, partneriaid o'r sector gwirfoddol a phartneriaethau amlasiantaethol lleol** i sicrhau bod yr hyn a ddysgir trwy waith addawol gyda chyflawnwyr yn cael ei rannu a'i ymwreiddio, fel y prosiect Drive – y mae Respect yn bartner allweddol iddo – a phaneli cyflawnwyr fel y model Cydlynu a Gosod Tasgau Amlasiantaethol.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 82 08-May-19 12:01:49

# Adran 4: Gwella perfformiad

## 4.1 Comisiynydd Cam-drin Domestig

**Rydym am sefydlu Comisiynydd Cam-drin Domestig yn gyfreithiol.** Bydd y Comisiynydd yn rhoi arweiniad cyhoeddus ar faterion cam-drin domestig ac yn chwarae rôl allweddol wrth oruchwylio a monitro darparu gwasanaethau cam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr.

**Bydd rôl y Comisiynydd yn allweddol wrth sicrhau cysondeb a thynnu sylw at arfer effeithiol a gwael.** Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau cam-drin domestig a ddefnyddir gan ddioddefwyr yn cael eu comisiynu yn lleol. Mae'r cyllid ar gyfer y gwasanaethau hyn yn cael ei ddarparu i raddau helaeth gan awdurdodau lleol yn ogystal â'r heddlu lleol, cyrff iechyd a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Credwn mai'r cyrff yma sydd yn y sefyllfa orau i bennu'r anghenion am ddarpariaeth leol yn eu hardaloedd, er ein bod yn deall bod hyn yn golygu y gall ansawdd gwasanaethau a faint a ddarperir amrywio o ranbarth i ranbarth.

**Mae angen i ni wneud mwy i ymwreiddio cyfarwyddyd a rhannu arfer gorau trwy benodi Comisiynydd Cam-drin Domestig fydd yn goruchwylio darparu gwasanaethau ac a fydd â'r grym i ddal y rhai sy'n eu darparu i gyfrif.**

**Fe ddywedsoch chi:**

*"Bydd cael Comisiynydd Cam-drin Domestig yn rhoi rhywfaint o statws i'r drosedd. Mae wedi bod yn hir iawn yn cyrraedd. O'r diwedd mae'n cael ei chydnabod fel trosedd ddifrifol!"*

**Roedd cefnogaeth gref i gyflwyno Comisiynydd Cam-drin Domestig.** O'r rhai wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad, roedd 65% naill ai yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r model arfaethedig. O'r 22% oedd yn anghytuno, roedd ychydig dros eu hanner yn gwneud hyn ar y sail eu bod am i'r rôl gael ei ehangu i ystyried pob ffurf ar drais yn erbyn menywod a merched. Croesawodd y Pwyllgor Dethol Materion Cartref hefyd greu Comisiynydd newydd ond roedd yn argymell y dylai'r swydd newydd gael ei sefydlu fel Comisiynydd Trais yn Erbyn Menywod a Merched a Cham-drin Domestig.

O ran rôl arfaethedig y Comisiynydd Cam-drin Domestig, y tair elfen ganlynol oedd yn cael eu hystyried bwysicaf:

- rhoi argymhellion i lywodraeth genedlaethol a lleol i wella'r ymateb i gam-drin domestig, ynghyd â dyletswydd ar yr unigolyn/sefydliad cyfrifol i ymateb i'r argymhellion hyn



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 83 08-May-19 12:01:49

- mapio a monitro'r ddarpariaeth o wasanaethau cam-drin domestig mewn cymhariaeth â'r Datganiad Disgwyliadau Cenedlaethol[33], a chyhoeddi'r wybodaeth hon i ddangos a rhannu arfer gorau, yn ogystal â thanlinellu'r mannau lle nad yw'r ddarpariaeth leol yn cyrraedd yr hyn a ddisgwylir
- ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau statudol lleol gydweithio a rhoi gwybodaeth

**Fe ddywedsoch y dylai'r Comisiynydd roi llais i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig,** gan adlewyrchu eu profiadau yn y gwaith y mae'n ei wneud, a dylai weithio yn glos gyda sefydliadau trydydd sector arbenigol. Fe ddywedsoch hefyd bod rhaid i'r Comisiynydd sefyll dros blant dioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig, a bod angen i grwpiau o fenywod bregus sydd ar gyrion cymdeithas gael eu cynrychioli yn briodol ac i'w hanghenion penodol gael eu hystyried.

Argymhellodd y Pwyllgor Dethol Materion Cartref y dylai'r Comisiynydd fedru rhoi sylwadau ar effaith gwasanaethau llywodraeth ganolog ar ddioddefwyr cam-drin domestig, fel mynediad at gyfiawnder, iechyd, tai a budd-daliadau lles, yn ogystal ag ar wasanaethau cam-drin domestig penodol, ac y dylai'r Comisiynydd roi adroddiadau yn uniongyrchol i'r Senedd i ddiogelu annibyniaeth y swydd.

### Byddwn yn:

**Bydd y mesur drafft yn sefydlu swydd Comisiynydd Cam-drin Domestig ac yn nodi swyddogaethau a grymoedd y Comisiynydd.** O ystyried yr her o wella ymatebion yr asiantaethau statudol i gam-drin domestig, a graddfa anferth y broblem, credwn y dylai cylch gorchwyl y Comisiynydd ganolbwyntio ar y mater hwn yn unig, yn hytrach na chael ei rannu ar draws pob ffurf o drais yn erbyn menywod a merched. Mae'r llywodraeth yn ymroddedig i ymdrin â hyn trwy'r Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod a Merched ar wahân.

Byddwn yn glir bod gan y Comisiynydd Cam-drin Domestig gyfle unigryw i gynrychioli a chwyddo lleisiau dioddefwyr a goroeswyr a rhaid iddo sicrhau y bydd y lleisiau hynny yn cael eu clywed. **Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd, trwy amodau'r penodiad, sefydlu grŵp dioddefwyr a goroeswyr ymgynghorol, a fydd yn rhoi arbenigedd i'r Comisiynydd trwy eu profiadau eu hunain.** Bydd yn ofynnol i'r Comisiynydd gyfarfod y grŵp yn gyson ac ystyried eu barn a'u dealltwriaeth. Bydd y mesur drafft hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd sefydlu bwrdd ymgynghorol ehangach yn cynnwys cynrychiolwyr o'r trydydd sector arbenigol, asiantaethau cyfiawnder troseddol, llywodraeth leol a'r sector iechyd, a'r byd academaidd, yn ogystal â dioddefwyr a goroeswyr. Byddant yn rhoi cyngor, cyfarwyddyd ac yn herio'r Comisiynydd, ac yn sicrhau bod y Comisiynydd yn parhau i arfer y swyddogaethau fel sy'n cael eu nodi yn y gyfraith.

**Wrth nodi swyddogaethau'r Comisiynydd, bydd y mesur drafft yn nodi yn glir bod y Comisiynydd i ystyried effaith cam-drin domestig ar blant** gan gynnwys yn y cylch gorchwyl y gallu i adolygu gwasanaethau plant ac asiantaethau eraill sy'n rhyngweithio a gweithio gyda phlant. Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd, trwy amodau'r penodiad, sefydlu arweinydd thematig yn swyddfa'r Comisiynydd i gynrychioli

[33] Y Swyddfa Gartref (2016) *Violence Against Women and Girls National Statement of Expectations*. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/violence-against-women-and-girls-national-statement-of-expectations



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 08-May-19 12:01:49

buddiannau plant. Er mwyn sicrhau bod gwell parhad yn y gefnogaeth i'r plant hynny y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt, byddwn yn disgwyl i'r Comisiynydd gydweithio gyda'r Comisiynydd Plant a'r Comisiynydd Dioddefwyr, ymhlith eraill.

**Byddwn yn sicrhau bod gan y Comisiynydd gylch gorchwyl digon eang i gynnwys darparu gwasanaethau arbenigol, fel IDVA, yn ogystal ag ystyried sut y mae gwasanaethau canolog yn cefnogi a rhyngweithio gyda dioddefwyr a'u teuluoedd;** bydd holl adrannau'r llywodraeth, yn ogystal â'r sector iechyd, addysg, asiantaethau gofal cymdeithasol a chyfiawnder troseddol, yn dod o fewn cylch gorchwyl y Comisiynydd.

**Er mwyn diogelu annibyniaeth y Comisiynydd, byddwn yn datblygu siarter yn nodi'r berthynas rhwng y Comisiynydd a'r Swyddfa Gartref fel yr adran sy'n noddi.**

Bydd y Comisiynydd yn gallu darparu, pan ofynnir am hynny, cyngor ar faterion penodol i weinidogion ac awdurdodau cyhoeddus penodol. Er budd tryloywder, bydd dyletswydd ar y Comisiynydd i gyhoeddi'r cyngor i awdurdodau cyhoeddus. Yn ychwanegol, bydd yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Cartref gyflwyno adroddiad blynyddol ac adroddiadau eraill a chynlluniau strategol Comisiynydd ger bron y Senedd.

**Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd ganolbwyntio yn benodol ar anghenion dioddefwyr a goroeswyr o grwpiau lleiafrifol neu sydd ar gyrion cymdeithas**. A thrwy delerau'r apwyntiad, bydd yn ofynnol i'r Comisiynydd sefydlu arweinyddion thematig yn y swyddfa ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr sy'n BAME, LGBT+, anabl, mudol, neu sydd ag anghenion cymhleth.

Ond nid oes raid i ni aros i'r mesur ddod yn gyfraith cyn symud ymlaen. Dyna pam ein **bod wedi lansio ymgyrch i recriwtio Darpar Gomisiynydd Cam-drin Domestig,** a fydd yn cyflawni'r un rôl a'r Comisiynydd statudol, ond heb y grymoedd cyfreithiol ffurfiol yn unig. Mae'r disgrifiad rôl ar gyfer y Darpar Gomisiynydd yn ymgorffori llawer o'r sylwadau a wnaed gan y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

## 4.2 Data

**Rydym yn gwybod bod dadansoddi data o safon uchel a chraff yn allweddol i ddeall ac ymateb i gam-drin domestig.** Un ffynhonnell ddefnyddiol yw bwletin ystadegol blynyddol cam-drin domestig y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ei nod yw dwyn at ei gilydd ystadegau cam-drin domestig i un lle er mwyn caniatáu dadansoddi mwy trylwyr ar y modd y mae cam-drin domestig yn cael ei drin yn genedlaethol a lleol. Ers ei gyhoeddi gyntaf yn 2016, mae'r bwletin wedi datblygu a dod yn fwy cynhwysfawr o flwyddyn i flwyddyn ac mae'n cynnwys cyfraniadau gan adrannau'r llywodraeth, asiantaethau statudol ac elusennau cam-drin domestig. Cyhoeddwyd y trydydd bwletin blynyddol ar wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar 22 Tachwedd 2018, ochr yn ochr ag offeryn data rhyngweithiol[34] sy'n gadael i ddefnyddwyr gymharu data rhwng ardaloedd lluoedd heddlu.

[34] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/domesticabuseinenglandandwales/yearendingmarch2018



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 85 08-May-19 12:01:49

Disgwyliwn i'r bwletin data gael ei ddefnyddio ar y cyd â gwybodaeth leol i alluogi ymarferwyr a chomisiynwyr i ofyn cwestiynau anodd a beirniadol am berfformiad a dynodi meysydd i'w gwella.

**Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn symud gwaith ymlaen ar rannu data i wneud y wybodaeth, data a'r dystiolaeth sy'n bodoli yn haws eu cyrraedd.** Gan weithio gyda'r CPS, mae'n parhau i ddatblygu un ffynhonnell o wybodaeth am achosion a rennir, a elwir yn Llwyfan Cyffredin, a fydd yn hwyluso gwell casglu, adrodd ac olrhain ar ddata llysoedd a dedfrydu ar ddata cam-drin domestig.

### Fe ddywedsoch chi:

*"Mae angen i ddata weithio ar draws gwasanaethau statudol – mae'r hyn y mae'r heddlu yn ei gasglu yn cael effaith ar yr hyn y gall Gwasanaeth Erlyn y Goron ei wneud, mae'r hyn mae tai, iechyd ac ysgolion yn ei gasglu yn cael effaith ar fynediad menywod at ddiogelwch a gwasanaethau."*

Dywedodd 59% ohonoch mai eich tair prif flaenoriaeth yw:

- gwella data er mwyn galluogi gwell olrhain ar achosion/ ymyraethau cam-drin domestig
- casglu ac adrodd data pan fydd cam-drin domestig yn nodwedd o achos/ymyrraeth
- cysylltu data i alluogi gwell olrhain ar ymyraethau ac aildroseddu

Roeddech am weld ymateb ar sail tystiolaeth i gam-drin domestig gan bwysleisio pwysigrwydd defnyddio data o nifer o ffynonellau gan gynnwys data gan sefydliadau trydydd sector a sicrhau bod y defnydd gorau posibl yn cael ei wneud o'r dystiolaeth sy'n bodoli a'r dadansoddi.

### Byddwn yn:

**Byddwn yn parhau i ddatblygu modd o gasglu, adrodd ac olrhain data cam-drin domestig trwy'r Llwyfan Cyffredin a bwletin cam-drin domestig y Swyddfa Ystadegau Gwladol**. Bydd y bwletin yn y dyfodol yn parhau i lenwi bylchau o ran data cam-drin domestig trwy archwilio ffynonellau data newydd ac ehangu ar fanylder y data fel demograffeg y dioddefwyr.

**Mewn modd tebyg, byddwn hefyd yn gweithio gyda'r CPS a'r heddlu i wella'r manylion o ran rhyw yn nata'r CPS a'r heddlu i ddeall yn well y nifer o ddioddefwyr a chyflawnwyr benywaidd cam-drin domestig sydd yn y system cyfiawnder troseddol.**



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 86 08-May-19 12:01:49

Rydym yn gweithio ar draws y llywodraeth i ddeall pa ffynonellau o dystiolaeth sydd ar gael y gellid eu cynnwys yn y bwletin cam-drin domestig i sicrhau ein bod yn parhau i gynyddu ein dealltwriaeth o amlygrwydd achosion cam-drin domestig.

**Byddwn yn treialu dwyn data lleol at ei gilydd i gynorthwyo wrth gomisiynu.** Mae'r heddlu, iechyd ac asiantaethau eraill i gyd yn casglu data ar gam-drin domestig; byddwn yn archwilio dwyn y data at ei gilydd mewn ardal leol i weld a all helpu i fod yn sail i well comisiynu, gan fod yn ofalus i gadw pobl yn ddienw.

**Bydd y DfE, trwy'r Adolygiad Plant Mewn Angen, yn parhau i ddatblygu eu data a'u dadansoddiad o'r modd y mae ffactorau plant, teuluol a lefel ysgol, gan gynnwys y risg o gam-drin domestig, yn gwneud gwahaniaeth i ddeilliannau plant dros amser.** Bydd hyn yn cefnogi newidiadau yn y dyfodol mewn polisi neu arfer i ymdrin ag effaith tymor hir bod mewn angen**.**

**Mae'r DWP yn ymroddedig i ddarparu gwell data ar y rhai ag anghenion cymhleth, gan gynnwys cam-drin domestig, ac mae'r gwaith hwn eisoes wedi cael blaenoriaeth fel rhan o'r gwaith ehangach i wella Credyd Cynhwysol**.

## 4.3 Dysgu oddi wrth Adolygiadau Lladdiadau Domestig

**Mae Adolygiadau Lladdiadau Domestig (DHR) yn bodoli fel bod asiantaethau a sefydliadau cymunedol yn gallu dysgu o ddiffygion a gwella eu hymateb i gam-drin domestig yn y dyfodol.** Rydym am sicrhau bod gweithredu ar y gwersi a ddysgir a'u bod yn cael eu defnyddio i osgoi lladdiadau ac enghreifftiau o gam-drin domestig yn y dyfodol.

**Rydym am gynyddu ymwybyddiaeth o'r gwersi a ddysgir o DHR ar lefel leol a chenedlaethol.** Gall hyn gael ei gyflawni trwy wneud DHR yn fwy hygyrch trwy rannu argymhellion a rhoi'r newyddion diweddaraf trwy gylchlythyrau.

**Fe wnaethom ofyn i chi sut y gallwn sicrhau bod yr hyn a ddysgir trwy DHR yn cael ei ddeall a bod gweithredu arno**. Mae hyn yn cynnwys sut y gallwn gynyddu ymwybyddiaeth o'r gwersi o DHR a sut y gall ardaloedd lleol ddal asiantaethau i gyfrif o ran monitro cyflawni mewn cymhariaeth â chynlluniau gweithredu DHR.

**Fe ddywedsoch chi:**

*"Dylai fod strwythur a dyletswydd ar asiantaethau lleol i roi adroddiad am y modd y maent wedi cyflawni cynlluniau gweithredu DHR. Petai rôl Comisiynydd yn cael ei chreu, gallai gael briff arolygu, yn debyg i Ofsted neu'r Comisiwn Ansawdd Gofal."*

Fe ddywedsoch chi y dylem ganolbwyntio ar hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth ac y dylem gyhoeddi DHR mewn man hygyrch. Fe wnaethoch hefyd ddweud y dylid cael arolygiadau neu fonitro cyson ar gynlluniau gweithredu ac y dylid hefyd ystyried rôl partneriaethau lleol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 81 08-May-19 12:01:49

## Byddwn yn:

**Byddwn yn creu canolfan gyhoeddus, chwiliadwy o DHR ac yn cryfhau'r cyfarwyddyd statudol DHR i sicrhau bod adolygiadau a gyhoeddwyd yn parhau yn hygyrch i'r cyhoedd yn hwy.**[35]

**Byddwn yn gweithio gyda'r Comisiynydd Cam-drin Domestig, pan y'i penodir, i edrych ar sut y mae'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu gweithredu yn lleol a chenedlaethol.** Byddwn hefyd yn cyflwyno'r newyddion diweddaraf yn gyson ar y gwersi allweddol o DHR ar gyfer ardaloedd lleol. Byddwn yn gweithio gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i edrych ar sut y gallant weithio orau gyda phartneriaid lleol ar weithredu argymhellion yn lleol.

**Ar lefel genedlaethol, byddwn yn gweithio ar draws y llywodraeth i sicrhau bod argymhellion cenedlaethol o DHR yn cael eu rhannu a bod gweithredu arnynt.**

**Byddwn yn rhannu'r gwersi a ddysgwyd o'r cynllun treialu sy'n digwydd yng Nghymru sy'n dwyn at ei gilydd DHR ac Adolygiadau Arfer Oedolion mewn un broses adolygu.**

Yn ychwanegol, **rydym yn darparu £200,000 o gyllid ychwanegol i Wasanaeth Lladdiadau Cenedlaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gynyddu'r ddarpariaeth o eiriolaeth i deuluoedd mewn profedigaeth. Rydym hefyd yn darparu £200,000 arall i'r sefydliad arbenigol Advocacy After Fatal Domestic Abuse i gynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth eiriolaeth i sicrhau bod teuluoedd yn cael eu cefnogi i gyfrannu tuag at DHR.**

[35] Y Swyddfa Gartref (2013, diwyg. 2016) Domestic Homicide Reviews: statutory guidance. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/revised-statutory-guidance-for-the-conduct-of-domestic-homicide-reviews.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 88 08-May-19 12:01:49

## Atodiad A: Naw prosiect yn cael eu hariannu trwy Gronfa Plant y llywodraeth, 2018/19

| Prosiect | Disgrifiad |
|---|---|
| Prosiect 1 | Prosiect yn Hounslow i greu pedwar Gweithiwr Rhiant a Phlentyn fydd yn gweithio gydag ysgolion i gefnogi plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt a hefyd gweithio gyda'r rhiant nad yw'n cam-drin. |
| Prosiect 2 | Prosiect yn Swydd Gaergrawnt i roi cefnogaeth arbenigol i blant sy'n rhoi tystiolaeth yn y system cyfiawnder troseddol ac i blant sy'n cymryd rhan mewn Adolygiadau Lladdiadau Domestig. |
| Prosiect 3 | Prosiect yn cynnwys nifer o awdurdodau lleol yn y 'Black Country' i sicrhau bod gwasanaeth cefnogi yn yr ysgolion i blant y mae cam-drin domestig wedi effeithio arnynt, gan gynnwys gwaith achos un i un a rhaglenni grwpiau. Bydd hyfforddiant a chyngor i ysgolion ymdrin â datgeliadau hefyd, ac integreiddio â gwasanaethau oedolion i sicrhau bod dull teuluol o ymdrin â cham-drin domestig. |
| Prosiect 4 | Prosiect yn Llundain i roi cefnogaeth am ddim a chyfrinachol un i un i blant 5-18 oed y mae cam-drin domestig wedi effeithio arnynt. Bydd gweithwyr achos yn gweithio o'r un lle â gwasanaethau cymdeithasol ac yn darparu wyth wythnos o ymyraethau cefnogol a naw mis o fentora un i un i'r achosion lle mae mwyaf o angen. |
| Prosiect 5 | Prosiect yn Stockport sy'n targedu plant sy'n byw ar gyrion gofal. Bydd yn cyflwyno ymyraethau dwys ac yn llunio pecynnau offer i'w rhannu gyda'r gweithlu ehangach. Bydd hefyd yn recriwtio Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol i weithio mewn wardiau mamolaeth a chlinigau cyn ac ar ôl geni; yn creu Hwyluswyr Cam-drin Domestig i godi ymwybyddiaeth i bob sector; ac yn darparu ymyraethau therapiwtig i blant, gan gynnwys cwnsela, trwy grwpiau ieuenctid/cymunedol. |
| Prosiect 6 | Prosiect yn Lewisham sy'n canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth; gweithredu cyfres o ymyraethau mewn ysgolion; a chyflawni gwasanaethau cefnogi therapiwtig i'r diben. |
| Prosiect 7 | Prosiect yng Nghymru sy'n cael ei redeg gan elusen genedlaethol i ymwreiddio gweithwyr mewn gofal cymdeithasol i blant i weithredu amrywiaeth o gynlluniau a rhaglenni sy'n bodoli. Bydd y rhain yn galluogi plant a phobl ifanc i ddod dros eu profiadau o gam-drin domestig ac i gynyddu eu gwytnwch, yn ogystal â chryfhau gallu rhieni a chefnogi newid yn y system. |



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 83 08-May-19 12:01:49

| Prosiect | Disgrifiad |
|---|---|
| Prosiect 8 | Prosiect yn Northumbria i greu rôl newydd Swyddog Cyswllt Diogelu Ysgolion, a fydd yn gyfrifol am: gyflawni mewnbwn i blant CA1–CA4 i gynyddu eu hymwybyddiaeth o gam-drin domestig trwy Addysg Bersonol, Cymdeithasol ac Iechyd; hyfforddiant i staff ysgolion am gam-drin domestig a sut i gefnogi plant; a chreu cyfleusterau galw heibio mewn ysgolion i rieni, plant a staff yr ysgolion. |
| Prosiect 9 | Prosiect yng Ngogledd Gwlad yr Haf i greu gwasanaeth cefnogi newydd i blant a phobl ifanc sy'n gwella ar ôl eu profiad o gam-drin domestig. Bydd tîm o eiriolwyr yn defnyddio ymyraethau therapiwtig arbenigol ac yn datblygu rhaglenni unigol ar sail anghenion datblygu'r plentyn a'i brofiad o gam-drin domestig. |



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 90 08-May-19 12:01:49

# Atodiad B: Rhestr o droseddau yr ydym yn bwriadu cymryd awdurdodaeth tu hwnt i diriogaeth drostynt i fodloni ein hymrwymiadau dan Erthygl 44 o Gonfensiwn Istanbul

| Trosedd | Erthyglau perthnasol yn y confensiwn |
|---|---|
| **Creu ofn trais mewn pobl:** adran 4 Deddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 | 33 |
| **Ymddygiad gorfodol neu sy'n rheoli mewn perthynas agos neu deuluol:** adran 76 Deddf Troseddau Difrifol 2015 | 33 |
| **Stelcio yn cynnwys ofn trais neu ofn neu bryder difrifol:** adran 4A Deddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 | 33, 34 |
| **Llofruddiaeth a dynladdiad:** cyfraith gyffredin | 35 |
| **Niwed corfforol gwirioneddol:** adran 47 o Ddeddf Troseddau yn Erbyn yr Unigolyn 1861 | 33, 35, 39 |
| **Niwed corfforol difrifol:** adran 20 o Ddeddf Troseddau yn Erbyn yr Unigolyn 1861 | 33, 35, 39 |
| **Niwed corfforol difrifol bwriadol:** adran 18 o Ddeddf Troseddau yn Erbyn yr Unigolyn 1861 | 33, 35, 39 |
| **Dinistrio plentyn:** adran 1(1) o Ddeddf (Cadw) Bywyd Babanod 1929 | 39 |
| **Rhoi gwenwyn neu rywbeth gwenwynig i beryglu bywyd neu achosi niwed corfforol difrifol:** adran 23 o Ddeddf Troseddau yn Erbyn yr Unigolyn 1861 | 39 |
| **Rhoi gwenwyn neu rywbeth gwenwynig gyda'r bwriad o achosi niwed, poeni neu beri gofid i unigolyn arall:** adran 24 o Ddeddf Troseddau yn Erbyn yr Unigolyn 1861 | 39 |
| **Treisio:** adran 1 Deddf Troseddau Rhywiol 2003 | 36 |
| **Ymosodiad trwy dreiddio:** adran 2 Deddf Troseddau Rhywiol 2003 | 36 |
| **Ymosodiad rhywiol:** adran 3 Deddf Troseddau Rhywiol 2003 | 36 |
| **Achosi unigolyn i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol heb gydsyniad:** adran 4 Deddf Troseddau Rhywiol 2003 | 36 |



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 85 08-May-19 12:01:50

# Atodiad C: Grid ymrwymiadau

| Adran 1 | | |
|---|---|---|
| **Cyf.** | **Ymrwymiad** | **Arweinydd** |
| 1 | Cynnwys diffiniad o gam-drin domestig ar sail yr un a gynigir yn y ddogfen ymgynghorol, yn y Mesur Cam-drin Domestig drafft. | Y Swyddfa Gartref |
| 2 | Cyhoeddi cyfarwyddyd statudol i gyd-fynd â'r diffiniad. | Y Swyddfa Gartref |
| 3 | Cyflwyno rheoliadau a Chyfarwyddyd Statudol i ysgolion am Addysg Perthnasau, Addysg Perthnasau a Rhyw, ac Addysg Iechyd. | Yr Adran Addysg |
| 4 | Cefnogi ysgolion i addysgu addysg perthnasau o safon uchel ac addysg perthnasau a rhyw. | Yr Adran Addysg |
| 5 | Buddsoddi yn y rhaglen newid yr heddlu Domestic Abuse Matters er mwyn ymestyn yr ardal lle mae'n cael ei chyflwyno. | Y Swyddfa Gartref |
| 6 | Darparu £220,000 i ddatblygu a threialu rhaglen hyfforddi i weithwyr cymdeithasol ar reolaeth orfodol. | Y Swyddfa Gartref |
| 7 | Ariannu datblygu deunyddiau hyfforddi cam-drin domestig, i wasanaethau prawf a chwmnïau adsefydlu cymunedol. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| 8 | Datblygu cynhyrchion dysgu a datblygu yn y dyfodol, ar gyfer yr holl hyfforddwyr gwaith Credyd Cynhwysol. | Yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| 9 | Parhau i godi ymwybyddiaeth o Cadw Plant yn Ddiogel mewn Addysg, dal i adolygu ei effeithlonrwydd ac ystyried ei gryfhau os bydd angen. | Yr Adran Addysg |
| 10 | Gyrru diwygiadau eang i ofal cymdeithasol plant i roi cefnogaeth effeithiol i blant a theuluoedd y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt. | Yr Adran Addysg |
| 11 | Buddsoddi £2 filiwn i ariannu ehangu'r rhaglen canfod llwybr Sefyll Gyda'n Gilydd yn Erbyn Trais Domestig i wyth ardal i greu model o ymateb iechyd i gam-drin domestig. | Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| 12 | Parhau i weithio gydag NHS England i godi ymwybyddiaeth a gwella'r ddealltwriaeth sydd gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol o gam-drin domestig. | Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| 13 | Defnyddio arbenigwr cam-drin domestig ym mhob Canolfan Waith, fydd yn cael hyfforddiant pellach ar sut i gefnogi hawlwyr sydd yn ddioddefwyr cam-drin domestig. | Yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| 14 | Parhau i ddarparu cyllid blynyddol o £1.1 miliwn hyd at 2021/22 ar gyfer saith llinell gymorth, yn amodol ar ganlyniad yr Adolygiad Gwariant. | Y Swyddfa Gartref |



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 08-May-19 12:01:50

| | | |
|---|---|---|
| 15 | Parhau i ddangos arweinyddiaeth wrth gefnogi'r digwyddiadau Cynllun y Cyflogwyr a chodi ymwybyddiaeth am y pecyn offer cam-drin domestig Busnes yn y Gymuned. | Y Swyddfa Gartref |
| 16 | Gweithio gyda phartneriaid i adolygu, gwerthuso a deall y gweithgareddau cyfathrebu presennol, a fydd yn helpu i fod yn sail i weithgaredd cyfathrebu yn y dyfodol. | Y Swyddfa Gartref |
| 17 | Gweithio i daclo normau rhywedd niweidiol, i gydnabod bod pob ffurf ar drais yn erbyn menywod a merched yn achosi anghyfartaledd ehangach rhwng y ddau ryw ac o ganlyniad i hynny. | Swyddfa Cydraddoldeb Rhyw |
| 18 | Diweddaru'r cynhyrchion a deunyddiau cyfathrebu Credyd Cynhwysol, creu taflen wybodaeth benodol a chyfres o asedau digidol i godi ymwybyddiaeth o gefnogaeth y DWP i ddioddefwyr cam-drin domestig. | Yr Adran Gwaith a Phensiynau |

| Adran 2 | | |
|---|---|---|
| **Cyf.** | **Ymrwymiad** | **Arweinydd** |
| 19 | Dyrannu £8 miliwn i gefnogi plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt. | Y Swyddfa Gartref |
| 20 | Cynnal gwaith ymchwil i ddeall pam nad oes mwy o gyflawnwyr cam-drin domestig yn cael eu collfarnu am achosi niwed emosiynol i blant | Yr Adran Addysg a'r Swyddfa Gartref |
| 21 | Trwy'r Adolygiad Plant Mewn Angen byddwn yn dynodi beth sydd angen ei wneud o ran polisi ac yn ymarferol i ymdrin ag anghyfiawnder deilliannau addysgol gwaelach i blant mewn angen. | Yr Adran Addysg |
| 22 | Monitro gweithrediad cyflwyno Ymgyrch Cwmpasu ac yn rhannu canfyddiadau'r gwerthusiad er mwyn cynyddu ei effeithiolrwydd a datblygu'r cynllun ymhellach. | Y Swyddfa Gartref |
| 23 | Datblygu model darparu gwasanaethau dioddefwyr newydd i gynyddu argaeledd gwasanaethau trwy gyllid mwy diwnïad a chynaliadwy. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| 24 | Archwilio manteision comisiynu lleol llawn ar wasanaethau cefnogi treisio a thrais rhywiol gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| 25 | Darparu £500,000 i helpu i gynyddu gallu ac arbenigedd tymor hir am hawliau mewnfudo i'r rhai sy'n gweithio i frwydro yn erbyn cam-drin domestig. | Y Swyddfa Gartref |
| 26 | Ystyried cynhyrchu cynnyrch cyfathrebu i gynyddu ymwybyddiaeth o'r consesiwn trais domestig diymgeledd. | Y Swyddfa Gartref |
| 27 | Ystyried y ddadl dros ehangu'r cohort o unigolion sy'n gymwys dan y consesiwn trais domestig diymgeledd. | Y Swyddfa Gartref |



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 93 08-May-19 12:01:51

| | | |
|---|---|---|
| 28 | Gweithio gyda lluoedd heddlu i gynyddu ymwybyddiaeth o gyfarwyddyd ar gefnogi dioddefwyr â statws mewnfudo anniogel i helpu i oresgyn rhwystrau sy'n atal rhoi adroddiad a chael mynediad at ddiogeliad a chefnogaeth. | Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu |
| 29 | Deddfu i ddarparu ar gyfer yr Hysbysiad Diogelu Cam-drin Domestig (DAPN) a'r DAPO (DAPO) newydd. | Y Swyddfa Gartref |
| 30 | Cyhoeddi cyfarwyddyd statudol a rhaglen o hyfforddiant a phecynnau offer ymarferol ar y DAPO i weithwyr proffesiynol. | Y Swyddfa Gartref |
| 31 | Gweithio gydag arbenigwyr cam-drin domestig ac asiantaethau perthnasol i sicrhau bod y broses ar gyfer cael DAPO trwy'r llysoedd teulu yn syml. | Y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| 32 | Gweithio gyda'r heddlu, llysoedd, dioddefwyr a'r sector cam-drin domestig i sicrhau bod DAPO a DAPN yn effeithiol, gan brofi'r dull newydd trwy gynllun treialu. | Y Swyddfa Gartref |
| 33 | Sicrhau bod y cyfarwyddyd yn glir o ran y dewis dirmyg llys am dorri DAPO, gan drafod ei argaeledd gyda'r dioddefwyr pan wneir gorchymyn. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| 34 | Monitro gweithredu dulliau amlasiantaethol o ymdrin â cham-drin domestig fel y nodir yn *Working Together to Safeguard Children* a'r rhaglen Diogelu Mabwysiadwyr Cynnar a rhannu'r gwersi a ddysgwyd i bartneriaid diogelu. | Yr Adran Addysg |
| **2.4.1 Anghenion arbenigol** | | |
| 35 | Cefnogi dioddefwyr LGBT+ trwy ddarparu hyd at £500,000 i gynyddu gallu yn y sector elusennol, codi ymwybyddiaeth a gwella monitro ac arferion cofnodi. | Y Swyddfa Gartref |
| 36 | Byddwn yn gwella capasiti yn y sector menywod trwy ddarparu £250,000 i wella'r ymateb i ddioddefwyr anabl. | Y Swyddfa Gartref |
| 37 | Darparu £250,000 i wella cefnogaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau cam-drin domestig byddar. | Y Swyddfa Gartref |
| 38 | Darparu £100,000 i gefnogi sefydliadau cam-drin domestig i ymateb i gam-drin domestig sy'n ymwneud â phobl hŷn. | Y Swyddfa Gartref |
| 39 | Buddsoddi £300,000 i gynyddu capasiti mewn sefydliadau BAME arbenigol sy'n cefnogi dioddefwyr cam-drin domestig. | Y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol |
| **2.4.2 Troseddwyr benywaidd** | | |
| 40 | Buddsoddi £2 filiwn mewn darpariaeth gymunedol i fenywod â phrofiad o gam-drin domestig. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| 41 | Rhoi grantiau i gymunedau lleol i ganolbwyntio ar faterion fel iechyd, cyllid a llety. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| 42 | Datblygu Concordat Cenedlaethol ar Droseddwyr Benywaidd i wella deilliannau i droseddwyr benywaidd. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 88 08-May-19 12:01:51

| | | |
|---|---|---|
| 43 | Cyhoeddi cyfarwyddyd gyda Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu am weithio gyda menywod bregus. | Y Swyddfa Gartref a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu |
| 44 | Cefnogi cyflwyno hyfforddiant ar sail trawma i staff prawf a charchardai sy'n gweithio gyda throseddwyr benywaidd. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| **2.4.3 Camddefnyddio sylweddau** | | |
| 45 | Byddwn yn ystyried effaith alcohol ar gam-drin domestig ac yn datblygu ymateb fel rhan o waith polisi alcohol yr adran. | Y Swyddfa Gartref |
| 46 | Cynnal gweithdai i wella ein dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng alcohol a cham-drin domestig. | Y Swyddfa Gartref |
| 47 | Dynodi bylchau yn y dystiolaeth am y berthynas rhwng cam-drin sylweddau a cham-drin domestig. | Y Swyddfa Gartref |
| 48 | Dysgu oddi wrth sesiwn drafod am gam-drin sylweddau gan fenywod am bwysigrwydd darpariaeth amlasiantaethol i fenywod yn unig sy'n cael ei gomisiynu ar y cyd, a'r angen i ymdrin ag anghenion penodol menywod mewn polisïau cyffuriau ac alcohol. | Y Swyddfa Gartref |
| 49 | Dyrannu cyllid ar gyfer hyfforddiant i hyrwyddo mwy o gydweithio rhwng gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a cham-drin domestig. | Y Swyddfa Gartref |
| **2.5.1 Cam-drin Economaidd** | | |
| 50 | Cynnwys cyfeiriad at gam-drin economaidd yn y cyfarwyddyd statudol am y drosedd ymddygiad gorfodol neu sy'n rheoli ac yn y cyfarwyddyd statudol ar gyfer Gorchmynion Diogelu Stelcio a DAPO. | Y Swyddfa Gartref |
| 51 | Diweddaru'r cyfarwyddyd cyfreithiol i erlynyddion i sicrhau y gall achosion o gam-drin economaidd gael eu herlyn yn llwyddiannus. | Gwasanaeth Erlyn y Goron |
| 52 | Parhau i weithio gydag UK Finance i annog banciau ac awdurdodau ariannol i wneud mwy i gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig. | Y Swyddfa Gartref |
| 53 | Darparu £200,000 o gyllid i'r Academi Sgiliau Cenedlaethol Gwasanaethau Ariannol i ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant gallu ariannol i weithwyr rheng flaen. | Y Swyddfa Gartref |
| 54 | Darparu cyllid i ddiweddaru rhaglen newid yr heddlu Domestic Abuse Matters i gynnwys cam-drin economaidd. | Y Swyddfa Gartref |
| 55 | Darparu tua £250,000 o gyllid i greu gwasanaeth cynghori cenedlaethol i fanciau a chymdeithasau adeiladu, cynyddu gallu gwasanaethau gwaith achos ar y ffôn i ddioddefwyr cam-drin domestig a datblygu adnoddau i helpu pobl i ddynodi a ydynt yn profi cam-drin economaidd. | Y Swyddfa Gartref |



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 95 08-May-19 12:01:52

| | | |
|---|---|---|
| 56 | Gweithio'n glos gyda Llywodraeth yr Alban i sefydlu beth yw ochr ymarferol cyflawni rhannu taliadau Credyd Cynhwysol yn yr Alban. | Yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| **2.5.2 Cam-drin ar-lein** | | |
| 57 | Cyhoeddi papur gwyn niweidiau ar-lein i gyflwyno rhagor o ddeddfwriaeth diogelwch ar-lein a chamau heb fod yn ddeddfwriaethol ar sut y byddwn yn taclo niweidiau ar-lein. | Yr Adran Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon a'r Swyddfa Gartref |
| **2.5.3 Trais adolesent ar riant** | | |
| 58 | Datblygu arfer da, hyfforddiant ac adnoddau i wella'r ymateb i ddioddefwyr trais adolesent ar riant. | Y Swyddfa Gartref |
| 59 | Hyrwyddo ac ymwreiddio'r cyfarwyddyd sy'n bodoli gan y Swyddfa Gartref a gweithio gydag arbenigwyr i ddatblygu cyfarwyddyd penodol i wasanaeth. | Y Swyddfa Gartref |
| **2.6.1 Cofrestru i bleidleisio yn ddienw** | | |
| 60 | Parhau i weithio'n glos gydag elusennau cam-drin domestig a gweinyddwyr etholiadol a rheolwyr llochesi i hyrwyddo mwy o ddefnydd o'r cynllun cofrestru pleidleiswyr dienw. | Swyddfa'r Cabinet |
| 61 | Cynyddu ymwybyddiaeth o'r cynllun trwy gyfathrebu ac ymgysylltu wedi ei dargedu i sicrhau y gall mwy o ymgeiswyr gofrestru yn ddiogel a rhwydd. | Swyddfa'r Cabinet |
| **2.6.2 Y Cynllun Datgelu Trais Domestig** | | |
| 62 | Rhoi'r cyfarwyddyd y mae'r Cynllun Datgelu Trais Domestig yn seiliedig arno mewn statud. | Y Swyddfa Gartref |
| 63 | Gweithio gyda'r heddlu i alluogi ceisiadau ar-lein i'r DVDS i wella hygyrchedd y cynllun. | Y Swyddfa Gartref |
| **2.7 Dioddefwyr gwrywaidd** | | |
| 64 | Cyhoeddi Datganiad Safbwynt Dioddefwyr Gwrywaidd i gydnabod anghenion dioddefwyr gwrywaidd, ac egluro safbwynt y llywodraeth. | Y Swyddfa Gartref |
| 65 | Darparu £500,000 o gyllid i wella'r gefnogaeth i ddioddefwyr gwrywaidd cam-drin domestig. | Y Swyddfa Gartref |
| 66 | Gwella'r manylion o ran rhyw yn nata Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r heddlu i ddeall yn well y nifer o ddioddefwyr gwrywaidd cam-drin domestig sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol. | Y Swyddfa Gartref a Gwasanaeth Erlyn y Goron |
| 67 | Cynnal adolygiad o'r Datganiad Disgwyliadau Cenedlaethol a'i effaith ar gomisiynu gwasanaethau cefnogi gwrywaidd. | Y Swyddfa Gartref |



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 96 08-May-19 12:01:52

| Adran 3 | | |
|---|---|---|
| **Cyf.** | **Ymrwymiad** | **Arweinydd** |
| **3.1 Trawsnewid ymateb yr heddlu** | | |
| 68 | Byddwn yn dylunio model 'trwydded i ymarfer' ar gyfer meysydd risg uchel a niwed mawr mewn plismona, gan gynnwys cam-drin domestig. | Y Coleg Plismona |
| 69 | Ystyried cyflwyno pecyn offer arfer effeithiol i luoedd heddlu. | Y Swyddfa Gartref |
| 70 | Parhau i yrru cynnydd ar ymateb yr heddlu i gam-drin domestig yn ei flaen trwy'r Grŵp Goruchwylio Cenedlaethol ac asesu'r ymateb yn arolygiadau PEEL blynyddol Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi. | Y Swyddfa Gartref |
| 71 | Cynnal profion pellach o'r broses asesu risg newydd i bennu a yw'n cefnogi dynodi ymddygiad gorfodol ac sy'n rheoli yn well. | Y Coleg Plismona |
| 72 | Diweddaru cyfarwyddyd i helpu erlynyddion i ymdrin â materion cymhleth mewn achosion cam-drin domestig, a herio'r chwedlau a'r stereoteipiau ymhellach. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Swyddfa Gartref |
| 73 | Cynnal arolwg ar y cyd o effeithiolrwydd achosion sy'n cael eu herlyn ar sail tystiolaeth heblaw tystiolaeth a roddir yn uniongyrchol gan y dioddefwr. | Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi |
| 74 | Parhau i gyflwyno camerâu ar y corff, y dangoswyd eu bod wedi cael effaith gadarnhaol ar y nifer o gyhuddiadau a wnaed a gallant gryfhau'r achos dros yr erlyniad. | Heddlu |
| **3.2.1 Trosedd ymddygiad sy'n rheoli neu orfodol** | | |
| 75 | Gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r drosedd trwy'r holl asiantaethau statudol sy'n gweithio yn y system cyfiawnder troseddol. | Y Swyddfa Gartref |
| 76 | Rhoi cyfarwyddyd statudol i'r heddlu ar Orchmynion Diogelu Stelcio yn y dyfodol i sicrhau ei bod yn glir y gall y gorchymyn gael ei ddefnyddio mewn cyd-destunau cam-drin domestig. | Y Swyddfa Gartref |
| 77 | Diweddaru'r cyfarwyddyd statudol a chyfarwyddyd cyfreithiol y CPS ar gyfer y drosedd ymddygiad gorfodol neu sy'n rheoli. | Y Swyddfa Gartref a Gwasanaeth Erlyn y Goron |



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 97 08-May-19 12:01:53

| | | |
|---|---|---|
| 78 | Adolygu effeithiolrwydd y drosedd yn y ddeddfwriaeth i sicrhau ei fod yn addas i'r diben, a'i fod yn diogelu dioddefwyr rhag camdriniaeth yn ddigonol. | Y Swyddfa Gartref a Gwasanaeth Erlyn y Goron |
| 79 | Deddfu i ddarparu ar gyfer cymhwyster awtomatig am gamau arbennig mewn achosion cam-drin domestig. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| 80 | Gwella'r amgylchedd yn y llys, gydag ardaloedd aros newydd wedi eu dylunio i sicrhau diogelwch y dioddefwyr a chanllaw dylunio llysoedd newydd yn canolbwyntio ar hygyrchedd i'r rhai mwyaf bregus. | Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi |
| 81 | Cynyddu'r nifer o sgriniau preifatrwydd sydd ar gael er mwyn i ddioddefwyr a thystion bregus roi tystiolaeth heb gael eu gweld gan y diffynnydd na theulu'r diffynnydd. | Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi |
| 82 | Adolygu cyfarwyddyd cyfreithiol ar gamau arbennig fel bod dioddefwyr a thystion yn gallu deall pa help all fod ar gael yn well. | Gwasanaeth Erlyn y Goron |
| 83 | Gweithredu'r Fframwaith Arfer Gorau Cam-drin Domestig, gan gynnwys y system llysoedd cam-drin domestig arbenigol ddiwygiedig. | Gwasanaeth Erlyn y Goron, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu |
| **3.2.3 Croesholi** | | |
| 84 | Cyflwyno grymoedd newydd i'r system llysoedd teulu i wahardd croesholi uniongyrchol ar ddioddefwyr gan y rhai wnaeth eu cam-drin. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| **3.2.4 Cyfathrebu yn y llys** | | |
| 85 | Gwella'r ffordd yr ydym yn cyflawni gwasanaethau i ddefnyddwyr y llys i wneud gwasanaethau yn fwy hygyrch, cyfleus ac wedi eu teilwrio i anghenion unigol. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| 86 | Byddwn yn gwella ein cyfathrebu cyffredinol â dioddefwyr, gan gynnwys wrth esbonio penderfyniad i beidio ag erlyn a chyfeirio at lwybrau i adolygu penderfyniadau'r CPS ac i ddefnyddio'r Cynllun Iawndal Niweidiau Troseddol. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| 87 | Adolygu'r gefnogaeth a roddir i ddioddefwyr yn y llys troseddol, gan gynnwys gan IDVA. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| **3.2.5 Cyflwyno ffactor gwaethygol statudol** | | |
| 88 | Gweithio gyda'n rhanddeiliaid i ddeall yr effaith y mae'r canllawiau dedfrydu newydd yn ei chael yn ymarferol cyn ymrwymo i unrhyw gamau newydd. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 98 08-May-19 12:01:53

| | | |
|---|---|---|
| **3.2.6 Rhybuddion amodol** | | |
| 89 | Treialu rhagor o ddefnydd o rybuddion amodol ar gyfer digwyddiadau cam-drin domestig y rhoddir yr adroddiad cyntaf amdanynt. | Gwasanaeth Erlyn y Goron, Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| **3.2.7 Confensiwn Istanbul: awdurdodaeth tu hwnt i diriogaeth** | | |
| 90 | Cymryd awdurdodaeth tu hwnt i diriogaeth am y troseddau a restrir yn Atodiad B i fodloni ein hymrwymiadau dan Erthygl 44 o'r confensiwn. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| 91 | Dibynnu ar y rhwymedi cyfraith sifil yn Neddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 i fodloni gofynion Erthygl 40 o Gonfensiwn Istanbul. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| **3.3.1 Llysoedd teulu** | | |
| 92 | Darparu £1 miliwn o gyllid i sefydliadau sy'n rhoi cefnogaeth yn y llys i ddioddefwyr cam-drin domestig. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| 93 | Archwilio dewisiadau i ddatblygu dull gwell a mwy cyson o rannu gwybodaeth ar draws awdurdodaethau llysoedd. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| 94 | Parhau i weithio gyda'n rhanddeiliaid ar beth yn fwy y gellir ei wneud i gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig yn y llysoedd teulu. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| **3.3.3 Cymorth cyfreithiol** | | |
| 95 | Cyhoeddi canfyddiadau'r adolygiad ar ôl gweithredu'r newidiadau a wnaed gan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| **3.4 Taith y cyflawnwr** | | |
| 96 | Hyrwyddo'r cyfarwyddyd diwygiedig ar gyfeirio i'r timau Trefniadau Diogelu'r Cyhoedd Amlasiantaethol (MAPPA) i wella'r fframwaith ar gyfer rheoli cyflawnwyr a chryfhau gweithio amlasiantaethol. | Y Swyddfa Gartref |
| 97 | Gwella dynodi ac asesu risg cyflawnwyr. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref |
| 98 | Gweithio gyda'r heddlu i wella'r defnydd ar y systemau cofnodi a dadansoddi gwybodaeth presennol i gyflawnwyr. | Y Swyddfa Gartref |



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 93 08-May-19 12:01:54

| | | |
|---|---|---|
| 99 | Gweithio gydag Arweinydd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ar gam-drin domestig a'r Coleg Plismona i ddatblygu cyfarwyddyd cenedlaethol ar gyflawnwyr cyfresol a thro ar ôl tro. | Y Swyddfa Gartref a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu |
| 100 | Ariannu datblygu deunyddiau hyfforddi cam-drin domestig ar-lein i weithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n gweithio yn y gwasanaethau prawf a chwmnïau adsefydlu cymunedol. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| 101 | Gwella asesu a dynodi pobl a gollfarnwyd am drosedd cam-drin domestig ar gyfer rhaglenni cyflawnwyr. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| 102 | Hyrwyddo defnyddio ymyraethau a all helpu i ysgogi pobl a chael gwared ar rwystrau i bobl yn y carchar gymryd rhan mewn rhaglen. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| 103 | Rhoi mwy o fanylion am yr ystod o ofynion gweithgaredd adsefydlu i'w cyflawni i bobl sy'n cyflawni dedfrydau cymunedol. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| 104 | Profi pa mor ddichonol yw pecyn offer digidol newydd ar gyfer staff yn y gymuned. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| 105 | Gweithio gyda sefydliadau cam-drin domestig arbenigol i asesu'r ystod o ymyraethau sydd ar gael ar hyn o bryd i gyflawnwyr nad ydynt wedi cael eu collfarnu o drosedd cam-drin domestig. | Y Swyddfa Gartref |
| 106 | Deddfu i dreialu profi polygraff gyda chyflawnwyr cam-drin domestig risg uchel i fonitro cydymffurfio ag amodau trwydded yn y gymuned. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| 107 | Hyrwyddo defnyddio safonau cydnabyddedig ar gyfer rhaglenni cyflawnwyr. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref |
| 108 | Hyrwyddo dulliau o gynnal rhaglenni cyflawnwyr sy'n hyblyg ac wedi eu seilio ar wybodaeth am drawma. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| 109 | Cyhoeddi fframwaith polisi cam-drin domestig newydd ar gyfer gweithio gyda chyflawnwyr cam-drin domestig. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi |
| 110 | Cynnal gwerthusiad o'r rhaglen cyflawnwyr achrededig gymedrol o ran dwyster, Building Better Relationships a'r rhaglen cyflawnwyr ddwys Kaizen. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| 111 | Gweithio gyda'r Coleg Plismona, partneriaid o'r sector gwirfoddol a phartneriaethau amlasiantaethol lleol i sicrhau bod yr hyn a ddysgir trwy waith addawol gyda chyflawnwyr yn cael ei rannu a'i ymwreiddio. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref |



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 100 08-May-19 12:01:54

| Adran 4 | | |
|---|---|---|
| **Cyf.** | **Ymrwymiad** | **Arweinydd** |
| **4.1 Comisiynydd Cam-drin Domestig** | | |
| 112 | Sefydlu swydd Comisiynydd Cam-drin Domestig a deddfu ar swyddogaethau a grymoedd y Comisiynydd. | Y Swyddfa Gartref |
| 113 | Ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd, trwy amodau'r penodiad, sefydlu grŵp dioddefwyr a goroeswyr ymgynghorol, a fydd yn rhoi arbenigedd i'r Comisiynydd trwy eu profiadau eu hunain. | Y Swyddfa Gartref |
| 114 | Datblygu siarter i ddiogelu annibyniaeth y Comisiynydd, yn nodi'r berthynas rhwng y Comisiynydd a'r Swyddfa Gartref fel yr adran sy'n noddi. | Y Swyddfa Gartref |
| **4.2 Data** | | |
| 115 | Parhau i ddatblygu modd o gasglu, adrodd ac olrhain data cam-drin domestig trwy Lwyfan Cyffredin y Weinyddiaeth Gyfiawnder a bwletin cam-drin domestig y Swyddfa Ystadegau Gwladol. | Y Swyddfa Gartref, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| 116 | Treialu dwyn data lleol at ei gilydd i gynorthwyo wrth gomisiynu. | Y Swyddfa Gartref |
| 117 | Parhau i ddatblygu ein data a dadansoddi sut y mae ffactorau plant, teuluol a lefel ysgol, gan gynnwys y risg o gam-drin domestig, yn gwneud gwahaniaeth i ddeilliannau plant dros amser trwy'r Adolygiad o Blant Mewn Angen. | Yr Adran Addysg |
| 118 | Rhoi blaenoriaeth i ddarparu gwell data ar y rhai ag anghenion cymhleth fel rhan o waith ehangach i wella Credyd Cynhwysol. | Yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| **4.3 Dysgu oddi wrth Adolygiadau Lladdiadau Domestig** | | |
| 119 | Creu canolfan gyhoeddus, chwiliadwy o Adolygiadau Lladdiadau Domestig (DHR) a chryfhau Cyfarwyddyd Statudol yr Adolygiadau Lladdiadau Domestig i sicrhau bod adolygiadau a gyhoeddwyd yn parhau yn hygyrch i'r cyhoedd yn hwy. | Y Swyddfa Gartref |
| 120 | Gweithio gyda'r Comisiynydd Cam-drin Domestig, pan y'i penodir, i edrych ar sut y mae'r gwersi a ddysgwyd yn y DHR yn cael eu gweithredu yn lleol a chenedlaethol. | Y Swyddfa Gartref |
| 121 | Gweithio ar draws y llywodraeth i sicrhau bod argymhellion cenedlaethol o DHR yn cael eu rhannu a bod gweithredu arnynt ar lefel genedlaethol. | Y Swyddfa Gartref |
| 122 | Rhannu'r gwersi a ddysgir trwy waith ar y gweill yng Nghymru i dreialu Adolygiadau Lladdiadau Domestig ac Adolygiadau Arfer Oedolion ar y cyd. | Y Swyddfa Gartref |
| 123 | Darparu £200,000 i gynyddu'r ddarpariaeth o eiriolaeth a £200,000 i gynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth eiriolaeth i deuluoedd mewn profedigaeth i sicrhau bod teuluoedd yn cael eu cefnogi i gyfrannu tuag at DHR. | Y Swyddfa Gartref |



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 101 08-May-19 12:01:54

# Atodiad D: Mesur Cam-drin Domestig Drafft



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 102 08-May-19 12:01:55

# Mesur Cam-drin Domestig

CYNNWYS

**RHAN 1**

DIFFINIAD O "GAM-DRIN DOMESTIG"

1 Diffiniad o "gam-drin domestig"
2 Diffiniad o "gysylltiad personol"

**RHAN 2**

Y COMISIYNYDD CAM-DRIN DOMESTIG

*Comisiynydd Cam-drin Domestig*

3 Penodi Comisiynydd
4 Cyllid
5 Staff ac ati

*Swyddogaethau Comisiynydd*

6 Swyddogaethau Cyffredinol Comisiynydd
7 Adroddiadau
8 Cyngor a chymorth
9 Grymoedd cysylltiedig

*Bwrdd Ymgynghorol*

10 Bwrdd Ymgynghorol

*Cynlluniau strategol ac adroddiadau blynyddol*

11 Cynlluniau Strategol
12 Adroddiadau blynyddol

*Dyletswyddau awdurdodau cyhoeddus parthed y Comisiynydd*

13 Dyletswydd i gydweithredu â'r Comisiynydd
14 Dyletswydd i ymateb i argymhellion y Comisiynydd



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 103 08-May-19 12:01:55

*Datgelu gwybodaeth*

15 Datgelu gwybodaeth

*Amrywiol ac ategol*

16 Cyfyngu ar arfer swyddogaethau mewn achosion unigol
17 Diwygiadau yn ymwneud â'r Comisiynydd

**RHAN 3**

GRYMOEDD I YMDRIN Â CHAM-DRIN DOMESTIG

*Hysbysiadau diogelu cam-drin domestig*

18 Grym i roi hysbysiad diogelu cam-drin domestig
19 Darpariaeth y gellir ei gwneud trwy hysbysiadau
20 Materion i'w hystyried cyn rhoi hysbysiad
21 Gofynion pellach yng nghyswllt hysbysiadau
22 Torri hysbysiad
23 Rhoi unigolyn a arestiwyd am dorri hysbysiad ar remand

*Gorchmynion diogelu cam-drin domestig*

24 Ystyr "gorchymyn diogelu cam-drin domestig"
25 Gorchmynion diogelu cam-drin domestig wrth wneud cais
26 Ceisiadau pan fydd hysbysiad diogelu cam-drin domestig wedi cael ei roi
27 Gorchmynion diogelu cam-drin domestig heblaw trwy gais
28 Amodau i wneud gorchymyn
29 Materion i'w hystyried cyn rhoi gorchymyn
30 Rhoi gorchmynion heb hysbysiad
31 Darpariaeth y gellir ei gwneud trwy orchmynion
32 Darpariaeth bellach am ofynion y gellir eu gosod gan orchmynion
33 Darpariaeth bellach ynglŷn â gofynion monitro electronig
34 Hyd a gweithrediad daearyddol gorchmynion
35 Torri gorchymyn
36 Arestio am dorri gorchymyn
37 Gofynion hysbysu
38 Darpariaeth bellach am hysbysu dan adran 37
39 Troseddau yn gysylltiedig â hysbysu
40 Amrywio a diddymu gorchmynion
41 Amrywio a diddymu: ategol
42 Apeliadau
43 Natur rhai achosion dan y Rhan hon
44 Camau arbennig i dystion

*Hysbysiadau a gorchmynion: ategol*

45 Data o fonitro electronig: cod ymarfer
46 Cyfarwyddyd
47 Diwygio Deddf Plant 1989
48 Diddymu darpariaethau am hysbysiadau a gorchmynion diogelu trais domestig
49 Dehongli Rhan 3

**RHAN 4**

DIOGELIAD I DDIODDEFWYR A THYSTION YN Y LLYS

*Croesholi mewn achosion teuluol*

50 Gwahardd croesholi yn bersonol mewn achosion llys teulu

*Camau arbennig*

51 Cyfarwyddiadau camau arbennig mewn achosion yn ymwneud â cham-drin domestig

**RHAN 5**

AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

*Rheoli troseddwyr*

52 Amodau polygraff i droseddwyr a ryddheir ar drwydded

*Datgelu gwybodaeth gan yr heddlu*

53 Cyfarwyddyd ynglŷn â datgelu gwybodaeth gan luoedd heddlu

*Tenantiaethau diogel*

54 Rhoi tenantiaethau diogel mewn achosion o gam-drin domestig

*Troseddau a gyflawnir y tu allan i'r Deyrnas Unedig*

55 Troseddau yn erbyn y person a gyflawnwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig
56 Troseddau eraill a gyflawnwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig

*Cyfarwyddyd*

57 Cyfarwyddyd ynglŷn â gweithredu'r Ddeddf

*Darpariaethau terfynol*

58 Grym i wneud darpariaeth drosiannol neu achub
59 Rheoliadau
60 Rhychwant
61 Dechreuad a theitl byr

---

Atodlen — Darpariaeth bellach am remand dan adran 36


Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 105 08-May-19 12:01:55

# MESUR

I

Wneud darpariaeth yng nghyswllt cam-drin domestig; i wneud darpariaeth ar gyfer ac yng nghyswllt sefydlu Comisiynydd Cam-drin Domestig; i wahardd croesholi unigolyn mewn achosion teuluol mewn rhai amgylchiadau; i wneud darpariaeth am rai troseddau a gyflawnir y tu allan i'r Deyrnas Unedig; ac ar gyfer dibenion cysylltiedig.

BOED IDDO GAEL EI DDEDDFU gan Fawrhydi Rhagorol y Frenhines, trwy a gyda chyngor a chydsyniad yr Arglwyddi Ysbrydol a Thymhorol, a'r Cyffredin, yn y Senedd hon sydd wedi ymgynnull, a thrwy eu hawdurdod, fel a ganlyn:—

## RHAN 1

DIFFINIAD O "GAM-DRIN DOMESTIG"

**1 Diffiniad o "gam-drin domestig"**

(1) Mae'r adran hon yn diffinio beth a olygir wrth "gam-drin domestig" yn y Ddeddf hon.

(2) Mae ymddygiad gan unigolyn ("A") tuag at unigolyn arall ("B") yn "gam-drin domestig" os—

(a) Yw A a B yn gysylltiedig yn bersonol a'r ddau yn 16 oed neu hŷn, ac

(b) mae'r ymddygiad yn gamdriniaeth.

(3) Mae ymddygiad yn "gamdriniaeth" os yw'n cynnwys unrhyw un o'r canlynol–

(a) cam-drin corfforol neu rywiol;

(b) ymddygiad treisgar neu fygythiol;

(c) ymddygiad sy'n rheoli neu'n orfodol;

(d) cam-drin economaidd (gweler isadran (4));

(e) cam-drin seicolegol, emosiynol neu arall.

(4) Mae "cam-drin economaidd" yn golygu unrhyw ymddygiad sydd wedi cael effaith niweidiol sylweddol ar allu B i—

(a) gael, defnyddio neu gynnal arian neu eiddo arall, neu

(b) gael nwyddau neu wasanaethau.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 106 08-May-19 12:01:55

(5) Ar gyfer dibenion y Ddeddf hon gall ymddygiad A fod yn ymddygiad "tuag at" B er ei fod yn cynnwys ymddygiad sydd wedi ei gyfeirio at unigolyn arall (er enghraifft, plentyn B).

(6) Dylid darllen y cyfeiriadau yn y Ddeddf hon at ddangos camdriniaeth tuag at unigolyn arall yn unol â'r adran hon.

(7) Ar gyfer ystyr "cysylltiad personol", gweler adran 2.

**2 Diffiniad o "gysylltiad personol"**

(1) Mae gan ddau o bobl "gysylltiad personol" os bydd unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol–
- (a) maent, neu maent wedi bod yn briod â'i gilydd;
- (b) maent, neu maent wedi bod yn bartneriaid sifil â'i gilydd;
- (c) maent wedi cytuno i briodi ei gilydd (boed y cytundeb wedi cael ei ddwyn i ben neu beidio);
- (d) maent wedi llunio cytundeb partneriaeth sifil (boed y cytundeb wedi cael ei ddwyn i ben neu beidio);
- (e) maent, neu maent wedi bod mewn perthynas bersonol agos â'i gilydd;
- (f) y mae plentyn y mae ganddynt berthynas fel rhiant ag ef (gweler isadran (2));
- (g) maent yn perthyn.

(2) Ar gyfer dibenion isadran (1)(f) mae gan unigolyn berthynas rhiant yng nghyswllt plentyn os–
- (a) yw'r unigolyn yn rhiant i'r plentyn, neu
- (b) bod gan yr unigolyn, neu ei fod wedi bod, â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn.

(3) Yn yr adran hon—

mae "plentyn" yn golygu unigolyn dan 18 oed;

mae i "gytundeb partneriaeth sifil" yr ystyr a roddir gan adran 73 o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004;

mae i "gyfrifoldeb rhiant" yr un ystyr ag yn Neddf Plant 1989;

mae i "berthynas" yr un ystyr ag a roddir yn adran 63(1) o Ddeddf Cyfraith Teulu 1996.

## RHAN 2

## Y COMISIYNYDD CAM-DRIN DOMESTIG

*Comisiynydd Cam-drin Domestig*

**3 Penodi Comisiynydd**

(1) Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol benodi unigolyn fel y Comisiynydd Cam-drin Domestig ("y Comisiynydd").

(2) Mae'r Comisiynydd i ddal a gadael ei swydd yn unol ag amodau penodiad y Comisiynydd.

(3) Nid yw'r Comisiynydd i gael ei ystyried fel gwas neu asiant i'r Goron ac ni ddylai fwynhau unrhyw statws, imiwnedd na braint gan y Goron.

**4 Cyllid**

(1) Gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud taliadau i'r Comisiynydd allan o arian a roddir gan y Senedd ar gyfer y diben o alluogi'r Comisiynydd i dalu gwariant a dynnir i arfer swyddogaethau'r Comisiynydd.

(2) Bydd taliadau i gael eu gwneud ar amseroedd ac yn ddarostyngedig i unrhyw amodau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried eu bod yn briodol.

(3) Gall yr Ysgrifennydd Gwladol dalu, neu wneud darpariaeth i dalu, i neu parthed y Comisiynydd—

(a) taliad cydnabyddiaeth:

(b) lwfansau;

(c) symiau ar ffurf neu parthed pensiynau.

**5 Staff ac ati**

(1) Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ddarparu'r Comisiynydd â–

(a) y staff, a

(b) y swyddfeydd, offer a chyfleusterau, y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried eu bod yn angenrheidiol i gyflawni swyddogaethau'r Comisiynydd.

(2) Cyn darparu unrhyw staff, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol–

(a) ymgynghori â'r Comisiynydd, a

(b) chael cymeradwyaeth y Comisiynydd i'r unigolion fydd i'w darparu fel staff.

(3) Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â'r Comisiynydd cyn darparu unrhyw swyddfeydd, offer neu gyfleusterau eraill.

(4) Mae unigolyn a gyflogir yng ngwasanaeth sifil y Wladwriaeth yn parhau yn gyflogedig yng ngwasanaeth sifil y Wladwriaeth yn ystod unrhyw gyfnod o wasanaeth fel aelod o'r staff a grybwyllir yn isadran (1)(a).

*Swyddogaethau Comisiynydd*

**6 Swyddogaethau cyffredinol Comisiynydd**

(1) Rhaid i'r Comisiynydd annog arfer da mewn—

(a) atal cam-drin domestig;

(b) atal, canfod, ymchwilio i ac erlyn troseddau sy'n ymwneud â cham-drin domestig;

(c) dynodi–

(i) pobl sy'n cyflawni cam-drin domestig;

(ii) dioddefwyr cam-drin domestig;

(iii) plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt;

(d) darparu diogelwch a chefnogaeth i bobl y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt.

(2) Mae'r pethau y gall y Comisiynydd eu gwneud wrth weithredu'r ddyletswydd gyffredinol dan isadran (1) yn cynnwys–

(a) asesu, monitro, a chyhoeddi gwybodaeth am, ddarparu gwasanaethau i bobl y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt;

(b) gwneud argymhellion i unrhyw awdurdod cyhoeddus am arfer ei swyddogaethau;

(c) cynnal neu gefnogi (yn ariannol neu fel arall) cyflawni gwaith ymchwil;

(d) darparu gwybodaeth, addysg neu hyfforddiant;

(e) cymryd camau eraill i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o gam-drin domestig;

(f) ymgynghori ag awdurdodau cyhoeddus eraill, sefydliadau gwirfoddol ac unigolion eraill;

(g) cyd-weithio gyda, neu weithio ar y cyd gydag, awdurdodau cyhoeddus, sefydliadau gwirfoddol ac unigolion eraill, boed yng Nghymru neu Loegr neu'r tu allan i'r Deyrnas Unedig.

(3) Yn amodol ar isadran (4), ni all y Comisiynydd wneud unrhyw beth yn unol â'r ddyletswydd gyffredinol dan isadran (1) sy'n–

(a) ymwneud ag awdurdod datganoledig yng Nghymru, neu

(b) ymwneud â materion sydd wedi eu datganoli i Gymru mewn modd arall.

(4) Nid yw adran (3) yn atal y Comisiynydd rhag–

(a) gwneud unrhyw beth sydd yn dod dan isadran (2)(c),(d) neu (e), i'r graddau nad yw'r peth a wneir yn ymwneud â materion wedi eu datganoli i Gymru;

(b) gwneud unrhyw beth sy'n dod dan isadran (2)(f) neu (g);

(c) datgelu gwybodaeth i awdurdod sydd wedi ei ddatganoli yng Nghymru, neu wybodaeth sy'n ymwneud â materion sydd wedi eu datganoli i Gymru, dan adran 15.

(5) Ar gyfer dibenion yr adran hon mae rhywbeth yn ymwneud â materion wedi eu datganoli yng Nghymru cyn belled ai fod yn ymwneud ag–

(a) unrhyw fater neu ddarpariaeth a fyddai o fewn gallu deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru petai wedi ei gynnwys mewn Deddf gan y Cynulliad, neu

(b) (cyn belled nad yw o fewn paragraff (a)), unrhyw fater y mae swyddogaethau yn ymwneud ag ef yn rhai y gall Gweinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru, Cwnselydd Cyffredinol Llywodraeth Cymru neu Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu harfer.

(6) Yn yr adran hon–

mae i "awdurdod datganoledig yng Nghymru" yr ystyr a roddir gan adran 157A Deddf Llywodraeth Cymru 2006;

mae "awdurdod cyhoeddus" yn golygu unrhyw awdurdod cyhoeddus yn ystyr adran 6 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998, heblaw llys neu dribiwnlys.

**7 Adroddiadau**

(1) Gall y Comisiynydd roi adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol am unrhyw fater sy'n ymwneud â cham-drin domestig.

(2) Rhaid i'r Comisiynydd gyhoeddi pob adroddiad a wnaed dan yr adran hon.

(3) Cyn cyhoeddi adroddiad dan yr adran hon, rhaid i'r Comisiynydd anfon drafft o'r adroddiad at yr Ysgrifennydd Gwladol.

(4) Gall yr Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddyd i'r Comisiynydd i adael deunydd allan o unrhyw adroddiad cyn ei gyhoeddi os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn meddwl y bydd cyhoeddi'r deunydd hwnnw—

(a) yn gallu peryglu diogelwch unrhyw unigolyn, neu

(b) yn gallu peryglu'r ymchwiliad i drosedd neu erlyniad amdani.

(5) Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol roi copi o adroddiad a gyhoeddir dan yr adran hon ger bron y Senedd.

**8 Cyngor a chymorth**

(1) Gall y Comisiynydd roi i'r Ysgrifennydd Gwladol unrhyw gyngor neu gymorth y gall yr Ysgrifennydd Gwladol ofyn amdanynt.

(2) Gall y Comisiynydd, ar gais unrhyw unigolyn arall, roi cyngor neu gymorth i'r unigolyn hwnnw yn ymwneud ag arfer unrhyw un o swyddogaethau'r unigolyn, neu gyflawni unrhyw weithgareddau gan yr unigolyn, yng nghyswllt pobl y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt.

(3) Gall y Comisiynydd godi tâl ar unigolyn am roi cyngor neu gymorth i'r unigolyn hwnnw dan isadran (2).

(4) Rhaid i'r Comisiynydd gyhoeddi unrhyw gyngor a roddir i unigolyn arall dan isadran (2).

(5) Cyn cyhoeddi unrhyw gyngor dan yr adran hon, rhaid i'r Comisiynydd anfon drafft o'r hyn y bwriedir ei gyhoeddi at yr Ysgrifennydd Gwladol.

(6) Gall yr Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddyd i'r Comisiynydd i adael unrhyw beth allan o'r cyngor cyn ei gyhoeddi os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn meddwl y bydd cyhoeddi'r deunydd hwnnw—

(a)yn gallu peryglu diogelwch unrhyw unigolyn, neu

(b)yn gallu peryglu'r ymchwiliad i drosedd neu erlyniad amdani.

**9 Grymoedd cysylltiedig**

(1) Gall y Comisiynydd wneud unrhyw beth y mae'r Comisiynydd yn ystyried y bydd yn hwyluso, neu sy'n gysylltiedig neu yn ffafriol i gyflawni swyddogaethau'r Comisiynydd.

(2) Ond ni chaiff y Comisiynydd fenthyca arian.

*Bwrdd Ymgynghorol*

**10 Bwrdd Ymgynghorol**

(1) Rhaid i'r Comisiynydd sefydlu Bwrdd Ymgynghorol ("y Bwrdd") ar gyfer dibenion rhoi cyngor i'r Comisiynydd am arfer swyddogaethau'r Comisiynydd.

(2) Bydd y Bwrdd yn cynnwys dim llai na chwech a dim mwy na deg aelod a benodwyd gan y Comisiynydd.

(3) Bydd pob aelod o'r Bwrdd yn dal ac yn gadael swydd yn unol ag amodau a thelerau penodi aelodau.

(4) Rhaid i aelodau'r Bwrdd gynnwys—

(a) unigolion sy'n ymddangos i'r Comisiynydd eu bod yn cynrychioli buddiannau dioddefwyr cam-drin domestig;

(b) unigolion sy'n ymddangos i'r Comisiynydd eu bod yn cynrychioli buddiannau elusennau a sefydliadau gwirfoddol eraill sy'n gweithio gyda dioddefwyr cam-drin domestig yn Lloegr;

(c) unigolion sy'n ymddangos i'r Comisiynydd eu bod yn cynrychioli buddiannau darparwyr gwasanaethau gofal iechyd yn Lloegr;

(d) unigolion sy'n ymddangos i'r Comisiynydd eu bod yn cynrychioli buddiannau darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol yn Lloegr;

(e) unigolion sy'n ymddangos i'r Comisiynydd eu bod yn cynrychioli buddiannau unigolion â swyddogaethau yn ymwneud â phlismona neu gyfiawnder troseddol;

(f) unigolion sy'n ymddangos i'r Comisiynydd bod ganddynt arbenigedd academaidd yng nghyswllt cam-drin domestig;

(5) Gall y Comisiynydd dalu treuliau neu lwfansau i aelodau'r Bwrdd fel y bydd y Comisiynydd yn pennu.

(6) Yn yr adran hon–

mae "gwasanaethau gofal iechyd" yn golygu gwasanaethau yn ymwneud â gofal iechyd (yn yr ystyr a roddir yn adran 9 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008);

mae "gwasanaethau gofal cymdeithasol" yn golygu gwasanaethau yn ymwneud â gofal cymdeithasol (yn yr ystyr a roddir yn yr adran honno).

*Cynlluniau strategol ac adroddiadau blynyddol*

**11 Cynlluniau strategol**

(1) Rhaid i'r Comisiynydd, cyn gynted ag sy'n rhesymol o ymarferol ar ôl penodiad y Comisiynydd, baratoi cynllun strategol a'i gyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol i'w gymeradwyo.

(2) Cynllun strategol yw cynllun sy'n nodi sut y mae'r Comisiynydd yn bwriadu arfer swyddogaethau'r Comisiynydd yn y cyfnod y mae'r cynllun yn cyfeirio ato, y mae'n rhaid iddo beidio â bod yn llai na blwyddyn nac yn hwy na thair blynedd.

(3) Rhaid i gynllun strategol yn benodol—

(a) nodi amcanion a blaenoriaethau'r Comisiynydd am y cyfnod y mae'r cynllun yn ymdrin ag ef;

(b) nodi unrhyw faterion y mae'r Comisiynydd yn bwriadu rhoi adroddiad amdanynt dan adran 7 yn ystod y cyfnod hwnnw;

(c) nodi unrhyw weithgareddau eraill y mae'r Comisiynydd yn bwriadu ymgymryd â hwy yn ystod y cyfnod hwnnw wrth arfer swyddogaethau'r Comisiynydd.

(4) Rhaid i'r Comisiynydd, cyn diwedd y cyfnod y mae'r cynllun strategol yn ymwneud ag ef ("y cyfnod presennol"), baratoi cynllun strategol am gyfnod yn union ar ôl y cyfnod presennol a'i gyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol i'w gymeradwyo.

(5) Gall y Comisiynydd, ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod y mae'r cynllun strategol yn ymwneud ag ef, adolygu'r cynllun hwnnw a chyflwyno'r cynllun diwygiedig i'r Ysgrifennydd Gwladol i'w gymeradwyo.

(6) Gall yr Ysgrifennydd Gwladol gymeradwyo cynllun strategol naill ai heb addasiadau neu gydag addasiadau y cytunir arnynt gyda'r Comisiynydd.

(7) Cyn gynted ag y bydd yn rhesymol o ymarferol ar ôl cymeradwyo'r cynllun strategol, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol roi copi o'r cynllun ger bron y Senedd.

**12 Adroddiadau Blynyddol**

(1) Cyn gynted ag sy'n rhesymol o ymarferol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, rhaid i'r Comisiynydd gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol am arfer swyddogaethau'r Comisiynydd yn ystod y flwyddyn.

(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys—

(a) asesiad o'r graddau y mae amcanion a blaenoriaethau'r Comisiynydd wedi cael eu cyflawni yn y flwyddyn honno;

(b) datganiad o'r materion y mae'r Comisiynydd wedi rhoi adroddiad arnynt dan adran 7 yn ystod y flwyddyn;

(c) datganiad am unrhyw weithgareddau eraill y mae'r Comisiynydd wedi ymgymryd â hwy yn ystod y flwyddyn wrth arfer swyddogaethau'r Comisiynydd.

(3) Cyn gynted ag y bydd yn rhesymol o ymarferol ar ôl derbyn adroddiad dan yr adran hon, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol roi copi o'r adroddiad ger bron y Senedd.

(4) Gall yr Ysgrifennydd Gwladol dynnu deunydd o adroddiad dan yr adran hon os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn meddwl y bydd cyhoeddi'r deunydd hwnnw—

(a) yn gallu peryglu diogelwch unrhyw unigolyn, neu

(b) yn gallu peryglu'r ymchwiliad i drosedd neu erlyniad amdani.

(5) Yn yr adran hon mae "blwyddyn ariannol" yn golygu—

(a) y cyfnod sy'n dechrau gyda'r diwrnod y mae'r Comisiynydd Cam-drin Domestig yn cymryd ei swydd ac yn dod i ben ar y 31 Mawrth dilynol, a

(b) phob cyfnod olynol o 12 mis.

*Dyletswyddau awdurdodau cyhoeddus yng nghyswllt y Comisiynydd*

**13 Dyletswydd i gyd-weithio â'r Comisiynydd**

(1) Gall y Comisiynydd ofyn i awdurdod cyhoeddus penodol gydweithredu gyda'r Comisiynydd mewn unrhyw ffordd y mae'r Comisiynydd yn ystyried ei bod yn angenrheidiol ar gyfer dibenion swyddogaethau'r Comisiynydd.

(2) Rhaid i awdurdod cyhoeddus penodol, cyn belled ag y mae'n rhesymol o ymarferol, gydymffurfio â chais a wneir iddo dan yr adran hon.

(3) Yn yr adran hon mae "awdurdod cyhoeddus penodol" yn golygu unrhyw un o'r canlynol—

(a) prif swyddog heddlu llu heddlu a gynhelir ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru a Lloegr;

(b) corff plismona lleol;

(c) Prif Gwnstabl Llu Heddlu Trafnidiaeth Prydain;

(d) Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain;

(e) Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn;

(f) swyddog mewnfudo neu swyddog arall yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n arfer swyddogaethau yng nghyswllt mewnfudo neu loches;

(g) Gwasanaeth Erlyn y Goron;

(h) y Bwrdd Parôl;

(i) y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol;

(j) awdurdod lleol yn Lloegr;

(k) corff GIG yn Lloegr;

(l) Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi;

(m) Prif Arolygydd Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi;

(n) Prif Arolygydd Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau Ei Mawrhydi;

(o) corff a gymeradwywyd fel arolygiaeth annibynnol dan adran 106 Deddf Addysg a Sgiliau 2008 (arolygu sefydliadau addysgol annibynnol cofrestredig);

(p) y Comisiwn Ansawdd Gofal;

(q) Monitor.

(4) Gall yr Ysgrifennydd Gwladol trwy reoliadau ddiwygio'r adran hon i—

(a) ychwanegu awdurdod cyhoeddus fel awdurdod cyhoeddus a ddynodir ar gyfer dibenion yr adran hon;

(b) dynnu awdurdod cyhoeddus a ychwanegwyd trwy gyfrwng paragraff (a);

(c) amrywio unrhyw ddisgrifiad o awdurdod cyhoeddus.

(5) Cyn gwneud rheoliadau dan isadran (4) rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â'r Comisiynydd.

(6) Ni all rheoliadau dan isadran (4) gynnwys darpariaeth sy'n ychwanegu awdurdod datganoledig yng Nghymru fel awdurdod cyhoeddus penodol ar gyfer dibenion yr adran hon.

(7) Yn yr adran hon–

mae i "awdurdod datganoledig yng Nghymru" yr ystyr a roddir gan adran 157A Deddf Llywodraeth Cymru 2006;

Mae "awdurdod lleol yn Lloegr" yn golygu–

(a) cyngor sir neu gyngor dosbarth yn Lloegr;

(b) cyngor bwrdeistref Llundain;

(c) Awdurdod Llundain Fwyaf;

(d) Cyngor Cyffredin Dinas Llundain, neu

(e) Gyngor Ynysoedd Sili;

mae "swyddog mewnfudo" yn golygu unigolyn a benodwyd fel swyddog mewnfudo dan baragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Mewnfudo 1971;

mae "corff GIG yn Lloegr" yn golygu—

(a) ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn Lloegr a sefydlwyd dan adran 25 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006.

(b) ymddiriedolaeth sefydledig GIG yn yr ystyr a roddir gan adran 30 o'r Ddeddf honno,

(c) Bwrdd Comisiynu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol,

(d) grŵp comisiynu clinigol a sefydlwyd dan adran 14D o'r Ddeddf honno, neu

(e) Awdurdod Datblygu Ymddiriedolaeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol;

mae "awdurdod cyhoeddus" yn golygu unrhyw awdurdod cyhoeddus yn ystyr adran 6 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998, heblaw llys neu dribiwnlys.

**14 Dyletswydd i ymateb i argymhellion y Comisiynydd**

(1) Mae'r adran hon yn berthnasol pan fydd y Comisiynydd yn cyhoeddi adroddiad dan adran 7 sy'n cynnwys argymhellion yng nghyswllt unrhyw awdurdod cyhoeddus sy'n awdurdod cyhoeddus penodol ar gyfer dibenion adran 13.

(2) Rhaid i'r awdurdod cyhoeddus baratoi sylwadau ar yr adroddiad.

Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 113 08-May-19 12:01:55

(3) Rhaid i'r sylwadau gynnwys, o ran pob argymhelliad a wneir yn yr adroddiad, esboniad o'r—

(a) camau gweithredu y mae'r awdurdod cyhoeddus wedi eu cymryd, neu yn bwriadu eu cymryd, wrth ymateb i'r argymhelliad, neu

(b) pam nad yw'r awdurdod cyhoeddus wedi cymryd, neu nad yw'n bwriadu cymryd, unrhyw gamau wrth ymateb.

(4) Rhaid i'r awdurdod cyhoeddus drefnu i'w sylwadau gael eu cyhoeddi yn y modd y mae'r awdurdod yn ystyried ei fod yn briodol.

(5) Rhaid i'r sylwadau gael eu cyhoeddi cyn diwedd y cyfnod o 56 diwrnod yn dechrau ar y diwrnod pan gyhoeddir yr adroddiad.

(6) Rhaid i'r awdurdod cyhoeddus anfon copi o unrhyw beth a gyhoeddir dan isadran (4) at—

(a) y Comisiynydd, ac

(b) yr Ysgrifennydd Gwladol.

*Datgelu gwybodaeth*

**15 Datgelu gwybodaeth**

(1) Gall y Comisiynydd ddatgelu unrhyw wybodaeth a dderbynnir gan y Comisiynydd yng nghyswllt swyddogaethau'r Comisiynydd i unigolyn os bydd y datgeliad yn cael ei wneud ar gyfer diben yn gysylltiedig â swyddogaeth y Comisiynydd.

(2) Gall unigolyn ddatgelu unrhyw wybodaeth i'r Comisiynydd os bydd y datgeliad yn cael ei wneud ar gyfer galluogi neu gynorthwyo'r Comisiynydd i arfer unrhyw swyddogaeth.

(3) Nid yw datgelu gwybodaeth a awdurdodwyd gan yr adran hon yn torri—

(a) unrhyw ymrwymiad o gyfrinachedd sy'n ddyledus gan yr unigolyn sy'n datgelu yng nghyswllt y wybodaeth honno, neu

(b) unrhyw gyfyngiad arall ar ddatgelu gwybodaeth (ym mha ffordd bynnag y'i gosodwyd).

(4) Ond nid oes dim yn y Rhan hon yn gofyn am nac yn caniatáu unrhyw un o'r canlynol—

(a) datgelu unrhyw wybodaeth am glaf (gweler isadran (5));

(b) datgeliad sy'n mynd yn groes i'r ddeddfwriaeth diogelu data (gweler isadran (6));

(c) datgeliad sy'n cael ei wahardd gan unrhyw un o Rannau 1 i 7 neu Bennod 1 neu Ran 9 o Ddeddf Grymoedd Ymchwiliol 2016.

(5) Mae "gwybodaeth cleifion" yn golygu gwybodaeth (sut bynnag y mae wedi ei chofnodi) sydd—

(a) yn ymwneud â—

(i) iechyd neu gyflwr corfforol neu feddyliol unigolyn,

(ii) diagnosis cyflwr unigolyn, neu

(iii) ofal neu driniaeth unigolyn,

neu sydd (i unrhyw raddau) yn deillio yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o wybodaeth yn ymwneud ag unrhyw un o'r materion hyn, ac

(b) yn adnabod yr unigolyn neu yn galluogi i'r unigolyn i gael ei adnabod (naill ai ar ei phen ei hun neu ar y cyd â gwybodaeth arall).

(6) Yn yr adran hon mae i “deddfwriaeth diogelu data” yr un ystyr ag yn Neddf Diogelu Data 2018 (gweler adran 3 o’r Ddeddf honno).

(7) Nid yw’r adran hon yn effeithio ar unrhyw rym i ddatgelu sy’n bodoli ar wahân i’r adran hon.

*Amrywiol ac ategol*

**16 Cyfyngu ar arfer swyddogaethau mewn achosion unigol**

(1) Ni chaiff y Comisiynydd arfer unrhyw swyddogaeth yng nghyswllt achos unigol.

(2) Ond nid yw isadran (1) yn atal y Comisiynydd rhag ystyried achosion unigol a llunio casgliadau amdanynt ar gyfer y diben o, neu yng nghyd-destun, ystyried mater cyffredinol.

**17 Diwygiadau yn ymwneud â’r Comisiynydd**

(1) Yn Rhan 3 o Atodlen 1 i Ddeddf Datgymhwyso Tŷ’r Cyffredin 1975 (swyddi yn datgymhwyso ar gyfer aelodaeth), yn y man priodol rhowch

“Comisiynydd Cam-drin Domestig”.

(2) Yn Rhan 6 o Atodlen 1 i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (cyrff cyhoeddus a swyddi eraill: cyffredinol), yn y lle priodol rhowch—

“Y Comisiynydd Cam-drin Domestig.”

## RHAN 3

## GRYMOEDD I YMDRIN Â CHAM-DRIN DOMESTIG

*Hysbysiadau diogelu cam-drin domestig*

**18 Grym i roi hysbysiad diogelu cam-drin domestig**

(1) Gall uwch swyddog heddlu roi hysbysiad diogelu cam-drin domestig i unigolyn (“P”) os bydd amodau A a B yn cael eu bodloni.

(2) Hysbysiad diogelu cam-drin domestig yw hysbysiad yn gwahardd P rhag cam-drin unigolyn 16 oed neu hŷn y mae gan P gysylltiad personol ag ef.

(Mae adran 19 yn cynnwys darpariaeth bellach am y ddarpariaeth y gall yr hysbysiadau ei gwneud.)

(3) Amod A yw bod gan yr uwch swyddog heddlu sail resymol i gredu bod P wedi cam-drin unigolyn 16 oed neu hŷn y mae gan P gysylltiad personol ag ef.

(4) Amod B yw bod gan yr uwch swyddog heddlu sail resymol dros gredu ei bod yn angenrheidiol rhoi hysbysiad i ddiogelu’r unigolyn hwnnw rhag cam-drin domestig, neu’r risg o gam-drin domestig, wedi ei gyflawni gan P.

(5) Nid yw o bwys a ddigwyddodd yr ymddygiad y cyfeirir ato yn isadran (3) yng Nghymru a Lloegr neu yn rhywle arall.

(6) Ni ellir rhoi hysbysiad diogelu cam-drin domestig i unigolyn sydd dan 18 oed.

Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 115 08-May-19 12:01:55

(7) Mae gan hysbysiad diogelu cam-drin domestig rym ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig.

(8) Yn y Rhan hon–

mae "uwch swyddog heddlu" yn golygu aelod o lu heddlu perthnasol sydd yn gwnstabl o reng arolygydd o leiaf;

mae "llu heddlu perthnasol" yn golygu–

(a) llu a gynhelir gan gorff plismona lleol;

(b) Llu Heddlu Trafnidiaeth Prydain;

(c) Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

**19 Darpariaeth y gellir ei gwneud trwy hysbysiadau**

(1) Gall hysbysiad diogelu cam-drin domestig ddarparu na chaiff yr unigolyn y rhoddir yr hysbysiad iddo ("P") gysylltu â'r unigolyn y gwneir yr hysbysiad i'w ddiogelu.

(2) Os yw P yn byw mewn adeilad yng Nghymru neu Loegr y mae'r unigolyn y gwneir yr hysbysiad i'w ddiogelu hefyd yn byw, gall yr hysbysiad hefyd gynnwys darpariaeth

(a) yn gwahardd P rhag troi'r unigolyn hwnnw o'r adeilad neu ei gau allan;

(b) yn gwahardd P rhag mynd i mewn i'r adeilad;

(c) yn gofyn i P adael yr adeilad;

(d) yn gwahardd P rhag dod o fewn pellter penodedig o'r adeilad. Mae "penodedig" yn golygu penodedig yn yr hysbysiad.

**20 Materion i'w hystyried cyn rhoi hysbysiad**

(1) Cyn rhoi hysbysiad diogelu cam-drin domestig i unigolyn ("P"), rhaid i uwch swyddog heddlu, ymhlith pethau eraill, ystyried y canlynol—

(a) lles unrhyw unigolyn dan 18 oed y mae'r swyddog yn ystyried bod ei fuddiannau yn berthnasol i roi'r hysbysiad (boed yr unigolyn hwnnw yn unigolyn y mae P â chysylltiad personol ag ef neu beidio);

(b) barn yr unigolyn y byddai'r hysbysiad yn cael ei roi i'w ddiogelu o ran rhoi'r hysbysiad;

(c) unrhyw gyflwyniadau a wnaed gan P am roi'r hysbysiad;

(d) mewn achos pan fydd yr hysbysiad yn cynnwys darpariaeth yn ymwneud â'r adeilad y mae P a'r unigolyn y byddai'r hysbysiad yn cael ei wneud i'w ddiogelu yn byw, barn unrhyw unigolyn arall—

(i) y mae gan P gysylltiad personol ag ef, a

(ii) sy'n byw yn yr adeilad.

(2) Rhaid i'r swyddog gymryd camau rhesymol i ddarganfod y farn y sonnir amdani yn isadran (1).

(3) Gall y swyddog roi hysbysiad diogelu cam-drin domestig mewn amgylchiadau pan na fydd yr unigolyn y gwnaed yr hysbysiad i'w ddiogelu yn cydsynio i'r hysbysiad gael ei roi.

**21 Gofynion pellach yng nghyswllt hysbysiadau**

(1) Rhaid i hysbysiad diogelu cam-drin domestig fod yn ysgrifenedig.

(2) Rhaid i hysbysiad diogelu cam-drin domestig a roddir i unigolyn ("P") nodi–

Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 116 08-May-19 12:01:55

(a) y sail ar gyfer ei roi,

(b) y gall cwnstabl arestio P heb warant os oes gan y cwnstabl sail resymol dros gredu bod P yn torri'r hysbysiad,

(c) y bydd cais am orchymyn diogelu cam-drin domestig dan adran 25 yn cael ei glywed gan lys ynadon cyn pen 48 awr o'r adeg y rhoddwyd yr hysbysiad ac y bydd hysbysiad o'r gwrandawiad yn cael ei roi i P,

(d) bod yr hysbysiad yn parhau mewn grym nes bydd penderfyniad am y cais hwnnw neu iddo gael ei dynnu yn ôl, ac

(e) y ddarpariaeth y gall llys ynadon gynnwys mewn gorchymyn diogelu cam-drin domestig.

(3) Rhaid i'r hysbysiad gael ei gyflwyno i P yn bersonol gan gwnstabl.

(4) Wrth gyflwyno'r hysbysiad i P, rhaid i'r cwnstabl ofyn i P am gyfeiriad lle gall P gael hysbysiad o'r gwrandawiad i'r cais am orchymyn diogelu cam-drin domestig.

(5) Mae isadran (6) yn berthnasol pan–

(a) fydd uwch swyddog heddlu yn rhoi hysbysiad diogelu cam-drin domestig i unigolyn ("P") y mae'r swyddog yn credu ei fod yn unigolyn sy'n ddarostyngedig i gyfraith y lluoedd arfog yn unol ag adrannau 367 i 369 Deddf y Lluoedd Arfog 2006,

(b) fydd yr hysbysiad yn cynnwys darpariaeth trwy gyfrwng adran 19(2) yn gwahardd P rhag mynd i mewn i adeilad, neu yn gofyn i P adael adeilad, ac

(c) mae'r swyddog yn credu bod yr adeilad yn lety lluoedd arfog perthnasol.

(6) Rhaid i'r swyddog wneud ymdrech resymol i hysbysu prif swyddog P bod hysbysiad wedi ei gyflwyno iddo.

(7) Yn yr adran hon–

mae i "brif swyddog" yr ystyr a roddir yn adran 360 Deddf Lluoedd Arfog 2006;

mae "llety lluoedd arfog" yn golygu adeiladau sy'n dod dan baragraff (a) y diffiniad o "lety lluoedd arfog" yn adran 96(1) y Ddeddf honno.

**22 Torri hysbysiad**

(1) Os oes gan gwnstabl sail resymol dros gredu bod unigolyn yn torri hysbysiad diogelu cam-drin domestig, gall y cwnstabl arestio yr unigolyn heb warant.

(2) Rhaid i unigolyn sy'n cael ei arestio yn rhinwedd isadran (1) gael ei gadw yn y ddalfa a'i ddwyn ger bron llys ynadon priodol—

(a) cyn diwedd y cyfnod o 24 awr sy'n dechrau ar adeg yr arestio, neu

(b) os yn gynharach, yn y gwrandawiad ar gyfer cais am orchymyn diogelu cam-drin domestig yn erbyn yr unigolyn (gweler adran 25(3)).

(3) Yn isadran (2) mae "llys ynadon priodol" yn golygu'r llys ynadon sydd i glywed y cais y sonnir amdano yn isadran (2)(b).

(4) Os bydd yr unigolyn yn cael ei ddwyn ger bron y llys fel y sonnir yn isadran (2)(a), gall y llys roi'r unigolyn ar remand.

(Ar gyfer y grym i roi unigolyn sy'n cael ei ddwyn ger bron y llys fel y sonnir yn isadran (2)(b) ar remand, gweler adran 26(8).)

(5) Wrth gyfrifo pryd mae'r cyfnod o 24 awr y sonnir amdano yn isadran (2)(a) yn dod i ben, dylid diystyru'r dyddiau canlynol–

(a) unrhyw ddydd Sadwrn neu ddydd Sul,

(b) Dydd Nadolig,

(c) Gwener y Groglith, ac

(d) unrhyw ddiwrnod sy'n ŵyl y banc yng Nghymru a Lloegr dan Ddeddf Bancio a Busnes Ariannol 1971.

(6) Yn adran 17(1) Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (mynediad ar gyfer arestio ac ati), ar ôl paragraff (c) rhodder

"(cza) i arestio unigolyn y mae gan y cwnstabl seiliau rhesymol dros gredu ei fod yn torri hysbysiad diogelu cam-drin domestig a roddwyd dan adran 18 Deddf Cam-drin Domestig 2019;".

**23 Rhoi unigolyn a arestiwyd am dorri hysbysiad ar remand**

(1) Mae'r adran hon yn berthnasol pan fydd llys ynadon dan adran 22(4) yn rhoi unigolyn sydd wedi cael hysbysiad diogelu cam-drin domestig ar remand.

(2) Wrth weithredu adran 128(6) o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 ar remand o'r fath, dylid darllen y cyfeiriad at "y parti arall" fel cyfeiriad at yr uwch swyddog heddlu a roddodd yr hysbysiad.

(3) Os oes gan y llys reswm i amau y bydd angen adroddiad meddygol, gall y grym i roi unigolyn ar remand gael ei arfer ar gyfer galluogi i archwiliad meddygol ddigwydd ac i adroddiad gael ei lunio.

(4) Os bydd yr unigolyn yn cael ei roi ar remand yn y ddalfa i'r diben hwnnw, ni all y gohiriad fod am fwy na 3 wythnos ar y tro.

(5) Os bydd yr unigolyn yn cael ei roi ar remand ar fechnïaeth i'r diben hwnnw, ni all y gohiriad fod am fwy na 4 wythnos ar y tro.

(6) Os oes gan y llys reswm i amau bod yr unigolyn yn dioddef o anhwylder meddwl yn yr ystyr a roddir yn Neddf Iechyd Meddwl 1983, mae gan y llys yr un grym i wneud gorchymyn dan adran 35 y Ddeddf honno (remand i'r ysbyty am adroddiad ar gyflwr meddwl y cyhuddedig) ac y mae ganddo dan yr adran honno yn achos unigolyn cyhuddedig (yn yr ystyr a roddir yn yr adran honno).

(7) Gall y llys, wrth roi unigolyn ar fechnïaeth, ei gwneud yn ofynnol i'r unigolyn gydymffurfio, cyn ei ryddhau ar fechnïaeth neu wedyn, ag unrhyw ofynion sy'n ymddangos yn angenrheidiol i'r llys i sicrhau na fydd yr unigolyn yn amharu ar dystion neu atal cwrs cyfiawnder mewn modd arall.

*Gorchmynion diogelu cam-drin domestig*

**24 Ystyr "gorchymyn diogelu cam-drin domestig"**

(1) Yn y Rhan hon mae "gorchymyn diogelu cam-drin domestig" yn golygu gorchymyn sydd, ar gyfer diben atal unigolyn ("P") rhag cam-drin unigolyn 16 oed neu hŷn y mae gan P gysylltiad personol ag ef–

(a) yn gwahardd P rhag gwneud pethau a ddisgrifir yn y gorchymyn, neu

(b) yn ei gwneud yn ofynnol i P wneud pethau a ddisgrifir yn y gorchymyn.

(2) Gall gorchymyn diogelu cam-drin domestig gael ei wneud–

(a) wrth wneud cais (gweler adran 25), neu

(b) yn ystod achosion cyfreithiol penodol (gweler adran 27).

(3) Mae adran 28 yn nodi'r amodau ar gyfer gwneud gorchymyn diogelu cam-drin domestig.

**25 Gorchmynion diogelu cam-drin domestig wrth wneud cais**

(1) Gall llys roi gorchymyn diogelu cam-drin domestig dan yr adran hon yn erbyn unigolyn ("P") ar sail cais a wnaed iddo yn unol â'r adran hon.

(2) Gall cais am orchymyn dan yr adran hon gael ei wneud gan–

(a) yr unigolyn y ceisir y gorchymyn i'w ddiogelu;

(b) y prif swyddog heddlu priodol (gweler isadran (4));

(c) unigolyn a nodir mewn rheoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol;

(d) unrhyw unigolyn arall â chaniatâd gan y llys y mae'r cais yn cael ei wneud iddo.

(3) Pan roddir hysbysiad diogelu cam-drin domestig i P gan aelod o lu heddlu perthnasol dan adran 18, rhaid i brif swyddog heddlu yng nghyswllt y llu hwnnw wneud cais am orchymyn diogelu cam-drin domestig yn erbyn P.

(Am ddarpariaethau pellach am wneud ceisiadau o'r fath, gweler adran 26.)

(4) Y prif swyddog heddlu priodol yw–

(a) mewn achos pan fydd isadran (3) yn berthnasol, y prif swyddog heddlu y cyfeirir ato yn yr isadran honno;

(b) mewn unrhyw achos arall, unrhyw un o'r canlynol–

(i) prif swyddog heddlu'r llu a gynhelir ar gyfer yr ardal heddlu y mae P yn byw ynddi;

(ii) prif swyddog heddlu unrhyw lu arall a gynhelir ar gyfer ardal heddlu sy'n credu bod P yn yr ardal heddlu honno neu yn bwriadu dod iddi;

(iii) Prif Gwnstabl Llu Heddlu Trafnidiaeth Prydain;

(iv) Prif Gwnstabl Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

(5) Rhaid i gais am orchymyn dan yr adran hon gael ei wneud i'r llys teulu, ac eithrio pan fydd isadran (6) neu (7) yn berthnasol.

(6) Rhaid i gais a wneir gan brif swyddog heddlu am orchymyn dan yr adran hon gael ei wneud trwy gŵyn i lys ynadon.

(7) Mewn achos pan–

(a) Fydd P, a'r unigolyn y ceisir y gorchymyn i'w ddiogelu, yn bartïon mewn unrhyw achosion teuluol neu sifil, ac

(b) y byddai gan y llys rym i wneud gorchymyn diogelu cam-drin domestig dan adran 27 yn yr achosion hynny heb wneud cais,

gall cais am orchymyn dan yr adran hon gael ei wneud yn yr achosion hynny gan yr unigolyn y ceisir y gorchymyn i'w ddiogelu.

(8) Pan fydd cais yn cael ei wneud i lys ynadon yn unol â'r adran hon—

(a) gall y llys ynadon ohirio'r gwrandawiad i'r cais;

(b) ar ôl clywed y cais, nid yw adran 97 Deddf Llysoedd Ynadon 1980 (gwŷs i dyst a warant i'w arestio) yn berthnasol yng nghyswllt yr unigolyn y ceisir y gorchymyn i'w ddiogelu, ac eithrio pan fydd yr unigolyn wedi rhoi tystiolaeth lafar neu ysgrifenedig yn y gwrandawiad.

**26 Ceisiadau pan fydd hysbysiad diogelu cam-drin domestig wedi cael ei roi**

(1) Mae'r adran hon yn berthnasol pan fydd yn ofynnol i brif swyddog heddlu dan adran 25(3), o ganlyniad i'r ffaith bod unigolyn ("P") wedi cael hysbysiad diogelu cam-drin domestig dan adran 18, i ymgeisio am orchymyn diogelu cam-drin domestig yn erbyn P.

(2) Rhaid i'r cais gael ei glywed gan y llys ynadon ddim hwyrach na 48 awr ar ôl i'r hysbysiad gael ei roi i P.

(3) Wrth gyfrifo pryd mae'r cyfnod o 48 awr y sonnir amdano yn isadran (2) yn dod i ben, dylid diystyru'r dyddiau canlynol–

- (a) unrhyw ddydd Sadwrn neu ddydd Sul,
- (b) Dydd Nadolig,
- (c) Gwener y Groglith, ac
- (d) unrhyw ddiwrnod sy'n ŵyl y banc yng Nghymru a Lloegr dan Ddeddf Bancio a Busnes Ariannol 1971.

(4) Rhaid i P gael hysbysiad o'r gwrandawiad i'r cais.

(5) Dylid trin yr hysbysiad dan isadran (4) fel ei fod wedi ei roi os yw wedi ei adael yn y cyfeiriad a roddwyd gan P dan adran 21(4).

(6) Ond os na fydd yr hysbysiad wedi cael ei roi oherwydd na wnaeth P roi cyfeiriad dan adran 21(4), gall y llys wrando ar y cais os bydd yn fodlon bod prif swyddog yr heddlu wedi gwneud ymdrech resymol i roi'r hysbysiad i P.

(7) Os bydd y llys yn gohirio gwrando ar y cais, mae'r hysbysiad yn parhau mewn grym nes bydd penderfyniad am y cais neu iddo gael ei dynnu yn ôl.

(8) Os–

- (a) Bydd P yn cael ei ddwyn ger bron y llys yn y gwrandawiad i'r cais oherwydd bod P wedi cael ei arestio yn rhinwedd adran 22(1) (arestio am dorri hysbysiad diogelu cam-drin domestig), a
- (b) bod y llys yn gohirio'r gwrandawiad,

gall y llys roi P ar remand.

(9) Mae Adran 23 yn berthnasol yng nghyswllt remand dan isadran (8) fel y mae'n berthnasol yng nghyswllt remand dan adran 22(4), ond fel petai'r cyfeiriad yn adran 23(2) i'r uwch swyddog heddlu a roddodd yr hysbysiad yn gyfeiriad at y prif swyddog heddlu a ymgeisiodd am y gorchymyn.

**27 Gorchmynion diogelu cam-drin domestig heblaw trwy gais**

(1) Gall llys roi gorchymyn diogelu cam-drin domestig dan yr adran hon yn unrhyw un o'r achosion a nodir isod.

*Achosion teuluol*

(2) Gall yr Uchel Lys neu'r llys teulu roi gorchymyn diogelu cam-drin domestig yn erbyn unigolyn ("P") mewn unrhyw achosion teuluol y mae P a'r unigolyn y gwneir y gorchymyn i'w ddiogelu ill dau yn bartïon.

*Achosion troseddol*

(3) Pan fydd unigolyn ("P") wedi cael ei gollfarnu am drosedd, gall y llys sy'n ymdrin â P am y drosedd honno (yn ogystal â dedfrydu P neu ymdrin â P mewn unrhyw fodd arall) roi gorchymyn diogelu cam-drin domestig yn erbyn P.

(4) Ond nid yw isadran (3) yn berthnasol pan fydd y Llys Apêl yn ymdrin ag unigolyn am drosedd.

(5) Gall llys y bydd unigolyn yn cael ei ryddfarnu ger ei fron neu ganddo o drosedd roi gorchymyn diogelu cam-drin domestig yn erbyn yr unigolyn.

(6) Pan fydd Llys y Goron yn caniatáu apêl unigolyn yn erbyn collfarn, gall Llys y Goron roi gorchymyn diogelu cam-drin domestig yn erbyn yr unigolyn.

*Achosion sifil*

(7) Gall y llys sirol roi gorchymyn diogelu cam-drin domestig yn erbyn unigolyn ("P") mewn unrhyw achosion perthnasol y mae P a'r unigolyn y gwneir y gorchymyn i'w ddiogelu ill dau yn bartïon.

(8) Yn isadran (7) mae "achosion perthnasol" yn golygu achosion a ddisgrifir mewn rheoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol;

**28 Amodau i wneud gorchymyn**

(1) Gall y llys roi gorchymyn diogelu cam-drin domestig dan adran 25 neu 27 yn erbyn unigolyn ("P") os bydd amodau A a B yn cael eu bodloni.

(2) Amod A yw bod y llys yn fodlon bod P wedi cam-drin unigolyn 16 oed neu hŷn y mae gan P gysylltiad personol ag ef.

(3) Amod B yw bod y gorchymyn yn angenrheidiol a chymesur i ddiogelu'r unigolyn hwnnw rhag cam-drin domestig, neu'r risg o gam-drin domestig, wedi ei gyflawni gan P.

(4) Nid yw o bwys–
- (a) a ddigwyddodd yr ymddygiad y cyfeirir ato yn isadran (2) yng Nghymru a Lloegr neu yn rhywle arall, neu
- (b) a ddigwyddodd cyn neu ar ôl i'r adran hon ddod i rym.

(5) Ni ellir rhoi gorchymyn diogelu cam-drin domestig yn erbyn unigolyn sydd dan 18 oed.

**29 Materion i'w hystyried cyn rhoi gorchymyn**

(1) Cyn rhoi gorchymyn diogelu cam-drin domestig yn erbyn unigolyn ("P"), rhaid i'r llys, ymhlith pethau eraill, ystyried y canlynol—
- (a) lles unrhyw unigolyn dan 18 oed y mae'r llys yn ystyried bod ei fuddiannau yn berthnasol i lunio'r gorchymyn (boed yr unigolyn hwnnw yn unigolyn y mae P â chysylltiad personol ag ef neu beidio);
- (b) unrhyw farn gan yr unigolyn y byddai'r gorchymyn yn cael ei wneud i'w ddiogelu—
  - (i) sy'n ymwneud â llunio'r gorchymyn, ac
  - (ii) y mae'r llys yn ymwybodol ohono;
- (c) mewn achos pan fydd y gorchymyn yn cynnwys darpariaeth yn ymwneud â'r adeilad y mae P a'r unigolyn y byddai'r gorchymyn yn cael ei wneud i'w ddiogelu yn byw, unrhyw farn y mae'r llys yn ymwybodol ohoni gan unrhyw unigolyn arall—
  - (i) y mae gan P gysylltiad personol ag ef, a

Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 121 08-May-19 12:01:56

(ii) sy'n byw yn yr adeilad.

(2) Gall y llys wneud gorchymyn diogelu cam-drin domestig mewn amgylchiadau pan na fydd yr unigolyn y gwnaed y gorchymyn i'w ddiogelu yn cydsynio i'r gorchymyn gael ei wneud.

**30 Rhoi gorchmynion heb hysbysiad**

(1) Gall llys, mewn unrhyw achos pan fydd yn gyfiawn a chyfleus i wneud hynny, wneud gorchymyn diogelu cam-drin domestig yn erbyn unigolyn ("P") er nad yw P wedi cael hysbysiad o'r achos fel y byddai yn ofynnol fel arall gan reolau'r llys.

(2) Nid yw isadran (1) yn berthnasol yng nghyswllt gwneud gorchymyn dan adran 25 ar gais a wnaed yn unol ag isadran (3) o'r adran honno (gweler yn hytrach adran 26(4) i (6)).

(3) Wrth benderfynu a yw am arfer ei rymoedd dan isadran (1), rhaid i'r llys ystyried yr holl amgylchiadau, gan gynnwys—

(a) unrhyw risg, os na fydd y gorchymyn yn cael ei wneud ar unwaith, y bydd P yn achosi niwed sylweddol i'r unigolyn y byddai'r gorchymyn yn cael ei wneud i'w ddiogelu,

(b) mewn achos pan fydd cais am y gorchymyn wedi cael ei wneud, a yw'n debygol y bydd yr unigolyn sy'n gwneud y cais yn cael ei rwystro neu ei atal rhag dilyn y cais os na fydd gorchymyn yn cael ei wneud ar unwaith, ac

(c) a oes rheswm i gredu—

(i) Bod P yn ymwybodol o'r achos ond yn osgoi derbyn y gorchymyn yn fwriadol, ac

(ii) y bydd yr oedi wrth weithredu cyflwyno'r gorchymyn yn achosi niwed i'r unigolyn y byddai'r gorchymyn yn cael ei wneud i'w ddiogelu.

(4) Os bydd llys yn gwneud gorchymyn yn erbyn unigolyn yn rhinwedd isadran (1), rhaid iddo roi cyfle i'r unigolyn roi cyflwyniadau am y gorchymyn

(a) cyn gynted ag y mae'n gyfleus, ac

(b) mewn gwrandawiad y rhoddwyd rhybudd ohono i'r holl bartïon yn unol â rheolau'r llys.

**31 Darpariaeth y gellir ei gwneud trwy orchmynion**

(1) Gall llys trwy orchymyn diogelu cam-drin domestig osod gofynion y mae'r llys yn ystyried eu bod yn angenrheidiol i ddiogelu'r unigolyn y gwneir y gorchymyn i'w ddiogelu rhag cam-drin domestig neu risg o gam-drin domestig. Mae "gofyn" yn cynnwys unrhyw waharddiad neu gyfyngiad.

(2) Rhaid i'r llys, yn benodol, ystyried pa ofynion (os o gwbl) all fod yn angenrheidiol i ddiogelu'r unigolyn y gwneir y gorchymyn i'w ddiogelu rhag gwahanol fathau o ymddygiad sy'n cam-drin.

(3) Mae isadrannau (4) i (6) yn cynnwys enghreifftiau o'r math o ddarpariaeth y gellir ei gwneud dan isadran (1), ond nid ydynt yn cyfyngu ar y math o ddarpariaeth y gellir ei gwneud felly.

(4) Gall gorchymyn diogelu cam-drin domestig ddarparu na chaiff unigolyn y gwneir gorchymyn diogelu cam-drin domestig yn ei erbyn ("P") gysylltu â'r unigolyn y gwneir y gorchymyn i'w ddiogelu.

(5) Os yw P yn byw mewn adeilad yng Nghymru neu Loegr y mae'r unigolyn y gwneir y gorchymyn i'w ddiogelu hefyd yn byw ynddo, gall y gorchymyn gynnwys darpariaeth

- (a) yn gwahardd P rhag troi'r unigolyn hwnnw o'r adeilad neu ei gau allan;
- (b) yn gwahardd P rhag mynd i mewn i'r adeilad;
- (c) yn gofyn i P adael yr adeilad;
- (d) yn gwahardd P rhag dod o fewn pellter penodedig o'r adeilad. Mae "penodedig" yn golygu penodedig yn y gorchymyn.

(6) Gall gorchymyn diogelu cam-drin domestig ei gwneud yn ofynnol i P dderbyn monitro electronig ar gydymffurfio P â gofynion eraill a osodwyd gan y gorchymyn. Yn y Rhan hon cyfeirir at ofyniad a osodwyd yn rhinwedd yr isadran hon fel "gofyn monitro electronig".

(7) Mae Adrannau 32 a 33 yn cynnwys darpariaeth bellach am y gofynion a all gael eu gosod gan orchymyn cam-drin domestig.

**32 Darpariaeth bellach am ofynion y gellir eu gosod gan orchmynion**

(1) Rhaid i ofynion a osodir ar unigolyn gan orchymyn diogelu cam-drin domestig, cyn belled ag y mae'n ymarferol, osgoi—

- (a) gwrthdaro â chred grefyddol yr unigolyn;
- (b) amharu ar unrhyw amseroedd pan fydd yr unigolyn yn arfer gweithio neu fynychu sefydliad addysgol;
- (c) gwrthdaro â gofynion unrhyw orchymyn llys neu waharddeb arall y gall yr unigolyn fod yn ddarostyngedig iddynt.

(2) Rhaid i orchymyn diogelu cam-drin domestig sy'n gosod gofyn ar unigolyn ("P") i wneud rhywbeth nodi'r unigolyn sy'n gyfrifol am oruchwylio cydymffurfio â'r gofyn hwnnw.

(3) Cyn cynnwys gofyn o'r fath mewn gorchymyn diogelu cam-drin domestig, rhaid i'r llys dderbyn tystiolaeth am ei addasrwydd a'r graddau y gellir ei orfodi gan yr unigolyn sydd i'w nodi dan isadran (2).

(4) Nid yw isadrannau (2) a (3) yn berthnasol yng nghyswllt gofynion monitro electronig (gweler yn hytrach adran 33(3) i (6)).

(5) Dyletswydd yr unigolyn a nodir dan isadran (2) yw—

- (a) gwneud unrhyw drefniadau angenrheidiol yng nghyswllt y gofynion y mae gan yr unigolyn gyfrifoldeb amdanynt (y "gofynion perthnasol");
- (b) hybu P i gydymffurfio â'r gofynion perthnasol;
- (c) os bydd yr unigolyn yn ystyried—
  - (i) bod P wedi cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol, neu
  - (ii) nad yw P wedi cydymffurfio â'r gofyn perthnasol, rhoi gwybod i'r prif swyddog heddlu priodol.

(6) Yn isadran (5)(c) mae "prif swyddog heddlu priodol" yn golygu—

- (a) prif swyddog heddlu'r llu a gynhelir ar gyfer yr ardal heddlu y mae'n ymddangos i'r unigolyn a nodir dan isadran (2) bod P yn byw ynddi, neu

Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 123 08-May-19 12:01:56

(b) os yw'n ymddangos i'r unigolyn hwnnw bod P yn byw mewn mwy nag un ardal heddlu, p'run bynnag o'r prif swyddogion heddlu perthnasol y mae'r unigolyn yn ei feddwl y mae'n fwyaf addas ei hysbysu.

(7) Rhaid i unigolyn ("P") sy'n ddarostyngedig i ofynion a osodwyd gan orchymyn diogelu cam-drin domestig—

(a) gadw mewn cysylltiad â'r unigolyn a nodir dan isadran (2) yng nghyswllt y gofyn hwnnw, yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddwyd gan yr unigolyn hwnnw o dro i dro, ac

(b) os bydd P yn newid ei gyfeiriad cartref, rhaid iddo hysbysu'r unigolyn a nodir dan isadran (2) o'r cyfeiriad cartref newydd.

Mae i'r ymrwymiadau hyn effaith fel gofynion y gorchymyn.

**33 Darpariaeth bellach ynglŷn â gofynion monitro electronig**

(1) Mae isadrannau (2) i (4) yn berthnasol ar gyfer y diben o bennu a all llys osod gofyn monitro electronig ar unigolyn ("P") mewn gorchymyn diogelu cam-drin domestig.

(2) Ni all y gofyn gael ei osod yn absenoldeb P.

(3) Os oes unigolyn (heblaw P) y byddai'n anymarferol sicrhau'r monitro dan sylw heb ei gydweithrediad, ni all y gofyn gael ei osod heb gydsyniad yr unigolyn hwnnw.

(4) Ni all y llys osod y gofyn oni bai—

(a) ei fod wedi ei hysbysu gan yr Ysgrifennydd Gwladol bod trefniadau monitro electronig ar gael yn yr ardal berthnasol, ac

(b) ei fod yn fodlon y gall y ddarpariaeth angenrheidiol gael ei gwneud dan y trefniadau sydd ar gael ar y pryd.

(5) Yn isadran (4)(a) mae "yr ardal berthnasol" yn golygu—

(a) yr ardal gyfiawnder leol y mae'n ymddangos i'r llys y mae P yn byw ynddi neu y bydd yn byw ynddi, ac

(b) mewn achos pan fwriedir cynnwys yn y gorchymyn–

(i) gofyn bod rhaid i P aros, am gyfnodau penodol, mewn lle penodol, neu

(ii) darpariaeth yn gwahardd P rhag mynd i mewn i le neu ardal benodedig, yr ardal cyfiawnder lleol lle mae'r lle neu ardal y bwriedir ei phenodi.

Mae "penodedig" yn golygu penodedig yn y gorchymyn.

(6) Rhaid i orchymyn diogelu cam-drin domestig sy'n cynnwys gofyn am fonitro electronig nodi'r unigolyn a fydd yn gyfrifol am y monitro.

(7) Rhaid i'r unigolyn a nodir dan isadran (6) ("yr unigolyn cyfrifol") fod o ddisgrifiad a benodir mewn rheoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

(8) Pan fydd gorchymyn cam-drin domestig yn gosod gofyn am fonitro electronig ar unigolyn, rhaid i'r unigolyn (ymhlith pethau eraill)

(a) gyflwyno ei hun, fel y bydd yn ofynnol o dro i dro gan yr unigolyn cyfrifol, i—

(i) unrhyw offer angenrheidiol gael eu gosod arno, ac

(ii) i unrhyw offer a osodwyd ar gyfer dibenion monitro gael ei archwilio neu ei drwsio,

(b) beidio ag ymyrryd ag unrhyw offer a osodwyd ar gyfer monitro nag amharu ar y modd y mae'n gweithio, a

(c) chymryd unrhyw gamau sy'n ofynnol gan yr unigolyn cyfrifol ar gyfer cadw unrhyw offer a osodwyd ar gyfer monitro mewn cyflwr sy'n gweithio.

Mae i'r ymrwymiadau hyn effaith fel gofynion y gorchymyn.

**34 Hyd a gweithrediad daearyddol gorchmynion**

(1) Mae gorchymyn diogelu cam-drin domestig yn dod i rym ar y diwrnod y mae'n cael ei wneud. Mae hyn yn amodol ar isadran (2).

(2) Os bydd unigolyn, ar y diwrnod pan wneir gorchymyn diogelu cam-drin domestig ("y gorchymyn newydd") yn ddarostyngedig i orchymyn diogelu cam-drin domestig arall ("y gorchymyn blaenorol"), gall y gorchymyn newydd gael ei wneud i ddod i rym ar y diwrnod pan fydd y gorchymyn blaenorol yn dod i ben.

(3) Mae gorchymyn diogelu cam-drin domestig mewn grym—

(a) am gyfnod penodedig,

(b) nes bydd digwyddiad penodedig yn digwydd, neu

(c) hyd nes bydd gorchymyn pellach.

Mae "penodedig" yn golygu penodedig yn y gorchymyn.

(4) Gall gorchymyn diogelu cam-drin domestig hefyd benodi cyfnodau pan fydd gofynion penodol a osodwyd gan y gorchymyn mewn grym.

(5) Ond ni all gorchymyn diogelu cam-drin domestig ddarparu ar gyfer gofyn monitro electronig i fod mewn grym am fwy na 12 mis.

(6) Mae isadran (5) yn amodol ar unrhyw amrywiad ar y gorchymyn dan adran 40.

(7) Mae gofyn a osodir gan orchymyn diogelu cam-drin domestig â grym ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig oni bai ei fod yn cael ei gyfyngu yn glir i ardal benodol.

**35 Torri gorchymyn**

(1) Mae unigolyn sy'n ddarostyngedig i orchymyn diogelu cam-drin domestig yn cyflawni trosedd, os bydd, heb esgus rhesymol, yn peidio â chydymffurfio ag unrhyw ofynion a osodir gan y gorchymyn.

(2) Mewn achos pan wnaed y gorchymyn yn erbyn yr unigolyn heb i'r unigolyn gael hysbysiad o'r achos, mae'r unigolyn yn cyflawni trosedd dan yr adran hon yn unig o ran ymddygiad a ddangoswyd ar adeg pan oedd yr unigolyn yn ymwybodol o fodolaeth y gorchymyn. (Gweler hefyd adran 41(8), sy'n gwneud darpariaeth debyg pan fydd gorchymyn wedi ei amrywio.)

(3) Pan fydd unigolyn yn cael ei gollfarnu am drosedd dan yr adran hon o ran unrhyw ymddygiad, ni ellir cosbi'r ymddygiad hwnnw fel dirmyg llys.

(4) Ni all unigolyn gael ei gollfarnu am drosedd dan yr adran hon o ran unrhyw ymddygiad sydd wedi ei gosbi fel dirmyg llys.

(5) Mae unigolyn a geir yn euog o drosedd dan yr adran hon yn agored—

(a) ar gollfarn ddiannod—

(i) i garchariad am gyfnod o ddim mwy na 12 mis (neu 6 mis, os cyflawnir y drosedd cyn i adran 154(1) Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 ddod i rym), neu

(ii) i ddirwy,

neu'r ddau;

(b) ar gollfarn ar dditiad, i garchariad am gyfnod o ddim mwy na 5 flynedd, neu ddirwy, neu'r ddau.

(6) Os caiff unigolyn ei gollfarnu am drosedd dan yr adran hon, nid yw'n agored i'r llys sy'n collfarnu'r unigolyn, o ran y drosedd, i wneud gorchymyn am ryddhad amodol.

(7) Yn isadran (6) mae "gorchymyn am ryddhad amodol" yn golygu gorchymyn dan unrhyw un o'r darpariaethau canlynol yn rhyddhau'r troseddwr yn amodol

(a) adran 12 Deddf Grymoedd Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000;

(b) adran 185 Deddf Lluoedd Arfog 2006.

(8) Mewn achos am drosedd dan yr adran hon, mae copi o'r gorchymyn diogelu cam-drin domestig gwreiddiol, wedi ei ardystio gan y swyddog priodol o'r llys a'i gwnaeth,
yn dderbyniol fel tystiolaeth ei fod wedi ei wneud a'i gynnwys i'r un graddau ag y mae tystiolaeth lafar o'r materion hynny yn dderbyniol yn yr achos hwnnw.

**36 Arestio am dorri gorchymyn**

(1) Mae'r adran hon yn weithredol pan fydd llys perthnasol wedi gwneud gorchymyn diogelu cam-drin domestig yn erbyn unigolyn ("P").

(2) Yn yr adran hon mae "llys perthnasol" yn golygu—

(a) yr Uchel Lys,

(b) y llys teulu, neu

(c) y llys sirol.

(3) Gall unigolyn a grybwyllir yn isadran (4) wneud cais i'r barnwr perthnasol am gyhoeddi gwarant i arestio P os bydd yr unigolyn yn ystyried bod P wedi peidio â chydymffurfio â'r gorchymyn neu yn cyflawni dirmyg llys mewn modd arall yng nghyswllt y gorchymyn.

(4) Yr unigolion y cyfeirir atynt yn isadran (3) yw–

(a) yr unigolyn y gwnaed y gorchymyn i'w ddiogelu;

(b) pan wnaed y gorchymyn dan adran 25, yr unigolyn a ymgeisiodd am y gorchymyn (os yn wahanol);

(c) unrhyw unigolyn arall â chaniatâd y barnwr perthnasol.

(5) Gall y barnwr perthnasol roi warant o dderbyn cais dan isadran (3) yn unig os—

(a) yw'r cais yn cael ei gadarnhau ar lw, a

(b) bod gan y barnwr perthnasol sail resymol dros gredu bod P wedi peidio â chydymffurfio â'r gorchymyn neu yn dangos dirmyg llys mewn modd arall yng nghyswllt y gorchymyn.

(6) Os–

(a) bydd P yn cael ei ddwyn ger bron llys perthnasol o ganlyniad i warant a roddwyd dan yr adran hon, a

Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 126 08-May-19 12:01:56

(b) nad yw'r llys yn ymdrin â'r mater ar unwaith, gall y llys roi P ar remand.

(7) Mae'r Atodlen yn cynnwys darpariaeth bellach am remand dan yr adran hon.

(8) Yn yr adran hon mae "barnwr perthnasol" yn golygu—

(a) pan wnaed y gorchymyn gan yr Uchel Lys, barnwr yn y llys hwnnw;

(b) pan wnaed y gorchymyn gan lys teulu, barnwr yn y llys hwnnw;

(c) pan wnaed y gorchymyn gan lys sirol, barnwr yn y llys hwnnw.

(9) Ar gyfer grym cwnstabl i arestio P heb warant am dorri gorchymyn diogelu cam-drin domestig, gweler adran 24 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984.

**37 Gofynion hysbysu**

(1) Mae isadrannau (2) i (5) yn berthnasol pan fydd unigolyn yn ddarostyngedig i orchymyn diogelu cam-drin domestig.

(2) Rhaid i'r unigolyn, o fewn y cyfnod o 3 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod pan wnaed y gorchymyn, hysbysu'r heddlu o'r wybodaeth yn isadran (3).

(3) Y wybodaeth y cyfeirir ati yn isadran (2) yw—

(a) enw'r unigolyn ac, os yw'r unigolyn yn defnyddio un neu fwy o enwau eraill, pob un o'r enwau hynny;

(b) cyfeiriad cartref yr unigolyn.

(4) Os bydd yr unigolyn yn defnyddio enw nad yw wedi ei roddi dan yr adran hon, rhaid i'r unigolyn, o fewn y cyfnod o 3 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod pan fydd yr unigolyn yn defnyddio'r enw gyntaf, hysbysu'r heddlu o'r enw hwnnw.

(5) Os bydd yr unigolyn yn newid ei gyfeiriad cartref, rhaid i'r unigolyn, o fewn y cyfnod o 3 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod pan fydd yn digwydd, hysbysu'r heddlu o'r cyfeiriad cartref newydd.

(6) Gall yr Ysgrifennydd Gwladol trwy reoliadau nodi gofynion hysbysu pellach y gall llys eu gosod wrth wneud neu amrywio gorchymyn cam-drin domestig.

Yn yr isadran hon "gofynion hysbysu" yw gofynion i'r unigolyn y gwnaed gorchymyn yn ei erbyn i ddarparu gwybodaeth benodol i'r heddlu.

(7) Nid yw'r gofynion a osodir gan isadrannau (2), (4) a (5) yn berthnasol pan fydd yr unigolyn yn ddarostyngedig i ofynion hysbysu dan—

(a) Ran 2 Deddf Troseddau Rhywiol 2003, neu

(b) adran 9 Deddf Diogelu Stelcio 2019.

(8) Os bydd yr unigolyn, ar unrhyw ddiwrnod, yn peidio â bod yn ddarostyngedig i unrhyw ofynion hysbysu y sonnir amdanynt yn isadran (7), mae'r gofynion a osodir gan isadrannau (2), (4) a (5) yn berthnasol i'r unigolyn ar y diwrnod hwnnw neu ar ei ôl, ond fel petai'r cyfeiriad yn isadran (2) at y diwrnod pan wnaed y gorchymyn yn gyfeiriad at y diwrnod hwnnw.

(9) Ar gyfer darpariaeth am sut i roi hysbysiad dan isadran (2), (4) neu (5), gweler adran 38.

Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 127 08-May-19 12:01:56

**38 Darpariaeth bellach am hysbysu dan adran 37**

(1) Bydd unigolyn yn rhoi hysbysiad dan adran 37(2), (4) neu (5) trwy—(a) fynychu gorsaf heddlu yn yr ardal heddlu briodol, a (b) rhoi hysbysiad ar lafar i—

(i) swyddog yr heddlu, neu

(ii) unrhyw unigolyn y rhoddwyd awdurdod iddo ar gyfer y diben gan y swyddog sy'n gyfrifol am yr orsaf.

(2) Yn isadran (1) mae'r "ardal heddlu briodol", yng nghyswllt unigolyn, yn golygu—

(a) os yw cyfeiriad cartref yr unigolyn yng Nghymru a Lloegr, yr ardal heddlu lle mae'r cyfeiriad cartref wedi ei leoli;

(b) os nad oes gan yr unigolyn gyfeiriad cartref yng Nghymru a Lloegr, yr ardal heddlu lle mae'r llys wedi gwneud gorchymyn diogelu cam-drin domestig olaf yn erbyn yr unigolyn wedi ei leoli.

(3) Mewn achos pan fydd unigolyn yn rhoi hysbysiad dan adran 37(5), mae unrhyw gyfeiriad yn isadran (2) at gyfeiriad cartref yr unigolyn yn gyfeiriad at gyfeiriad cartref yr unigolyn ar adeg rhoi'r hysbysiad.

(4) Rhaid i hysbysiad a roddir yn unol â'r adran hon gael ei gydnabod—

(a) yn ysgrifenedig, ac

(b) ar ffurf y gall yr Ysgrifennydd Gwladol ei bennu.

(5) Pan fydd unigolyn ("P") yn rhoi hysbysiad dan adran 37, rhaid i P, os gofynnir iddo wneud hynny gan yr unigolyn y rhoddir yr hysbysiad, adael i'r unigolyn hwnnw wneud unrhyw un o'r pethau canlynol—

(a) gymryd olion bysedd P;

(b) gymryd ffotograff, neu gynhyrchu delwedd o P mewn modd arall, neu unrhyw ran o P.

(6) Mae'r grym yn isadran (5) yn un y gellir ei arfer ar gyfer gwirio hunaniaeth P.

**39 Troseddau yn gysylltiedig â hysbysu**

(1) Mae unigolyn ("P") yn cyflawni trosedd os bydd P—

(a) yn peidio, heb esgus rhesymol, â chydymffurfio â gofyn a osodwyd gan neu dan adran 37, neu

(b) yn hysbysu'r heddlu, gan honni ei fod yn cydymffurfio â gofyn o'r fath, o unrhyw wybodaeth y mae P yn gwybod ei bod yn anghywir.

(2) Mae unigolyn sy'n peidio â chydymffurfio ag adran 38(5), heb esgus rhesymol, yn cyflawni trosedd.

(3) Mae unigolyn a geir yn euog o drosedd dan isadran (1) neu (2) yn agored—

(a) ar gollfarn ddiannod—

(i) i garchariad am gyfnod o ddim mwy na 12 mis (neu 6 mis, os cyflawnir y drosedd cyn i adran 154(1) Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 ddod i rym), neu

(ii) i ddirwy,

neu'r ddau;

(b) ar gollfarn neu dditiad, i garchariad am gyfnod o ddim mwy na 5 flynedd, neu ddirwy, neu'r ddau.

(4) Mae unigolyn yn cyflawni trosedd dan isadran (1)(a) ar y diwrnod pan fydd yr unigolyn yn peidio â chydymffurfio gyntaf â'r gofynion a osodwyd gan neu dan adran 37, heb esgus rhesymol.

(5) Mae'r unigolyn yn parhau i gyflawni'r drosedd trwy gydol unrhyw gyfnod pan fydd y methiant yn parhau.

(6) Ond ni all yr unigolyn gael ei erlyn fwy nag unwaith o ran yr un methiant.

**40 Amrywio a diddymu gorchmynion**

(1) Gall llys amrywio neu ddiddymu gorchymyn diogelu cam-drin domestig a wneir gan y llys hwnnw neu unrhyw lys arall.

Mae hyn yn amodol ar adran 41.

(2) Gall llys amrywio neu ddiddymu gorchymyn dan yr adran hon–

- (a) ar gais unigolyn a grybwyllir yn isadran (3), neu
- (b) mewn unrhyw achos pan allai wneud gorchymyn diogelu cam-drin domestig dan adran 27.

(3) Yr unigolion y cyfeirir atynt yn isadran (2)(a) ydynt—

- (a) yr unigolyn y gwnaed y gorchymyn i'w ddiogelu;
- (b) yr unigolyn y gwnaed y gorchymyn yn ei erbyn ("P");
- (c) pan wnaed y gorchymyn dan adran 25, yr unigolyn a ymgeisiodd am y gorchymyn;
- (d) prif swyddog heddlu'r llu a gynhelir ar gyfer yr ardal heddlu y mae P yn byw ynddi;
- (e) prif swyddog heddlu unrhyw lu arall a gynhelir ar gyfer ardal heddlu sy'n credu bod P yn yr ardal heddlu honno neu yn bwriadu dod iddi.

(4) Cyn penderfynu a yw am amrywio neu ddiddymu gorchymyn dan yr adran hon, rhaid i'r llys glywed gan—

- (a) unrhyw brif swyddog heddlu perthnasol sy'n dymuno cael ei glywed, ac
- (b) mewn achos pan fydd yr unigolyn y gwnaed y gorchymyn i'w ddiogelu yn ceisio diddymu'r gorchymyn, neu i gael gwared o unrhyw ofynion a osodwyd gan y gorchymyn neu eu gwneud yn llai beichus, yr unigolyn y gwnaed y gorchymyn i'w ddiogelu.

(5) Ar gyfer dibenion isadran (4)(a) mae pob un o'r canlynol yn "brif swyddog heddlu perthnasol"—

- (a) pan fydd y gorchymyn wedi cael ei wneud ar gais prif swyddog heddlu, y prif swyddog hwnnw;
- (b) prif swyddog heddlu'r llu a gynhelir ar gyfer yr ardal heddlu y mae P yn byw ynddi;
- (c) prif swyddog heddlu unrhyw lu arall a gynhelir ar gyfer ardal heddlu sy'n credu bod P yn yr ardal heddlu honno neu yn bwriadu dod iddi.

(6) Mae Adran 29 (materion i'w hystyried cyn gwneud gorchymyn) yn berthnasol yng nghyswllt amrywio neu ddiddymu gorchymyn diogelu cam-drin domestig fel y mae'n berthnasol yng nghyswllt gwneud gorchymyn o'r fath, ond fel pe bai'r cyfeiriadau at yr unigolyn y byddai'r gorchymyn yn cael ei wneud i'w ddiogelu yn gyfeiriadau at yr unigolyn y gwnaed y gorchymyn i'w ddiogelu.

Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 129 08-May-19 12:01:56

(7) Mae Adran 30 (gwneud gorchmynion heb hysbysiad) yn berthnasol yng nghyswllt amrywio gorchymyn diogelu cam-drin domestig fel y mae'n berthnasol yng nghyswllt gwneud gorchymyn o'r fath, ond fel pe bai—

(a) cyfeiriadau at yr unigolyn y byddai'r gorchymyn yn cael ei wneud i'w ddiogelu yn gyfeiriadau at yr unigolyn y gwnaed y gorchymyn i'w ddiogelu,

(b) isadran (2) heb ei gynnwys, a

(c) y cyfeiriad yn isadran (4) at wneud cyflwyniadau am y gorchymyn yn gyfeiriad at roi cyflwyniadau am yr amrywiad.

(8) Gall y llys wneud unrhyw orchymyn yn amrywio neu yn diddymu gorchymyn diogelu cam-drin domestig y mae'n ystyried sy'n addas.

Mae hyn yn amodol ar isadrannau (9) i (13).

(9) Gall y llys gynnwys gofyn ychwanegol yn y gorchymyn, neu ymestyn y cyfnod y mae'r gorchymyn, neu ofyn a osodwyd gan y gorchymyn, mewn grym amdano, ond dim ond os bydd yn fodlon bod angen gwneud hynny er mwyn diogelu'r unigolyn y gwnaed y gorchymyn i'w ddiogelu rhag cam-drin domestig, neu'r risg o gam-drin domestig, wedi ei gyflawni gan P.

(10) Ni all y llys ymestyn y cyfnod y mae gofyn monitro electronig mewn grym o fwy na 12 mis ar y tro.

(11) Gall y llys gael gwared o unrhyw ofyn a osodwyd gan y gorchymyn, neu wneud gofyn o'r fath yn llai beichus, ond dim ond os bydd yn fodlon nad oes angen y gofyn fel y'i gosodwyd bellach i ddiogelu'r unigolyn y gwnaed y gorchymyn i'w ddiogelu rhag cam-drin domestig, neu'r risg o gam-drin domestig, wedi ei gyflawni gan P.

(12) Os bydd yn ymddangos i'r llys nad yw unrhyw amodau sy'n angenrheidiol i ofyn gael ei osod yn cael eu bodloni bellach, rhaid i'r llys—

(a) beidio ag ymestyn y gofyn, a

(b) chael gwared â'r gofyn.

(13) Gall y llys ddiddymu'r gorchymyn, ond dim ond os bydd yn fodlon nad oes angen y gorchymyn bellach i ddiogelu'r unigolyn y gwnaed y gorchymyn i'w ddiogelu rhag cam-drin domestig, neu'r risg o gam-drin domestig, wedi ei gyflawni gan P.

**41 Amrywio a diddymu: ategol**

(1) Rhaid i unrhyw gais i amrywio neu ddiddymu gorchymyn diogelu cam-drin domestig dan adran 40 gael ei wneud i'r llys a wnaeth y gorchymyn.

Mae hyn yn amodol ar isadrannau (2) a (3).

(2) Pan fydd y gorchymyn wedi cael ei wneud gan lys ynadon, gall y cais i amrywio neu ddiddymu'r gorchymyn gael ei wneud i unrhyw lys ynadon arall sy'n gweithredu yn yr ardal gyfiawnder leol y mae'r llys hwnnw yn gweithredu.

(3) Pan–

(a) wnaed y gorchymyn dan adran 27 ar apêl yng nghyswllt collfarn unigolyn neu ddedfryd am drosedd, neu

(b) wnaed y gorchymyn gan lys dan yr adran honno yn erbyn unigolyn a draddodwyd neu a ail-draddodwyd i'r llys hwnnw i'w ddedfrydu am drosedd, rhaid i unrhyw gais i amrywio neu ddiddymu'r gorchymyn gael ei wneud i'r llys y collfarnwyd yr unigolyn ganddo neu ger ei fron (gweler isadran (4)).

(4) Pan fydd yr unigolyn a grybwyllir yn isadran (3)(b)—

(a) wedi ei gollfarnu gan lys ieuenctid, ond

(b) yn 18 oed neu hŷn ar adeg y cais, mae'r cyfeiriad yn isadran (3) i'r llys y collfarnwyd yr unigolyn ganddo neu ger ei fron i gael ei ddarllen fel cyfeiriad at lys ynadon.

(5) Ac eithrio fel y darperir gan isadran (3), dim ond gan Lys y Goron y gall gorchymyn diogelu cam-drin domestig a wnaed gan Lys y Goron gael ei amrywio neu ei ddiddymu.

(6) Dim ond gan yr Uchel Lys y gall gorchymyn diogelu cam-drin domestig a wnaed gan yr Uchel Lys gael ei amrywio neu ei ddiddymu.

(7) Mae gorchymyn sydd wedi ei amrywio dan adran 40 yn dal yn orchymyn y llys a'i gwnaeth gyntaf ar gyfer dibenion unrhyw gais pellach dan yr adran honno.

(8) Mewn achos pan–

(a) fydd gorchymyn a wnaed yn erbyn unigolyn yn cael ei amrywio dan adran 40 i gynnwys gofyn ychwanegol, neu i ymestyn y cyfnod y mae'r gorchymyn, neu ofyn a osodwyd gan y gorchymyn, mewn grym, ac

(b) na hysbyswyd yr unigolyn o'r achos, mae'r unigolyn yn cyflawni trosedd dan adran 35 yn unig o ran ymddygiad a ddangoswyd ar adeg pan oedd yr unigolyn yn ymwybodol bod yr amrywiad wedi ei wneud.

**42 Apeliadau**

(1) Gall unigolyn y gwnaed gorchymyn diogelu cam-drin domestig yn ei erbyn apelio yn erbyn gwneud y gorchymyn hwnnw.

(2) Gall apêl gael ei gwneud yn erbyn penderfyniad llys i beidio â gwneud gorchymyn diogelu cam-drin domestig dan adran 25—

(a) gan yr unigolyn a wnaeth gais am y gorchymyn, neu

(b) os yn wahanol, gan yr unigolyn y ceisiwyd y gorchymyn i'w ddiogelu.

(3) Gall apêl gael ei gwneud yn erbyn unrhyw benderfyniad gan lys dan adran 40 yng nghyswllt gorchymyn diogelu cam-drin domestig.

(4) Gall apêl dan isadran (3) gael ei gwneud gan unrhyw un o'r canlynol—

(a) yr unigolyn y gwnaed y gorchymyn i'w ddiogelu;

(b) yr unigolyn y gwnaed y gorchymyn yn ei erbyn ("P");

(c) pan wnaed y gorchymyn dan adran 25, yr unigolyn a ymgeisiodd am y gorchymyn;

(d) prif swyddog heddlu'r llu a gynhelir ar gyfer yr ardal heddlu y mae P yn byw ynddi;

(e) prif swyddog heddlu unrhyw lu arall a gynhelir ar gyfer ardal heddlu sy'n credu bod P yn yr ardal heddlu honno neu yn bwriadu dod iddi.

(5) Dylai apêl dan unrhyw un o isadrannau (1) i (3) gael ei gwneud i'r llys perthnasol.

(6) Y llys perthnasol yw—

(a) yn achos penderfyniad a wnaed gan lys ieuenctid neu lys ynadon, llys y Goron;

(b) yn achos penderfyniad a wnaed gan lys teulu neu'r llys sirol, yr Uchel Lys;

(c) yn achos penderfyniad a wnaed gan yr Uchel Lys neu Lys y Goron, y Llys Apêl.

(7) Cyn penderfynu ar apêl a wneir yn unol â'r adran hon, rhaid i'r llys perthnasol glywed gan unrhyw brif swyddog heddlu perthnasol sy'n dymuno cael ei glywed.

(8) Ar gyfer dibenion isadran (7) mae pob un o'r canlynol yn "brif swyddog heddlu perthnasol"—

(a) pan fydd y gorchymyn wedi cael ei wneud ar gais prif swyddog heddlu, y prif swyddog hwnnw;

(b) prif swyddog heddlu'r llu a gynhelir ar gyfer yr ardal heddlu y mae'r unigolyn ("P") y gwnaed y gorchymyn yn ei erbyn, neu (yn achos apêl dan isadran (2)), y'i ceisiwyd, yn byw;

(c) prif swyddog heddlu unrhyw lu arall a gynhelir ar gyfer ardal heddlu sy'n credu bod P yn yr ardal heddlu honno neu yn bwriadu dod iddi.

(9) Wrth benderfynu ar yr apêl a wnaed yn unol â'r adran hon, rhaid i'r llys perthnasol weithredu'r un egwyddorion ag a fyddai'n cael eu gweithredu gan lys ar gais am adolygiad barnwrol.

(10) Rhaid i'r llys perthnasol naill ai—

(a) ddiystyru'r apêl, neu

(b) ddiddymu rhan neu'r cyfan o'r penderfyniad y mae'r apêl yn ymwneud ag ef.

(11) Os bydd y llys perthnasol yn diddymu'r cyfan neu ran o'r penderfyniad a wnaed gan y llys, gall gyfeirio'r mater yn ôl i'r llys hwnnw gyda chyfarwyddyd i ailystyried a llunio penderfyniad newydd yn unol â'i ddyfarniad.

(12) Ni chaiff unigolyn arfer unrhyw hawl arall i apêl a fyddai, ar wahân i'r adran hon, yn un y gellid ei arfer yng nghyswllt penderfyniad y cyfeirir ato yn isadran (1), (2) neu (3).

**43 Natur rhai achosion dan y Rhan hon**

(1) Achos sifil yw achos ger bron llys sy'n deillio yn rhinwedd adran 27(3), (5) neu (6), a ger bron llys yn deillio yn rhinwedd adran 40(2)(b) mewn unrhyw achos yn adran 27(3), (5) neu (6), (fel achos llys ger bron llys ynadon dan adran 25 neu 40(2)(a)).

(2) Nid yw'r llys yn cael ei gyfyngu yn yr achos i ystyried tystiolaeth a fyddai wedi bod yn dderbyniol yn yr achos troseddol pan gollfarnwyd neu y rhyddhawyd yr unigolyn dan sylw (fel y gall fod yn wir).

(3) Gall y llys ohirio unrhyw achos sy'n deillio yn rhinwedd adran 27(3), (5) neu (6), neu unrhyw achos ger bron llys yn deillio yn rhinwedd adran 40(2)(b) mewn unrhyw achos yn adran 27(3), (5) neu (6), hyd yn oed ar ôl dedfrydu neu ryddhau'r unigolyn dan sylw neu ganiatáu apêl yr unigolyn.

(4) Gall gorchymyn diogelu cam-drin domestig gael ei wneud neu ei amrywio yn ychwanegol at orchymyn yn rhyddhau'r unigolyn yn amodol er gwaethaf unrhyw beth yn adrannau 12 ac 14 o Ddeddf Grymoedd Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 (sy'n ymwneud â gorchmynion yn rhyddhau unigolyn yn amodol neu yn llwyr a'u heffaith).

**44 Camau arbennig i dystion**

(1) Mae Pennod 1 o Ran 2 Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 (cyfarwyddiadau camau arbennig yn achos tystion bregus a than fygythiad) yn weithredol mewn achosion perthnasol dan y Rhan hon fel y mae'n weithredol ar gyfer achosion troseddol, ond gan—

(a) adael allan y darpariaethau yn y Ddeddf honno a grybwyllir yn isadran (2) (sy'n gwneud darpariaeth yn unig yng nghyd-destun achosion troseddol), ac

(b) unrhyw addasiadau eraill angenrheidiol.

(2) Y darpariaethau yw—

(a) adran 17(4) i (7);

(b) adran 21(4C)(e);

(c) adran 22A;

(d) adran 32.

(3) Mae Rheolau'r llys a wnaed dan neu ar gyfer dibenion Pennod 1 o Ran 2 o'r Ddeddf honno yn weithredol mewn achosion perthnasol dan y Rhan hon—

(a) i'r graddau a ganiateir gan reolau'r llys, ac

(b) yn amodol ar unrhyw addasiadau a ddarperir gan reolau'r llys.

(4) Mae Adran 47 o'r Ddeddf honno (cyfyngiadau ar adrodd am gyfarwyddiadau camau arbennig ac ati) yn weithredol gydag unrhyw addasiadau angenrheidiol—

(a) i gyfarwyddyd dan adran 19 o'r Ddeddf honno fel sy'n berthnasol i'r adran hon;

(b) i gyfarwyddyd sy'n diddymu neu yn amrywio cyfarwyddyd o'r fath.

Mae Adrannau 49 a 51 o'r Ddeddf honno (troseddau) yn weithredol yn yr un modd.

(5) Yn yr adran hon mae "achosion perthnasol dan y Rhan hon" yn golygu—

(a) achosion dan adran 25, 27(2) neu (7), 40(2)(a) neu 42;

(b) achosion yn deillio yn rhinwedd adran 27(3), (5) neu (6);

(c) achosion yn deillio yn rhinwedd adran 40(2)(b) mewn unrhyw achos yn adran 27(3), (5) neu (6).

*Hysbysiadau a gorchmynion: ategol*

### 45 Data o fonitro electronig: cod ymarfer

(1) Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi cod ymarfer yn ymwneud â phrosesu data a gesglir yn ystod monitro electronig ar unigolion dan y gofynion monitro electronig a osodir gan orchmynion diogelu cam-drin domestig.

(2) Nid yw peidio â gweithredu yn unol â'r cod a gyhoeddir dan yr adran hon ynddo ei hun yn gwneud unigolyn yn agored i unrhyw achosion troseddol na sifil.

### 46 Cyfarwyddyd

(1) Yr Ysgrifennydd Gwladol o bryd i'w gilydd i roi cyfarwyddyd yn ymwneud ag arfer swyddogaethau dan neu yn rhinwedd y Rhan hon gan unigolyn perthnasol.

(2) Yn yr adran hon mae "unigolion perthnasol" yn golygu—

(a) cwnstabl

(b) unigolyn a nodwyd mewn rheoliadau dan isadran (2)(c) o adran 25 ar gyfer y diben o wneud ceisiadau am orchmynion dan yr adran honno.

(3) Rhaid i unigolyn perthnasol ystyried unrhyw gyfarwyddyd a gyhoeddwyd dan yr adran hon wrth arfer swyddogaeth y mae'r cyfarwyddyd yn ymwneud ag ef.

(4) Cyn cyhoeddi cyfarwyddyd dan yr adran hon, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â–

(a) y Comisiynydd Cam-drin Domestig, ac

(b) yr unigolion eraill y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried sy'n briodol.

(5) Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol drefnu i unrhyw gyfarwyddyd a gyhoeddir dan yr adran hon gael ei gyhoeddi yn y modd y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried ei fod yn briodol.

**47 Diwygio Deddf Plant 1989**

Yn adran 8 Deddf Plant 1989 (gorchmynion trefniadau plant a gorchmynion eraill o ran plant), yn isadran (4), ar y diwedd rhowch

"(k) Rhan 3 Deddf Cam-drin Domestig 2019, pan fydd yr achos yn y llys teulu neu yn Adran Deulu yr Uchel Lys."

**48 Diddymu darpariaethau am hysbysiadau a gorchmynion diogelu trais domestig**

(1) Mae adrannau 24 i 33 Deddf Trosedd a Diogelwch 2010 (sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer hysbysiadau diogelu trais domestig a gorchmynion diogelu trais domestig) yn cael eu diddymu.

(2) O ganlyniad i'r diddymiad a wnaed gan isadran (1), mae'r darpariaethau canlynol yn cael eu diddymu—

(a) yn Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a Llysoedd 2013, paragraff 179;

(b) yn Atodlen 14 i Ddeddf Plismona a Throseddu 2017, paragraff 7(g).

**49 Dehongli Rhan 3**

(1) Yn y Rhan hon–

mae "prif swyddog heddlu" yn golygu–

(a) yng nghyswllt llu heddlu a gynhelir gan gorff plismona lleol, prif swyddog heddlu'r llu hwnnw;

(b) yng nghyswllt Heddlu Trafnidiaeth Prydain, Prif Gwnstabl y Llu hwnnw;

(c) yng nghyswllt Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn, Prif Gwnstabl Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn;

mae i "hysbysiad diogelu cam-drin domestig" yr ystyr a roddir gan adran 18(2);

mae i "gorchymyn diogelu cam-drin domestig" yr ystyr a roddir gan adran 24(1); mae i "gofyn monitro electronig" yr ystyr a roddir gan adran 31(6);

mae "achosion teuluol" yn golygu—

(a) achosion yn y llys teulu (heblaw achosion dan y Rhan hon), ac

(b) achosion teuluol yn yr ystyr a roddir yn Rhan 5 Deddf Achosion Priodasol a Theulu 1984;

mae "cyfeiriad cartref", yng nghyswllt unigolyn, yn golygu—

(a) cyfeiriad unig neu brif breswylfa'r unigolyn yn y Deyrnas Unedig, neu

(b) os nad oes gan yr unigolyn breswylfa o'r fath, y cyfeiriad neu'r lleoliad yn y Deyrnas Unedig lle gellir dod o hyd i'r unigolyn yn gyson;

mae i "llu heddlu perthnasol" yr ystyr a roddir gan adran 18(8); dylid darllen "gofyn", yng nghyswllt gorchymyn diogelu cam-drin domestig, yn unol ag adran 31(1);

mae i "uwch swyddog heddlu" yr ystyr a roddir gan adran 18(8).

(2) Mae unrhyw gyfeiriad at aelod o lu heddlu yn cynnwys, yn achos llu heddlu a gynhelir gan gorff plismona lleol, cyfeiriad at gwnstabl arbennig a benodwyd gan brif swyddog heddlu'r llu hwnnw.

(3) Gweler hefyd—

(a) adran 1 (ystyr "cam-drin domestig");

(b) adran 2 (ystyr "cysylltiad personol").

## RHAN 4

## DIOGELIAD I DDIODDEFWYR A THYSTION YN Y LLYS

*Croesholi mewn achosion llys teulu*

### 50 Gwahardd croesholi yn bersonol mewn achosion teuluol

Yn y Ddeddf Achosion Priodasol a Theulu 1984, ar ôl Rhan 4A rhowch—

**"RHAN 4B**

ACHOSION TEULUOL: GWAHARDD CROESHOLI YN BERSONOL

**31Q Gwahardd croesholi yn bersonol: rhagarweiniol**

Yn y Rhan hon–

mae "y llys" yn golygu'r llys teulu neu'r Uchel Lys;

mae "achosion teuluol" yn golygu—

(a) achosion yn y llys teulu, ac

(b) achosion yn Adran Deuluol yr Uchel Lys sydd yn fusnes sydd wedi ei gyfeirio gan neu dan adran 61 o (ac Atodlen 1 i) Deddf Llysoedd Uwch 1981, i'r Adran honno o'r Uchel Lys a dim llys arall;

mae "tyst" yng nghyswllt unrhyw achosion, yn cynnwys parti i'r achos.

**31R Gwahardd croesholi yn bersonol: dioddefwyr troseddau**

(1) Mewn achosion teuluol, ni all unrhyw barti i'r achos sydd wedi cael ei gollfarnu neu wedi cael rhybudd am, neu wedi ei gyhuddo o, drosedd benodol groesholi yn bersonol dyst sydd yn ddioddefwr, neu yn ddioddefwr honedig, y drosedd honno.

(2) Mewn achosion teuluol, ni all unrhyw barti i'r achos sydd yn ddioddefwr, neu ddioddefwr honedig, trosedd benodol groesholi yn bersonol dyst sydd wedi ei gollfarnu neu wedi cael rhybudd am, neu wedi ei gyhuddo o'r drosedd honno.

(3) Nid yw isadrannau (1) a (2) yn berthnasol i gollfarn neu rybudd sydd wedi ei dreulio ar gyfer dibenion Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974, oni bai bod tystiolaeth yn gysylltiedig â'r gollfarn neu rybudd yn dderbyniol yn yr achos, neu y gallant fod yn angenrheidiol trwy rinwedd adran 7(2), (3) neu (4) o'r Ddeddf honno.

(4) Nid yw croesholi yn groes i isadran (1) neu (2) yn effeithio ar ddilysrwydd penderfyniad y llys yn yr achos os nad oedd y llys yn ymwybodol o'r gollfarn, rhybudd neu gyhuddiad pan ddigwyddodd y croesholi.

(5) Yn yr adran hon–

mae "rhybudd" yn golygu—

(a) rhybudd amodol a roddwyd dan adran 22 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003;

(b) rhybudd amodol ieuenctid a roddwyd dan adran 66A Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998;

(c) unrhyw rybudd arall a roddir i unigolyn yng Nghymru a Lloegr neu Ogledd Iwerddon o ran trosedd, ar adeg rhoi'r rhybudd, y mae'r unigolyn wedi cyfaddef iddi;

(d) unrhyw beth yn cyfateb i rybudd sy'n dod dan baragraff (a), (b) neu (c) (sut bynnag y mae'n cael ei ddisgrifio sy'n cael ei roi i unigolyn o ran trosedd dan gyfraith yr Alban;

mae "collfarn" yn golygu—

(a) collfarn ger bron llys yng Nghymru a Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon;

(b) collfarn mewn achosion disgyblu gan y lluoedd arfog (yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, neu mewn man arall);

(c) canfyddiad mewn unrhyw achosion troseddol (gan gynnwys canfyddiad yn gysylltiedig â chanfyddiad o orffwylledd) bod yr unigolyn dan sylw wedi cyflawni trosedd neu gyflawni gweithred neu beidio â gwneud rhywbeth fel y'i cyhuddwyd;

ac mae "collfarnwyd" i'w ddarllen yn yr un modd;

Mae "achos disgyblu gan y lluoedd arfog" yn golygu—

(a) unrhyw achosion (boed ger bron llys neu beidio) yn ymwneud â throsedd yn y lluoedd yn yr ystyr a roddir yn Neddf Lluoedd Arfog 2006 (ac eithrio achosion ger bron llys tu allan i'r lluoedd arfog yn ystyr y Ddeddf honno);

(b) unrhyw achosion dan Ddeddf y Fyddin 1955, Deddf y Llu Awyr 1955, neu Ddeddf Disgyblaeth Forwrol 1957 (boed ger bron llys marsial neu ger bron unrhyw lys arall neu unigolyn a awdurdodwyd dan y Deddfau hynny i roi cosb am drosedd);

(c) unrhyw achosion ger bron Llys Sifil Sefydlog a sefydlwyd dan Ddeddf y Lluoedd Arfog 1976;

mae "trosedd benodedig" yn golygu trosedd sy'n benodedig, neu y mae'r disgrifiad ohoni wedi ei benodi, mewn rheoliadau a wnaed gan yr Arglwydd Ganghellor.

(6) Nid yw'r darpariaethau canlynol (sy'n pennu nad yw collfarn unigolyn a ryddhawyd yn gollfarn) yn berthnasol ar gyfer dibenion yr adran hon i gollfarn unigolyn am drosedd y gwnaed gorchymyn ynglŷn â hi yn rhyddhau unigolyn yn llwyr neu yn amodol—

(a) adran 14 o Ddeddf Grymoedd Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000;

(b) adran 187 o Ddeddf y Lluoedd Arfog 2006 neu unrhyw ddeddfwriaeth gynharach gyfatebol.

(7) Ar gyfer dibenion yr adran hon mae "trosedd" yn cynnwys trosedd dan gyfraith nad yw mewn grym bellach.

**31S Gwahardd croesholi yn bersonol: unigolion a ddiogelir gan waharddebau ac ati**

(1) Mewn achosion teulu, ni chaiff unrhyw barti i'r achos y mae gwaharddeb ddiogelu ar hysbysiad mewn grym yn ei erbyn groesholi yn bersonol unrhyw dyst sy'n cael ei ddiogelu gan y waharddeb.

(2) Mewn achosion teulu, ni chaiff unrhyw barti i'r achos sy'n cael ei ddiogelu gan waharddeb ddiogelu ar hysbysiad groesholi yn bersonol unrhyw dyst y mae'r waharddeb mewn grym yn ei erbyn.

(3) Nid yw croesholi yn groes i isadran (1) neu (2) yn effeithio ar ddilysrwydd penderfyniad y llys yn yr achos os nad oedd y llys yn ymwybodol o'r waharddeb ddiogelu pan ddigwyddodd y croesholi.

(4) Yn yr adran hon mae "gwaharddeb ddiogelu" yn golygu gorchymyn, gwaharddeb neu waharddiad a benodir, neu y mae ei ddisgrifiad wedi ei benodi, mewn rheoliadau a wnaed gan yr Arglwydd Ganghellor.

(5) Ar gyfer dibenion yr adran hon, mae gwaharddeb ddiogelu yn waharddeb ddiogelu ar hysbysiad os—

(a) yw'r llys yn fodlon bod gwrandawiad wedi bod lle gallai'r unigolyn y mae'r waharddeb ddiogelu mewn grym yn ei erbyn fod wedi gofyn (neu y gallai fod wedi gofyn) i'r waharddeb gael ei rhoi o'r neilltu neu ei hamrywio, neu

(b) bod y waharddeb ddiogelu wedi ei gwneud mewn gwrandawiad y mae'r llys yn fodlon bod y ddau unigolyn a wnaeth gais amdani a'r unigolyn y mae mewn grym yn ei erbyn wedi cael hysbysiad ohono.

**31T Cyfarwyddiadau i wahardd croesholi yn bersonol: achosion eraill**

(1) Mewn achosion teuluol, gall y llys roi cyfarwyddyd yn gwahardd parti i'r achos rhag croesholi (neu barhau i groesholi) tyst yn bersonol os—

(a) nad yw naill ai adran 31R nag adran 31S yn gweithredu i atal y parti rhag croesholi'r tyst, ac

(b) mae'n ymddangos i'r llys bod—

(i) yr amod ansawdd neu'r amod gofid sylweddol yn cael eu bodloni, a

(ii) na fyddai yn groes i fuddiannau cyfiawnder i roi'r cyfarwyddyd.

(2) Mae'r "amod ansawdd" yn cael ei fodloni os bydd ansawdd y dystiolaeth a roddir gan y tyst wrth ei groesholi–

Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 137 08-May-19 12:01:57

(a) yn debygol o gael ei waethygu os bydd y croesholi (neu barhad i'r croesholi) yn cael ei gynnal gan y parti yn bersonol, ac

(b) yn debygol o gael ei wella petai cyfarwyddyd yn cael ei roi dan yr adran hon.

(3) Mae'r "amod gofid sylweddol" yn cael ei fodloni os—

(a) byddai'r croesholi (neu barhad i'r croesholi) ar y tyst gan y parti yn bersonol yn debygol o achosi gofid sylweddol i'r tyst neu'r parti, ac

(b) y byddai'r gofid yn debygol o fod yn fwy sylweddol nag a fyddai'n wir petai'r tyst yn cael ei groesholi gan rhywun heblaw'r parti yn bersonol.

(4) Gall cyfarwyddyd dan yr adran hon gael ei roi gan y llys—

(a) ar gais gan barti i'r achos, neu

(b) o'i benderfyniad ei hun.

(5) Wrth bennu a yw'r amod ansawdd neu'r amod gofid sylweddol yn cael eu bodloni yn achos tyst neu barti, rhaid i'r llys ystyried, ymhlith pethau eraill—

(a) unrhyw farn a fynegir gan y tyst o ran a yw'r tyst yn fodlon neu beidio i gael ei groesholi gan y parti yn bersonol;

(b) unrhyw farn a fynegwyd gan y parti o ran a yw'r parti yn fodlon neu beidio i groesholi'r tyst yn bersonol;

(c) natur y cwestiynau sy'n debygol o gael eu gofyn, o ran y materion yn yr achos;

(d) unrhyw ymddygiad gan y parti yng nghyswllt y tyst y mae'r llys yn ymwybodol bod ffeithiau wedi eu canfod yn yr achos neu unrhyw achosion teulu eraill amdano;

(e) unrhyw ymddygiad gan y tyst yng nghyswllt y parti y mae'r llys yn ymwybodol bod ffeithiau wedi eu canfod yn yr achos neu unrhyw achosion teulu eraill amdano;

(f) unrhyw ymddygiad gan y parti ar unrhyw gam yn yr achos, yn gyffredinol ac yng nghyswllt y tyst;

(g) unrhyw ymddygiad gan y tyst ar unrhyw gam yn yr achos, yn gyffredinol ac yng nghyswllt y parti;

(h) unrhyw berthynas (beth bynnag ei natur) rhwng y tyst a'r parti.

(6) Mae cyfeiriadau yn yr adran hon at ansawdd tystiolaeth tyst yn cyfeirio at ei ansawdd o ran ei chyflawnder, ei natur resymegol a'i chywirdeb.

(7) Ar gyfer y diben hwn mae "natur resymegol" yn cyfeirio at allu'r tyst wrth roi tystiolaeth i roi atebion sydd—

(a) yn ymdrin â'r cwestiynau a roddwyd i'r tyst, ac

(b) y gellir eu deall, yn unigol ac ar y cyd.

**31U Cyfarwyddiadau dan adran 31T: ategol**

(1) Bydd gan gyfarwyddyd dan adran 31T effaith rhwymol o'r adeg y caiff ei wneud nes bydd y tyst y mae'n yn ymwneud ag ef wedi ei ryddhau.

(2) Ond gall y llys ddiddymu cyfarwyddyd dan adran 31T cyn i'r tyst gael ei ryddhau, os yw'n ymddangos i'r llys ei bod er budd cyfiawnder i wneud hynny, naill ai—

(a) ar gais gan barti i'r achos, neu

(b) o'i benderfyniad ei hun.

(3) Dim ond os bu newid gwirioneddol i amgylchiadau y gall y llys ddiddymu cyfarwyddyd a wnaed dan adran 31T ar gais a wnaed gan barti i'r achos ers—

(a) i'r cyfarwyddyd gael ei roi, neu

(b) os gwnaed cais blaenorol gan barti i'r achos, i'r cais (neu'r cais diwethaf) gael ei bennu.

(4) Rhaid i'r llys ddatgan ei resymau am–

(a) roi cyfarwyddyd dan adran 31T;

(b) wrthod cais am gyfarwyddyd dan adran 31T;

(c) ddiddymu cyfarwyddyd dan adran 31T;

(d) wrthod cais i ddiddymu cyfarwyddyd dan adran 31T.

**31V Dewisiadau eraill heblaw croesholi yn bersonol**

(1) Mae'r adran hon yn berthnasol pan fydd parti mewn achos teuluol yn cael ei atal rhag croesholi tyst yn bersonol yn rhinwedd adran 31R, 31S neu 31T.

(2) Rhaid i'r llys ystyried a oes (gan anwybyddu'r adran hon) ddull arall boddhaol—

(a) i'r tyst gael ei groesholi yn yr achos, neu

(b) o gael tystiolaeth y gall y tyst fod wedi ei rhoi wrth gael ei groesholi yn yr achos.

(3) Os bydd y llys yn penderfynu nad oes, rhaid i'r llys—

(a) wahodd y parti i'r achos i drefnu i gynrychiolydd cyfreithiol cymwys weithredu dros y parti ar gyfer y diben o groesholi'r tyst, ac

(b) ei gwneud yn ofynnol i'r parti i'r achos hysbysu'r llys, erbyn diwedd cyfnod a benodwyd gan y llys, a fydd cynrychiolydd cyfreithiol cymwys yn gweithredu dros y parti ar gyfer y diben hwnnw.

(4) Mae isadran (5) yn berthnasol, os, erbyn diwedd y cyfnod a nodir dan isadran (3)(b), naill ai—

(a) bod y parti wedi hysbysu'r llys na fydd cynrychiolydd cyfreithiol cymwys yn gweithredu dros y parti ar gyfer y diben o groesholi'r tyst, neu

(b) na dderbyniwyd unrhyw hysbysiad gan y llys a'i bod yn ymddangos i'r llys na fydd cynrychiolydd cyfreithiol cymwys yn gweithredu dros y parti ar gyfer y diben o groesholi'r tyst.

(5) Rhaid i'r llys ystyried a yw'n angenrheidiol er budd cyfiawnder i'r tyst gael ei groesholi gan gynrychiolydd cyfreithiol cymwys a benodwyd gan y llys i gynrychioli buddiannau'r parti.

(6) Os bydd y llys yn penderfynu ei bod, rhaid i'r llys benodi cynrychiolydd cyfreithiol cymwys (wedi ei ddewis gan y llys) i groesholi'r tyst er budd y parti.

(7) Nid yw cynrychiolydd cyfreithiol cymwys a benodwyd gan y llys dan isadran (6) yn atebol i'r parti.

(8) Ar gyfer dibenion yr adran hon—

(a) mae cyfeiriad at groesholi yn cynnwys (mewn achos pan roddir cyfarwyddyd dan adran 31T ar ôl i'r parti ddechrau croesholi'r tyst) cyfeiriad at barhau i gynnal y croesholi;

(b) mae "cynrychiolydd cyfreithiol cymwys" yn golygu unigolyn sydd, ar gyfer dibenion Deddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007, yn unigolyn â chaniatâd yng nghyswllt gweithgaredd sy'n cyfateb i arfer hawl i wrandawiad (yn yr ystyr a roddir yn y Ddeddf honno mewn achosion teuluol.

**31W Costau cynrychiolwyr cyfreithiol a benodir dan adran 31V**

(1) Gall yr Arglwydd Ganghellor trwy reoliadau wneud darpariaeth ar gyfer talu symiau o'r cronfeydd canolog parthed—

(a) ffioedd neu gostau a dynnir yn briodol gan gynrychiolydd cyfreithiol cymwys a benodwyd dan adran 31V, a

(b) treuliau a dynnwyd yn briodol i ddarparu tystiolaeth i unigolyn o'r fath neu ddeunydd arall yng nghyswllt y penodiad.

(2) Gall y rheoliadau ddarparu ar gyfer symiau i'w pennu gan yr Arglwydd Ganghellor neu unigolyn arall fel y bydd y rheoliadau yn nodi.

(3) Gall y rheoliadau ddarparu ar gyfer i'r symiau a delir gael eu cyfrifo yn unol â—

(a) chyfradd neu raddfa a nodir yn y rheoliadau, neu

(b) ddarpariaeth arall a wnaed gan neu trwy'r rheoliadau.

**31X Rheoliadau dan Ran 4B**

(1) Mae unrhyw rym gan yr Arglwydd Ganghellor i wneud rheoliadau dan y Rhan hon—

(a) yn un y gellir ei arfer trwy offeryn statudol.

(b) yn cynnwys grym i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer dibenion gwahanol, ac

(c) yn cynnwys grym i wneud darpariaeth achlysurol, ddilynol, drosiannol, drosglwyddol neu i arbed.

(2) Mae offeryn statudol yn cynnwys rheoliadau dan y Rhan hon yn ddarostyngedig i gael ei ddiddymu yn unol â phenderfyniad y naill Dŷ Seneddol neu'r llall."

*Camau arbennig*

**51 Cyfarwyddiadau camau arbennig mewn achosion yn ymwneud â cham-drin domestig**

(1) Mae Pennod 1 o Ran 2 Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 (rhoi tystiolaeth neu wybodaeth ar gyfer dibenion achosion troseddol: camau arbennig yn achos tystion bregus a than fygythiad) yn cael ei diwygio fel a ganlyn—

(2) Yn adran 17 (tystion sy'n gymwys am gymorth ar sail ofn neu bryder am roi tystiolaeth)—

(a) yn isadran (4), yn lle "trosedd rywiol neu drosedd dan adran 1 neu 2 Deddf Caethwasiaeth Modern 2015" rhodder "trosedd a restrir yn isadran (4A)";

(b) ar ôl isadran (4) rhodder–

"(4A)Y troseddau yw–

(a) trosedd rywiol;

(b) trosedd dan adran 1 neu 2 Deddf Caethwasiaeth Modern 2015;

(c) unrhyw drosedd arall lle'r honnir bod ymddygiad y cyhuddedig yn cyfateb i gam-drin domestig yn yr ystyr a roddir yn Neddf Cam-drin Domestig 2019 (gweler adran 1 y Ddeddf honno)."

(3) Yn adran 25(4)(a) (tystiolaeth a roddir yn breifat), yn lle "trosedd rywiol neu drosedd dan adran 1 neu 2 Deddf Caethwasiaeth Modern 2015" rhowch "trosedd a restrir yn adran 17(4A)".

## RHAN 5

## AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

*Rheoli troseddwyr*

### 52 Amodau polygraff i droseddwyr a ryddheir ar drwydded

(1) Yn Rhan 3 o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007 (darpariaethau eraill i reoli troseddwyr), diwygir adran 28 (amod defnydd o polygraff) fel a ganlyn.

(2) Ar ôl isadran (2) rhodder–

"(2A) Mae'r adran hon yn berthnasol hefyd i unigolyn sy'n treulio dedfryd gaeth berthnasol yng nghyswllt trosedd berthnasol yn ymwneud â cham-drin domestig sydd–

(a) yn cael ei ryddhau ar drwydded gan yr Ysgrifennydd Gwladol dan unrhyw ddeddf; ac

(b) nad yw dan 18 oed ar y diwrnod y mae'n cael ei ryddhau."

(3) Ar ôl isadran (4) rhodder–

"(4A) Yn yr adran hon mae "trosedd berthnasol yn cynnwys cam-drin domestig" yn golygu–

(a) trosedd a restrir yn isadran (4B) oedd yn cynnwys ymddygiad gan y troseddwr sy'n cyfateb i gam-drin domestig yn yr ystyr a roddir yn Neddf Cam-drin Domestig 2019 (gweler adran 1 o'r Ddeddf honno);

(b) trosedd dan adran 35 o'r Ddeddf honno (torri gorchymyn diogelu cam-drin domestig).

(4B) Y troseddau yw–

(a) llofruddiaeth;

(b) trosedd dan adran 5 Deddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 (torri gorchymyn atal);

(c) trosedd a nodir yn Rhan 1 o Atodlen 15 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (troseddau treisgar a nodir);

(d) trosedd dan adran 76 Deddf Troseddau Difrifol 2015 (ymddygiad sy'n rheoli neu'n orfodol mewn perthynas agos neu deuluol)."

*Datgelu gwybodaeth gan yr heddlu*

**53 Cyfarwyddyd ynglŷn â datgelu gwybodaeth gan luoedd heddlu**

(1) Gall yr Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddyd i brif swyddogion heddlu am ddatgelu gwybodaeth yr heddlu gan luoedd heddlu ar gyfer dibenion atal cam-drin domestig.

Mae "gwybodaeth yr heddlu" yn golygu gwybodaeth a ddelir gan lu heddlu.

(2) Rhaid i bob prif swyddog heddlu ar lu heddlu roi ystyriaeth i unrhyw gyfarwyddyd a roddir dan yr adran hon.

(3) Gall yr Ysgrifennydd Gwladol o bryd i'w gilydd ddiwygio unrhyw gyfarwyddyd a roddir dan yr adran hon.

(4) Cyn cyhoeddi neu ddiwygio cyfarwyddyd dan yr adran hon rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â–

(a) y Comisiynydd Cam-drin Domestig,

(b) Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, ac

(c) yr unigolion eraill y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried sy'n briodol.

(5) Nid yw adran (4) yn weithredol yng nghyswllt unrhyw ddiwygiadau i gyfarwyddyd a roddwyd dan yr adran hon os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried bod y diwygiadau i'r cyfarwyddyd yn ansylweddol.

(6) Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi–

(a) unrhyw gyfarwyddyd a roddwyd dan yr adran hon, ac

(b) unrhyw adolygiadau i'r cyfarwyddyd hwnnw.

(7) Yn yr adran hon–

mae "prif swyddog heddlu" yn golygu–

(a) yng nghyswllt Heddlu Trafnidiaeth Prydain, Prif Gwnstabl y Llu hwnnw;

(b) yng nghyswllt unrhyw lu heddlu arall, prif swyddog heddlu'r llu hwnnw;

mae "llu heddlu" yn golygu–

(a) llu heddlu a gynhelir gan gorff plismona lleol; neu

(b) Llu Heddlu Trafnidiaeth Prydain.

*Tenantiaethau diogel*

**54 Rhoi tenantiaethau diogel mewn achosion o gam-drin domestig**

(1) Diwygir Rhan 4 o Ddeddf Tai 1985 (tenantiaethau diogel a hawliau tenantiaid diogel) fel a ganlyn.

(2) Ar ôl adran 81 rhodder—

**"81ZA Rhoi tenantiaethau diogel mewn achosion o gam-drin domestig**

(1) Mae'r adran hon yn berthnasol pan fydd awdurdod tai lleol yn rhoi tenantiaeth ddiogel mewn annedd yn Lloegr cyn y diwrnod pan fydd paragraff 4 o Atodlen 7 Deddf Tai a Chynllunio 2016 (rhoi tenantiaethau diogel newydd yn Lloegr) yn dod i rym yn llawn.

(2) Rhaid i'r awdurdod tai lleol roi tenantiaeth ddiogel nad yw'n denantiaeth hyblyg os–

(a) bydd y denantiaeth yn cael ei chynnig i unigolyn sydd neu a oedd yn denant mewn rhyw annedd arall dan denantiaeth gymwys (boed yn unig denant neu yn gyd-denant), ac

(b) mae'r awdurdod yn fodlon–

(i) bod yr unigolyn neu aelod o aelwyd yr unigolyn yn neu wedi bod yn ddioddefwr cam-drin domestig a gyflawnwyd gan unigolyn arall, a

(ii) bod y denantiaeth newydd yn cael ei rhoi am resymau yn gysylltiedig â'r gamdriniaeth.

(3) Rhaid i'r awdurdod tai lleol roi tenantiaeth ddiogel nad yw'n denantiaeth hyblyg os–

(a) bydd y denantiaeth yn cael ei chynnig i unigolyn oedd yn gyd-denant yn yr annedd dan denantiaeth gymwys, ac

(b) mae'r awdurdod yn fodlon–

(i) bod yr unigolyn neu aelod o aelwyd yr unigolyn yn neu wedi bod yn ddioddefwr cam-drin domestig a gyflawnwyd gan unigolyn arall, a

(ii) bod y denantiaeth newydd yn cael ei rhoi am resymau yn gysylltiedig â'r gamdriniaeth.

(4) Yn yr adran hon–

mae "cam-drin" yn golygu–

(a) cam-drin corfforol neu rywiol;

(b) ymddygiad treisgar neu fygythiol;

(c) ymddygiad sy'n rheoli neu'n orfodol;

(d) cam-drin economaidd (yn yr ystyr a roddir yn adran 1(4) Deddf Cam-drin Domestig 2019);

(e) cam-drin seicolegol, emosiynol neu arall;

mae "cam-drin domestig" yn golygu camdriniaeth a gyflawnir gan unigolyn sydd â chysylltiad personol â'r dioddefwr (yn yr ystyr a roddir yn adran 2 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2019);

mae "tenantiaeth gymwys" yn golygu tenantiaeth annedd yn Lloegr sydd yn–

(a) denantiaeth ddiogel heblaw tenantiaeth hyblyg, neu (b) denantiaeth sicr–

(i) nad yw'n denantiaeth fyrddaliad sicr, ac

(ii) a roddir gan ddarparwr tai cymdeithasol cofrestredig preifat, gan y Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol neu gan ymddiriedolaeth tai sy'n elusen.

(5) Ar gyfer dibenion yr adran hon, gall unigolyn fod yn ddioddefwr cam-drin domestig er bod y gamdriniaeth wedi ei chyfeirio at unigolyn arall (er enghraifft, plentyn yr unigolyn)."

(3) Yn adran 81B (achosion lle gellir rhoi tenantiaethau diogel Lloegr yn yr hen ddull)–

(a) yn isadran (2C)–

(i) ar gyfer y diffiniad o "gam-drin" rhodder–

mae "cam-drin" yn golygu–

(a) cam-drin corfforol neu rywiol;

(b) ymddygiad treisgar neu fygythiol;

(c) ymddygiad sy'n rheoli neu'n orfodol;

(d) cam-drin economaidd (yn yr ystyr a roddir yn adran 1(4) Deddf Cam-drin Domestig 2019);

(e) cam-drin seicolegol, emosiynol neu gamdriniaeth arall;";

(ii) ar gyfer y diffiniad o "gam-drin" rhodder–

mae "cam-drin domestig" yn golygu camdriniaeth a gyflawnir gan unigolyn sydd â chysylltiad personol â'r dioddefwr (yn yr ystyr a roddir yn adran 2 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2019);";

(b) ar ôl isadran (2C) rhodder–

"(2D) Ar gyfer dibenion yr adran hon, gall unigolyn fod yn ddioddefwr cam-drin domestig er bod y gamdriniaeth wedi ei chyfeirio at unigolyn arall (er enghraifft, plentyn yr unigolyn)."

*Troseddau a gyflawnir y tu allan i'r Deyrnas Unedig*

**55 Troseddau yn erbyn yr unigolyn a gyflawnir y tu allan i'r Deyrnas Unedig**

(1) Os–

(a) bydd unigolyn sy'n wladolyn y Deyrnas Unedig neu yn breswyliwr y Deyrnas Unedig yn cyflawni gweithred tu allan i'r Deyrnas Unedig,

(b) yw'r weithred yn cyfateb i drosedd dan y gyfraith sydd mewn grym yn y wlad honno, ac

(c) y byddai'r weithred, petai'n cael ei chyflawni yng Nghymru a Lloegr, yn cyfateb i drosedd y mae'r isadran hon yn berthnasol iddi,

mae'r unigolyn yn euog yng Nghymru a Lloegr o'r drosedd honno.

(2) Y troseddau y mae isadran (1) yn berthnasol iddynt yw–

(a) llofruddiaeth;

(b) dynladdiad;

(c) trosedd dan adran 18, 20 neu 47 Deddf Troseddau yn Erbyn yr Unigolyn 1861 (troseddau yn ymwneud â niwed corfforol neu anaf);

(d) trosedd dan adran 23 neu 24 o'r Ddeddf honno (rhoi gwenwyn);

(e) adran 1 Deddf (Cadwraeth) Bywyd Babanod 1929 (dinistrio plant).

(3) Nid yw isadran (1) yn berthnasol pan fyddai unigolyn, yn absenoldeb yr isadran, yn euog o drosedd o lofruddiaeth neu ddynladdiad dan gyfraith Cymru a Lloegr.

(4) Mae gweithred y gellid ei chosbi dan y gyfraith sydd mewn grym mewn unrhyw wlad yn drosedd dan y gyfraith honno ar gyfer dibenion isadran (1)(b) sut bynnag y mae'n cael ei disgrifio yn y gyfraith honno.

(5) Dylid cymryd bod yr amod yn isadran (1)(b) wedi cael ei fodloni oni bai, yn ddim hwyrach nag y bydd rheolau llys yn darparu, bod y diffynnydd yn cyflwyno hysbysiad i'r erlyniad

(a) yn nodi, ar sail y ffeithiau fel y'u honnir o ran y weithred dan sylw, nad yw'r amod ym marn y diffynnydd yn cael ei fodloni,

(b) yn dangos y sail ar gyfer y farn honno, ac

(c) yn gofyn i'r erlyniad brofi ei fod wedi ei fodloni.

(6) Ond gall y llys, os bydd yn meddwl bod hynny'n addas, ganiatáu i'r erlyniad brofi bod yr amod wedi ei fodloni heb gyflwyno hysbysiad dan isadran (5).

(7) Yn Llys y Goron mae'r cwestiwn a yw'r amod wedi ei fodloni i gael ei benderfynu gan y barnwr yn unig.

(8) Yn yr adran hon–

mae "gweithred" yn cynnwys peidio â gweithredu;

mae "gwlad" yn cynnwys tiriogaeth;

Mae "gwladolyn y Deyrnas Unedig" yn golygu unigolyn sydd–

(a) yn ddinesydd Prydeinig, yn ddinesydd tiriogaethau tramor Prydain, yn Wladolyn Prydeinig (Dramor), neu yn ddinesydd Prydeinig Dramor,

(b) yn unigolyn sydd dan Ddeddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981 yn ddinesydd Prydeinig, neu

(c) yn unigolyn Prydeinig a ddiogelir yn ystyr y Ddeddf honno;

mae "preswyliwr y Deyrnas Unedig" yn golygu unigolyn sy'n byw fel arfer yn y Deyrnas Unedig.

**56 Troseddau eraill a gyflawnwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig**

(1) Yn Neddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997, ar ôl adran 4A mewnosoder—

**"4B Troseddau dan adrannau 4 a 4A a gyflawnwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig**

(1) Os–

(a) bydd dull ymddwyn unigolyn yn cyfateb i neu yn cynnwys ymddygiad mewn gwlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig,

(b) y byddai'r ymddygiad yn cyfateb i drosedd dan adran 4 neu 4A petai wedi digwydd yng Nghymru neu Loegr, ac

(c) mae'r unigolyn yn wladolyn neu'n breswyliwr y Deyrnas Unedig, mae'r unigolyn yn euog yng Nghymru a Lloegr o'r drosedd honno.

(2) Yn yr adran hon–

mae "gwlad" yn cynnwys tiriogaeth;

Mae "gwladolyn y Deyrnas Unedig" yn golygu unigolyn sydd–

(a) yn ddinesydd Prydeinig, yn ddinesydd tiriogaethau tramor Prydain, yn Wladolyn Prydeinig (Dramor), neu yn ddinesydd Prydeinig Dramor,

(b) yn unigolyn sydd dan Ddeddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981 yn ddinesydd Prydeinig, neu

(c) yn unigolyn Prydeinig a ddiogelir yn ystyr y Ddeddf honno;

mae "preswyliwr y Deyrnas Unedig" yn golygu unigolyn sy'n byw fel arfer yn y Deyrnas Unedig.

(2) Diwygir Deddf Troseddau Rhywiol 2003 yn unol ag isadrannau (3) a (4).

(3) Yn adran 72 (troseddau y tu allan i'r Deyrnas Unedig)—

(a) yn isadrannau (1)(b) a (2)(c), am "adran" rhodder "isadran";

(b) ar ôl isadran (2) rhodder—"(2A)Os—

(a) bydd unigolyn sy'n wladolyn y Deyrnas Unedig neu yn breswyliwr y Deyrnas Unedig yn cyflawni gweithred tu allan i'r Deyrnas Unedig,

(b) yw'r weithred yn cyfateb i drosedd dan y gyfraith sydd mewn grym yn y wlad honno, ac

(c) y byddai'r weithred, petai'n cael ei chyflawni yng Nghymru a Lloegr, yn cyfateb i drosedd rywiol y mae'r isadran hon yn berthnasol iddi, mae'r unigolyn yn euog yng Nghymru a Lloegr o'r drosedd rywiol honno.";

(c) yn isadran (3)(c), am "adran" rhodder "isadran";

(d) yn isadran (5), ar ôl "(2)" rhodder ", (2A)";

(e) yn isadran (6), ar ôl "(2)(b)" rhodder ", (2A)(b)";

(f) yn isadran (10), yn lle "mae'r adran hon yn berthnasol" rhodder "mae isadrannau (1) i (3) yn berthnasol".

(4) Yn Atodlen 2 (troseddau rhywiol y mae adran 72 yn berthnasol iddynt)—

(a) yn y pennawd, yn lle "adran 72" rhodder "adran 72(1) i (3)";

(b) ym mharagraff 1, yn y geiriau agoriadol, yn lle "adran 72 yn berthnasol" rhodder "isadrannau (1), (2) a (3) o adran 72 yn berthnasol";

(c) ar ôl paragraff 1 rhodder–

"1A Yng nghyswllt Cymru a Lloegr, y troseddau rhywiol y mae isadran (2A) o adran 72 yn berthnasol iddynt yw troseddau dan unrhyw un o adrannau 1 i 4 pan oedd dioddefwr y drosedd yn 18 oed neu hŷn ar adeg y drosedd.";

(d) ym mharagraff 3, ar ôl "paragraff 1" rhodder "neu 1A".

(5) Yn Neddf Troseddau Difrifol 2015, ar ôl adran 76 mewnosoder—

**"76A Troseddau dan adran 76 a gyflawnir y tu allan i'r Deyrnas Unedig**

(1) Os–

(a) yw ymddygiad unigolyn yn cyfateb i neu yn cynnwys ymddygiad mewn gwlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig,

(b) y byddai'r ymddygiad yn cyfateb i drosedd dan adran 76 petai wedi digwydd yng Nghymru neu Loegr, ac

(c) mae'r unigolyn yn wladolyn neu'n breswyliwr y Deyrnas Unedig, mae'r unigolyn yn euog yng Nghymru a Lloegr o'r drosedd honno.

(2) Yn yr adran hon–

mae "gwlad" yn cynnwys tiriogaeth;

Mae "gwladolyn y Deyrnas Unedig" yn golygu unigolyn sydd–

(a) yn ddinesydd Prydeinig, yn ddinesydd tiriogaethau tramor Prydain, yn Wladolyn Prydeinig (Dramor), neu yn ddinesydd Prydeinig Dramor,

(b) yn unigolyn sydd dan Ddeddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981 yn ddinesydd Prydeinig, neu

(c) yn unigolyn Prydeinig a ddiogelir yn ystyr y Ddeddf honno;

mae "preswyliwr y Deyrnas Unedig" yn golygu unigolyn sy'n byw fel arfer yn y Deyrnas Unedig.

*Cyfarwyddyd*

**57 Cyfarwyddyd ynglŷn â gweithredu'r Ddeddf**

(1) Gall yr Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi cyfarwyddyd i pa bynnag unigolyn yng Nghymru a Lloegr y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried ei bod yn briodol am effaith unrhyw ddarpariaethau yn y Ddeddf hon.

(2) Rhaid i unigolyn sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus y rhoddir cyfarwyddyd iddo dan yr adran hon ei ystyried wrth arfer y swyddogaethau hynny.

(3) Gall yr Ysgrifennydd Gwladol o bryd i'w gilydd ddiwygio unrhyw gyfarwyddyd a roddir dan yr adran hon.

(4) Cyn cyhoeddi neu ddiwygio cyfarwyddyd dan yr adran hon rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â–

(a) y Comisiynydd Cam-drin Domestig,

(b) Gweinidogion Cymru, i'r graddau y mae'r cyfarwyddyd i awdurdod datganoledig yng Nghymru, ac

(c) yr unigolion eraill y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried sy'n briodol.

(5) Yn isadran (4)(b) mae i "awdurdod datganoledig yng Nghymru" yr ystyr a roddir gan adran 157A Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

(6) Nid yw adran (4) yn weithredol yng nghyswllt unrhyw ddiwygiadau i gyfarwyddyd a roddwyd dan yr adran hon os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried bod y diwygiadau i'r cyfarwyddyd yn ansylweddol.

(7) Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi–

(a) unrhyw gyfarwyddyd a roddwyd dan yr adran hon, ac

(b) unrhyw adolygiadau i'r cyfarwyddyd hwnnw.

(8) Nid oes unrhyw beth yn yr adran hon yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddyd i unrhyw lys neu dribiwnlys.

*Darpariaethau terfynol*

**58 Grym i wneud darpariaeth drosiannol neu achub**

(1) Gall yr Ysgrifennydd Gwladol trwy reoliadau, wneud darpariaethau trosiannol neu achub y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried eu bod yn briodol yng nghyswllt dod ag unrhyw ddarpariaethau yn y Ddeddf hon i rym.

(2) Gall rheoliadau dan yr adran hon (ymhlith pethau eraill) wneud unrhyw addasiadau i'r darpariaethau yn y Ddeddf hon a ddaeth i rym sy'n ymddangos eu bod yn briodol o ganlyniad i ddarpariaethau eraill y Ddeddf hon nad ydynt wedi dod i rym eto.

**59 Rheoliadau**

(1) Mae unrhyw rym i wneud rheoliadau dan y Ddeddf hon yn un y gellir ei arfer trwy offeryn statudol.

(2) Gall Rheoliadau dan y Ddeddf hon—

(a) wneud darpariaeth wahanol ar gyfer gwahanol ddibenion neu yng nghyswllt ardaloedd gwahanol;

(b) gynnwys darpariaeth achlysurol, ddilynol, drosiannol, drosglwyddol neu i arbed.

(3) Nid yw isadran (2) yn berthnasol i reoliadau dan adran 61 (gweler yn hytrach isadran (4) yr adran honno).

(4) Mae offeryn statudol yn cynnwys rheoliadau dan y Ddeddf hon yn ddarostyngedig i gael ei ddiddymu yn unol â phenderfyniad y naill Dŷ Seneddol neu'r llall, oni bai bod yr offeryn—

(a) yn ofynnol trwy isadran (5) neu unrhyw ddeddfwriaeth i'w rhoi ar ffurf drafft ger bron, ac a gymeradwywyd trwy benderfyniad, pob Tŷ, neu

(b) yn cynnwys dim ond rheoliadau dan adran 33(7), 58 neu 61.

(5) Ni ellir gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys (gyda neu heb ddarpariaethau eraill) rheoliadau dan adran 37(6) oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei roi ger bron, a'i gymeradwyo trwy benderfyniad y ddau Dŷ Seneddol.

**60 Rhychwant**

Mae'r Ddeddf hon yn rhychwantu Cymru a Lloegr.

**61 Dechreuad a theitl byr**

(1) Mae darpariaethau canlynol y Ddeddf hon yn dod i rym ar y diwrnod y bydd y Ddeddf yn cael ei phasio—

(a) Rhan 1;

(b) adrannau 46, 53 a 57;

(c) adrannau 58, 59 a 60 a'r adran hon;

(d) unrhyw rym i wneud rheoliadau dan neu yn rhinwedd y Ddeddf hon.

(2) Daw adrannau 55 a 56 i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis yn dechrau gyda'r diwrnod pan fydd y Ddeddf yn cael ei phasio.

(3) Daw gweddill darpariaethau'r Ddeddf hon i rym yn unol â'r ddarpariaeth yn y rheoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

(4) Gall rheoliadau dan yr adran hon wneud darpariaeth wahanol ar gyfer dibenion gwahanol neu yng nghyswllt ardaloedd gwahanol.

(5) Gall rheoliadau dan yr adran hon sy'n dwyn unrhyw ddarpariaeth o Ran 3 neu adran 52 i rym ar gyfer diben penodol yn unig neu yng nghyswllt ardal benodol

(a) ddarparu i'r ddarpariaeth neu adran honno fod mewn grym ar gyfer y diben hwnnw neu yng nghyswllt yr ardal honno am gyfnod penodedig;

(b) wneud darpariaeth drosiannol neu arbed yn ymwneud â'r ddarpariaeth neu adran honno yn peidio â bod mewn grym ar ddiwedd y cyfnod penodedig.

(6) Gall rheoliadau yn cynnwys darpariaeth a ganiateir gan isadran (5)(a) gael eu diwygio gan reoliadau dilynol dan yr adran hon i barhau unrhyw ddarpariaeth o Ran 3 neu adran 52 mewn grym am y diben penodol neu yng nghyswllt yr ardal benodedig am gyfnod penodedig pellach.

(7) Gellir cyfeirio at y Ddeddf hon fel Deddf Cam-drin Domestig 2019.

Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 08-May-19 12:01:58

# ATODLEN

Adran 36

## DARPARIAETH BELLACH AM REMAND DAN ADRAN 36

*Rhagarweiniol*

1 Mae'r Atodlen hon yn berthnasol pan fydd gan lys rym i roi unigolyn ("P") ar remand dan adran 36.

*Rhoi ar remand yn y ddalfa neu ar fechnïaeth*

2 (1) Gall y llys roi P ar remand yn y ddalfa neu ar fechnïaeth.

(2) Os bydd yn cael ei roi ar remand yn y ddalfa, bydd P i gael ei draddodi i'r ddalfa i'w ddwyn ger bron y llys—

(a) ar ddiwedd cyfnod y remand, neu

(b) ar amser cynharach fel y bydd yn ofynnol gan y llys.

(3) Gall y llys roi P ar fechnïaeth—

(a) trwy gymryd ymrwymiad gan P (gyda mechnïwyr neu heb rai) gydag amodau fel y darperir ym mharagraff 3, neu

(b) trwy osod swm yr ymrwymiad gyda golwg ar iddynt gael eu cymryd ar ôl hynny yn unol â pharagraff 7 ac, yn y cyfamser, traddodi P i'r ddalfa fe y sonnir yn is-baragraff (2).

(4) Pan fydd P yn cael ei ddwyn ger bron y llys ar ôl remand, gall y llys roi P ar remand pellach.

3 (1) Pan fydd P yn cael ei roi ar fechnïaeth, gall y llys gyfarwyddo i'r ymrwymiad gael amod ar gyfer ymddangosiad P—

(a) ger bron y llys ar ddiwedd cyfnod y remand, neu

(b) ar bob amser a lleoliad y gall y gwrandawiad yn ystod cwrs yr achos gael ei ohirio iddo o bryd i'w gilydd.

(2) Pan fydd amod bod P yn ymddangos yn rhan o ymrwymiad fel y sonnir yn is-baragraff (1)(b), dylai gosod amser i P ymddangos nesaf gael ei drin fel remand.

(3) Nid oes dim yn y paragraff hwn yn effeithio ar rym y llys mewn unrhyw wrandawiad dilynol i roi P ar remand o'r newydd.

4 (1) Ni chaiff y llys roi P ar remand am gyfnod sydd yn fwy nag 8 diwrnod clir oni bai—

(a) bod y llys yn gohirio'r achos i'r diben y sonnir amdano ym mharagraff 5(1), neu

(b) bod P yn cael ei roi ar fechnïaeth ac mae P a'r parti arall i'r achos yn rhoi eu cydsyniad.

Mae hyn yn amodol ar baragraff 6.

Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 150 08-May-19 12:01:58

(2) Pan fydd gan y llys rym i roi P ar remand yn y ddalfa, gall P gael ei draddodi i ofal cwnstabl os bydd y remand am gyfnod nad yw'n fwy na 3 diwrnod clir.

*Remand am archwiliad ac adroddiad meddygol*

5 (1) Os oes gan y llys reswm i amau y bydd angen adroddiad meddygol, gall y grym i roi unigolyn ar remand dan adran 36 gael ei arfer ar gyfer galluogi i archwiliad meddygol ddigwydd ac i adroddiad gael ei lunio.

(2) Os bydd yr unigolyn yn cael ei roi ar remand yn y ddalfa i'r diben hwnnw, ni all y gohiriad fod am fwy na 3 wythnos ar y tro.

(3) Os bydd yr unigolyn yn cael ei roi ar remand ar fechnïaeth i'r diben hwnnw, ni all y gohiriad fod am fwy na 4 wythnos ar y tro.

(4) Mae is-baragraff (5) yn berthnasol os oes rheswm dros amau bod unigolyn sydd wedi ei arestio dan warant a roddwyd ar gais a wnaed dan adran 36 yn dioddef o anhwylder meddyliol yn yr ystyr a roddir yn Neddf Iechyd Meddwl 1983.

(5) Mae gan y llys yr un grym i wneud gorchymyn dan adran 35 y Ddeddf honno (remand i ysbyty i gael adroddiad ar gyflwr meddwl y cyhuddedig) ag sydd gan Lys y Goron dan yr adran honno yn achos unigolyn cyhuddedig (yn ystyr yr adran honno).

*Remand pellach*

6 (1) Os yw'r llys yn fodlon bod unigolyn ("P") sydd wedi bod ar remand yn methu ymddangos neu gael ei ddwyn ger bron y llys ar ddiwedd cyfnod y remand oherwydd salwch neu ddamwain, gall y llys roi P ar remand pellach yn absenoldeb P.

(2) Gall y grym dan is-baragraff (1), yn achos unigolyn sydd wedi cael ei roi ar fechnïaeth, gael ei arfer i hwyhau ymrwymiad yr unigolyn ac unrhyw fechnïwyr dros yr unigolyn i amser y nes ymlaen.

(3) Pan fydd unigolyn ("P") wedi cael ei roi ar fechnïaeth i ymddangos ger bron y llys ar unrhyw adeg ac nad oes gan y llys y grym i roi P ar remand dan is-baragraff (1), gall y llys (yn absenoldeb P) hwyhau ymrwymiad P ac unrhyw fechnïwyr dros P i amser yn nes ymlaen.

(4) Dylid trin hwyhau ymrwymiad P fel remand pellach.

(5) Nid yw paragraff 4(1) (cyfyngu remand) yn berthnasol i arfer grymoedd a roddwyd gan y paragraff hwn.

*Gohirio cymryd ymrwymiad*

7 Pan fydd y llys dan baragraff 2(3)(b) yn gosod y swm y bydd y prif barti a'r mechnïwyr, os bydd rhai, yn cael eu rhwymo, gall yr ymrwymiad wedyn gael ei gymryd gan unigolyn a nodir gan reolau'r llys, gyda'r un canlyniadau a phetai wedi cael ei lunio ger bron y llys.

*Gofynion a osodir wrth roi ar fechnïaeth*

8 Gall y llys, wrth roi unigolyn ar fechnïaeth yn unol â'r Atodlen hon, ofyn i'r unigolyn gydymffurfio, cyn ei ryddhau ar fechnïaeth, neu'n hwyrach, gydag unrhyw ofynion sy'n ymddangos i'r llys eu bod yn angenrheidiol i sicrhau na fydd yr unigolyn yn amharu ar dystion nag yn atal cwrs cyfiawnder mewn unrhyw fodd arall.

# ATODIAD E: Nodiadau esboniadol ar gyfer y Mesur Cam-drin Domestig drafft



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 152 08-May-19 12:01:58

# NODIADAU ESBONIADOL MESUR CAM-DRIN DOMESTIG

## Yr hyn y mae'r nodiadau yma yn ei wneud

Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â'r Mesur Cam-drin Domestig a gyhoeddwyd ar ffurf Drafft ar 21 Ionawr 2019 (Bill CP 15).

- Rhoddwyd y Nodiadau Esboniadol yma gan y Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol er mwyn cynorthwyo darllenwyr y Mesur drafft ac i helpu i roi gwybodaeth ar gyfer craffu cyn-deddfu ar y Mesur drafft. Nid ydynt yn ffurfio rhan o'r Mesur drafft ac nid ydynt wedi eu cymeradwyo gan y Senedd.
- Mae'r Nodiadau Esboniadol yma yn esbonio beth fydd pob rhan o'r Mesur drafft yn ei olygu yn ymarferol; yn rhoi gwybodaeth gefndirol am ddatblygu'r polisi; ac yn rhoi gwybodaeth ychwanegol ar sut y bydd y Mesur drafft yn effeithio ar y ddeddfwriaeth bresennol yn y maes hwn.
- Byddai'n well darllen y Nodiadau Esboniadol yma ochr yn ochr â'r Mesur drafft. Nid ydynt, ac ni fwriadwyd iddynt fod, yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Mesur drafft.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 153 08-May-19 12:01:58

## Tabl Cynnwys


| Pwnc | Tudalen o'r Nodiadau hyn |
|---|---|
| **Golwg Gyffredinol ar y Mesur Drafft** | **3** |
| **Cefndir polisi** | **3** |
| Gorchmynion diogelu sifil | 5 |
| Croesholi mewn achosion llys teulu | 6 |
| Camau arbennig | 6 |
| Profion polygraff | 8 |
| Y Cynllun Datgelu Trais Domestig | 9 |
| Tenantiaethau diogel | 10 |
| Confensiwn Istanbul – awdurdodaeth tu hwnt i diriogaeth | 10 |
| **Cefndir cyfreithiol** | **11** |
| **Rhychwant tiriogaethol a'i weithrediad** | **12** |
| **Sylwadau ar ddarpariaethau'r Mesur** | **14** |
| Rhan 1: Diffiniad o "gam-drin domestig" | 14 |
| Cymal 1: Diffiniad o "gam-drin domestig" | 14 |
| Cymal 2: Diffiniad o "gysylltiad personol" | 14 |
| Rhan 2: Y Comisiynydd Cam-drin Domestig | 15 |
| Cymalau 3 i 5: Comisiynydd Cam-drin Domestig | 15 |
| Cymal 6: Swyddogaethau Cyffredinol y Comisiynydd | 15 |
| Cymal 7: Adroddiadau | 16 |
| Cymal 8: Cyngor a chymorth | 16 |
| Cymal 9: Grymoedd cysylltiedig | 17 |
| Cymal 10: Bwrdd Ymgynghorol | 17 |
| Cymal 11: Cynlluniau strategol | 17 |
| Cymal 12: Adroddiadau blynyddol | 17 |
| Cymal 13: Dyletswydd i gydweithredu â'r Comisiynydd | 17 |
| Cymal 14: Dyletswydd i ymateb i argymhellion y Comisiynydd | 18 |
| Cymal 15: Datgelu gwybodaeth | 18 |
| Cymal 16: Cyfyngu ar arfer swyddogaethau mewn achosion unigol | 18 |
| Cymal 17: Diwygiadau yn ymwneud â'r Comisiynydd | 19 |
| Rhan 3: Grymoedd i ymdrin â cham-drin domestig | 19 |
| Cymal 18: Grym i roi hysbysiad diogelu cam-drin domestig | 19 |
| Cymal 19: Darpariaeth y gellir ei gwneud trwy hysbysiadau | 19 |
| Cymal 20: Materion i'w hystyried cyn rhoi hysbysiad | 20 |
| Cymal 21: Gofynion pellach yng nghyswllt hysbysiadau | 20 |
| Cymal 22: Torri hysbysiad | 20 |
| Cymal 23: Rhoi unigolyn a arestiwyd am dorri hysbysiad ar remand | 21 |
| Cymal 24: Ystyr "gorchymyn diogelu cam-drin domestig" | 21 |
| Cymal 25: Gorchmynion diogelu cam-drin domestig wrth wneud cais | 21 |
| Cymal 26: Ceisiadau pan fydd hysbysiad diogelu cam-drin domestig wedi cael ei roi | 22 |
| Cymal 27: Gorchmynion diogelu cam-drin domestig heblaw trwy gais | 22 |
| Cymal 28: Amodau i wneud gorchymyn | 23 |
| Cymal 29: Materion i'w hystyried cyn rhoi gorchymyn | 23 |


*Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â'r Mesur Cam-drin Domestig drafft fel y'i cyhoeddwyd ar 21 Ionawr 2019*

Cymal 30: Rhoi gorchmynion heb hysbysiad 23
Cymal 31: Darpariaeth y gellir ei gwneud trwy orchmynion 24
Cymal 32: Darpariaeth bellach am ofynion y gellir eu gosod gan orchmynion 24
Cymal 33: Darpariaeth bellach ynglŷn â gofynion monitro electronig 25
Cymal 34: Hyd a gweithrediad daearyddol gorchmynion 25
Cymal 35: Torri gorchymyn 26
Cymal 36: Arestio am dorri gorchymyn 26
Atodlen: Darpariaeth bellach am remand dan adran 36 26
Cymal 37: Gofynion hysbysu 27
Cymal 38: Darpariaeth bellach am hysbysu dan adran 37 27
Cymal 39: Troseddau yn gysylltiedig â hysbysu 28
Cymal 40: Amrywio a diddymu gorchmynion 28
Cymal 41: Amrywio a diddymu: ategol 29
Cymal 42: Apeliadau 29
Cymal 43: Natur rhai achosion dan y Rhan hon 29
Cymal 44: Camau arbennig i dystion 30
Cymal 45: Data o fonitro electronig: cod ymarfer 30
Cymal 46: Cyfarwyddyd 30
Cymal 47: Diwygio Deddf Plant 1989 30
Cymal 48: Diddymu darpariaethau am hysbysiadau a gorchmynion diogelu trais domestig 31
Cymal 49: Dehongli Rhan 3 31

Rhan 4: Diogelu dioddefwyr a thystion yn y llys 31

Cymal 50: Gwahardd croesholi yn bersonol mewn achosion llys teulu 31
Adran Newydd 31Q – Gwahardd croesholi yn bersonol: rhagarweiniol 31
Adran Newydd 31R – Gwahardd croesholi yn bersonol: dioddefwyr troseddau 31
Adran Newydd 31S – Gwahardd croesholi yn bersonol: unigolion a ddiogelir gan waharddebau ac ati 32
Adran Newydd 31T – Gwahardd croesholi yn bersonol: achosion eraill 32
Adran Newydd 31U – Cyfarwyddiadau dan adran 31T: ategol 33
Adran Newydd 31V – Dewisiadau heblaw croesholi yn bersonol 33
Adran Newydd 31W – Costau cynrychiolwyr cyfreithiol a benodwyd dan adran 31V 33
Adran Newydd 31X – Rheoliadau dan Ran 4B 34
Cymal 51: Cyfarwyddiadau camau arbennig mewn achosion yn ymwneud â cham-drin domestig 34

Rhan 5: Amrywiol a chyffredinol 34

Cymal 52: Amodau polygraff i droseddwyr a ryddheir ar drwydded 34
Cymal 53: Cyfarwyddyd ynglŷn â datgelu gwybodaeth gan luoedd heddlu 35
Cymal 54: Rhoi tenantiaethau diogel mewn achosion o gam-drin domestig 36
Cymal 55: Troseddau yn erbyn yr unigolyn a gyflawnir y tu allan i'r Deyrnas Unedig 37
Cymal 56: Troseddau eraill a gyflawnwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig 37
Cymal 57: Cyfarwyddyd ynglŷn â gweithrediad y Ddeddf 38

**Dechreuad 38**

**Oblygiadau ariannol y Mesur 38**

**Cymeradwyaeth Seneddol am gostau ariannol neu daliadau a osodir 39**

**Cydnawsedd a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol 39**

**Dogfennau cysylltiedig 39**

Atodiad A – Geirfa 40

Atodiad B – Rhychwant tiriogaethol a'i weithrediad yn y Deyrnas Unedig 41

*Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â'r Mesur Cam-drin Domestig drafft fel y'i cyhoeddwyd ar 21 Ionawr 2019*



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 155 08-May-19 12:01:58

# Golwg Gyffredinol ar y Mesur Drafft

1 Ym Mehefin 2017, etholwyd y Llywodraeth gydag ymrwymiad maniffesto i gyflawni "diogeliad i ddioddefwyr cam-drin domestig yn y gyfraith trwy Fesur Trais a Cham-drin Domestig newydd arloesol". Roedd y maniffesto yn cynnwys ymrwymiadau penodol, gan gynnwys "cynnwys diffiniad o drais a cham-drin domestig yn y gyfraith" a "chreu comisiynydd trais a cham-drin domestig dan y gyfraith". Mae'r Mesur drafft yn cynnwys nifer o ddarpariaethau i gefnogi cyflawni'r ymrwymiadau hynny.

2 Diben y Mesur drafft yw cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gam-drin domestig a'i effaith ar ddioddefwyr, gwella effeithiolrwydd y system gyfiawnder ymhellach wrth ddarparu diogeliad i ddioddefwyr cam-drin domestig a dwyn y cyflawnwyr o flaen eu gwell, a chryfhau'r gefnogaeth i ddioddefwyr cam-drin a roddir gan asiantaethau statudol eraill.

3 Mae'r Mesur drafft mewn pum Rhan.

4 Mae Rhan 1 yn darparu ar gyfer diffiniad statudol o gam-drin domestig sy'n sail i ddarpariaethau eraill yn y Mesur drafft.

5 Mae Rhan 2 yn creu swydd Comisiynydd Cam-drin Domestig, yn nodi swyddogaethau a grymoedd y Comisiynydd ac yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus penodol i gydweithio gyda'r Comisiynydd.

6 Mae Rhan 3 yn darparu ar gyfer trefn gorchmynion ataliol sifil newydd - yr Hysbysiad Diogelu Cam-drin Domestig ("DAPN") a'r Gorchymyn Diogelu Cam-drin Domestig ("DAPO").

7 Mae Rhan 4 yn gwahardd cyflawnwyr rhai troseddau rhag croesholi eu dioddefwyr yn bersonol yn y llysoedd teulu; yn rhoi grym i lysoedd teulu mewn rhai amgylchiadau i benodi cynrychiolydd cyfreithiol i gynnal y croesholi a ran yr unigolyn a waherddir; ac yn rhoi cymhwyster awtomatig i ddioddefwyr cam-drin domestig ar gyfer camau arbennig yn y llysoedd troseddol.

8 Mae Rhan 5 yn galluogi i droseddwyr cam-drin domestig fod yn ddarostyngedig i brofion polygraff fel amod eu trwydded yn dilyn eu rhyddhau o'r ddalfa; yn rhoi'r cyfarwyddyd sy'n cefnogi'r Cynllun Datgelu Cam-drin Domestig ar sylfaen statudol; yn sicrhau bod unigolion sydd ar denantiaethau tymor penodol awdurdod lleol yn cael tenantiaeth arall o'r un math pan fydd angen iddynt adael, neu y byddant wedi gadael eu cartref i ffoi rhag cam-drin domestig ac yn cael eu hailgartrefu gan awdurdod lleol; ac yn ymestyn awdurdodaeth tu hwnt i diriogaeth y llysoedd troseddol yng Nghymru a Lloegr i ragor o droseddau treisgar a rhywiol. Mae'r Rhan hon hefyd yn rhoi grym i'r Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddyd statudol i ymarferwyr am effaith y darpariaethau yn y Mesur drafft.

# Cefndir polisi

9 Mae cam-drin domestig yn parhau i fod yn un o'r troseddau amlycaf yng Nghymru a Lloegr. Amcangyfrifir bod dwy filiwn o oedolion 16 i 59 oed wedi profi cam-drin domestig yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym Mawrth 2018, dwy ran o dair ohonynt yn fenywod.[1] Cofnododd yr heddlu 1.2 miliwn o ddigwyddiadau yn gysylltiedig â cham-drin domestig yn yr un cyfnod ac o'r rhain, cofnodwyd 50% fel troseddau yn gysylltiedig â cham-drin domestig; roedd troseddau cam-drin domestig a gofnodwyd gan yr heddlu yn cyfrif am 33% o'r holl droseddau treisgar.

[1] Domestic abuse in England and Wales: year ending March 2018 – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 156 08-May-19 12:01:58

Cofnodwyd 400 lladdiad domestig gan yr heddlu rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2017; roedd 293 o'r dioddefwyr yn fenywod.[2]

10 Nid yw cam-drin domestig yn cael ei gyfyngu i drais corfforol. Gall gynnwys patrymau sy'n cael eu hailadrodd o ymddygiad sy'n cam-drin i gynnal grym a rheolaeth mewn perthynas. Mae'r diffiniad traws-lywodraethol anstatudol presennol o drais a cham-drin domestig yn cydnabod hyn ac yn diffinio cam-drin domestig fel:

> "Unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad rheolaethol, gorfodol, bygythiol, trais neu gamdriniaeth rhwng y rhai sy'n 16 oed neu hŷn neu sydd wedi bod yn bartneriaid agos neu aelodau'r teulu waeth beth yw eu rhyw neu rywioldeb. Gall gwmpasu, ond nid yw wedi ei gyfyngu, i'r mathau canlynol o gam-drin:
>
> Seicolegol;
>
> corfforol;
>
> rhywiol;
>
> ariannol;
>
> emosiynol.
>
> **Ymddygiad sy'n rheoli**
>
> Mae ymddygiad sy'n rheoli yn amrywiaeth o weithredoedd a gynlluniwyd i wneud rhywun yn israddol ac/neu yn ddibynnol trwy eu hynysu rhag ffynonellau cefnogaeth, ymelwa ar eu hadnoddau a'u gallu er elw personol, eu hamddifadu o'r moddion angenrheidiol ar gyfer annibyniaeth, gwrthsefyll a dianc ac yn rheoli eu hymddygiad o ddydd i ddydd.
>
> **Ymddygiad gorfodol**
>
> Mae ymddygiad gorfodol yn weithred neu batrwm o weithredoedd o ymosodiadau, bygythiadau, bychanu a brawychu neu gam-drin arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi, neu godi ofn ar eu dioddefwr."

11 O 8 Mawrth hyd 31 Mai 2018 rhedodd y Llywodraeth ymgynghoriad cyhoeddus ar ddull y Llywodraeth o daclo cam-drin domestig. Nod y cynigion yn yr ymgynghoriad yw atal cam-drin domestig trwy herio pa mor dderbyniol yw camdriniaeth ac ymdrin â'r agweddau a'r normau sylfaenol sy'n ei dragwyddoli. Gofynnodd yr ymgynghoriad gwestiynau dan bedair prif thema gyda'r nod canolog o atal yn rhedeg trwyddynt i gyd:

- **Hyrwyddo ymwybyddiaeth** – i roi cam-drin domestig ar ben agenda pawb a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol ohono;

[2] Domestic abuse in England and Wales: year ending March 2018 – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (tabl 15).



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 157 08-May-19 12:01:59

- **Diogelu a chefnogi** – i wella diogelwch dioddefwyr a'r gefnogaeth y maent yn ei chael;
- **Erlid a diogelu** – i ddarparu ymateb effeithiol i gyflawnwyr o'r ymateb cyntaf gan asiantaeth hyd at gollfarnu a rheolaeth troseddwyr, gan gynnwys adsefydlu;
- **Gwella perfformiad** – i yrru cysondeb a gwell perfformiad wrth ymateb i gam-drin domestig ar draws yr holl ardaloedd lleol, asiantaethau a sectorau.

12 Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar nifer o gamau deddfwriaethol a heb fod yn ddeddfwriaethol dan bob un o'r themâu hyn. Roedd y mesurau deddfwriaethol, a ymgorfforir yn awr yn y Mesur drafft hwn, yn cynnwys:

- cyflwyno diffiniad statudol newydd o gam-drin domestig (Rhan 1);
- sefydlu Comisiynydd Cam-drin Domestig yn gyfreithiol (Rhan 2);
- creu hysbysiad a gorchymyn diogelu cam-drin domestig newydd (Rhan 3);
- gwahardd cyflawnwyr cam-drin domestig rhag croesholi eu dioddefwyr mewn achosion yn y llys teulu (Cymal 50);
- creu tybiaeth gyfreithiol bod dioddefwyr cam-drin domestig i gael eu trin fel rhai sy'n gymwys am gamau arbennig mewn achosion cyfreithiol (Cymal 51);
- rhoi'r cyfarwyddyd sy'n sail i'r Cynllun Datgelu Trais Domestig ar sail statudol (Cymal 53);
- ymestyn awdurdodaeth tu hwnt i diriogaeth y llysoedd troseddol yng Nghymru a Lloegr i droseddau treisgar a rhywiol pellach (Cymalau 55 a 56).

13 Derbyniwyd rhyw 3,150 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Yn ei hymateb, a gyhoeddwyd yn Ionawr 2019 ochr yn ochr â'r Mesur drafft, ymrwymodd y Llywodraeth i ddeddfu i gyflwyno'r mesurau hyn.

## Gorchmynion diogelu sifil

14 Mae adrannau 24 i 33 Deddf Trosedd a Diogelwch 2010 yn gwneud darpariaeth ar gyfer hysbysiadau diogelu trais domestig ("DVPN") a gorchmynion diogelu trais domestig ("DVPO"). Cawsant eu gweithredu ar draws Cymru a Lloegr o 8 Mawrth 2014 yn dilyn cynllun treialu am flwyddyn yn ardaloedd llu heddlu Gorllewin Mersia, Wiltshire a Manceinion Fwyaf.

15 Mae DVPN yn hysbysiad peidio ag ymosod a throi allan argyfwng y gall yr heddlu ei roi, wth fynd i ddigwyddiad cam-drin domestig, i gyflawnwr. Oherwydd bod y DVPN yn hysbysiad a roddir gan yr heddlu, mae mewn grym o'r adeg y mae'n cael ei roi, a thrwy hynny mae'n rhoi'r gefnogaeth sydd ar y dioddefwr ei hangen ar unwaith mewn sefyllfa o'r fath. O fewn 48 awr o gyflwyno'r DVPN i'r cyflawnwr, rhaid i gais gan yr heddlu i lys ynadon am DVPO gael ei glywed. Gall DVPO atal y cyflawnwr rhag dychwelyd i breswylfa a rhag cael cyswllt â'r dioddefwr am hyd at 28 diwrnod. Bydd hyn yn rhoi rhywfaint o gyfle i'r dioddefwr ystyried ei ddewisiadau gyda help asiantaeth gefnogi. Mae'r DVPN a'r DVPO yn cynnwys amod yn gwahardd y cyflawnwr rhag ymosod ar y dioddefwr. Mae'r Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi cyfarwyddyd i luoedd heddlu ar weithredu DVPN a DVPO.

16 Yn ychwanegol at y DVPN a'r DVPO gall gorchmynion sifil eraill, gan gynnwys gorchmynion atal (fel y darperir ar ei gyfer gan adran 5 Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997), gorchmynion atal ymosod (Rhan IV o Ddeddf Cyfraith Teulu 1996) a gorchmynion daliadaeth (Rhan IV o Ddeddf Cyfraith Teulu 1996), gael eu gwneud mewn amgylchiadau amrywiol.

Mae'r gorchmynion yma yn amrywio o ran pwy all wneud cais amdanynt, y llysoedd lle gellir gwneud y gorchmynion, yr amodau all fod ynghlwm â gorchymyn a chanlyniadau torri'r amodau. Gall hyn arwain at ddryswch i ddioddefwyr ac ymarferwyr mewn achosion cam-drin domestig a phroblemau o ran gorfodi.

17 Roedd ymgynghoriad y Llywodraeth yn cynnig creu DAPN newydd, y gallai'r heddlu ei roi, a DAPO, y gallai'r llysoedd ei wneud mewn ystod eang o amgylchiadau yn gysylltiedig â cham-drin domestig (nid mewn achosion yn ymwneud â thrais neu fygythiad o drais yn unig). Mae Rhan 3 y Mesur drafft yn rhoi darpariaeth ar gyfer DAPN, wedi ei fodelu yn gaeth ar y DVPN presennol, ac ar gyfer y DAPO fydd â'r nodweddion allweddol canlynol:

- ei fod ar gael mewn amrywiaeth o lysoedd o gael cais gan yr heddlu, y dioddefwr, unigolion neu gyrff a nodir yn y rheoliadau, neu unigolyn arall gyda chaniatâd y llys;
- ei fod ar gael i ddiogelu unigolyn rhag cam-drin domestig, neu'r risg o gam-drin domestig, wedi ei gyflawni gan unigolyn arall sydd â chysylltiad personol ag ef.
- yn galluogi gosod unrhyw ofynion (gan gynnwys, gwaharddiadau a chyfyngiadau) ar y cyflawnwr sy'n angenrheidiol i ddiogelu'r dioddefwr; ac
- y bydd torri DAPO yn drosedd, y gellir ei chosbi â hyd at bum mlynedd o garchar (neu fel dirmyg llys, fel dewis arall).

## Croesholi mewn achosion llys teulu

18 Nid oes gan lysoedd sy'n gwrando ar achosion teuluol rym penodol i atal cyflawnwr camdriniaeth honedig rhag croesholi ei ddioddefwr honedig yn bersonol, ac nid oes ganddynt y grym i orchymyn bod eiriolwr yn cael ei benodi (a'i ariannu) i ofyn cwestiynau ar ran ymgyfreithiwr yn bersonol.

19 Mae'r ffaith ei bod yn bosibl ar hyn o bryd i gyflawnwyr (honedig neu fel arall) groesholi eu dioddefwyr yn bersonol mewn achosion teuluol wedi denu beirniadaeth, gan gynnwys gan y Grŵp Trawsbleidiol ar Drais Domestig.[3] Mae'n cael ei dderbyn yn gyffredinol y gall croesholi o'r fath achosi gofid sylweddol i'r dioddefwr ac, fel y dywedodd Llywydd yr Adran Teuluoedd, "gall weithiau gyfateb, ac yn hollol fwriadol weithiau, i barhau'r gamdriniaeth".[4] Mae cymal 50 yn atal croesholi yn bersonol mewn rhai amgylchiadau mewn achosion teulu ac mae'n darparu i'r llys, pan fydd yn cael ei hystyried yn angenrheidiol er budd cyfiawnder, benodi cynrychiolydd cyfreithiol i gynnal y croesholi ar ran y parti a waharddwyd. Mae'r cymal hefyd yn caniatáu i'r Arglwydd Ganghellor wneud rheoliadau parthed talu i gynrychiolwyr cyfreithiol dan yr amgylchiadau hyn.

## Camau arbennig

20 Mae llawer o dystion yn profi straen ac ofn yn ystod yr ymchwilio i drosedd a phan fyddant yn mynd i'r llys a rhoi tystiolaeth.

[3] Domestic Abuse, Child Contact and the Family Courts

[4] Darlith flynyddol Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc a draddodwyd gan Syr James Munby, Llywydd Adran Deuluol Coleg y Gyfraith, Prifysgol Abertawe ar 25 Mehefin 2015



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 159 08-May-19 12:01:59

Gall y straen effeithio ar ansawdd y cyfathrebu gyda, a gan, dystion o bob oed. Gall rhai tystion gael anhawster neilltuol wrth fynd i'r llys a rhoi tystiolaeth oherwydd eu hoedran, eu hamgylchiadau personol, ofn cael eu bygwth neu oherwydd eu hanghenion penodol. Mewn amgylchiadau o'r fath, pan fydd tystion yn cael eu hystyried yn fregus neu dan fygythiad, gall "camau arbennig" wella ansawdd eu profiad trwy eu helpu i roi eu "tystiolaeth orau".

21 Cyflwynodd Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 ("YJCEA 1999") ystod o gamau y gellir eu defnyddio i hwyluso casglu a rhoi tystiolaeth i dystion bregus a than fygythiad mewn achosion troseddol. Gelwir y camau gyda'i gilydd yn "gamau arbennig".

22 Mae camau arbennig yn gyfres o ddarpariaethau sy'n helpu tystion bregus a dan fygythiad i roi eu tystiolaeth orau i'r llys a helpu i liniaru ychydig ar y straen sy'n gysylltiedig â rhoi tystiolaeth. Mae camau arbennig dan adrannau 23 i 30 YJCEA 1999 yn berthnasol i dystion yr amddiffyn a'r erlyniad ond nid i'r diffynnydd a'r llys sy'n penderfynu arnynt.

23 Bydd tyst bregus neu dan fygythiad yn gymwys i gael camau arbennig dan adrannau 23 i 28 YJCEA 1999. Dim ond ar gyfer tystion bregus y mae defnyddio cyfryngwyr neu gymorth i gyfathrebu dan adrannau 29 a 30 YJCEA 1999; hynny yw tystion sydd angen cymorth ar sail oedran neu anabledd.

24 Mae tystion dan fygythiad yn gymwys i gael camau arbennig trwy gyfrwng adran 17 YJCEA 1999 ar y sail eu bod yn dioddef o ofn neu ofid yng nghyswllt rhoi tystiolaeth yn yr achos. Tybir yn awtomatig bod achwynwyr mewn troseddau rhywiol a throseddau caethwasiaeth modern, trwy adran 17(4), yn disgyn i'r categori hwn oni bai eu bod yn dymuno peidio. Tybir yn awtomatig hefyd bod tystion i rai troseddau yn ymwneud â gynnau a chyllyll hefyd yn disgyn i'r categori hwn oni bai eu bod yn dymuno peidio. Gall dioddefwr trosedd yn gysylltiedig â cham-drin domestig fod yn gymwys am gamau arbennig ar y sail bod arno ofn neu ei fod yn gofidio am roi tystiolaeth, ond nid ydynt ar hyn o bryd yn disgyn i'r categori hwn yn awtomatig. Mae Cymal 51 yn rhoi dioddefwyr cam-drin domestig yn yr un sefyllfa â dioddefwr troseddau rhywiol a throseddau caethwasiaeth modern a thystion i rai troseddau yn ymwneud â gynnau a chyllyll.

25 Nid yw bod yn gymwys am gamau arbennig yn golygu y bydd y llys yn eu rhoi yn awtomatig. Rhaid i'r llys ei fodloni ei hun bod y camau arbennig, neu gyfuniad o gamau arbennig yn debygol o sicrhau bod tystiolaeth y tyst o'r ansawdd gorau cyn caniatáu cais.

26 Bydd dioddefwr trosedd yn gysylltiedig â cham-drin domestig yn gymwys ar gyfer camau arbennig fel tyst dan fygythiad a, gyda chytundeb y llys, gall hyn gynnwys un o'r rhain neu gyfuniad ohonynt:

- **sgriniau** (ar gael i dystion bregus a dan fygythiad): gall sgriniau fod ar gael i guddio'r tyst oddi wrth y diffynnydd (adran 23 YJCEA 1999);

- **cyswllt byw** (ar gael i dystion bregus a dan fygythiad): mae cyswllt byw yn galluogi tyst i roi tystiolaeth yn ystod yr achos o'r tu allan i'r llys trwy gyswllt teledu ag ystafell y llys. Gall y tyst fod naill ai yn adeilad y llys neu mewn lleoliad addas tu allan i'r llys (adran 24 YJCEA 1999);

- **tystiolaeth yn cael ei rhoi yn breifat** (ar gael i rai tystion bregus a dan fygythiad): cau aelodau o'r cyhoedd a'r wasg allan o'r llys (ac eithrio un unigolyn a enwir i gynrychioli'r wasg) mewn achosion yn ymwneud â throseddau rhywiol neu fygythiadau gan rywun heblaw'r cyhuddedig (adran 25 YJCEA 1999);

- **barnwyr a bargyfreithwyr yn tynnu wigiau a gynau** (ar gael i dystion bregus a dan fygythiad yn Llys y Goron) (adran 26 YJCEA 1999);

- **cyfweliad ar fideo** (ar gael i dystion bregus a dan fygythiad): gall cyfweliad wedi ei recordio ar fideo gyda thyst bregus neu dan fygythiad cyn yr achos gael ei dderbyn gan y llys fel prif dystiolaeth y tyst (adran 27 YJCEA 1999) ond dim ond os yw'r tyst ar gael i'w groesholi yn yr achos. Ar gyfer achwynwyr sy'n oedolion mewn achosion troseddau rhywiol yn Llys y Goron, cymerir yn awtomatig y bydd cyfweliad ar fideo yn dderbyniol oni bai na fyddai hyn er budd cyfiawnder neu na fyddai'n sicrhau bod tystiolaeth yr achwynydd o'r ansawdd gorau (adran 22A YJCEA 1999);

- **croesholi wedi ei recordio ymlaen llaw** (heb ei gychwyn ar gyfer unrhyw grŵp o dystion dan fygythiad[5]) (adran 28 YJCEA 1999), mae'r ddarpariaeth hon yn caniatáu i'r tyst recordio'r croesholi cyn yr achos ac yna mae'r recordiad yn cael ei chwarae yn ystod yr achos yn hytrach na thystiolaeth fyw.

## Profion polygraff

27 Mae adrannau 28 i 30 Deddf Rheoli Troseddwyr 2007 ("Deddf 2007") yn gwneud darpariaeth ar gyfer profion polygraff ar rai troseddwyr rhyw fel amod i'w trwydded yn dilyn eu rhyddhau o'r ddalfa. Byddai'n ofynnol i unrhyw droseddwr fyddai'n cael ei ryddhau o'r ddalfa gydag amod o'r fath gymryd profion polygraff. Dyfais yw'r polygraff sy'n mesur rhai ymatebion ffisiolegol fel cyfradd y galon, cyfradd anadlu, pwysedd gwaed a gwrthedd y croen, newidiadau y credir eu bod yn arwydd bod yr unigolyn dan sylw yn dweud celwydd. Mae "amod polygraff" yn ei gwneud yn ofynnol i'r troseddwr, wrth ei ryddhau, gymryd rhan mewn "sesiynau polygraff" cyson, fel y bydd yn cael ei gyfarwyddo gan ei reolwr troseddwyr. Bydd gosod yr amod yn caniatáu i gydymffurfiad ag amodau eraill y drwydded gael eu monitro ac mae'n rhoi gwybodaeth am ymddygiad y troseddwr a fydd yn gwella effeithiolrwydd y modd y mae troseddwr yn cael ei reoli yn ystod cyfnod y drwydded. Mae Adran 30 o Ddeddf 2007 yn ei gwneud yn glir na all canlyniadau prawf polygraff (na lwyddwyd ynddo) gael eu defnyddio mewn llysoedd troseddol na bod yn sail i alw yn ôl.

[5] Mae croesholi ac ail-holi wedi ei recordio ymlaen llaw dan adran 28 YJCEA 1999 wedi bod yn digwydd yn Llysoedd y Goron yn Leeds, Lerpwl a Kingston-Upon-Thames i dystion ag anabledd a thystion dan 16 oed ers Rhagfyr 2013. Estynnwyd hyn i dystion 16 ac 17 oed o Ionawr 2017. Bwriedir hefyd ddod ag adran 28 i rym i dystion sy'n achwynwyr troseddau rhywiol a throseddau caethwasiaeth fodern yn y tri llys hyn ac i dystion bregus mewn Llysoedd y Goron eraill ar draws Cymru a Lloegr.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 161 08-May-19 12:01:59

Mae profion polygraff ar y troseddwyr rhywiol mwyaf difrifol wedi bod yn weithredol ar draws Cymru a Lloegr i gyd ers Ionawr 2014. Mae Cymal 52 yn ymestyn darpariaethau Deddf 2007 i gynnwys troseddwyr cam-drin domestig.

## Y Cynllun Datgelu Trais Domestig

28 Gweithredwyd y Cynllun Datgelu Trais Domestig, y cyfeirir ato yn aml fel "Clare's Law"[6], ar draws lluoedd heddlu Cymru a Lloegr ym Mawrth 2014.

29 Mae dwy elfen i'r cynllun: yr "hawl i ofyn" a'r "hawl i wybod". Dan y cynllun gall unigolyn neu drydydd parti perthnasol ofyn i'r heddlu wirio a oes gan bartner presennol neu gynbartner orffennol treisgar. Dyma'r "hawl i ofyn". Os bydd cofnodion yn dangos y gall unigolyn fod mewn risg o gam-drin domestig gan bartner neu gynbartner, bydd yr heddlu yn ystyried datgelu'r wybodaeth.

30 Mae'r "hawl i wybod" yn galluogi'r heddlu i ddatgelu os byddant yn derbyn gwybodaeth anuniongyrchol am y partner presennol neu gynbartner a all gael effaith ar ddiogelwch yr unigolyn, megis gwybodaeth yn deillio o ymchwiliad troseddol, trwy ymwneud asiantaeth statudol neu trydydd sector, neu o ffynhonnell cudd-wybodaeth arall sydd gan yr heddlu.

31 Gall datgeliad gael ei wneud yn gyfreithlon gan yr heddlu dan y cynllun os bydd y datgeliad yn seiliedig ar rymoedd cyfraith gyffredin yr heddlu i ddatgelu gwybodaeth pan fydd yn angenrheidiol i atal trosedd ac os bydd y datgeliad hefyd yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data a Deddf Hawliau Dynol 1998. Rhaid iddi fod yn rhesymol a chymesur i'r heddlu ddatgelu'r wybodaeth ar sail risg gredadwy o drais neu niwed.

32 Am y flwyddyn yn dod i ben ym Mehefin 2017, roedd 5,445 a 2,438 o geisiadau dan yr hawl i wybod a'r hawl i ofyn yn eu tro. O'r rhain, roedd 2,238 a 972 datgeliad yn eu tro (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

33 Cyhoeddwyd cyfarwyddyd anstatudol i'r heddlu ar weithrediad y cynllun gyntaf gan y Swyddfa Gartref ym mis Gorffennaf 2012, ac, yn dilyn adroddiad asesu o'r cynllun peilot ym mis Tachwedd 2013, fe'i diweddarwyd yn Rhagfyr 2016. Diben y cyfarwyddyd yw cefnogi cyflawni'r cynllun a chynorthwyo swyddogion rheng flaen a'r rhai sy'n gweithio ym maes diogelu'r cyhoedd i weithredu'r cynllun yn ymarferol. Roedd y cyfarwyddyd wedi ei ddiweddaru yn rhoi ystyriaeth i ganfyddiadau asesiad gan y Swyddfa Gartref o weithrediad y cynllun yn y flwyddyn gyntaf.

34 Daeth adroddiadau thematig Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, a gyhoeddwyd yn 2015 a 2017, i'r casgliad bod "cyfleoedd yn cael eu colli [trwy'r cynllun] i roi gwell cefnogaeth a diogeliad i ddioddefwyr". Roedd y ddau adroddiad yn nodi anghysondebau o ran y defnydd o'r cynllun gan luoedd heddlu ac yn nodi'r nifer isel o ddatgeliadau.

[6] Enwyd ar ôl Clare Wood a lofruddiwyd yn 2009 gan ei chynbartner, George Appleton, oedd â record o drais yn erbyn menywod

Daeth adroddiad 2017 i'r casgliad ei bod "yn bwysig i aelodau o'r cyhoedd a swyddogion fod yn ymwybodol o ddiben y cynllun a'r broses ymgeisio". Nod y Llywodraeth yw gyrru mwy o ddefnydd a gweithrediad mwy cyson ar y cynllun trwy roi'r cyfarwyddyd sy'n sail i'r cynllun ar sail statudol a rhoi dyletswydd ar yr heddlu i ystyried y cyfarwyddyd (gweler Cymal 53).

## Tenantiaethau diogel

35 Dan Ddeddf Tai 1985 ("Deddf 1985"), gall landlordiaid awdurdod lleol roi naill ai tenantiaethau cyfnodol diogel neu denantiaethau hyblyg diogel i'w tenantiaid. Nid oes dyddiad dod i ben wedi ei osod ar denantiaethau diogel cyfnodol a dim ond trwy gael gorchymyn meddiant ar un o'r seiliau meddiant a nodir yn Atodlen 2 i Ddeddf 1985, sy'n seiliau bai yn bennaf, y gellir dwyn y denantiaeth i ben. Tenantiaethau a roddir am gyfnod penodol o ddim llai na dwy flynedd yw tenantiaethau hyblyg, a gyflwynwyd gan Ddeddf Lleoli 2011. Ar hyn o bryd y landlord sy'n penderfynu pa fath o denantiaeth i'w rhoi ac ym mha amgylchiadau y maent yn rhoi tenantiaethau hyblyg.

36 Mae Atodlen 7 i Ddeddf Tai a Chynllunio 2016 ("Deddf 2016") yn diwygio Deddf 1985 i atal creu tenantiaethau cyfnodol diogel yn y dyfodol (y cyfeirir atynt yn Neddf 2016 fel "tenantiaethau diogel yn yr hen ddull"), ac eithrio mewn amgylchiadau cyfyngedig. Mae hefyd yn cael gwared â'r grym i roi tenantiaethau hyblyg newydd ac yn hytrach yn gofyn i denantiaethau hyblyg gael eu caniatáu yn gyffredin. Mae Deddf 2016 yn cynnwys grym i'r Ysgrifennydd Gwladol nodi mewn rheoliadau'r amgylchiadau pan all awdurdod lleol ddal i roi tenantiaeth ddiogel o'r hen ddull.

37 Diwygiodd Deddf Tenantiaethau Diogel (Dioddefwyr Cam-drin Domestig) 2018 ("Deddf 2018") Atodlen 7 i Ddeddf 2016 i gyflawni ar ymrwymiad maniffesto 2017 i sicrhau "bod dioddefwyr sydd â thenantiaethau oes ac yn ffoi rhag trais yn gallu sicrhau tenantiaeth oes newydd yn awtomatig".

38 Ers hynny mae'r Llywodraeth wedi penderfynu peidio â gweithredu darpariaethau Deddf 2016 ar hyn o bryd, sy'n golygu y bydd rhoi tenantiaethau tymor penodol yn parhau yn ôl barn yr awdurdodau lleol ac ni fydd Deddf 2018 chwaith yn dod i rym ar hyn o bryd.

39 Mae Papur Gwyrdd Tai Cymdeithasol y Llywodraeth, A new deal for social housing (Cm 9671), a gyhoeddwyd ar 14 Awst 2018, yn cynnwys ymrwymiad (ym mharagraff 188) i ddeddfu i osod diogeliad tebyg yn ei le i ddioddefwyr cam-drin domestig pan fydd awdurdodau lleol yn cynnig tenantiaethau tymor sefydlog yn ôl eu dewis eu hunain er mwyn cyflawni'r ymrwymiad yn y Maniffesto. Mae Cymal 54 yn gweithredu ar yr ymrwymiad hwnnw.

## Confensiwn Istanbul – awdurdodaeth tu hwnt i diriogaeth

40 "Confensiwn Istanbul" yw Confensiwn y Cyngor Ewropeaidd ar atal a brwydro yn erbyn trais yn erbyn menywod a thrais domestig. Mae Erthygl 1 yn nodi diben y Confensiwn fel a ganlyn:

- diogelu menywod rhag pob ffurf o drais, ac atal, erlyn a diddymu trais yn erbyn menywod a thrais domestig;
- cyfrannu at ddiddymu pob ffurf ar wahaniaethu yn erbyn menywod a hyrwyddo cydraddoldeb cadarn rhwng menywod a dynion, gan gynnwys trwy rymuso menywod;

- dylunio fframwaith cynhwysfawr, polisïau a mesurau i ddiogelu ac i roi cymorth i holl ddioddefwyr trais yn erbyn menywod a thrais domestig;
- hyrwyddo cydweithredu rhyngwladol gyda golwg ar ddiddymu trais yn erbyn menywod a thrais domestig;
- rhoi cefnogaeth a chymorth i sefydliadau ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith i gydweithredu yn effeithiol er mwyn mabwysiadu dull integredig o ddiddymu trais yn erbyn menywod a thrais domestig.

41 Llofnododd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ("DU") y Confensiwn ar 8 Mehefin 2012, ond nid yw wedi ei gadarnhau hyd yn hyn. Yn y rhan fwyaf o agweddau, mae'r mesurau sydd eisoes yn eu lle yn y DU yn cydymffurfio â'r Confensiwn neu yn mynd ymhellach nag sy'n ofynnol ynddo. Ond, cyn y gall y DU gadarnhau'r Confensiwn, mae un mater sydd angen ymdrin ag ef o hyd. Un elfen allweddol o'r Confensiwn yw sicrhau bod y gwladwriaethau sy'n cadarnhau yn gallu defnyddio eu cyfreithiau cenedlaethol i erlyn troseddau sy'n ofynnol gan y Confensiwn pan fyddant yn cael eu cyflawni gan eu gwladolion neu breswylwyr dramor. Y term cyfreithiol am rymoedd i ganiatáu erlyn troseddau gan ddinasyddion neu breswylwyr y DU dramor yn y DU yw "awdurdodaeth tu hwnt i diriogaeth". Rhaid cael deddfwriaeth sylfaenol i gymryd grymoedd o'r fath.

42 Mae gan y llysoedd yng Nghymru a Lloegr eisoes awdurdodaeth tu hwnt i diriogaeth ar gyfer rhai o'r troseddau sy'n ofynnol gan y Confensiwn (er enghraifft, anffurfio organau rhywiol menywod (yn rhinwedd adran 4 o Ddeddf Anffurfio Organau Rhywiol Menywod 2003) a phriodas dan orfod (yn rhinwedd adran 121 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014)). Ond, nid oes gan y llysoedd awdurdodaeth tu hwnt i diriogaeth am droseddau eraill sy'n ofynnol gan y Confensiwn (dan erthyglau 33 i 39), ac felly mae Cymalau 55 a 56 yn ymestyn awdurdodaeth tu hwnt i diriogaeth i'r troseddau perthnasol i fodloni gofynion y Confensiwn. Roedd y rhain yn cynnwys troseddau rhywiol a throseddau yn erbyn yr unigolyn.

43 Mae Deddf Atal a Brwydro yn Erbyn Trais yn Erbyn Menywod a Thrais Domestig (Cadarnhau Confensiwn) 2017, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywodraeth roi adroddiad blynyddol ger bron y Senedd ar y cynnydd tuag at gadarnhau'r Confensiwn. Rhoddwyd yr ail adroddiad o'r fath ger bron y Senedd ar 30 Hydref 2018.

## Cefndir cyfreithiol

44 Mae'r ddeddfwriaeth yn ymwneud â cham-drin domestig yng Nghymru a Lloegr yn cael ei nodi mewn nifer o statudau. Yn gyffredinol, nid yw deddfwriaeth o'r fath yn benodol ar gyfer cam-drin domestig; yn hytrach mae'r gyfraith droseddol, sifil a theuluol yn cael ei gweithredu mewn achosion cam-drin domestig. Er enghraifft, ar wahân i'r drosedd o ymddygiad sy'n rheoli neu'n orfodol mewn perthynas agos neu deuluol (adran 76 Deddf Troseddau Difrifol 2015 ("Deddf 2015"), mae gweithredoedd cam-drin domestig yn cael eu herlyn dan ddarpariaethau cyffredinol y gyfraith droseddol, fel y rhai y darperir ar eu cyfer yn Neddf Troseddau yn Erbyn yr Unigolyn 1861.

45 Mae'r Mesur yn diwygio neu ddiddymu'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Rhan 4 o Ddeddf Tai 1985 sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer tenantiaethau diogel a hawliau tenantiaid diogel;
- Deddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 sydd, ymhlith pethau eraill, yn cynnwys y troseddau o wneud i bobl ofni trais (adran 4) a stelcio sy'n ymwneud ag ofn trais neu ofn neu ofid difrifol (adran 4A);
- Pennod 1 o Ran 2 YJCEA 1999 sy'n darparu ar gyfer gweithredu camau arbennig ar gyfer tystion bregus neu dan fygythiad mewn achosion troseddol.

- Pennod 1 o Ran 12 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 sy'n gwneud darpariaethau cyffredinol am ddedfrydu;
- Adran 72 Deddf Troseddau Rhywiol 2003 sy'n darparu awdurdodaeth tu hwnt i diriogaeth ar gyfer y troseddau a restrir yn Atodlen 2 i'r Ddeddf honno;
- Adran 28 o Ddeddf 2007 sy'n darparu ar gyfer profion polygraff i rai troseddwyr rhyw penodol fel amod i'w trwydded;
- Adrannau 24 i 33 Deddf Trosedd a Diogelwch 2010 sy'n darparu ar gyfer DVPN a DVPO.

46 Ar hyn o bryd nid oes deddfwriaeth yn gwahardd croesholi yn bersonol ar ddioddefwr trosedd gan y cyflawnwr yn glir mewn achosion teuluol. Nid oes deddfwriaeth chwaith yn rhoi hawl clir i lysoedd sy'n gwrando ar achosion teuluol wahardd croesholi yn bersonol, er y gallent wneud hynny gan ddefnyddio eu grymoedd rheoli achosion cyffredinol dan y Rheolau Gweithdrefn Deuluol 2010 (SI 2010/2955), cyn belled â'u bod yn darparu dull gwahanol i groesholi. Ond, nid oes unrhyw ddeddfwriaeth yn rhoi grym i lysoedd sy'n gwrando ar achosion teuluol i benodi cynrychiolydd cyfreithiol i gynnal y croesholi ar ran parti, neu i gostau cynrychiolwyr o'r fath gael ei ariannu o'r pwrs cyhoeddus. Ond yn groes i hynny, rhoddir darpariaeth yng nghyswllt achosion yn y llysoedd troseddol yn adrannau 34 i 38 YJCEA 1999 ac adran 19(3)(e) Deddf Erlyn Troseddau 1985.

## Rhychwant tiriogaethol a'i weithrediad

47 Mae Cymal 60 yn nodi rhychwant tiriogaethol y Mesur, hynny yw'r awdurdodaethau y mae'r Mesur yn rhan o'u cyfraith. Gall rhychwant y Mesur fod yn wahanol i'w weithrediad. Mae ei weithrediad yn ymwneud â ble mae'r Mesur yn cael effaith ymarferol.

48 Mae'r darpariaethau yn y Mesur drafft yn rhychwantu ac yn gweithredu yng Nghymru a Lloegr yn unig neu, yn achos Cymal 54 (tenantiaethau diogel i ddioddefwyr cam-drin domestig), yn Lloegr yn unig.

49 Mae'n gonfensiwn na fydd San Steffan fel arfer yn deddfu ar faterion sydd o fewn gallu deddfwriaethol Senedd yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu Gynulliad Gogledd Iwerddon heb gydsyniad y corff deddfwriaethol dan sylw. (Yng nghyswllt yr Alban a Chymru, mae'r confensiwn hwn wedi ei gadw yn y gyfraith: gweler adran 28(8) Deddf yr Alban 1998 ac adran 107(6) Deddf Llywodraeth Cymru 2006.)

50 Gyda thri eithriad, nid yw'r materion y mae darpariaethau'r Mesur drafft yn ymwneud â nhw o fewn gallu deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r eithriadau yn ymwneud â'r darpariaethau yn y Mesur yn ymwneud â'r Comisiynydd Cam-drin Domestig (Rhan 2) ynghyd â'r diffiniad o gam-drin domestig (Rhan 1) a'r grym i roi cyfarwyddyd statudol (Cymal 57) cyn belled ag y maent yn ymwneud â Rhan 2; bydd cynnig o gydsyniad deddfwriaethol yn cael ei geisio yng nghyswllt y darpariaethau hyn. Os, yn dilyn cyflwyno'r Mesur, y bydd diwygiadau yn ymwneud â materion sydd yng ngallu deddfwriaethol Senedd yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, bydd cydsyniad y corff/cyrff deddfwriaethol datganoledig perthnasol yn cael ei geisio i'r diwygiadau.

51 Gweler y tabl yn Atodiad B am grynodeb o'r sefyllfa parthed rhychwant tiriogaethol a'r gweithrediad yn y DU. Mae'r tabl hefyd yn crynhoi'r sefyllfa parthed cynigion cydsyniad deddfwriaethol a materion yn berthnasol i Orchmynion Sefydlog Rhifau 83J i 83X y Tŷ Cyffredin parthed Busnes Cyhoeddus.

# Sylwadau ar ddarpariaethau'r Mesur

## Rhan 1: Diffiniad o "gam-drin domestig"

### Cymal 1: Diffiniad o "gam-drin domestig"

52 Mae'r cymal hwn yn diffinio'r term "cam-drin domestig". Mae'r diffiniad yn berthnasol ar gyfer dibenion y Mesur, ond disgwylir iddo gael ei fabwysiadu yn fwy cyffredinol, er enghraifft gan awdurdodau lleol ac ymarferwyr rheng flaen. Mae'r diffiniad o gam-drin domestig mewn dwy ran. Mae'r rhan gyntaf yn ymdrin â'r berthynas rhwng yr un sy'n cam-drin a'r un sy'n cael ei gam-drin. Mae'r ail ran yn diffinio beth sy'n cyfateb i ymddygiad sy'n gam-drin. Mae dau faen prawf yn rheoli'r berthynas rhwng yr un sy'n cam-drin a'r un sy'n cael ei gam-drin. Mae'r maen prawf cyntaf yn darparu bod rhaid i'r unigolyn sy'n cyflawni'r ymddygiad a'r unigolyn y mae'r ymddygiad yn cael ei gyfeirio tuag ato fod dros 16 oed. Byddai ymddygiad sy'n cam-drin tuag at unigolyn dan 16 oed yn cael ei drin fel cam-drin plant yn hytrach na cham-drin domestig. Mae'r ail faen prawf yn darparu bod yn rhaid i'r ddau unigolyn fod â chysylltiad personol (fel y'i diffinnir yng Nghymal 2).

53 Mae isadrannau (2)(b) a (3) yn nodi'r mathau o ymddygiad a fyddai'n cyfateb i gam-drin domestig, os bydd y ddau faen prawf o ran perthynas uchod yn cael eu bodloni. Nid yw'r pum ymddygiad a restrir yn cau ei gilydd allan. Mae ymddygiad sy'n cyfateb i "gam-drin corfforol neu rywiol" ac "ymddygiad treisgar neu fygythiol" yn hunanesboniadol ac yn debygol o gael eu deall yn rhwydd gan y rhan fwyaf o aelodau'r cyhoedd a'r asiantaethau fydd yn ymateb i gam-drin domestig, ond gall termau eraill fod yn llai cyfarwydd ac angen eu hesbonio ymhellach.

54 Mae isadran (3)(c) yn cyfeirio at "ymddygiad gorfodol neu sy'n rheoli".

55 **Mae ymddygiad rheolaethol**: yn amrywiaeth o weithredoedd a gynlluniwyd i wneud rhywun yn israddol ac/neu yn ddibynnol trwy eu hynysu rhag ffynonellau cefnogaeth, ymelwa ar eu hadnoddau a'u gallu er elw personol, eu hamddifadu o'r moddion angenrheidiol ar gyfer annibyniaeth, gwrthsefyll a ffoi ac yn rheoli eu hymddygiad o ddydd i ddydd.

56 **Mae ymddygiad gorfodol**: yn weithred neu batrwm o weithredoedd o ymosodiadau, bygythiadau, bychanu a brawychu neu gam-drin arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi, neu godi ofn ar eu dioddefwr.

57 Mae isadran (3)(d) yn cyfeirio at "gam-drin economaidd", y mae'r diffiniad ohono yn isadran (4) yn darparu bod rhaid i ymddygiad sy'n cyfateb i gam-drin o'r fath gael effaith sylweddol a niweidiol ar allu'r dioddefwr i gael, defnyddio neu gynnal arian neu eiddo arall, neu i gael nwyddau neu wasanaethau. Diben cynnwys yr amod "sylweddol a niweidiol" yw sicrhau na fydd digwyddiadau ynysig, fel difrodi car rhywun, neu beidio â datgelu gwybodaeth ariannol, yn cael eu cynnwys yn anfwriadol. Byddai "eiddo" yn cynnwys eitemau fel ffôn symudol neu gar a byddai "nwyddau a gwasanaethau" yn cynnwys, er enghraifft, cyfleustodau fel gwresogi, neu eitemau fel bwyd a dillad.

58 Mae isadran (5) yn darparu y gall unigolyn gam-drin unigolyn arall yn anuniongyrchol trwy drydydd parti, fel plentyn neu aelod arall o'r un aelwyd. Er enghraifft, gall yr un sy'n cam-drin gyfeirio ymddygiad at blentyn ar yr aelwyd, er mwyn hwyluso neu barhau i gam-drin ei bartner neu ei phartner.

### Cymal 2: Diffiniad o "gysylltiad personol"

59 Mae'r cymal hwn yn diffinio'r term "cysylltiad personol" ar gyfer dibenion y meini prawf perthynas yng Nghymal 1(2)(a).

60 Mae isadran (1) yn nodi'r gwahanol fathau o berthnasau a fyddai'n golygu bod gan yr un sy'n cam-drin a'r un sy'n cael ei gam-drin "gysylltiad personol". Mae isadran (1)(g) yn darparu bod gan ddau o bobl gysylltiad personol os ydynt yn "berthnasau". Mae isadran (3) yn diffinio "perthynas" trwy gyfeirio at y diffiniad yn adran 63(1) Deddf Cyfraith Teulu 1996:

a) tad, mam, llystad, llysfam, mab, merch, llys fab, llys ferch, nain, taid, ŵyr, wyres yr unigolyn hwnnw neu briod blaenorol, cyn-briod, partner sifil neu gynbartner sifil yr unigolyn hwnnw, neu;

b) brawd, chwaer, ewythr, modryb, nith, nai neu gefnder (boed y berthynas yn un o waed llawn neu hanner neu trwy briodas neu bartneriaeth sifil) yr unigolyn hwnnw neu briod, cyn-briod, partner sifil neu gynbartner sifil yr unigolyn hwnnw;

ac mae'n cynnwys, yng nghyswllt unigolyn sy'n cyd-fyw neu sydd wedi cyd-fyw ag unigolyn arall, unrhyw unigolyn a fyddai'n dod dan baragraff (a) neu (b) petai'r partïon yn briod â'i gilydd neu yn bartneriaid sifil i'w gilydd.

## Rhan 2: Y Comisiynydd Cam-drin Domestig

### Cymalau 3 i 5: Comisiynydd Cam-drin Domestig

61 Mae Cymal 3 yn darparu ar gyfer sefydlu Comisiynydd Cam-drin Domestig, a fydd yn swydd statudol annibynnol a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol (yr Ysgrifennydd Cartref, yn ymarferol). Mae Cymal 4 yn gwneud darpariaethau ar gyfer ariannu'r Comisiynydd a swyddfa'r Comisiynydd, gan gynnwys talu cydnabyddiaeth a lwfansau. Mae Cymal 5 yn darparu ar gyfer cael staff i swyddfa'r Comisiynydd. Bydd y staff hynny yn weision sifil ar secondiad i swyddfa'r Comisiynydd (boed yn weision sifil ar hyn o bryd neu yn weision sifil sy'n cael eu recriwtio yn benodol i'r diben). Bydd staff sy'n gweithio i'r Comisiynydd yn cael eu cyflogi gan y Swyddfa Gartref ac felly rhaid i'r penodiadau gydymffurfio â thelerau, amodau a pholisïau recriwtio'r gwasanaeth sifil. Bydd penodiadau unigol yn ddarostyngedig i'w cymeradwyo gan y Comisiynydd.

### Cymal 6: Swyddogaethau Cyffredinol y Comisiynydd

62 Mae isadran (1) yn nodi swyddogaethau cyffredinol y Comisiynydd, sef annog arfer da wrth atal cam-drin domestig; atal, adnabod, ymchwilio ac erlyn troseddau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig; adnabod cyflawnwyr, dioddefwyr a phlant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt; a chynnig diogeliad a chefnogaeth i ddioddefwyr. Mae'r cyfeiriad at ddynodi plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt yn cydnabod yr effaith niweidiol y mae cam-drin domestig yn ei gael ar blant. Bydd y Comisiynydd yn chwarae rôl bwysig wrth godi ymwybyddiaeth o hyn a hyrwyddo arfer da wrth ddynodi a chefnogi'r plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt.

63 Mae isadran (2) yn nodi rhestr nad yw'n hollgynhwysol o weithgareddau y gall y Comisiynydd eu gwneud er mwyn cyflawni ei swyddogaethau cyffredinol. Mae gweithgareddau o'r fath yn cynnwys asesu a monitro darparu gwasanaethau i bobl y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt. Yn y cyd-destun hwn bydd "darparu gwasanaethau" yn cynnwys darparu gwasanaethau arbenigol i ddioddefwyr a'u plant, fel llochesi neu wasanaeth cefnogi arbenigol arall; darpariaeth brif-ffrwd o wasanaethau statudol, fel gofal iechyd, sy'n chwarae rôl wrth ddynodi dioddefwyr, plant a chyflawnwyr a'u cyfeirio ymlaen at wasanaethau mwy arbenigol; a darpariaeth arbenigol i gyflawnwyr, fel rhaglenni newid ymddygiad cyflawnwyr. Wrth gyflawni gweithgareddau o'r fath, disgwylir i'r Comisiynydd gydweithredu â sefydliadau trydydd sector arbenigol, awdurdodau cyhoeddus, a Chomisiynwyr eraill perthnasol fel y Comisiynydd Dioddefwyr a Thystion a Chomisiynydd Plant Lloegr ac ymgynghori â hwy.

64 Bydd cylch gorchwyl y Comisiynydd Cam-drin Domestig yn ymestyn i Gymru a Lloegr, ond, bydd rhai o swyddogaethau a grymoedd y Comisiynydd yn weithredol yn Lloegr yn unig gan gydnabod bod y materion sydd yng nghylch gorchwyl y Comisiynydd yn ymwneud â chymysgedd o faterion a gadwyd ac sydd wedi eu datganoli yng Nghymru.

Ar ben hynny, yng Nghymru mae dau Gynghorydd Cenedlaethol ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a benodwyd gan Weinidogion Cymru dan adran 20 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Ac felly, mae isadrannau (3) i (6) yn cyfyngu ar weithrediad swyddogaethau'r Comisiynydd yng Nghymru. Yn Lloegr, bydd cyfrifoldebau'r Comisiynydd yn cynnwys yr holl wasanaethau a ddarperir gan asiantaethau statudol, ac yng Nghymru, bydd yn cynnwys y gwasanaethau a ddarperir gan asiantaethau statudol sydd wedi eu cadw, asiantaethau cyfiawnder troseddol, sifil a theuluol yn bennaf, fel y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, lluoedd heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r llysoedd. Ni chaiff y Comisiynydd asesu na monitro gwasanaethau a ddarperir gan asiantaethau datganoledig yng Nghymru, fel y rhai sy'n gyfrifol am ofal cymdeithasol neu addysg, na gwneud argymhellion i awdurdod yng Nghymru sy'n cyflawni swyddogaethau datganoledig. Ond mae isadran (4) yn galluogi'r Comisiynydd i ymgynghori â chyrff datganoledig yng Nghymru a chydweithredu â nhw, fel y Cynghorwyr Cenedlaethol ar Drais yn Erbyn Menywod, Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

## Cymal 7: Adroddiadau

65 Mae isadran (1) yn rhoi grym i'r Comisiynydd roi adroddiadau i'r Ysgrifennydd Gwladol am unrhyw fater yn ymwneud â cham-drin domestig. Mater i'r Comisiynydd fydd penderfynu ar destun adroddiadau o'r fath, ond disgwylir iddynt fod ar sail y rhaglen waith a nodir yng nghynllun strategol y Comisiynydd (gweler Cymal 11). Mae adroddiadau thematig o'r fath yn wahanol i'r ddyletswydd i gyhoeddi adroddiad blynyddol dan Gymal 12. Dylai'r holl adroddiadau o'r fath gael eu cyhoeddi gan y Comisiynydd (isadran (2)) a'u rhoi ger bron y Senedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol (isadran (5)).

66 Mae isadran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd anfon drafft o unrhyw adroddiad at yr Ysgrifennydd Cartref cyn ei gyhoeddi. Gall yr Ysgrifennydd Cartref ofyn i'r Comisiynydd adael allan unrhyw ddeunydd a allai beryglu diogelwch rhywun (yn y Deyrnas Unedig neu yn rhyngwladol), neu a allai beryglu unrhyw ymchwiliad i drosedd neu ei herlyn (isadran (4)).

## Cymal 8: Cyngor a chymorth

67 Mae isadran (1) yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ofyn am gyngor neu gymorth gan y Comisiynydd ar faterion cam-drin domestig.

68 Mae isadran (2) yn galluogi unrhyw unigolyn arall i ofyn am gyngor neu gymorth gan y Comisiynydd ar sut y maent yn ymateb i gam-drin domestig. Er ei bod yn agored i unrhyw un ofyn am gyngor o'r fath, yn ymarferol mae'r Comisiynydd yn debygol o ganolbwyntio ar yr asiantaethau hynny lle bydd y cyngor yn cael mwyaf o effaith, er enghraifft, lluoedd heddlu Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, awdurdodau lleol a chyrff GIG.

69 Mae isadran (3) yn caniatáu i'r Comisiynydd adfer costau gwaith o'r fath; bydd y grym i godi tâl yn golygu nad yw rhoi cyngor neu gymorth wrth ymateb i gais o'r fath ar draul rôl genedlaethol ehangach y Comisiynydd.

70 Mae isadrannau (5) a (6) yn gofyn i'r Comisiynydd gyhoeddi unrhyw gyngor a roddir i unrhyw unigolyn dan isadran (2) yn amodol ar adael allan unrhyw ddeunydd y cred yr Ysgrifennydd Gwladol y gallai beryglu diogelwch rhywun (yn y Deyrnas Unedig neu yn rhyngwladol), neu a allai beryglu unrhyw ymchwiliad i drosedd neu ei herlyn.

## Cymal 9: Grymoedd cysylltiedig

71 Mae'r cymal hwn yn rhoi grymoedd cysylltiedig i'r Comisiynydd i wneud unrhyw beth y mae'n ystyried y byddai'n ei gefnogi i gyflawni ei swyddogaethau fel y nodir yng Nghymalau 6 i 8, ac eithrio benthyca arian.

## Cymal 10: Bwrdd Ymgynghorol

72 Mae isadran (1) yn gofyn i'r Comisiynydd sefydlu Bwrdd Ymgynghorol, a fydd yn rhoi cyngor i'r Comisiynydd ar arfer ei swyddogaethau. Ymhlith pethau eraill, disgwylir i'r cyngor ymestyn at y dull a ddefnyddir gan y Comisiynydd wrth ddatblygu ei gynlluniau strategol (gweler Cymal 11).

73 Bydd gan y Bwrdd Ymgynghorol o leiaf chwech a dim mwy na deg o aelodau (isadran (2)). Mae isadran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd benodi aelodau o'r Bwrdd Ymgynghorol sy'n cynrychioli amrywiaeth o sectorau gwahanol sydd â chyfrifoldebau am ymateb i gam-drin domestig. Mae'r gofyn i gynnwys cynrychiolydd o'r sector gofal cymdeithasol yn cynnwys gofal cymdeithasol plant yn ogystal ag oedolion. Bydd yn ofynnol hefyd iddynt gynnwys academydd i roi tystiolaeth a chadernid academaidd i drafodaethau, yn ogystal â rhywun i gynrychioli buddiannau dioddefwyr cam-drin domestig. Gall unigolyn gynrychioli buddiannau mwy nag un grŵp (er enghraifft, cynrychioli buddiannau dioddefwyr cam-drin domestig, gan hefyd gynrychioli buddiannau elusennau arbenigol). Yn ychwanegol at y Bwrdd hwn, bydd yn ofynnol i'r Comisiynydd, trwy ei delerau cyflogaeth, sefydlu Grŵp Ymgynghorol Dioddefwyr a Goroeswyr, i sicrhau ei fod yn ymgysylltu yn uniongyrchol â dioddefwyr yn ei waith.

## Cymal 11: Cynlluniau strategol

74 Mae'r cymal hwn yn gofyn i'r Comisiynydd baratoi cynllun strategol i roi gwybodaeth i'r Senedd, Gweinidogion a'r cyhoedd am ei flaenoriaethau, rhaglen waith at y dyfodol, a pha faterion y mae'n bwriadu rhoi adroddiad amdanynt. Y Comisiynydd ddylai bennu cynnwys a hyd pob cynllun strategol yn amodol ar fodloni'r gofynion sylfaenol a nodir yn isadran (2) a (3). Bydd y cynllun strategol yn cael ei gymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Cartref a all awgrymu, ond ni all orfodi, newidiadau i'r drafft a gyflwynir gan y Comisiynydd (isadran (6)). Ar ôl cytuno arno, mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Cartref roi'r cynllun ger bron y Senedd (isadran (7)). Gall y Comisiynydd ddiwygio'r cynllun ar ganol ei dymor, er enghraifft i adlewyrchu newid yn ei flaenoriaethau; bydd unrhyw ddiwygiadau yn amodol ar gymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Cartref yn yr un modd (isadran (5)).

## Cymal 12: Adroddiadau blynyddol

75 Mae'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd gynhyrchu adroddiad blynyddol cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, a'i gyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol, a fydd yna yn rhoi copi o'r adroddiad ger bron y Senedd (yn amodol ar adael allan unrhyw ddeunydd a all beryglu diogelwch unrhyw unigolyn (yn y DU neu yn rhyngwladol) na pheryglu ymchwiliad i drosedd).

## Cymal 13: Dyletswydd i gydweithredu â'r Comisiynydd

76 Mae isadran (1) yn galluogi'r Comisiynydd i ofyn i awdurdodau cyhoeddus penodol (fel y'u rhestrir yn isadran (3), i'w darllen gyda'r diffiniadau yn isadran (7)) i gydweithredu ag ef, ac mae isadran (2) yn gofyn i'r corff gydymffurfio â chais o'r fath pan fydd yn rhesymol o ymarferol gwneud hynny. Gall y ddyletswydd i gydweithredu gynnwys, er enghraifft, ymateb i geisiadau am wybodaeth gan y Comisiynydd wrth gyflawni ei swyddogaeth gyffredinol o asesu a monitro darparu gwasanaethau i ddioddefwyr cam-drin domestig.

77 Bydd telerau penodiad y Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol iddo gysylltu â chyrff GIG, NHS England yn benodol (sy'n dod dan y diffiniad o Fwrdd Comisiynu Gwasanaeth Iechyd Gwladol) ac NHS Improvement (y mae Awdurdod a Monitor Datblygu Ymddiriedolaeth GIG yn rhannau ohono), gyda'r un cais pryd bynnag y bydd yn cysylltu â chyrff GIG lleol fel y'u diffinnir gan isadran (7). Bydd hyn yn golygu bod y cyrff strategol GIG cenedlaethol yn ymwybodol o'r ceisiadau am gefnogaeth a wneir i'r cyrff GIG lleol.

78 Mae isadrannau (4) i (6) yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol, trwy reoliadau (yn amodol ar y weithdrefn seneddol negyddol), i ychwanegu at y rhestr o awdurdodau cyhoeddus penodedig, cael gwared o awdurdod cyhoeddus a ychwanegwyd felly, neu ddiwygio'r disgrifiad o awdurdod cyhoeddus a restrwyd yn barod yn isadran (3). Mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â'r Comisiynydd cyn gwneud rheoliadau o'r fath.

## Cymal 14: Dyletswydd i ymateb i argymhellion y Comisiynydd

79 Mae'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cyhoeddus a restrir yng Nghymal 13 ymateb i unrhyw argymhellion a gyfeiriwyd at yr awdurdod hwnnw a wneir mewn adroddiad a gyhoeddwyd gan y Comisiwn dan Gymal 7. Rhaid i'r ymateb ymdrin â phob argymhelliad a nodi yn benodol pa gamau y mae'r awdurdod wedi eu cymryd neu y bydd yn eu cymryd i ymdrin â'r argymhelliad neu roi rhesymau pam nad yw'n bwriadu gweithredu ar yr argymhelliad.

80 Rhaid i ymateb awdurdod lleol i unrhyw argymhellion gael ei gyhoeddi cyn pen 56 diwrnod calendr o ddyddiad cyhoeddi adroddiad y Comisiynydd mewn modd y mae'r awdurdod cyhoeddus yn ystyried ei fod yn briodol (isadran (5)); mae'n ofynnol hefyd iddo anfon ymateb at y Comisiynydd a'r Ysgrifennydd Gwladol (isadran (6)).

## Cymal 15: Datgelu gwybodaeth

81 Mae'r cymal hwn yn darparu ar gyfer porth rhannu gwybodaeth ddwyffordd. Mae isadran (1) yn galluogi'r Comisiynydd i ddatgelu gwybodaeth i unigolyn neu sefydliad arall pan fyddai datgeliad o'r fath yn cefnogi cyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r Comisiynydd gan y Comisiynydd. I'r gwrthwyneb, gall unrhyw unigolyn neu sefydliad ddatgelu gwybodaeth i'r Comisiynydd ar gyfer dibenion cefnogi'r Comisiynydd i gyflawni swyddogaethau'r Comisiynydd.

82 Mae'r grymoedd datgelu hyn yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a nodir yn isadrannau (4) i (6), sef nad ydynt yn trechu cyfrinachedd y claf, deddfwriaeth diogelu data na gwaharddiadau ar ddatgelu yn Neddf Grymoedd Ymchwiliol 2016. Yn amodol ar hynny, nid yw datgelu gwybodaeth dan y cymal hwn yn cael ei wahardd gan unrhyw ddyletswydd cyfrinachedd arall, na chyfyngiad ar ddatgelu gwybodaeth (pa ffordd bynnag y bydd wedi ei osod) (isadran (3)).

83 Ni fydd gweithrediad y porth rhannu gwybodaeth hwn yn amharu ar unrhyw rymoedd eraill sy'n bodoli i ddatgelu gwybodaeth (isadran (7)).

## Cymal 16: Cyfyngu ar arfer swyddogaethau mewn achosion unigol

84 Mae'r cymal yma yn atal y Comisiynydd rhag ymyrryd mewn achosion unigol, gan nad eiriolwr unigol yw ei rôl nac ymateb i achosion ond rhoi goruchwyliaeth strategol i'r ymateb cenedlaethol i gam-drin domestig a dal awdurdodau cyhoeddus i gyfrif. Ond, mae isadran (2) yn ei gwneud yn glir y gall y Comisiynydd ddal i ystyried achosion unigol yn ystod ei waith er mwyn deall y darlun cenedlaethol, ond na ddylai ymyrryd mewn achosion o'r fath.



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 171 08-May-19 12:01:59

## Cymal 17: Diwygiadau yn ymwneud â'r Comisiynydd

85 Mae'r cymal hwn yn gwneud dau ddiwygiad dilynol i ddwy ddeddf arall, effaith y rhain yw na all y Comisiynydd fod yn Aelod Seneddol a bod y Comisiynydd yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

# Rhan 3: Grymoedd i ymdrin â cham-drin domestig

## Cymal 18: Grym i roi hysbysiad diogelu cam-drin domestig

86 Mae'r cymal hwn yn creu grym i swyddog heddlu roi Hysbysiad Diogelu Cam-drin Domestig ("DAPN") ac mae'n nodi'r amodau a'r ystyriaethau sy'n rhaid eu bodloni er mwyn i'r heddlu roi DAPN. Diben DAPN yw sicrhau bod dioddefwr cam-drin domestig yn cael ei ddiogelu ar unwaith rhag rhagor o gam-drin domestig gan gyflawnwr dan amheuaeth. Mae DAPN yn gwahardd y cyflawnwr rhag cam-drin y dioddefwr ac, pan fyddant yn cyd-fyw, gall ofyn i'r cyflawnwr adael yr adeilad hwnnw.

87 Fel ffurf ar gamau ataliol sifil, nid yw rhoi DAPN a Gorchymyn Diogelu Cam-drin Domestig ("DAPO") yn cyfateb i bennu euogrwydd, ond er cyfleustra ac i gynorthwyo i ddeall diben yr hysbysiadau a'r gorchmynion hyn, mae'r sylwebaeth hon ar y cymalau yn cyfeirio at yr unigolyn y mae'r hysbysiad neu orchymyn yn cael ei wneud yn ei erbyn fel "cyflawnwr" a'r unigolyn y dyluniwyd yr hysbysiad neu orchymyn i'w ddiogelu fel y "dioddefwr".

88 Mae rhoi DAPN yn sbarduno cais dan arweiniad yr heddlu am DAPO mewn llys ynadon. Gorchymyn yw hwn all gynnwys gwaharddiadau a gofynion sy'n angenrheidiol i ddiogelu'r dioddefwr rhag cam-drin domestig yn y dyfodol a chynorthwyo i atal y cyflawnwr rhag cyflawni cam-drin domestig pellach. Mae cymalau 24 i 44 yn ymdrin â DAPO.

89 Mae isadran (1) yn creu grym i uwch swyddog heddlu (hynny yw, arolygydd neu uwch) i roi DAPN. Mae'r grym ar gael i'r 43 llu tiriogaethol yng Nghymru a Lloegr, Heddlu Trafnidiaeth Prydain a Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

90 Mae isadran (2) yn nodi y bydd hysbysiad yn cael ei ddefnyddio i ddiogelu dioddefwr cam-drin domestig a gyflawnir yn ei erbyn gan y cyflawnwr.

91 Mae isadrannau (3) a (4) yn nodi'r prawf ar gyfer rhoi DAPN. Gall DAPN gael ei roi pan fydd gan y swyddog heddlu sail resymol dros gredu, yn gyntaf, bod y cyflawnwr wedi cam-drin unigolyn y mae gan y cyflawnwr gysylltiad personol ag ef (gall y cam-drin fod wedi digwydd tu allan i Gymru a Lloegr (isadran (5)), ac, yn ail, bod angen rhoi hysbysiad er mwyn sicrhau diogeliad i'r dioddefwr rhag cam-drin domestig neu'r risg o gam-drin domestig. Diffinnir "cam-drin domestig" yng Nghymal 1 a "cysylltiad personol" yng Nghymal 2.

92 Mae isadran (6) yn nodi na ellir rhoi'r hysbysiad i unigolyn sydd dan 18 oed.

93 Mae isadran (7) yn darparu bod gofyn a osodir gan DAPN yn cael effaith trwy'r Deyrnas Unedig i gyd. Felly, er enghraifft, os bydd DAPN yn gofyn i'r cyflawnwr beidio â chysylltu mewn unrhyw fodd â'r dioddefwr, byddai'r cyflawnwr yn torri'r DAPN trwy anfon neges testun neu neges e-bost tra byddai yn yr Alban.

## Cymal 19: Darpariaeth y gellir ei gwneud trwy hysbysiadau

94 Mae'r cymal hwn yn nodi rhestr gynhwysfawr o'r mathau o ddarpariaethau y gall DAPN eu cynnwys. Gall darpariaeth o'r fath gynnwys gwaharddiad ar y cyflawnwr rhag cysylltu â'r dioddefwr (gan gynnwys trwy'r cyfryngau cymdeithasol neu e-bost). Pan fydd y cyflawnwr yn byw gyda'r dioddefwr, gall darpariaeth gael ei gwneud i wahardd y cyflawnwr rhag troi'r dioddefwr allan neu ei allgau o'r adeilad dan sylw; gwahardd y cyflawnwr rhag mynd i mewn i'r adeilad; gofyn i'r cyflawnwr adael yr adeilad; neu wahardd y cyflawnwr rhag dod o fewn pellter penodol i'r adeilad (fel y nodir yn y DAPN) am gyfnod y DAPN.

Nid yw o bwys o ran y dibenion hyn a yw'r adeilad yn eiddo i'r cyflawnwr neu'r dioddefwr neu ar rent yn eu henwau.

## Cymal 20: Materion i'w hystyried cyn rhoi hysbysiad

95 Mae'r cymal hwn yn nodi materion penodol y mae'n rhaid i'r swyddog heddlu eu hystyried cyn rhoi DAPN. Rhaid i swyddog heddlu ystyried lles unrhyw blentyn y mae'r swyddog yn ystyried bod ei les yn berthnasol. Rhaid i'r swyddog heddlu gymryd camau rhesymol i ganfod barn y dioddefwr o ran a ddylid rhoi DAPN. Rhaid rhoi ystyriaeth hefyd i unrhyw gyflwyniadau y mae'r cyflawnwr yn eu gwneud yng nghyswllt rhoi'r DAPN. Pan fydd y DAPN i gynnwys amodau yng nghyswllt byw yn yr adeilad a rennir gan y cyflawnwr a'r dioddefwr, rhaid cymryd camau rhesymol hefyd i gael barn unrhyw unigolyn arall sy'n byw yn yr adeilad.

96 Er bod rhaid i'r swyddog heddlu gymryd camau rhesymol i ddarganfod barn y dioddefwr, a bod rhaid iddo ystyried y farn honno, nid yw rhoi'r hysbysiad yn ddibynnol ar gydsyniad y dioddefwr (isadran (3)), gan y gall y swyddog heddlu, fodd bynnag, fod â rheswm i gredu bod y dioddefwr angen cael ei ddiogelu rhag y cyflawnwr a bod angen rhoi'r hysbysiad i sicrhau'r diogeliad hwnnw.

## Cymal 21: Gofynion pellach yng nghyswllt hysbysiadau

97 Mae isadran (2) yn nodi'r manylion y mae'n rhaid eu nodi mewn DAPN, sy'n cynnwys y sail ar gyfer rhoi'r DAPN; y ffaith bod grym i arestio ynghlwm wrth y DAPN; y ffaith y bydd yr heddlu yn gwneud cais am DAPO a fydd yn cael ei glywed mewn llys cyn pen cyfnod o 48 awr; y ffaith y bydd y DAPN yn parhau mewn grym nes bydd y cais am DAPO wedi ei bennu; a'r darpariaethau a all gael eu cynnwys mewn DAPO dilynol.

98 Rhaid i DAPN fod yn ysgrifenedig a rhaid ei gyflwyno i'r cyflawnwr yn bersonol gan gwnstabl (isadrannau (1) a (3)).

99 Mae isadran (4) yn gofyn i'r cwnstabl sy'n cyflwyno DAPN ofyn i'r cyflawnwr gyflenwi cyfeiriad er mwyn galluogi'r cyflawnwr i gael hysbysiad o'r gwrandawiad ar gyfer y cais DAPO.

100 Mae isadrannau (5) i (7) yn darparu, pan fydd DAPN yn cael ei gyflwyno i aelod o'r lluoedd arfog (yn ymarferol, mae'n debyg mai Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn fydd yn gwneud hyn), ac mae'r hysbysiad yn gwahardd y cyflawnwr rhag mynd i mewn, neu yn gofyn iddo adael, llety gan y lluoedd arfog, rhaid i'r uwch swyddog sy'n rhoi'r hysbysiad wneud ymdrechion rhesymol i roi gwybod i'r swyddog sy'n rheoli'r cyflawnwr bod DAPN wedi ei roi. Mae'r diffiniad o lety'r lluoedd arfog yn Neddf Lluoedd Arfog 2006 yn cynnwys unrhyw adeilad neu ran o adeilad sy'n cael ei ddal at ddibenion unrhyw un o luoedd Ei Mawrhydi ond yn cael ei ddarparu at ddefnydd unigol unigolyn sy'n ddarostyngedig i gyfraith y lluoedd arfog, neu unigolyn o'r fath ac aelodau o'i deulu ef neu ei theulu hi, fel llety i fyw ynddo.

## Cymal 22: Torri hysbysiad

101 Petai'r un sy'n destun DAPN yn torri amodau'r hysbysiad, yna gall cwnstabl arestio'r unigolyn heb warant.

102 Mae isadran (2) yn ei gwneud yn ofynnol, os bydd y cyflawnwr yn cael ei arestio, bod rhaid iddo ef neu hi gael ei gadw yn y ddalfa a'i ddwyn ger bron llys ynadon fydd yn gwrando ar y cais am DAPO. Rhaid i'r cyflawnwr gael ei ddwyn ger bron y llys hwn o fewn cyfnod o 24 awr ar yr hwyraf (ac eithrio penwythnosau a gwyliau banc – gweler isadran (5)) gan ddechrau ar amser yr arestio.

Ond, os yw'r gwrandawiad DAPO eisoes wedi cael ei drefnu i ddigwydd yn ystod y cyfnod hwnnw o 24 awr, yna dylid dwyn y cyflawnwr ger bron y llys i'r gwrandawiad hwnnw.

103 Os bydd y llys yn gohirio'r gwrandawiad DAPO, yn rhinwedd Cymal 26(8) gall y llys roi'r unigolyn ar remand naill ai yn y ddalfa neu ar fechnïaeth (isadran (4)).

104 Mae isadran (6) yn diwygio adran 17 Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 i roi grym i'r heddlu i gael mynediad ac arestio am dorri DAPN os oes sail resymol dros gredu bod rhywun wedi ei dorri.

## Cymal 23: Rhoi unigolyn a arestiwyd am dorri hysbysiad ar remand

105 Mae'r cymal hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhoi unigolyn a arestiwyd am dorri DAPN ar remand, boed ar fechnïaeth neu yn y ddalfa. Mae grym llys ynadon i ymdrin â'r cyflawnwr mewn amgylchiadau o'r fath yn deillio o ddarpariaethau yn Neddf Llysoedd Ynadon 1980 (adrannau 128 i 131 yn ymdrin â remand). Mae isadran (2) yn addasu gweithredu adran 128(6) o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 i'r dibenion hyn. Yn amodol ar rai eithriadau, mae adran 128(6) yn gwahardd llys ynadon rhag rhoi unigolyn ar remand am fwy nag wyth niwrnod. Un eithriad o'r fath yw pan fydd unigolyn yn cael ei roi ar remand ar fechnïaeth, mewn achos o'r fath gall yr unigolyn gael ei roi ar remand am fwy nag wyth niwrnod pan fydd ef neu hi a'r parti arall yn cydsynio. Yn y cyd-destun hwn, y parti arall ar gyfer y dibenion hyn yw'r uwch swyddog a roddodd y DAPN.

106 Mae isadrannau (3) i (5) yn rhoi grym i'r llys i roi'r cyflawnwr ar remand ar gyfer y diben o ganiatáu i adroddiad meddygol gael ei wneud. Mewn achos o'r fath, ni ellir gohirio am fwy na thair wythnos ar y tro os bydd y cyflawnwr yn cael ei roi ar remand yn y ddalfa ac am ddim mwy na phedair wythnos ar y tro os bydd y cyflawnwr yn cael ei roi ar fechnïaeth.

107 Mae isadran (6) yn rhoi'r un grym i'r llys ag sydd ganddo o ran unigolyn cyhuddedig i wneud gorchymyn dan adran 35 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 os yw'n amau bod y cyflawnwr yn dioddef o anhwylder meddwl. Mae Adran 35 y Ddeddf honno yn galluogi'r llys i roi unigolyn ar remand i ysbyty a nodir gan y llys i gael adroddiad am ei gyflwr meddwl ef neu ei chyflwr meddwl hi. Ni chaiff remand fod am fwy na 28 diwrnod ar y tro neu am fwy na 12 wythnos i gyd.

108 Dan isadran (7), wrth roi unigolyn ar fechnïaeth, gall y llys osod gofynion sy'n ymddangos yn angenrheidiol i'r llys i sicrhau na fydd yr unigolyn yn amharu ar dystion neu yn atal cwrs cyfiawnder mewn modd arall.

## Cymal 24: Ystyr "gorchymyn diogelu cam-drin domestig"

109 Mae'r cymal hwn yn disgrifio DAPO ar gyfer dibenion Rhan 3, sef gorchymyn yn cynnwys gwaharddiadau neu ofynion ar gyfer y diben o atal y cyflawnwr rhag cam-drin ei ddioddefwr ef neu hi (y mae'n rhaid iddo/iddi fod dros 16 oed ac â chysylltiad personol â'r cyflawnwr (gweler Cymal 2 o'r Mesur)).

## Cymal 25: Gorchmynion diogelu cam-drin domestig wrth wneud cais

110 Gellir cael DAPO trwy nifer o ffyrdd amrywiol. Yn gyntaf, gall DAPO gael ei roi gan lys ar gais gan rai categorïau o bobl (isadran (2)). Yn ail, pan fydd DAPN wedi cael ei roi i gyflawnwr gan aelod o lu heddlu, mae dyletswydd ar y prif swyddog heddlu ar y llu hwnnw i wneud cais i lys ynadon am DAPO (isadran (3) a chymal 26). Yn drydydd, gall DAPO gael ei wneud gan lys teulu, llys troseddol neu (mewn amgylchiadau a nodir) llys sirol yn ystod achosion sy'n parhau (Cymal 27).

111 Yn achos DAPO a wneir ar gais, mae isadran (2) yn darparu y gall y cais gael ei wneud gan: (a) yr unigolyn y ceisir y gorchymyn i'w ddiogelu (y dioddefwr); (b) y prif swyddog priodol o'r heddlu (fel y'i diffinnir yn isadran (4)); (c) unigolyn a nodir yn y rheoliadau (yn amodol ar weithdrefn negyddol) a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol; neu (d) unrhyw unigolyn arall gyda chaniatâd y llys. Gall rheoliadau dan isadran (2)(c), er enghraifft, nodi, awdurdodau lleol, darparwyr gwasanaeth prawf, cynghorwyr cam-drin domestig annibynnol a gwasanaethau cefnogi arbenigol anstatudol (gweithwyr llochesi, er enghraifft).

112 Mae isadrannau (5) i (7) yn nodi'r llys priodol y dylid gwneud cais am DAPO iddo. Pan fydd cais yn cael ei wneud gan yr heddlu, boed yn dilyn rhoi DAPN neu fel mater ar ei ben ei hun, bydd y cais i lys ynadon. Pan fydd y cyflawnwr a'r dioddefwr yn bartïon mewn achosion teuluol neu sifil, ac y byddai'n agored i'r llys i wneud DAPO yn yr achosion hynny (gweler Cymal 27), gall y dioddefwr wneud cais i'r llys teulu neu lys sirol fel y bydd yn briodol. Ym mhob achos arall, er enghraifft pan fydd y dioddefwr yn ymgeisydd (heb fod yn rhan o'r achos sy'n bodoli) neu drydydd parti a nodir fel awdurdod lleol, dylid gwneud cais i'r llys teulu.

113 Mae isadran (8)(a) yn darparu y gall llys ynadon ohirio'r gwrandawiad pan geir cais am DAPO. Mae isadran (8)(b) yn addasu gweithrediad adran 97 o Ddeddf Llys Ynadon 1980. Mae'r adran honno yn ei gwneud yn ofynnol i ynad roi gwŷs i dyst i roi tystiolaeth pan fydd yr ynad yn fodlon bod yr unigolyn yn debygol o allu rhoi tystiolaeth berthnasol neu ddangos unrhyw ddogfen neu rywbeth sy'n debygol o fod yn dystiolaeth berthnasol ar gyfer diben unrhyw achosion ger bron y llys a bod yr ynad yn fodlon ei bod er budd cyfiawnder i roi'r wŷs. Dan isadran (8)(b) mae adran 97 yn cael ei datgymhwyso o ran gwrandawiad i gais am DAPO fel na ellir gorfodi'r dioddefwr i fynd i wrandawiad nac ateb cwestiynau oni bai bod y dioddefwr wedi rhoi tystiolaeth lafar neu ysgrifenedig yn y gwrandawiad.

## Cymal 26: Ceisiadau pan fydd hysbysiad diogelu cam-drin domestig wedi cael ei roi

114 Mae'r cymal hwn yn ymdrin â'r camau i'w cymryd gan yr heddlu i wneud cais am DAPO ar ôl rhoi DAPN. Mae hyn yn dilyn y gofyn a nodir yng Nghymal 25(3) i brif swyddog heddlu wneud cais i lys ynadon am DAPO ar ôl i DAPN gael ei roi.

115 Mae isadrannau (2) a (3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r cais am DAPO gael ei glywed gan lys ynadon cyn pen 48 awr (ac eithrio penwythnosau a gwyliau banc) o gyflwyno'r DAPN.

116 Mae isadrannau (4) i (6) yn trafod y camau i'w cymryd i roi hysbysiad i'r cyflawnwr o'r gwrandawiad DAPO. Dan isadran (4), rhaid rhoi rhybudd o wrandawiad i'r cyflawnwr. Os bydd y cyflawnwr wedi rhoi cyfeiriad ar gyfer cyflwyno pan roddwyd y DAPN, yna ystyrir bod yr hysbysiad wedi cael ei roi os bydd yn cael ei adael yn y cyfeiriad hwnnw. Pan na fydd y cyflawnwr wedi rhoi unrhyw gyfeiriad, yna dan isadran (6) gall y llys ddal i wrando ar y cais os yw'n fodlon bod pob ymdrech resymol wedi cael ei gwneud i roi hysbysiad o'r gwrandawiad i'r cyflawnwr.

117 Pan fydd llys yn gohirio gwrandawiad ar gais am DAPO, mae'r DAPN i barhau mewn grym nes bydd y llys yn penderfynu ar y cais am DAPO. Mewn achos o'r fath, mae isadran (8) yn galluogi'r llys i roi'r cyflawnwr ar remand boed yn y ddalfa neu ar fechnïaeth ac mae'r darpariaethau yng Nghymal 23 yn berthnasol.

## Cymal 27: Gorchmynion diogelu cam-drin domestig heblaw trwy gais

118 Mae'r cymal hwn yn galluogi i lys teulu, llys troseddol neu (mewn amgylchiadau a nodir) llys sirol i wneud DAPO yn ystod achosion sy'n parhau, pan, yn ystod achos o'r fath, fydd y llys yn dod yn ymwybodol o'r angen i ddiogelu unigolyn rhag cam-drin domestig.

Mewn achosion troseddol mewn llys ynadon neu Lys y Goron, gall y llys wneud DAPO wrth i'r cyhuddedig gael collfarn neu ei ryddhau.

119 Gall llysoedd sirol ystyried amrywiaeth eang o achosion sifil, gan gynnwys, er enghraifft, anghydfodau am eiddo a thai. O ystyried yr amrywiaeth eang o achosion a'r tebygolrwydd, yn y rhan fwyaf o achosion sifil, na fydd honiadau o gam-drin domestig yn cael eu codi, mae isadran (7) yn cyfyngu ar y math o achosion sifil y gall llys sirol wneud DAPO yn gysylltiedig â hwy i'r rhai a nodir yn y rheoliadau (yn amodol ar y weithdrefn negyddol). Bwriad y Llywodraeth i gychwyn yw pennu achosion yn ymwneud â thai yn unig pan fydd cam-drin domestig yn fwyaf tebygol o gael ei honni neu ei ddatgelu yn y dystiolaeth.

## Cymal 28: Amodau i wneud gorchymyn

120 Mae'r cymal hwn yn nodi'r amodau ar gyfer gwneud DAPO. Rhaid i ddau amod gael eu bodloni, yn benodol bod y llys yn fodlon bod y cyflawnwr wedi cyflawni cam-drin domestig yng nghyswllt yr unigolyn i gael ei ddiogelu gan y DAPO (y dioddefwr) a bod y llys yn ystyried bod gwneud DAPO yn angenrheidiol a chymesur i ddiogelu'r dioddefwr rhag cam-drin domestig neu risg o gam-drin domestig a gyflawnwyd gan y cyflawnwr (isadrannau (2) a (3)). Gellir gwneud gorchymyn felly pan fydd cam-drin domestig wedi digwydd yn barod a bod ar y dioddefwr angen cael ei ddiogelu rhag camdriniaeth neu'r bygythiad o gamdriniaeth. Wrth bennu a yw'r amod cyntaf wedi ei fodloni, y llys ddylai benderfynu ar y safon prawf priodol.

121 Mae isadran (5) yn darparu mai dim ond yn erbyn unigolyn sy'n 18 oed neu hŷn y gall DAPO gael ei wneud.

## Cymal 29: Materion i'w hystyried cyn rhoi gorchymyn

122 Mae'r cymal hwn yn nodi materion penodol y dylai llys eu hystyried cyn gwneud DAPO. Y rhain yw: lles unrhyw blentyn y mae'r llys yn ystyried bod ei fuddiannau yn berthnasol i'r DAPO; barn y dioddefwr; a phan fydd y DAPO i gynnwys amodau yng nghyswllt byw yn yr adeilad a rennir gan y cyflawnwr a'r dioddefwr, barn unrhyw unigolyn arall sy'n byw yn yr adeilad.

123 Nid yw'n angenrheidiol i'r dioddefwr gydsynio â'r gorchymyn. Mae isadran (2) yn nodi y gall llys wneud DAPO os yw'r dioddefwr yn cydsynio neu beidio.

## Cymal 30: Rhoi gorchmynion heb hysbysiad

124 Cyn gwneud DAPO fe fyddai llys fel arfer yn rhoi hysbysiad i'r cyflawnwr i'w hysbysu o'r achos ac o'r gwrandawiad pan fyddai'r cais am DAPO yn cael ei ystyried.  Ond, mae'r cymal hwn yn caniatáu i'r llys wneud DAPO heb hysbysiad pan fydd yn gyfiawn a chyfleus i wneud hynny. Ond, nid yw'r cymal yn berthnasol mewn achos pan fydd cyflawnwr wedi cael DAPN gan fod cymal 26(6) yn gwneud darpariaeth ar wahân ar gyfer gwneud DAPO heb hysbysiad mewn achosion o'r fath (isadran (2)). Yn ymarferol, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol neu frys y byddai ceisiadau heb hysbysiad yn cael eu gwneud a byddai angen i'r ymgeisydd ddangos tystiolaeth i'r llys sy'n dangos pam bod angen gwrandawiad heb hysbysiad.

125 Gall, er enghraifft, fod yn addas i wneud DAPO heb roi hysbysiad o'r cais neu'r gwrandawiad i'r cyflawnwr pan fydd rheswm i gredu y gall y cyflawnwr geisio achosi niwed sylweddol i'r dioddefwr, neu fygwth y dioddefwr fel y byddai ef neu hi yn tynnu'r cais yn ôl, neu y gallai geisio osgoi derbyn hysbysiad o'r achos yn fwriadol. Os bydd gorchymyn yn cael ei wneud heb hysbysiad, rhaid i'r cyflawnwr gael cyfle, cyn gynted ag y bydd yn gyfleus, i roi cyflwyniadau am y gorchymyn mewn gwrandawiad arall ar ôl derbyn hysbysiad.

## Cymal 31: Darpariaeth y gellir ei gwneud trwy orchmynion

126 Mae'r cymal hwn yn nodi'r math o amodau y gellir eu gosod trwy DAPO.

127 Mae isadrannau (1) a (2) yn darparu y gall DAPO gynnwys unrhyw ofynion, yn waharddiadau a chyfyngiadau, y mae'r llys yn meddwl eu bod yn angenrheidiol i ddiogelu'r dioddefwr rhag y ffurfiau amrywiol o gam-drin a nodir yn y diffiniad o gam-drin domestig yng Nghymal 1 neu'r risg o gam-drin o'r fath. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, gofynion penodol i ddiogelu'r dioddefwr rhag ymddygiad sy'n rheoli neu'n orfodol neu gam-drin seicolegol, emosiynol neu economaidd.

128 Mae isadran (3) yn darparu, er bod isadrannau (4) i (6) yn cynnwys enghreifftiau o'r math o ddarpariaeth y gellir ei gwneud gan DAPO, nid ydynt yn hollgynhwysol. Mae'r enghreifftiau a drafodir yn isadrannau (4) i (6) yn cynnwys gwaharddiadau yn ymwneud â meddiannu adeilad, cyswllt a monitro electronig. Ond, gall llys benderfynu y gall gofynion eraill, fel gofyn i'r cyflawnwr fynychu rhaglen newid ymddygiad neu raglen trin cyffuriau neu alcohol, fod yn angenrheidiol i ddiogelu'r dioddefwr rhag cam-drin domestig.

129 Mae isadran (4) yn nodi y gall DAPO wahardd y cyflawnwr rhag cysylltu â'r dioddefwr. Mae hyn yn ymwneud â phob ffurf ar gyswllt, gan gynnwys cyswllt ar-lein.

130 Mae isadran (5) yn nodi, pan fydd y cyflawnwr a'r dioddefwr yn rhannu'r adeilad lle maent yn byw, gall y DAPO: wahardd y cyflawnwr rhag troi'r dioddefwr allan o'r adeilad neu ei allgau; gwahardd y cyflawnwr rhag mynd i mewn i'r adeilad; ofyn i'r cyflawnwr adael yr adeilad; neu wahardd y cyflawnwr rhag dod o fewn pellter penodol i'r adeilad (fel y nodir yn y DAPO) am hyd y DAPO. Gall y ddarpariaeth hon gael ei gwneud pwy bynnag sydd biau'r adeilad.

131 Mae isadran (6) yn darparu y gall DAPO gynnwys gofyn i'r cyflawnwr dderbyn monitro electronig er mwyn monitro i ba raddau y mae'n cydymffurfio â gofynion eraill o osodwyd gan y gorchymyn. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, monitro electronig ar leoliad y cyflawnwr i fonitro ei fod ef neu ei bod hi yn cydymffurfio â chyfyngiadau ar ba mor agos yw i gartref y dioddefwr neu at y dioddefwr ei hun. Gall hyn hefyd gynnwys monitro electronig ar yfed alcohol, er mwyn monitro cydymffurfio â gofyn i beidio ag yfed alcohol.

## Cymal 32: Darpariaeth bellach am ofynion y gellir eu gosod gan orchmynion

132 Rhaid i'r gofynion sydd ynghlwm â DAPO beidio, cyn belled ag y mae'n ymarferol, â gwrthdaro â chred grefyddol y cyflawnwr, amharu ar batrwm gwaith arferol y cyflawnwr neu ei atal rhag mynychu sefydliad addysgol (felly, er enghraifft, ni ddylai gwaharddiad ar y cyflawnwr rhag mynd i mewn i ardal ddiffiniedig fel arfer gynnwys ei fan gwaith neu ei man gwaith yn ystod oriau gwaith), na gwrthdaro â gorchymyn llys arall (isadran (1)). Os nad yw'n ymarferol i osgoi'r gwrthdaro, o ystyried yr angenrheidrwydd i ddiogelu'r dioddefwr, yna gall y llys ddal i osod y gofyn.

133 Pan fydd DAPO yn gosod gofynion ar y cyflawnwr, rhaid iddo nodi'r person (unigolyn neu sefydliad) sy'n gyfrifol am oruchwylio'r cydymffurfio (isadran (2)). Gall yr unigolion neu sefydliadau gynnwys yr awdurdod lleol neu ddarparwr gwasanaethau adfer o gam-drin sylweddau cydnabyddedig. Rhaid i'r llys dderbyn tystiolaeth am addasrwydd a'r graddau y gellir gorfodi gofynion gan y person hwn (isadran (3)).

Mae'r unigolyn sy'n gyfrifol am oruchwylio cydymffurfio â'r gofynion yn agored i rai dyletswyddau fel y nodir yn isadran (5), gan gynnwys dyletswydd i hysbysu'r heddlu os bydd y cyflawnwr wedi cydymffurfio â'r gofynion neu wedi methu gwneud hynny. Yn y lle cyntaf, gall fod yn addas, gan ddibynnu ar natur y gofyn, i wneud cais i amrywio neu ddiddymu'r DAPO ac yn yr achos olaf, gall y cyflawnwr gael ei gyhuddo o drosedd torri'r gorchymyn (gweler Cymal 35 isod). Mae'r cyflawnwr dan ddyletswydd i gadw mewn cysylltiad â'r unigolyn sy'n gyfrifol am oruchwylio cydymffurfio â'r gofyn.

## Cymal 33: Darpariaeth bellach ynglŷn â gofynion monitro electronig

134 Mae'r cymal hwn yn nodi amodau y mae'n rhaid eu bodloni i alluogi i ofyniad monitro electronig gael ei gysylltu â DAPO.

135 Gall gofyn monitro electronig gael ei osod i gefnogi monitro i ba raddau y mae unigolyn yn cydymffurfio â gofynion eraill y gorchymyn (er enghraifft, gweithredu parth allgau o gwmpas cartref y dioddefwr). Cynhelir y monitro electronig trwy ddefnyddio tag electronig wedi ei osod ar figwrn y gwrthrych.

136 Ni ellir rhoi gofyn monitro electronig ar gyflawnwr yn ei absenoldeb/yn ei habsenoldeb, mae hyn oherwydd bod yn rhaid i'r cyflawnwr fod yn bresennol yn y llys tra bydd y cais i ystyried monitro electronig yn cael ei bennu, i roi cyfeiriad y cyflawnwr ar gyfer gosod yr offer monitro electronig ac er mwyn gadael i'r llys wneud yr ymholiad sy'n ofynnol gan isadran (3) (isadran (2)).

137 Mae isadran (3) yn nodi, pan fydd angen cydweithrediad unigolyn arall er mwyn sicrhau monitro electronig, ni ellir gofyn am y monitro hwnnw heb gydsyniad yr unigolyn hwnnw. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, deiliad yr adeilad lle mae'r cyflawnwr yn byw neu bobl eraill sy'n byw yn yr un adeilad â'r cyflawnwr.

138 Mae isadran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i'r llys sicrhau bod trefniadau monitro electronig ar gael yn yr ardal leol berthnasol (fel y'i diffinnir yn isadran (5)) cyn rhoi gofyn monitro electronig. Yn ymarferol, byddai'r llys yn cael ei hysbysu o argaeledd trefniadau o'r fath gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

139 Mae isadran (6) yn darparu bod rhaid i DAPO sy'n cynnwys gofyn am fonitro electronig nodi'r unigolyn a fydd yn gyfrifol am y monitro ("yr unigolyn cyfrifol").

140 Mae isadran (7) yn darparu bod rhaid i'r unigolyn cyfrifol fod o ddisgrifiad a benodir mewn rheoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol (nid yw rheoliadau o'r fath yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn seneddol).

141 Mae isadran (8) yn nodi'r gofynion ar gyfer gosod a chynnal a chadw'r offer monitro electronig, gan gynnwys y gofynion i'r cyflawnwr ganiatáu i'r offer monitro gael ei osod, arolygu neu drwsio. Mae'r isadran yma hefyd yn gwahardd y cyflawnwr rhag ymyrryd â'r offer monitro ac mae'n gofyn i'r cyflawnwr gymryd camau i sicrhau bod yr offer yn gweithio, gan gynnwys gwefru'r offer yn ôl y cyfarwyddiadau. Byddai peidio â chadw at y gofynion hyn yn cyfateb i dorri'r DAPO (am hynny gweler Cymal 35).

## Cymal 34: Hyd a gweithrediad daearyddol gorchmynion

142 Mae isadrannau (1) a (2) yn darparu bod DAPO yn dod i rym o'r diwrnod y mae'n cael ei wneud, oni bai bod y cyflawnwr eisoes yn ddarostyngedig i DAPO ac yna gall y gorchymyn ddod i rym pan fydd y gorchymyn sy'n bodoli yn dod i ben.

143 Mae isadran (3) yn gadael i'r llys wneud gorchymyn am gyfnod a nodir yn y gorchymyn, nes bydd digwyddiad a nodir yn y gorchymyn wedi digwydd neu nes bydd gorchymyn arall wedi ei wneud. Gall gofynion penodol gorchymyn, er enghraifft gofyn monitro electronig, fod yn weithredol am gyfnod o amser mwy cyfyngedig na'r gorchymyn ei hun (isadran (4)). Pan fydd cyfyngiad amser ar DAPO neu'r gofyn mewn DAPO, gall hyd y gorchymyn neu'r gofyn, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, gael eu hymestyn trwy amrywio'r DAPO dan Gymal 40.

144 Mae isadran (7) yn darparu y dylai gofyn a roddwyd gan DAPO fod mewn grym trwy'r Deyrnas Unedig. Felly, er enghraifft, os bydd DAPO yn gofyn i'r cyflawnwr beidio â chysylltu mewn unrhyw fodd â'r dioddefwr, byddai'r cyflawnwr yn torri'r DAPO trwy anfon neges testun neu neges e-bost tra byddai yn yr Alban.

## Cymal 35: Torri gorchymyn

145 Mae'r cymal hwn yn darparu ei bod yn drosedd torri unrhyw un o ofynion DAPO heb esgus rhesymol. Yn achos DAPO a wnaed yn erbyn cyflawnwr nad yw wedi cael hysbysiad o'r achos, dim ond o'r adeg pan ddaeth ef neu hi yn ymwybodol o'r gorchymyn y bydd y drosedd yn weithredol.

146 Y gosb eithaf am dorri gorchymyn neu ar gollfarn mewn llys ynadon ("collfarn ddiannod") yw carchariad am gyfnod nad yw'n hwy na chwe mis, neu ddirwy, neu'r ddau. Y gosb eithaf am dorri gorchymyn neu ar gollfarn mewn Llys y Goron ("collfarn ar dditiad") yw carchariad am gyfnod nad yw'n hwy na phum mlynedd, neu ddirwy, neu'r ddau (isadran (5)).

147 Mae isadran (6) yn darparu nad yw rhyddhad amodol yn ddewis sy'n agored i'r llys o ran y drosedd. Mae rhyddhad amodol yn golygu, os bydd y troseddwr yn cyflawni trosedd arall, gall gael ei ddedfrydu am y drosedd gyntaf a'r un newydd.

148 Fel dewis gwahanol i erlyn y drosedd dan isadran (1), gall torri DAPO gael ei drin fel dirmyg llys (y gosb eithaf am hynny yw dwy flynedd o garchar). Mae isadran (3) a (4) yn nodi pan fydd unrhyw dorri gorchymyn wedi cael ei gosbi fel dirmyg llys, ni ellir ei gosbi hefyd fel trosedd dan yr adran hon, ac i'r gwrthwyneb. Bwriad hyn yw sicrhau nad yw gwrthrych DAPO yn cael ei gosbi ddwywaith am beidio â chydymffurfio â gofynion y gorchymyn.

## Cymal 36: Arestio am dorri gorchymyn

149 Gan fod torri DAPO yn drosedd, gall y cyflawnwr gael ei arestio, heb warant, gan gwnstabl yn arfer grymoedd dan adran 24 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (gweler isadran (9)).

150 Pan fydd achwynydd (y dioddefwr, er enghraifft) eisiau i'r torri gorchymyn gael ei drin fel mater sifil, mae hynny yn ddirmyg llys, mae'r cymal hwn yn rhoi grym i arestio mewn achosion o'r fath. Gall unigolyn wneud cais i'r llys i roi gwarant arestio os bydd yr ymgeisydd yn meddwl bod y cyflawnwr wedi torri'r DAPO. Ar ôl i'r cyflawnwr gael ei arestio a'i ddwyn ger bron y llys, gall y llys naill ai ymdrin â'r dirmyg llys yn y fan a'r lle neu roi'r cyflawnwr ar remand boed yn y ddalfa neu ar fechnïaeth, i'r achos gael ei drin ar ddyddiad diweddarach.

## Atodlen: Darpariaeth bellach am remand dan adran 36

151 Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhoi unigolyn a arestiwyd am dorri DAPO ar remand, boed ar fechnïaeth neu yn y ddalfa.

152 Mae paragraff 5 yn rhoi grym i'r llys roi'r cyflawnwr ar remand ar gyfer y diben o ganiatáu i adroddiad meddygol gael ei wneud.

Mewn achos o'r fath, ni ellir gohirio am fwy na thair wythnos ar y tro os bydd y cyflawnwr yn cael ei roi ar remand yn y ddalfa ac am ddim mwy na phedair wythnos ar y tro os bydd y cyflawnwr yn cael ei roi ar fechnïaeth.

153 Mae paragraff 5(5) yn rhoi'r un grym i'r llys ag sydd ganddo o ran unigolyn cyhuddedig i wneud gorchymyn dan adran 35 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 os yw'n amau bod y cyflawnwr yn dioddef o anhwylder meddwl. Mae Adran 35 y Ddeddf honno yn galluogi'r llys i roi unigolyn ar remand mewn ysbyty a nodir gan y llys i gael adroddiad am ei gyflwr meddwl ef neu ei chyflwr meddwl hi. Ni chaiff remand fod am fwy na 28 diwrnod ar y tro neu am fwy na 12 wythnos i gyd.

154 Dan baragraff 8, wrth roi unigolyn ar fechnïaeth, gall y llys osod gofynion sy'n ymddangos yn angenrheidiol i'r llys i sicrhau na fydd yr unigolyn yn amharu ar dystion neu yn atal cwrs cyfiawnder mewn modd arall.

## Cymal 37: Gofynion hysbysu

155 Mae'r cymal yma yn gofyn i'r cyflawnwr hysbysu'r heddlu o'i enw, gan gynnwys unrhyw las-enwau, a chyfeiriad cartref cyn pen tri diwrnod yn dechrau ar ddyddiad cyflwyno'r DAPO. Rhaid i unrhyw newid mewn enw neu gyfeiriad cartref, neu fabwysiadu enw newydd, hefyd gael ei hysbysu i'r heddlu cyn pen tri diwrnod o'r digwyddiad. Bydd gwybodaeth o'r fath yn cynorthwyo'r heddlu i fonitro cydymffurfio â'r DAPO a rheoli'r risg y mae'r cyflawnwr yn ei chreu.

156 Diffinnir "cyfeiriad cartref" y cyflawnwr ar gyfer y dibenion hyn yng Nghymal 49 fel prif neu unig breswylfa unigolyn neu, pan na fydd ganddo breswylfa o'r fath, y cyfeiriad neu leoliad lle gellir dod o hyd iddo yn gyson. Felly, os gellir dod o hyd i unigolyn mewn dau leoliad (er enghraifft mewn cartref teuluol ar y penwythnos ac mewn fflat yn agos at ei waith yn ystod yr wythnos) byddai angen rhoi manylion y lleoliad lle maent am y rhan fwyaf o'u hamser. Yn yr un modd, os bydd unigolyn yn ddigartref byddai angen iddo roi un lleoliad lle gellir dod o hyd iddo yn gyson.

157 Mae isadran (6) yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol, trwy reoliadau (yn amodol ar weithdrefn gadarnhaol), i nodi rhagor o ofynion hysbysu y gall llys eu gosod, o achos i achos, wrth wneud neu adnewyddu DAPO. Pan fydd gofynion hysbysu ychwanegol yn cael eu gosod gan lys, rhaid i'r cyflawnwr gyflenwi'r wybodaeth ofynnol i'r heddlu yn y modd a nodir yn y rheoliadau.

158 Mae rhai troseddwyr rhyw ac unigolion sy'n destun gorchymyn diogelu stelcio eisoes yn ddarostyngedig i ofynion hysbysu yn rhinwedd darpariaethau yn Neddf Troseddau Rhywiol 2003 a Deddf Diogelu Rhag Stelcio 2019 (yn amodol ar eu mabwysiadu gan y Senedd), yn yr un modd pan fydd gwrthrych DAPO eisoes yn atebol i un neu'r llall o'r gofynion hysbysu yma, nid yw'r darpariaethau yn y cymal yma yn weithredol i osgoi dyblygu diangen (isadran (7)). Ond, os bydd y gofynion hysbysu dan un neu'r llall o'r deddfau yma yn peidio â bod yn weithredol i wrthrych DAPO yna bydd gofynion y cymal hwn yn berthnasol yn lle hynny. Mewn achos o'r fath, bydd angen i'r cyflawnwr hysbysu'r heddlu o'i enw newydd neu ei henw newydd a'r cyfeiriad cartref cyn pen tri diwrnod o'r adeg pan fydd y gofynion hysbysu dan y Ddeddf Troseddau Rhywiol neu Ddeddf Diogelu Stelcio, p'run bynnag sy'n berthnasol, yn peidio â bod yn berthnasol (isadran (8)).

## Cymal 38: Darpariaeth bellach am hysbysu dan adran 37

159 Mae'r cymal hwn yn nodi ble a sut y mae'n rhaid i wrthrych DAPO hysbysu'r heddlu gan ddibynnu ar ble mae ei gyfeiriad cartref, sut y dylai'r hysbysiad gael ei gydnabod, a grym yr heddlu i ddilysu pwy yw'r cyflawnwr pan fydd yn mynd i swyddfa heddlu i roi hysbysiad.

160 Mae isadrannau (1) a (2) yn nodi, os bydd cyfeiriad cartref y diffynnydd yng Nghymru neu Loegr, yna bydd raid iddo fynd i orsaf heddlu yn ei ardal heddlu leol i roi hysbysiad. Pan fydd cyfeiriad cartref y cyflawnwr y tu allan i Gymru neu Loegr, yna bydd raid iddo fynd i orsaf heddlu yn yr ardal heddlu leol lle mae'r llys a wnaeth DAPO yn ymwneud ag ef. Gorsaf heddlu yng Nghymru neu Loegr fydd hon. Un sefyllfa lle gallai'r ddarpariaeth hon fod yn berthnasol yw pe bai'r cyflawnwr yn symud i'r Alban neu Ogledd Iwerddon.

161 Pan fydd y cyflawnwr yn hysbysu'r heddlu o newid cyfeiriad fel sy'n ofynnol dan Gymal 37(5), rhaid i'r hysbysiad gael ei roi mewn gorsaf heddlu yn yr ardal heddlu lle mae'r cyflawnwr yn byw erbyn hyn.

162 Mae isadran (4) yn darparu bod rhaid i hysbysiad gael ei gydnabod yn ysgrifenedig ac ar ffurf y gall yr Ysgrifennydd Gwladol ei bennu.

163 Mae isadran (5) a (6) yn galluogi'r heddlu i gymryd olion bysedd a/neu ffotograff o'r cyflawnwr i ddilysu pwy yw pan fydd y cyflawnwr yn mynd i orsaf heddlu dan ddarpariaethau'r cymal hwn.

## Cymal 39: Troseddau yn gysylltiedig â hysbysu

164 Mae'r cymal hwn yn darparu ei bod yn drosedd peidio â chydymffurfio â'r gofynion hysbysu heb esgus rhesymol neu roi gwybodaeth anghywir i'r heddlu yn fwriadol. Y llys fydd yn penderfynu beth sy'n cyfateb i esgus rhesymol mewn achos penodol.

165 Mae hon yn drosedd y naill ffordd neu'r llall, sy'n golygu y gall gael ei chlywed mewn llys ynadon neu Lys y Goron gan ddibynnu ar ddifrifoldeb y drosedd. Y gosb am dorri'r gofyn ar gollfarn mewn llys ynadon ("collfarn ddiannod") yw carchariad am gyfnod nad yw'n hwy na chwe mis, neu ddirwy, neu'r ddau. Y gosb am dorri'r gofyn ar gollfarn gan Lys y Goron ("collfarn ar dditiad") yw carchariad am gyfnod nad yw'n hwy na phum mlynedd, neu ddirwy, neu'r ddau.

## Cymal 40: Amrywio a diddymu gorchmynion

166 Mae'r cymal hwn yn nodi sut y gall DAPO gael ei amrywio neu ei ddiddymu, pwy all ymgeisio am amrywiad neu ddiddymiad o'r fath ac i ba lys y dylid gwneud y cais. Gall amrywiad gynnwys ymestyn hyd gorchymyn a wnaed am gyfnod penodol.

167 Mae isadran (2) yn darparu y gall llys amrywio neu ddiddymu gorchymyn naill ai trwy gais gan unigolyn a restrir yn isadran (3) neu gan y llys ohono ei hun (os byddai'n agored i'r llys wneud DAPO dan yr amgylchiadau y darperir ar eu cyfer yng Nghymal 27). Rhaid i'r llys glywed gan y partïon â diddordeb a nodir cyn gwneud penderfyniad i amrywio neu ddiddymu gorchymyn (isadrannau (4) a (5)). Mewn achosion pan wneir cais i amrywio neu ddiddymu DAPO rhaid i'r llys glywed gan unrhyw brif swyddog heddlu perthnasol sy'n dymuno cael ei glywed (isadran (4)(a)) ac mewn achosion pan fydd y dioddefwr yn gwneud cais i ddiddymu gorchymyn neu ei wneud yn llai beichus, rhaid i'r llys glywed gan y dioddefwr hefyd (isadran (4)(b)). Bwriad hyn yw er mwyn i'r llys asesu a yw'r dioddefwr yn cael ei orfodi neu ei fygwth.

168 Gall y llys, wrth benderfynu ar gais dan y cymal hwn, neu wrth bennu o'i benderfyniad ei hun i amrywio neu ddiddymu DAPO, wneud gorchymyn y mae'n ystyried sy'n briodol (isadran (8)), ond cyn gwneud penderfyniad i amrywio neu ddiddymu DAPO, rhaid i'r llys ystyried a bod yn fodlon na fydd gwneud hynny yn peryglu diogelwch y dioddefwr rhag ei gam-drin gan y cyflawnwr (isadrannau (11) ac (13)).

## Cymal 41: Amrywio a diddymu: ategol

169 Mae'r cymal hwn yn nodi'r llys perthnasol lle dylai achosion yng nghyswllt amrywio a diddymu DAPO ddigwydd. Yn gyffredinol dylai achosion o'r fath ddigwydd yn y llys lle gwnaed y DAPO gwreiddiol, ond mae hyn yn amodol ar rai eithriadau, er enghraifft pan wnaed DAPO mewn llys ynadon, gall yr achos i amrywio neu ddiddymu'r gorchymyn ddigwydd yn unrhyw lys ynadon arall sy'n gweithredu yn yr ardal gyfiawnder leol y mae'r llys hwnnw yn gweithredu ynddi. Mae'r cyfeiriad at "y llys" yn isadran (1) at awdurdodaeth gyfreithiol benodol yn hytrach nag adeilad llys ffisegol. Mae'r llys teulu, Llys y Goron a'r llys sirol i gyd yn cyfateb i un awdurdodaeth felly, er enghraifft, pan wnaed DAPO gan y llys teulu, gall achos o ran amrywio neu ddiddymu gorchymyn, os bydd angen, ddigwydd yn unrhyw leoliad lle mae'r llys teulu yn eistedd.

170 Mae isadran (8) yn darparu, pan fydd DAPO yn cael ei amrywio mewn modd fydd yn ei wneud yn fwy beichus ac na fydd y cyflawnwr yn cael gwybod am yr amrywiad, dim ond o'r amser pan fydd y cyflawnwr yn gwybod am yr amrywiad y gall dorri'r gorchymyn.

## Cymal 42: Apeliadau

171 Mae'r cymal hwn yn nodi'r amgylchiadau pan all yr unigolyn yr effeithiwyd arno apelio yn erbyn penderfyniad llys yng nghyswllt DAPO.

172 Mae isadrannau (1) i (4) yn darparu y gall y cyflawnwr, y dioddefwr, yr unigolyn a wnaeth gais am DAPO neu'r heddlu apelio yn erbyn penderfyniad llys i wneud neu wrthod gwneud gorchymyn, neu benderfyniad i amrywio neu ddiddymu gorchymyn, neu benderfyniad i wrthod amrywio neu ddiddymu gorchymyn. Mae isadran (1) yn darparu y gall y cyflawnwr apelio yn erbyn gwneud DAPO. Mae isadran (2) yn darparu y gall yr ymgeisydd neu'r dioddefwr apelio yn erbyn penderfyniad llys i beidio â gwneud DAPO. Mae isadran (3) yn darparu y gall y rhai a enwir yn isadran (4) apelio yn erbyn penderfyniad y llys a wnaed yn dilyn cais i amrywio neu ddiddymu DAPO.

173 Mae isadrannau (5) a (6) yn nodi'r llys perthnasol y dylid gwneud apêl iddo gan ddibynnu a wnaed y penderfyniad yr apelir yn ei erbyn mewn llys troseddol, sifil neu deulu. Mewn unrhyw achos pan na fydd prif swyddog yr heddlu yn apeliwr, rhaid i'r llys roi cyfle iddo gael ei glywed cyn penderfynu ar yr apêl (isadrannau (7) ac (8)); byddai gan y prif swyddog heddlu'r hawl hwnnw i gael ei glywed yn awtomatig mewn unrhyw achos pan fydd ef yn apeliwr (fel y byddai unrhyw apeliwr arall).

174 Wrth bennu apêl, byddai llys yn gweithredu egwyddorion adolygiad barnwrol (isadran (9)). Wrth weithredu egwyddorion o'r fath, byddai'r llys yn gallu ystyried amrywiaeth fawr o faterion, gan gynnwys angenrheidrwydd, cymesuredd a chyfreithlondeb.

## Cymal 43: Natur rhai achosion dan y Rhan hon

175 Mae isadran (1) yn darparu mai achosion sifil yw achosion ger bron llys ynadon neu Lys y Goron i wneud DAPO ar ddiwedd achosion troseddol, neu i amrywio neu ddiddymu DAPO a wnaed dan amgylchiadau o'r fath.

176 Mae isadran (2) yn darparu, y gall llys ynadon neu Lys y Goron, wrth benderfynu a yw am wneud DAPO ar ddiwedd achos troseddol, ystyried tystiolaeth nad oedd yn dderbyniol yn yr achos troseddol. Gallai hyn gynnwys tystiolaeth achlust neu gymeriad drwg.

177 Mae isadran (3) yn galluogi llys ynadon neu Lys y Goron i ohirio achosion, er enghraifft ar ôl rhoi dedfryd ar gyflawnwr, er mwyn galluogi i ymholiadau pellach gael eu gwneud cyn pennu a yw am wneud DAPO.

178 Mae isadran (4) yn darparu, pan fydd cyflawnwr wedi cael collfarn am drosedd ond yn cael ei ryddhau yn amodol, mae'n dal yn agored i'r llys wneud neu amrywio DAPO parthed yr unigolyn hwnnw. Pan roddir rhyddhad amodol, mae hyn yn golygu, os bydd y troseddwr yn cyflawni trosedd arall, y gall gael ei ddedfrydu am y drosedd gyntaf a'r un newydd.

## Cymal 44: Camau arbennig i dystion

179 Mae'r cymal hwn yn gweithredu, gydag addasiadau priodol, y darpariaethau camau arbennig ym Mhennod 1 Rhan 2 YJCEA 1999 i achosion dan Ran 3 y Mesur. Mae hyn yn golygu y byddai dioddefwyr cam-drin domestig yn gymwys i gael camau arbennig (gweler paragraff 26 uchod) wrth roi tystiolaeth yng nghyswllt cais am DAPO neu gais i adnewyddu, amrywio neu ddiddymu DAPO.

## Cymal 45: Data o fonitro electronig: cod ymarfer

180 Mae'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi cod ymarfer yn ymwneud â phrosesu data a gesglir yn ystod monitro electronig ar unigolion dan y gofynion monitro electronig a osodir gan DAPO.

181 Bydd prosesu data o'r fath yn ddarostyngedig i'r gofynion yn y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018. Bwriadwyd y cod ymarfer a gyhoeddwyd dan y cymal hwn i nodi'r profion a'r camau diogelu priodol ar gyfer prosesu data o'r fath, er mwyn cynorthwyo o ran cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data. Er enghraifft, rhagwelir y bydd y cod yn gosod hyd yr amser y gellir cadw data amdano a'r amgylchiadau pan fydd caniatâd i rannu data gyda'r heddlu i gynorthwyo i ddatrys troseddau.

## Cymal 46: Cyfarwyddyd

182 Mae'r cymal hwn yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i roi cyfarwyddyd i'r heddlu ac unigolion eraill sy'n gymwys i ymgeisio am DAPO yn rhinwedd cael eu henwi mewn rheoliadau a wnaed dan Gymal 25(2)(c). Mae unigolion o'r fath dan ddyletswydd i ystyried y cyfarwyddyd wrth arfer swyddogaethau dan y Rhan hon.

183 Ymhlith pethau eraill bydd y canllawiau statudol yn rhoi gwybodaeth am sut y mae'r llwybrau amrywiol i geisiadau am DAPO yn gweithio ac yn darparu pecynnau offer ymarferol i weithwyr proffesiynol eu defnyddio wrth wneud ceisiadau.

## Cymal 47: Diwygio Deddf Plant 1989

184 Mae'r cymal yn mewnosod cyfeiriad at Ran 3 o'r Mesur yn adran 8(4) Deddf Plant 1989. Trwy wneud hynny, byddai'r Mesur yn diwygio Deddf Plant 1989 i nodi bod achosion dan Ran 3 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2019 yn "achosion teuluol" ar gyfer dibenion Deddf Plant 1989. Byddai hyn yn galluogi i farnwr (yn eistedd yn y llys teulu neu Adran Deulu'r Uchel Lys) wrando ar gais i wneud neu amrywio DAPO, neu mewn achosion sifil yn ymwneud â thorri DAPO, i wneud gorchymyn gofal dros dro, neu arfer grymoedd eraill sydd ar gael i'r llys dan Ddeddf Plant 1989, yn yr un set o achosion. Mae hyn yn cryfhau gallu'r llys i ddiogelu plant sy'n agored i gam-drin domestig wrth ymdrin â'r cam-drin hwnnw, heb ei gwneud yn ofynnol i roi ceisiadau ar wahân ac achos ffres (fel fyddai'n wir fel arall). Mae gorchymyn gofal dros dro yn golygu y byddai gan yr awdurdod lleol y grym i wneud penderfyniadau am ble y byddai'r plentyn yn byw a lles y plentyn.

## Cymal 48: Diddymu darpariaethau am hysbysiadau a gorchmynion diogelu trais domestig

185 Mae'r cymal hwn yn diddymu darpariaethau yn Neddf Trosedd a Diogelwch 2010 sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer yr hysbysiadau diogelu trais domestig a gorchmynion diogelu trais domestig oedd yn bodoli o'r blaen. Bydd hysbysiadau a gorchmynion a wnaed dan y darpariaethau hynny yn parhau mewn grym er eu diddymu.

## Cymal 49: Dehongli Rhan 3

186 Mae'r cymal hwn yn diffinio termau a ddefnyddir yn Rhan 3.

# Rhan 4: Diogelu dioddefwyr a thystion yn y llys

## Cymal 50: Gwahardd croesholi yn bersonol mewn achosion llys teulu

187 Mae'r cymal hwn yn mewnosod Rhan 4B newydd (yn cynnwys adrannau newydd 31Q i 31X) yn Neddf Achosion Priodasol a Theuluol 1984 ("MFPA 1984") i wahardd cyflawnwyr cam-drin rhag croesholi eu dioddefwyr yn bersonol yn y llysoedd teulu a rhoi hawl i'r llys benderfynu ar groesholi yn bersonol mewn amgylchiadau eraill pan fyddai'n effeithio ar ansawdd tystiolaeth y tyst neu yn achosi gofid sylweddol i'r tyst. Mae hefyd yn rhoi grym i lysoedd teulu benodi cynrychiolydd cyfreithiol cymwys i gynnal y croesholi ar ran parti pan fydd y parti yn cael ei wahardd neu ei atal rhag croesholi yn bersonol.

### Adran Newydd 31Q – Gwahardd croesholi yn bersonol: rhagarweiniol

188 Mae adran 31Q yn diffinio termau amrywiol a ddefnyddir yn ddiweddarach yn y Rhan 4B newydd, gan gynnwys darparu bod "y llys" yn golygu'r llys teulu neu'r Uchel Lys, sef y llysoedd lle mae achosion teuluol yn cael eu clywed yng Nghymru a Lloegr ac mae "tyst" yn cynnwys parti i'r achos.

### Adran Newydd 31R – Gwahardd croesholi yn bersonol: dioddefwyr troseddau

189 Mae adran 31R yn darparu na all unrhyw unigolyn sy'n ymwneud ag achosion teuluol sydd â chollfarn neu rybudd (fel y'u diffinnir yn isadran (5)) am, neu sydd wedi ei gyhuddo o "drosedd benodol", groesholi yn bersonol ddioddefwr y drosedd honno, neu'r drosedd honedig, yn ystod yr achos teuluol. Mae'r adran hefyd yn darparu na all dioddefwr (honedig), groesholi'r cyflawnwr (honedig) yn bersonol. Ni fydd y gwaharddiad yn berthnasol os yw'r gollfarn wedi ei threulio (dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974) oni bai bod tystiolaeth yn gysylltiedig â'r gollfarn neu rybudd yn dderbyniol yn yr achos, neu y gallant fod yn angenrheidiol trwy rinwedd adran 7(2), (3) neu (4) o'r Ddeddf honno (sy'n datgymhwyso darpariaethau Deddf 1974 parthed achosion troseddol neu farnwrol penodol, neu a ragnodir, gan gynnwys pan na ellir cyflawni cyfiawnder yn yr achos ac eithrio trwy dderbyn neu ofyn am dystiolaeth parthed collfarnau unigolyn sydd wedi eu treulio). Os bydd croesholi yn digwydd yn groes i'r ddarpariaeth, oherwydd nad oedd y llys yn ymwybodol o'r gollfarn, rhybudd neu gyhuddiad ar adeg y croesholi, yna ni effeithir ar ddilysrwydd penderfyniadau a wneir gan y llys.

190 Mae Adran 31R(6) yn ei gwneud yn glir bod y gwaharddiad yn berthnasol hyd yn oed pan fydd collfarn wedi ei diddymu (naill ai yn llwyr neu yn amodol).

191 Bydd y troseddau sy'n berthnasol yma yn cael eu nodi yn y rheoliadau fydd yn cael eu gwneud gan yr Arglwydd Ganghellor dan y grym yn adran 31R(5). Bwriedir defnyddio rheoliadau i nodi rhestr gynhwysfawr o droseddau rhywiol, troseddau cam-drin plant a throseddau cam-drin domestig, ar sail y rhestr o droseddau a nodir mewn dogfennau a gyhoeddir gan yr Arglwydd Ganghellor fel y cyfeirir ato yn rheoliad 33 a 34 o Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Gweithdrefn) 2012. Gall y rheoliadau hefyd nodi troseddau sydd

wedi eu diddymu a’u disodli ond sy’n dal mewn grym cyn belled ag y gallent ddal i gael eu herlyn o ran ymddygiad a gyflawnwyd cyn eu diddymu.

## Adran Newydd 31S – Gwahardd croesholi yn bersonol: unigolion a ddiogelir gan waharddebau ac ati

192 Mae adran 31S yn darparu ar gyfer gwaharddiad ar groesholi yn bersonol pan fydd “gwaharddeb diogelu ar hysbysiad” yn ei lle. Ni all yr unigolyn sy’n cael ei ddiogelu gan y waharddeb gael ei groesholi gan yr unigolyn y mae’r waharddeb mewn grym yn ei erbyn, ac ni all yr unigolyn y mae’r waharddeb mewn grym yn ei erbyn gael ei groesholi gan yr unigolyn a ddiogelir gan y waharddeb.

193 Mae isadran (5) yn nodi beth a olygir wrth “ar hysbysiad”.

194 Yr enghraifft gyntaf yw pan fydd y llys yn fodlon bod gwrandawiad wedi bod lle cafodd yr unigolyn y mae’r waharddeb ddiogelu mewn grym yn ei erbyn y cyfle i ofyn i’r waharddeb gael ei rhoi o’r neilltu neu ei hamrywio. Gall hyn ddigwydd pan fydd y llys wedi gwneud gwaharddeb i barhau am gyfnod penodol, heb ddweud wrth yr unigolyn y gwnaed y waharddeb yn ei erbyn bod y llys yn ystyried gwneud y waharddeb. Os bu gwrandawiad wedyn y rhoddwyd gwybod i’r unigolyn y gwnaed y waharddeb yn ei erbyn amdano, pan allai’r unigolyn hwnnw fod wedi gofyn i’r llys amrywio neu ddileu’r gorchymyn, yna bydd y waharddeb wedi cael ei rhoi “ar hysbysiad”.

195 Yr ail enghraifft yw pan wnaed y waharddeb mewn gwrandawiad ac mae’r llys yn fodlon bod yr unigolyn sy’n cael ei ddiogelu gan y waharddeb a’r unigolyn y’i gwnaed yn ei erbyn wedi cael gwybod am y gwrandawiad.

196 Mae adran 31 S(4) yn darparu bod “gwaharddebau diogelu” i gael eu nodi mewn rheoliadau a wnaed gan yr Arglwydd Ganghellor. Bwriedir defnyddio’r rheoliadau hynny i nodi rhestr gynhwysfawr o waharddebau diogelu, ar sail y diffiniad o “waharddeb ddiogelu” yn rheoliad 33 o Reoliadau Cymorth Cyfreithiol (Gweithdrefn) 2012 (SI 2012/3098). Bwriedir iddi gynnwys, er enghraifft, gorchmynion peidio ag ymosod a wneir dan Ddeddf Cyfraith Teulu 1996 a DAPO a wnaed dan Ran 3 o’r Mesur.

197 Os bydd croesholi yn digwydd yn groes i’r ddarpariaeth, oherwydd nad oedd y llys yn ymwybodol o fodolaeth y waharddeb ar hysbysiad ar adeg y croesholi, yna ni effeithir ar ddilysrwydd penderfyniadau a wneir gan y llys.

## Adran Newydd 31T – Gwahardd croesholi yn bersonol: achosion eraill

198 Mae adran 31T yn darparu bod amgylchiadau lle bydd gan y llys hawl i benderfynu gwahardd holi yn bersonol, yn ychwanegol at y gwaharddiad absoliwt ar groesholi yn bersonol a roddir yn adrannau 31R neu 31S. Gall y disgresiwn gael ei ddefnyddio os bydd rhywun sy’n ymwneud â’r achos yn gwneud cais i hyn ddigwydd neu os bydd y llys yn codi’r mater. Gall y llys wahardd y croesholi yn bersonol os yw’n fodlon bod naill ai’r “amod ansawdd” neu’r “amod gofid sylweddol” yn cael eu bodloni ac na fydd yn groes i fuddiannau cyfiawnder i groesholi gan barti yn bersonol gael ei wahardd.

199 Bydd yr “amod ansawdd” yn cael ei fodloni os byddai’n debygol y byddai ansawdd tystiolaeth y tyst wrth ei groesholi yn debygol o leihau petai’r croesholi yn cael ei gynnal gan barti yn bersonol, ac y byddai ansawdd y dystiolaeth yn debygol o wella petai’r llys yn gwahardd y croesholi yn bersonol hwnnw.

200 Bydd yr “amod gofid sylweddol” yn cael ei fodloni petai’r croesholi yn bersonol yn debygol o achosi gofid sylweddol i’r tyst neu’r parti a bod y gofid fyddai’n cael ei achosi yn debygol o fod yn fwy na phetai’n cael ei groesholi gan rywun heblaw’r parti yn bersonol.

201 Mae adran 31T(5) yn nodi ffactorau y dylai’r llys eu hystyried wrth benderfynu a yw’r “amod ansawdd” neu’r “amod gofid sylweddol” wedi cael eu bodloni. Mae hyn yn cynnwys barn a fynegir gan y tyst neu barti, cynnwys posibl y cwestiynau, unrhyw ffeithiau a ganfyddir am ymddygiad parti neu dyst, sut y mae’r parti neu’r tyst yn ymddwyn a’r berthynas rhwng y parti a’r tyst. Nid yw’r rhestr hon yn holl gynhwysol, a gall y llys ystyried pethau eraill wrth benderfynu a yw’r “amod ansawdd” neu’r “amod gofid sylweddol” wedi cael eu bodloni.

202 Mae adran 31T(6) a (7) yn esbonio beth a olygir wrth ansawdd y dystiolaeth a roddir gan y tyst.

## Adran Newydd 31U – Cyfarwyddiadau dan adran 31T: ategol

203 Mae adran 31U yn rhoi mwy o fanylion yng nghyswllt y cyfarwyddiadau a roddwyd gan y llys dan adran 31T. Mae hyn yn cynnwys am ba mor hir y gall cyfarwyddyd a wnaed dan adran 31T barhau a’r amgylchiadau pan fydd llys yn gallu atal cyfarwyddyd y mae wedi ei roi dan adran 31T.

204 Dylai’r llys roi ei resymau dros wneud, gwrthod neu atal cyfarwyddiadau dan 31T (adran 31U(4)).

205 Bwriedir hefyd y dylid cael rheolau gweithdrefnol yn y llys o ran y cyfarwyddiadau hyn. Gwahoddir y Pwyllgor Rheol Gweithdrefn Teulu i ystyried gwneud rheolau o’r fath dan y grymoedd llunio rheolau presennol yn Neddf Llysoedd 2003.

## Adran Newydd 31V – Dewisiadau heblaw croesholi yn bersonol

206 Mae adran 31V yn darparu yng nghyswllt dewisiadau gwahanol i groesholi yn bersonol. Mae’n berthnasol pan fydd parti yn cael ei atal rhag croesholi yn bersonol dan adran 31R, 31S neu 31T.

207 Yn gyntaf, rhaid i’r llys ystyried a oes dull “gwahanol boddhaol” i’r tyst gael ei groesholi, neu i gael y dystiolaeth y byddai’r tyst wedi ei rhoi o’i groesholi. Mae’r enghreifftiau ar gyfer gwneud hyn yn cynnwys rhoi cwestiynau i’r tyst, neu i’r llys dderbyn tystiolaeth wedi ei recordio ymlaen llaw a roddwyd wrth groesholi mewn achosion troseddol cysylltiedig.

208 Os bydd y llys yn dod i’r casgliad nad oes dull gwahanol boddhaol y gellir ei ddefnyddio, bydd y llys yn gofyn i’r parti sydd wedi ei gyfarwyddo i beidio â chroesholi i drefnu, mewn amser penodol, i gynrychiolydd cyfreithiol cymwys (fel y’i diffinnir yn adran 31V(8)(b)) i groesholi’r tyst, ac i hysbysu’r llys o’r trefniadau.

209 Os, ar ôl yr amser penodedig, y bydd y parti wedi hysbysu’r llys nad oes cynrychiolydd cyfreithiol cymwys i’w gynrychioli, neu nad yw’r llys wedi derbyn unrhyw hysbysiad am ba gynrychiolydd cyfreithiol fydd yn croesholi’r tyst, yna rhaid i’r llys ystyried a ddylai benodi cynrychiolydd cyfreithiol cymwys i groesholi ar ran y parti. Os bydd y llys yn penderfynu ei bod er budd cyfiawnder i hyn gael ei wneud, yna dylai’r llys benodi cynrychiolydd cyfreithiol cymwys o’r fath. Nid yw’r cynrychiolydd, a benodir gan y llys, yn atebol i’r parti.

## Adran Newydd 31W – Costau cynrychiolwyr cyfreithiol a benodwyd dan adran 31V

210 Mae Adran 31W yn rhoi grym i’r Arglwydd Ganghellor wneud rheoliadau am dalu ffioedd a chostau cynrychiolydd cyfreithiol cymwys a benodir dan adran 31V ac i dalu’r costau cysylltiedig â’r penodiad.

### Adran Newydd 31X – Rheoliadau dan Ran 4B

211 Mae Adran 31X yn nodi y bydd rheoliadau a wneir dan y grymoedd a gynhwysir yn Rhan 4B newydd yn cael eu gwneud trwy offerynnau statudol, yn amodol ar y weithdrefn penderfyniad negyddol.

## Cymal 51: Cyfarwyddiadau camau arbennig mewn achosion yn ymwneud â cham-drin domestig

212 Mae'r cymal hwn yn ymestyn y cymhwyster am gymorth a roddir i dystion dan fygythiad i achwynwyr unrhyw drosedd pan honnir bod yr ymddygiad yn cyfateb i gam-drin domestig (fel y'i diffinnir gan Gymal 1 o'r Mesur). O ganlyniad, dylai achwynwyr troseddau yn ymwneud â cham-drin domestig gael eu trin yn gymwys am gamau arbennig ar y sail eu bod ag ofn neu mewn gofid am roi tystiolaeth (gweler paragraff 26 uchod am y mathau o gamau arbennig sydd ar gael). Mae hyn yn wir oni bai eu bod yn dweud wrth y llys nad ydynt am fod yn gymwys felly.

213 Mae camau arbennig yn berthnasol i dystion sy'n rhoi tystiolaeth mewn llysoedd troseddol. O ran tystion dan fygythiad, mae'r camau hyn yn cynnwys sgrinio'r tyst oddi wrth y cyhuddedig, rhoi tystiolaeth trwy gyswllt byw, rhoi tystiolaeth yn breifat, tynnu wigiau a gynau, prif dystiolaeth ar fideo a chroesholi neu ail holi trwy gyfrwng recordiad fideo[7].

214 Mae achwynwyr mewn troseddau rhywiol a chaethwasiaeth modern yn ogystal â thystion yng nghyswllt rhai troseddau sy'n ymwneud â gynnau a chyllyll eisoes yn cael eu hystyried yn gymwys ar sail ofn a gofid (oni bai nad yw'r tyst am fod yn gymwys), felly effaith y cymal hwn yn ymarferol yw ymestyn yr hawl i achwynwyr troseddau yn ymwneud â cham-drin domestig fel eu bod hwythau yn gymwys yn awtomatig i gamau arbennig (os bydd arnynt eisiau bod).

# Rhan 5: Amrywiol a chyffredinol

## Cymal 52: Amodau polygraff i droseddwyr a ryddheir ar drwydded

215 Mae'r cymal hwn yn diwygio adran 28 o Ddeddf 2007 i ganiatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol gynnwys amod prawf polygraff yn nhrwydded unigolyn sydd wedi cyflawni trosedd yn gysylltiedig â cham-drin domestig.

216 Mae adran 28 o Ddeddf 2007 yn caniatáu i amod polygraff gael ei gynnwys yn nhrwydded troseddwr a gollfarnwyd am drosedd rywiol benodol sy'n cael ei ryddhau o'r ddalfa i'r gymuned ar drwydded. Byddai'n ofynnol i unrhyw droseddwr fyddai'n cael ei ryddhau o'r ddalfa gydag amod o'r fath gymryd profion polygraff.

[7] Mae croesholi ac ail-holi wedi ei recordio ymlaen llaw dan adran 28 YJCEA 1999 wedi bod yn digwydd yn Llysoedd y Goron yn Leeds, Lerpwl a Kingston-Upon-Thames i dystion ag anabledd a thystion dan 16 oed ers Rhagfyr 2013. Estynnwyd hyn i dystion 16 ac 17 oed o Ionawr 2017. Bwriedir hefyd ddod ag adran 28 i rym i dystion sy'n achwynwyr troseddau rhywiol a throseddau caethwasiaeth modern yn y tri llys hyn ac i dystion bregus mewn Llysoedd y Goron eraill ar draws Cymru a Lloegr.

217 Mae'r term "trwydded" yn cyfeirio at drwydded a roddir i droseddwyr wrth eu rhyddhau o ddedfrydau yn y ddalfa, sy'n nodi amodau eu rhyddhad amodol o'r carchar. Gall peidio â chadw at yr amodau hyn arwain at eu gweld yn cael eu galw yn ôl i'r carchar. Gosodir amodau trwydded ar droseddwyr dan adran 250 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 ar gyfer troseddau â dedfrydau penodol, a dan adran 31 o Ddeddf Troseddau (Dedfrydu) 1997 ar gyfer troseddwyr dedfrydau amhenodol. Mae Adran 250 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn darparu bod rhaid i drwydded i unrhyw garcharor sy'n gwasanaethu dedfryd benodol gynnwys yr amodau safonol (fel y nodir yng Ngorchymyn Cyfiawnder Troseddol (Dedfrydu) (Amodau Trwydded) 2015 (SI 2015/337)) a gallant gynnwys: unrhyw amod a ganiateir dan y ddeddfwriaeth monitro electronig a'r ddeddfwriaeth amod prawf polygraff (sef, Rhan 3 Deddf 2007). Mae erthygl 6 o Orchymyn 2015 yn nodi'r amodau safonol y mae'n rhaid eu cynnwys yn nhrwydded troseddwr pan fydd y troseddwr yn ddarostyngedig i amod polygraff. Mae erthygl 6(2) yn darparu:

"Tra'n ddarostyngedig i amod polygraff rhaid i droseddwr–

(a) fynychu sesiwn brofi polygraff ac archwiliad yn ôl cyfarwyddyd y swyddog sy'n goruchwylio, a chydymffurfio â'r broses;

(b) gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir yn ystod sesiwn bolygraff gan yr unigolyn sy'n cynnal y prawf polygraff;

(c) beidio â rhwystro'r broses prawf polygraff."

218 Mae isadrannau (2) a (3) yn mewnosod isadrannau newydd (2A), (4A) a (4B) yn adran 28 o Ddeddf 2007, ac effaith hynny yw ymestyn darpariaethau'r adran honno fel eu bod nid yn unig yn berthnasol i droseddwyr a ryddheir o'r ddalfa ar ôl treulio dedfryd am drosedd rywiol berthnasol, ond hefyd i droseddwyr a ryddheir o'r ddalfa ar ôl treulio dedfryd am drosedd berthnasol yn ymwneud â cham-drin domestig (fel sy'n cael ei ddiffinio yn adran newydd 28(4B) – mae'r diffiniad yn cynnwys troseddau yn ymwneud â thorri gorchymyn atal neu DAPO na fyddant, ohonynt eu hunain, yn cynnwys cam-drin domestig). Dim ond i droseddwyr sy'n 18 oed neu hŷn ar y diwrnod y byddant yn cael eu rhyddhau o'r ddalfa y gall amod prawf polygraff gael ei weithredu (adran newydd 28(2A)(b)).

219 Byddai gosod archwiliadau polygraff ar rai cyflawnwr cam-drin domestig yn cynorthwyo rheolwyr troseddwyr y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol trwy roi gwybodaeth ychwanegol iddynt (trwy hunan ddatgelu gan y troseddwr) am risg y troseddwr na fyddai ar gael fel arall, er enghraifft manylion unrhyw gyswllt gyda'u dioddefwyr ac a ydynt yn ffurfio perthnasau newydd. Yn ychwanegol, gall ffactorau risg fel yfed alcohol a all fod yn gysylltiedig ag ymddygiad y troseddwr gael eu monitro a'u trin. Byddai gwybodaeth ychwanegol o'r fath yn galluogi'r rheolwr troseddwyr i fonitro cydymffurfio ag amodau eraill trwydded y troseddwr a gwella'r cynlluniau rheoli risg (gweler adran 29(1)(a) Deddf 2007). Dan adran 30 Deddf 2007, ni all unrhyw ddatganiad a wnaed gan unigolyn yn ystod sesiwn polygraff neu unrhyw ymateb ffisiolegol a wnaed yn ystod sesiwn gael ei ddefnyddio mewn achosion troseddol y mae'r unigolyn yn ddiffynnydd ynddynt. Ond, gall unrhyw ddatganiad a wnaed gan unigolyn yn ystod sesiwn polygraff gael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer galw'r troseddwr yn ôl i'r carchar am dorri amod trwydded.

## Cymal 53: Cyfarwyddyd ynglŷn â datgelu gwybodaeth gan luoedd heddlu

220 Mae'r cymal hwn yn rhoi grym i'r Ysgrifennydd Gwladol (yr Ysgrifennydd Cartref, yn ymarferol) i roi cyfarwyddyd statudol i'r heddlu am ddatgelu gwybodaeth yr heddlu gan luoedd heddlu ar gyfer dibenion atal cam-drin domestig, sydd hefyd yn ymwneud ag arfer eu swyddogaethau dan y Cynllun Datgelu Troseddau Domestig ("DVDS"), y cyfeirir ato yn gyffredin fel "Cyfraith Clare". Mae cyfarwyddyd o'r fath yn cael ei roi ar sail anstatudol ar hyn o bryd (gweler paragraff 33 uchod).

221 Mae isadran (2) yn gofyn i brif swyddogion yr heddlu roi ystyriaeth i unrhyw gyfarwyddyd a roddir dan y cymal hwn. Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r heddlu ystyried y cyfarwyddyd wrth arfer eu swyddogaethau dan y DVDS ac, os byddant yn penderfynu diystyru'r cyfarwyddyd, bod yn rhaid iddynt fod â rhesymau da, rhesymegol dros wneud hynny.

222 Mae isadran (4) yn nodi pa bartïon y mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â hwy cyn rhoi neu adolygu cyfarwyddyd dan y cymal hwn.

223 Mae isadran (6) yn darparu bod rhaid i unrhyw gyfarwyddyd a roddir neu a ddiwygir dan y cymal hwn gael ei gyhoeddi.

224 Mae'r pynciau y gellir eu trafod mewn cyfarwyddyd statudol o'r fath yn cynnwys:

- Y lefelau gofynnol a argymhellir o wybodaeth a phrofiad sy'n ofynnol gan ymarferwyr i gyflawni eu swyddogaethau dan y DVDS yn effeithiol;
- Prosesau ac amserlenni cam wrth gam a awgrymir ar gyfer y ddau lwybr datgelu dan y cynllun (yr "hawl i ofyn" a'r "hawl i wybod"), gan gynnwys sefyllfaoedd enghreifftiol ar gyfer pob llwybr;
- Y safonau gofynnol o wybodaeth i'w chael gan yr ymgeisydd;
- Y safonau gofynnol o ran gwiriadau deallusrwydd i'w cwblhau;
- Cyfarwyddwyd ar ymgysylltu effeithiol gyda fforwm amlasiantaethol fel Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol i fod yn sail i lunio penderfyniadau;
- Cyfarwyddyd ar asesu risg cadarn a chynllunio diogelwch er mwyn diogelu'r unigolyn neu unigolion a all fod mewn risg o gam-drin domestig;
- Y mathau o wybodaeth a awgrymir y gellid eu datgelu dan y cynllun, fel manylion honiadau, cyhuddiadau, erlyniadau a chollfarnau am droseddau perthnasol;
- Cyfarwyddyd ar beth sy'n cyfateb i ddatgelu "rhesymol a chymesur" yn unol â deddfwriaeth hawliau dynol a diogelu data perthnasol; ac
- Y geiriad a awgrymir ar gyfer cyfleu deilliannau ar bob cam yn y broses DVDS.

## Cymal 54: Rhoi tenantiaethau diogel mewn achosion o gam-drin domestig

225 Mae'r cymal hwn yn diwygio Deddf 1985 i ofyn i awdurdodau lleol, wrth ail gartrefu unigolyn, neu gynnig i unigolyn unig denantiaeth yn yr un cartref, pan fydd gan yr unigolyn neu pan fydd wedi bod â "thenantiaeth oes" mewn tai cymdeithasol (boed dan denantiaeth gyfnodol ddiogel a roddwyd gan awdurdod lleol neu dan denantiaeth sicr, a roddwyd gan ddarparwr cofrestredig preifat tai cymdeithasol heblaw tenantiaeth gyfnodol sicr), i roi tenantiaeth oes newydd i unigolyn o'r fath os bydd yr unigolyn, neu aelod o'i aelwyd, yn, neu wedi bod yn, ddioddefwr cam-drin domestig (fel sy'n cael ei ddiffinio gan Gymal 1 y Mesur) a gyflawnwyd gan unigolyn arall, a bod y denantiaeth newydd yn cael ei rhoi am resymau yn gysylltiedig â'r gamdriniaeth honno.

226 Bydd y cymal hwn yn dod i rym nes bydd Atodlen 7 i Ddeddf 2016 a Deddf 2018 yn dod i rym, ar ôl hynny bydd y darpariaethau cyfatebol yn rhai sy'n cael eu cynnwys yn Neddf 2018 (gweler paragraffau 35 i 39 uchod).

## Cymal 55: Troseddau yn erbyn yr unigolyn a gyflawnir y tu allan i'r Deyrnas Unedig

227 Mae'r cymal hwn a'r un canlynol yn ymestyn yr amgylchiadau pan fydd rhai troseddau rhywiol a threisgar yn cael eu cyflawni dramor yn gallu cael eu herlyn yng Nghymru a Lloegr, pan fydd y drosedd yn cael ei chyflawni gan wladolyn y Deyrnas Unedig neu unigolyn sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig.

228 Mae isadran (1) yn ei gwneud yn drosedd yng Nghymru a Lloegr i wladolyn neu breswyliwr y Deyrnas Unedig (fel sy'n cael ei ddiffinio yn isadran (8)) i gyflawni rhai gweithredoedd mewn gwlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig. Rhaid i'r weithred a wneir gyfateb i drosedd a restrir yn isadran (2) a rhaid iddi hefyd gyfateb i drosedd yn y wlad lle cafodd ei chyflawni.

229 Mae isadran (3) yn eithrio llofruddiaeth a dynladdiad o gwmpas isadran (1) lle byddai unigolyn fel arall yn euog o'r troseddau hynny dan ddeddfau eraill, fel adrannau 9 a 10 o Ddeddf Troseddau yn Erbyn yr Unigolyn 1861 neu adran 4 Deddf Atal Terfysgaeth 1978.

230 Mae isadran (4) yn darparu nad oes angen i union ddisgrifiad y drosedd fod yr un fath yn y ddwy wlad. Er enghraifft, gall y darpariaethau fod yn berthnasol i rywun sydd wedi cyflawni niwed corfforol difrifol mewn gwlad arall er bod y drosedd honno yn cael ei disgrifio yn wahanol dan gyfraith y wlad honno.

231 Mae isadrannau (5) i (7) yn darparu gweithdrefn y gall y diffynnydd herio'r erlyniad i brofi bod yr hyn a wnaed yn drosedd dramor.

## Cymal 56: Troseddau eraill a gyflawnwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig

232 Mae isadran (1) yn gosod adran 4B newydd yn Neddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 ("Deddf 1997").

233 Mae Adran 4 o Ddeddf 1997 yn ei gwneud yn drosedd i unigolyn ddilyn cwrs o ymddygiad sy'n achosi un arall i ofni, ar ddau achlysur o leiaf, y bydd trais yn cael ei ddefnyddio yn ei erbyn ef neu hi, a phan fydd ef neu hi yn gwybod, neu y dylai wybod, y bydd ei gwrs o ymddygiad ef neu hi yn achosi'r dioddefwr i ofni trais ar bob achlysur. Mae adran 4A Deddf 1997 yn darparu trosedd debyg yng nghyswllt stelcio yn cynnwys ofn trais neu ofn neu ofid difrifol.

234 Mae isadran 4B(1) yn ei gwneud yn drosedd yng Nghymru a Lloegr i wladolyn neu breswyliwr y Deyrnas Unedig (fel sy'n cael ei ddiffinio yn adran newydd 4B(2)) i ddilyn, yn llwyr neu yn rhannol mewn gwlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig, gwrs o ymddygiad a fyddai'n cyfateb i drosedd dan adran 4 neu 4A Deddf 1997 petai wedi digwydd yng Nghymru a Lloegr.

235 Mae isadran (3) yn diwygio adran 72 Deddf Troseddau Rhywiol 2003. Mae adran 72 eisoes yn ei gwneud yn drosedd yng Nghymru a Lloegr i wladolyn neu breswyliwr y Deyrnas Unedig (fel y'u diffinnir yn adran 72(9)) i gyflawni rhai gweithredoedd mewn gwlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig. Mae Atodlen 2 i Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 yn rhestru'r troseddau rhywiol y mae adran 72 yn berthnasol iddynt.

236 Effaith y diwygiadau i adran 72 yw ei gwneud yn drosedd yng Nghymru a Lloegr i wladolyn neu breswyliwr y Deyrnas Unedig gyflawni rhai gweithredoedd eraill penodol mewn gwlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig. Rhaid i'r weithred a wneir gyfateb i drosedd dan unrhyw un o adrannau 1 i 4 Deddf Troseddau Rhywiol 2003 (sef treisio, ymosod trwy ymdreiddio, ymosodiad rhywiol ac achosi i unigolyn gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol heb gydsyniad) pan oedd dioddefwr y drosedd yn 18 oed neu hŷn ar adeg y drosedd a rhaid iddi hefyd gyfateb i drosedd yn y wlad lle cafodd ei chyflawni. Yn gyson â'r diwygiadau i adran 72, mae isadran (4) yn diwygio Atodlen 2 i Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 fel ei fod, yn hytrach na bod yn berthnasol i adran 72 yn gyffredinol, yn cynnwys darpariaethau sy'n berthnasol i isadrannau penodol o adran 72.

237 Mae isadran (5) yn gosod adran 76A newydd yn Neddf 2015.

238 Mae adran 76 o Ddeddf 2015 yn ei gwneud yn drosedd i unigolyn (A) ymgymryd mewn ymddygiad dro ar ôl tro neu yn barhaus tuag at unigolyn arall (B) sy'n rheoli neu yn orfodol. Mae'r drosedd yn berthnasol pan, ar adeg yr ymddygiad, y mae gan A a B gysylltiad personol, mae'r ymddygiad yn cael effaith ddifrifol ar B a bod A yn gwybod neu y dylai wybod y bydd yr ymddygiad yn cael effaith ddifrifol ar B.

239 Mae adran newydd 76A(1) yn ei gwneud yn drosedd yng Nghymru a Lloegr i wladolyn neu breswyliwr y Deyrnas Unedig (fel sy'n cael ei ddiffinio yn adran newydd 76A(2)) gymryd rhan mewn ymddygiad, yn llwyr neu yn rhannol mewn gwlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig, a fyddai'n cyfateb i drosedd dan adran 76 Deddf 2015 petai wedi digwydd yng Nghymru a Lloegr.

### Cymal 57: Cyfarwyddyd ynglŷn â gweithrediad y Ddeddf

240 Mae'r cymal hwn yn rhoi grym i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi cyfarwyddyd am unrhyw un o ddarpariaethau'r Mesur. Ymhlith pethau eraill, byddai cyfarwyddyd o'r fath yn rhoi esboniad pellach o'r diffiniad o gam-drin domestig, er enghraifft, trwy ddarlunio'r ffurfiau gwahanol y gall eu cymryd, gan gynnwys cam-drin domestig, mwyafrifedd dioddefwyr benywaidd a'r effaith niweidiol ar blant. Byddai cyfarwyddyd statudol o'r fath yn helpu i hyrwyddo dealltwriaeth ymhlith awdurdodau cyhoeddus o gam-drin domestig a'r grymoedd sydd ar gael iddynt i ddiogelu a chefnogi dioddefwyr.

241 Wrth baratoi'r cyfarwyddyd, mae'r Ysgrifennydd Gwladol dan ddyletswydd i ymgynghori â'r Comisiynydd Cam-drin Domestig, Gweinidogion Cymru i'r graddau y mae'r cyfarwyddyd i gorff sy'n arfer swyddogaethau datganoledig yng Nghymru, ac unigolion eraill y mae ef neu hi yn ystyried sy'n briodol (er enghraifft, yr heddlu ac ymarferwyr eraill). Bydd unigolion sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus y mae'r cyfarwyddyd yn cael ei roi iddo dan ddyletswydd i ystyried y cyfarwyddyd wrth arfer swyddogaethau o'r fath a rhaid iddynt fod â rhesymau da, rhesymegol dros beidio â chadw at y cyfarwyddyd.

## Dechreuad

242 Mae cymal 61(1) yn darparu i Gymalau 1 a 2 (diffiniad o "gam-drin domestig"), 46 (cyfarwyddyd ynglŷn â DAPN a DAPO), 53 (cyfarwyddyd am ddatgelu gwybodaeth gan yr heddlu) a 57 (cyfarwyddyd am weithrediad y Ddeddf) a'r darpariaethau cyffredinol yng Nghymalau 58 i 61 (rheoliadau, rhychwant, dechrau a theitl byr) i ddod i rym pan geir y Cydsyniad Brenhinol. Yn ychwanegol, bydd unrhyw rym i wneud rheoliadau dan y Mesur hefyd yn dod i rym pan geir y Cydsyniad Brenhinol.

243 Daw Cymalau 55 a 56 (troseddau a gyflawnir y tu allan i'r Deyrnas Unedig) i rym ddau fis ar ôl y Cydsyniad Brenhinol (Cymal 61(2)).

244 Bydd y darpariaethau sy'n weddill yn cael eu dwyn i rym trwy gyfrwng rheoliadau dechrau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol (Cymal 61(3)). Mae Cymal 61(5) a (6) yn galluogi'r darpariaethau yn Rhan 3 (DAPN a DAPO) a 52 (profion polygraff) i gael eu treialu.

## Oblygiadau ariannol y Mesur

245 Bydd prif oblygiadau ariannol sector cyhoeddus y Mesur yn syrthio i asiantaethau cyfiawnder troseddol, sifil a theuluol, gan gynnwys yr heddlu, erlynyddion, y llysoedd, yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, a gwasanaethau carchardai a phrawf. Yn ychwanegol, bydd Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig yn costio £1.1 miliwn y flwyddyn yn ôl yr amcangyfrif. Yr amcangyfrif gorau o gost flynyddol y camau yn y Mesur drafft pan gânt eu gweithredu yn llawn yw £34 i £43 miliwn. Amcangyfrifir y ffigwr hwn ar sail nifer o dybiaethau am weithredu a all newid. Nodir rhagor o fanylion am gostau a manteision darpariaethau unigol yn yr asesiad effaith a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Mesur drafft.

## Cymeradwyaeth Seneddol am gostau ariannol neu daliadau a osodir

246 Bydd angen penderfyniad ariannol o ran y Mesur fel y bydd yn cael ei gyflwyno. Gofynnir i Dŷ'r Cyffredin gytuno y bydd unrhyw wariant sy'n deillio o'r Mesur (petai'n dod yn Ddeddf) a dynnir gan y Trysorlys yn cael ei gymryd allan o'r arian a roddir gan y Senedd.

## Cydnawsedd a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

247 Mae'r Llywodraeth yn ystyried darpariaethau'r Mesur drafft i fod yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

248 Cyhoeddodd y Llywodraeth femorandwm ECHR ar wahân gyda'i asesiad o gydnawsedd darpariaethau'r Mesur drafft â hawliau'r Confensiwn: mae'r memorandwm hwn ar gael ar wefan y Llywodraeth.

## Dogfennau cysylltiedig

249 Mae'r dogfennau canlynol yn berthnasol i'r Mesur drafft a gellir eu darllen yn y lleoliadau a nodir:

- Trawsnewid yr Ymateb i Gam-drin Domestig: Ymgynghoriad y Llywodraeth Llywodraeth EM, Mawrth 2018.
- Trawsnewid yr Ymateb i Gam-drin Domestig: Ymateb i Ymgynghoriad, Llywodraeth EM, Ionawr 2019.
- Domestic abuse in England and Wales: year ending March 2018, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Tachwedd 2018.
- The Economic and Social Costs of Domestic Abuse, Y Swyddfa Gartref, Ionawr 2019.
- Violence against Women and Girls Report 2017-18, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Medi 2018.
- Cadarnhau Confensiwn y Cyngor Ewropeaidd am Frwydro yn Erbyn Trais yn Erbyn Menywod a Merched a Thrais Domestig (Confensiwn Istanbul) – 2018 Adroddiad ar Gynnydd, Y Swyddfa Gartref, Hydref 2018.
- Asesiad effaith.
- Memorandwm ECHR.
- Memorandwm pwerau dirprwyedig.

# Atodiad A – Geirfa

| | |
|---|---|
| DAPN | Hysbysiadau diogelu cam-drin domestig |
| DAPO | Gorchymyn Diogelu Cam-drin Domestig |
| DVDS | Y Cynllun Datgelu Trais Domestig |
| DVPN | Hysbysiad diogelu trais domestig |
| DVPO | Gorchymyn diogelu trais domestig |
| Deddf 1985 | Deddf Tai 1985 |
| Deddf 1997 | Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 |
| Deddf 2003 | Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 |
| Deddf 2007 | Deddf Rheoli Troseddwyr 2007 |
| Deddf 2015 | Deddf Troseddau Difrifol 2015 |
| Deddf 2016 | Deddf Tai a Chynllunio 2016 |
| Deddf 2018 | Deddf Tenantiaethau Diogel (Dioddefwyr Cam-drin Domestig) 2018 |
| DU | Y Deyrnas Unedig |
| Gweithdrefn gadarnhaol | Rhaid i offerynnau statudol sy'n ddarostyngedig i'r "weithdrefn gadarnhaol" ar ddrafftiau gael eu cymeradwyo gan Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi i ddod yn ddeddf. |
| Gweithdrefn negyddol | Mae offerynnau statudol sy'n ddarostyngedig i'r "weithdrefn negyddol" yn dod yn ddeddf yn awtomatig oni bai bod gwrthwynebiad gan Dŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi. |
| MFPA 1984 | Deddf Achosion Priodasol a Theuluol 1984 |
| YJCEA 1999 | Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 |

# Atodiad B – Rhychwant tiriogaethol a'i weithrediad yn y Deyrnas Unedig

Mae'r darpariaethau yn y Mesur yn rhychwantu ac yn gweithredu yng Nghymru a Lloegr yn unig neu, yn achos Cymal 54 (tenantiaethau diogel i ddioddefwyr cam-drin domestig), yn Lloegr yn unig. Ond gwneir darpariaeth i DAPN a DAPO fod yn weithredol trwy'r Deyrnas Unedig i gyd (gweler paragraffau 93 a 144 uchod).

Ym marn Llywodraeth y Deyrnas Unedig, mae darpariaethau'r Mesur o fewn gallu deddfwriaethol Senedd yr Alban neu Gynulliad Gogledd Iwerddon; mae'r darpariaethau yn Rhan 2, ac yng Nghymalau 1, 2 a 57 cyn belled â'u bod yn ymwneud â Rhan 2, yn rhannol o fewn gallu deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.[8]

| Y Ddarpariaeth | Ymestyn i G a Ll ac yn berthnasol i Loegr? | Ymestyn i G a Ll ac yn berthnasol i Gymru? | Ymestyn ac yn berthnasol i'r Alban? | Ymestyn ac yn berthnasol i Ogledd Iwerddon? | A fyddai darpariaeth gyfatebol o fewn galluoedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru? | A fyddai darpariaeth gyfatebol o fewn galluoedd Senedd yr Alban? | A fyddai darpariaeth gyfatebol o fewn galluoedd Cynulliad Gogledd Iwerddon? | Angen Cynnig Caniatâd Deddf-wriaethol? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymal 1 a 2 | Ydy | Ydy | Na | Na | Yn rhannol | Byddai | Byddai | Oes (C) |
| Cymalau 3 i 17 | Ydy | Ydy | Na | Na | Yn rhannol | Byddai | Byddai | Oes (C) |
| Cymalau 18 i 49 | Ydy | Ydy | Na | Na | Na | Byddai | Byddai | Na |
| Cymal 50 | Ydy | Ydy | Na | Na | Na | Byddai | Byddai | Na |
| Cymal 51 | Ydy | Ydy | Na | Na | Na | Byddai | Byddai | Na |
| Cymal 52 | Ydy | Ydy | Na | Na | Na | Byddai | Byddai | Na |
| Cymal 53 | Ydy | Ydy | Na | Na | Na | Byddai | Byddai | Na |
| Cymal 54 | Ydy | Ydy | Na | Na | Byddai | Byddai | Byddai | Na |
| Cymal 55 a 56 | Ydy | Ydy | Na | Na | Na | Byddai | Byddai | Na |
| Cymal 57 | Ydy | Ydy | Na | Na | Yn rhannol | Byddai | Byddai | Oes (C) |

[8] Mae cyfeiriadau yn yr Atodiad hwn i ddarpariaeth sydd o fewn gallu deddfwriaethol Senedd yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu Gynulliad Gogledd Iwerddon yn gyfeiriadau at y ffaith bod y ddarpariaeth o fewn gallu deddfwriaethol y corff deddfwriaethol datganoledig perthnasol ar gyfer dibenion Gorchymyn Sefydlog Rhif 83J Gorchmynion Sefydlog y Tŷ Cyffredin yn ymwneud â Busnes Cyhoeddus.

| Y Ddarpar-iaeth | Ymestyn i G a Ll ac yn berthnasol i Loegr? | Ymestyn i G a Ll ac yn berthnasol i Gymru? | Ymestyn ac yn berthnasol i'r Alban? | Ymestyn ac yn berthnasol i Ogledd Iwerddon? | A fyddai darpariaeth gyfatebol o fewn galluoedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru? | A fyddai darpariaeth gyfatebol o fewn galluoedd Senedd yr Alban? | A fyddai darpariaeth gyfatebol o fewn galluoedd Cynulliad Gogledd Iwerddon? | Angen Cynnig Caniatâd Deddf-wriaethol? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Atodlen | Ydy | Ydy | Na | Na | Na | Byddai | Byddai | Na |

## Mân effeithiau ac effeithiau canlyniadol

Nid oes unrhyw fân effeithiau nac effeithiau canlyniadol sy'n berthnasol i'r dadansoddiad hwn.

## Pwnc a gallu deddfwriaethol y cyrff deddfwriaethol datganoledig

Mae darpariaethau'r Mesur yn ymdrin ag atal cam-drin domestig; atal, datrys, ymchwilio ac erlyn troseddau yn ymwneud â cham-drin domestig; rheoli troseddwyr a gollfarnwyd am droseddau yn gysylltiedig â cham-drin domestig; croesholi dioddefwyr cam-drin domestig a dioddefwyr eraill yn y llysoedd teulu; a darparu tai a chefnogaeth arall i ddioddefwyr cam-drin domestig a'u teuluoedd. Mae'r rhain i gyd yn faterion o fewn gallu deddfwriaethol Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Mae'r enghreifftiau o ddeddfwriaeth yn ymwneud â cham-drin domestig a ddeddfwyd gan y cyrff deddfwriaethol yma yn cynnwys Deddf Cam-drin Domestig (yr Alban) 2018 (sy'n creu trosedd statudol benodol o gam-drin domestig ac yn gwneud nifer o newidiadau cysylltiedig i'r weithdrefn droseddol, tystiolaeth a dedfrydu mewn achosion cam-drin domestig) ac adran 97 ac Atodlen 7 i Ddeddf Cyfiawnder (Gogledd Iwerddon 2015 (sy'n darparu ar gyfer hysbysiadau a gorchmynion cam-drin domestig).

Mae'r Mesur yn gyffredinol yn ymdrin â materion a gadwyd yn ôl yng Nghymru, gan gynnwys materion yn ymwneud â'r llysoedd (gan gynnwys, yn benodol eu creu a'u hawdurdodaeth); achosion sifil neu droseddol (gan gynnwys, yn benodol, mechnïaeth, costau, y ddalfa yn aros am achos, datgelu, gorfodi gorchmynion llysoedd, tystiolaeth, dedfrydu, cyfyngu gweithredoedd, gweithdrefn, erlynyddion a datrysiadau); atal, datrys ac ymchwilio i droseddau; plismona; comisiynwyr heddlu a throseddu; cofnodion troseddol, gan gynnwys datgelu a gwahardd; a datrysiadau sifil o ran trais domestig, cam-drin domestig ac anffurfio organau rhywiol menywod (gweler paragraffau 8(1)(a) a (c), 39, 41, 42, 50 ac 179 yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Yn ychwanegol, mae paragraff 4(3)(d) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu na all Deddf gan y Cynulliad wneud addasiadau i "ddedfrydau a gorchmynion eraill a diddymiadau o ran diffynyddion mewn achosion troseddol". Ond, cyn belled nad yw'r Mesur yn ymdrin â'r materion hyn, mae atal cam-drin domestig a diogelu a chefnogi dioddefwyr cam-drin domestig yn faterion datganoledig. Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn darparu o ran materion datganoledig o'r fath.

# **MESUR** Cam-drin Domestig

# NODIADAU ESBONIADOL

Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â'r Mesur Cam-drin Domestig a gyhoeddwyd ar ffurf Drafft ar 21 Ionawr 2019 (Bill CP 15).

---

Argraffwyd dan orchymyn Tŷ'r Cyffredin ar 21 Ionawr 2019

---

© Hawlfraint Seneddol 2019

Gall y cyhoeddiad hwn gael ei atgynhyrchu dan amodau'r Drwydded Senedd Agored a gyhoeddwyd yn www.parliament.uk/site-information/copyright

CYHOEDDWYD TRWY AWDURDOD TŶ'R CYFFREDIN



Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 196 08-May-19 12:02:01

Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 197 08-May-19 12:02:01

CCS1218158068
978-1-5286-0923-4

Transforming_the_response_to_domestic_abuse_-_consultation_response_and_draft_bill_-print CY.indd 198 08-May-19 12:02:01